

Cyfnewid Cod mewn Llenyddiaeth

Nofelau Cymraeg a Ffrangeg-Canadaidd:

Datblygu Methodoleg Newydd

Sara Orwig

Traethawd a gyflwynir i fodloni'n rhannol

ofynion gradd MPhil

Prifysgol Caerdydd

2015

Crynodeb

Un dechneg ieithyddol diddorol sydd ar gael i lenyddiaeth sy'n deillio o gymdeithas ddwyieithog yw'r defnydd o ddwy iaith yn y testun, sef 'cyfnewid cod' a defnyddio'r term ieithyddol. Mae'n ffenomen sydd wedi ysgogi sawl trafodaeth gan feirniaid llenyddol, ond dyma'r astudiaeth gyntaf o'i math yn y Gymraeg sy'n dadansoddi cyfnewid cod mewn testunau llenyddol, a hynny mewn dull ieithyddol. Oherwydd newydd-deb y maes yn y Gymraeg, roedd yn rhaid bathu rhai termau Cymraeg i ddisgrifio'r cyfnewid cod. Gwnaed ymdrech i sicrhau bod y derminoleg yn ddealladwy – gweler y rhestr 'terminoleg' ar ddechrau'r traethawd, sy'n cynnwys y term Cymraeg, ynghyd â diffiniad ohono, a'r term Saesneg cyfatebol.

Cyfraniad y gwaith ymchwil hwn yw cynnig dull newydd, arbrofol, meintiol ac ansoddol o ddadansoddi cyfnewid cod, nad yw'n argraffiadol ond yn hytrach yn wyddonol. Mae felly yn mynd y tu hwnt i faes beirniadaeth lenyddol draddodiadol, gan gynnig astudiaeth sy'n pontio llenyddiaeth ac ieithyddiaeth. Er mwyn archwilio rhai tueddiadau mewn llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod, dewiswyd dadansoddi pedair nofel, sef dwy yn y Gymraeg a dwy yn y Ffrangeg (o Ganada). Creu astudiaethau achos yw pwrpas yr ymchwil hwn, a hynny er mwyn profi a mireinio'r fethodoleg a ddyfeisiwyd at ddiben y gwaith.

Cyflwynir arolwg o'r llenyddiaeth ym maes cyfnewid cod yn y bennod gyntaf, cyn disgrifio'r fethodoleg a ddatblygwyd dan ddylanwad ysgolheigion yn y maes yn yr ail bennod. Mae'r fethodoleg hon yn defnyddio chwe maes dadansoddi craidd er mwyn dadansoddi'r cyfnewid cod sef: pennod; adran o'r testun; hyd; dosbarth gramadegol; maes semanteg ac

ysgogiad/swyddogaeth. Trafodir canlyniadau'r gwaith dadansoddi hwn yn y drydedd a'r bedwaredd bennod, gan ganolbwyntio ar y nofelau Cymraeg a'r nofelau Ffrangeg-Canadaidd mewn penodau ar wahân yn y lle cyntaf.

Gwelwyd bod dau brif fath o gyfnewid cod yn amlygu eu hunain – y cyntaf yn dangos ieithwedd arbennig unigolyn yn cyfnewid cod fel rhan o'i idiolect ei hun, a'r ail yn dangos cymdeithas sydd wedi ei ffurfio o unigolion uniaith Saesneg yn ogystal â'r cymeriadau dwyieithog. Bydd y bennod olaf yn canolbwyntio ar rai o'r nodweddion sy'n gyffredin rhwng y pedwar testun.

Gwelwyd bod elfennau o genre'r *Bildungsroman* yn bresennol yn y pedair nofel, yn ogystal â phresenoldeb ddinas – yn benodol bywyd tywyll ac anodd yn y ddinas. Byddwn hefyd yn archwilio rôl yr awdur, y darlennydd, y cymeriadau a'r gymdeithas mewn llenyddiaeth sy'n cynnwys cyfnewid cod.

DATGANIAD

4.1 Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd(nodwch MCh, MD, MPhil, PhD ac ati, fel y bo'n briodol)

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 3

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthyca rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a chrynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYFYD YN FLAENOROL

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthyca rhwng llyfrgelloedd **wedi i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ddod i ben.**

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r Athro Sioned Davies a'r Athro Diarmait Mac Giolla Chríost am eu cymorth a'u harweiniad fel goruchwylwyr wrth lunio'r traethawd hwn.

Diolch hefyd i holl staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd am eu cymorth cyson. Hoffwn ddiolch i'r nifer a fu mor barod i drafod y gwaith a chynnig sylwadau parod a chraff, gan gynnwys sawl un o'r myfyrwyr ymchwil ac aelodau o staff yn Ysgol y Gymraeg. Diolch hefyd i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, Cronfa Celia Thomas, Cronfa Glyn a May Ashton ac Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd am yr ysgoloriaethau a ganiataodd imi gwblhau'r radd hon. Ac ni allaf beidio â diolch i'm teulu a'm ffrindiau am eu cefnogaeth a'u gallu i gadw gwen ar fy wyneb trwy'r holl waith.

Cynnwys

Crynodeb	i
Diolchiadau.....	v
Cynnwys	v
Ffigyrau	ix
Tablau.....	x
Byrfoddau	xi
Terminoleg	xiii
Pennod 1: Arolwg o’r Llenyddiaeth ym Maes Cyfnewid Cod.....	1
1.1 Cyflwyniad.....	1
1.1.1 Terminoleg	2
1.1.2 Cod, Cyfnewid cod a Chymysgu cod	3
1.1.3 Geiriau benthyg, Benthycy, Cyfnewid gair unigol a Chyfnewid un-tro.....	7
1.2 Dadansoddi Cyfnewid Cod	14
1.2.1 Cyfnewid Cod ar Lafar	14
1.2.2 Cyfnewid Cod Ysgrifenedig	24
1.2.3 Cyfnewid Cod mewn Llenyddiaeth	30
1.3 Crynodeb.....	39
1.4 Cymhwyso at y Gymraeg a’r Ffrangeg	42
1.5 Casgliadau	43
Pennod 2: Y Fethodoleg.....	46
2.1 Y Nofelau: Dewis testunau.....	46
2.1.2 Nodweddion Cyffredin	58
2.2 Methodoleg.....	62
2.2.1 Meysydd Dadansoddi.....	67
2.2.2 Graffiau	84
2.3 Crynodeb.....	85
Pennod 3: Y Nofelau Cymraeg	86
3.1 Nifer	86
3.2 Penodau	87
3.3 Adrannau o’r Testun	95
3.4 Hyd	102

3.5 Dosbarth Gramadegol.....	105
3.6 Maes Semanteg.....	110
3.7 Ysgogiad/Swyddogaeth.....	110
3.8 Llais neu Bersbectif y naratif.....	120
3.9 Crynodeb.....	122
Pennod 4: Y Nofelau Ffrangeeg-Canadaidd	124
4.1 Nifer	125
4.2 Penodau	126
4.3 Adrannau o’r Testun	137
4.4 Hyd	141
4.5 Dosbarth Gramadegol.....	148
4.6 Maes Semanteg.....	152
4.7 Ysgogiad/Swyddogaeth.....	156
4.8 Persbectif y naratif.....	160
4.9 Crynodeb.....	161
Pennod 5: Edrych o’r Newydd ar Gyfnewid Cod.....	162
5.1 Pwy sy’n cyfnewid cod?	162
5.1.1 Tu hwnt i’r iaith Saesneg.....	175
5.2 Themâu cyffredin	179
5.2.1 Y Ddinas.....	179
5.3 Casgliad	190
Diwedd glo	192
Llyfryddiaeth.....	195
Atodiad 1.....	203
Nifer	203
Penodau	204
Adrannau o’r Testun	212
Hyd	214
Dosbarth Gramadegol.....	217
Maes Semanteg	222
Ysgogiad/Swyddogaeth.....	226
Llais/Persbectif Naratif.....	229
Atodiad 2.....	230
Dosbarth Gramadegol: Y Pedair Nofel.....	230
Maes Semanteg: y Pedair Nofel.....	231

Ffigyrau

ffigur 1: Cyfnewid Vs. Benthycia	10
ffigur 2: Cyfyngiad Cywerthedd Poplack	15
Ffigur 3: Continwwm Sbaeneg-Saesneg Elías-Olivares	19
Ffigur 4: Continwwm Iaith Cymraeg-Saesneg	19
Ffigur 5: Sgrinlun o'r Gwaith Dadansoddi ar Excel	64
Ffigur 6: Dewislen ddisgynnol Excel	70
Ffigur 7: Rhannu'r categorïau maes semanteg sy'n cynnwys mwy nag un elfen	77
Ffigur 8: Sgrinlun o Ysgogiad/Swyddogaeth 2	83
Ffigur 9: Cyfnewid Cod yn ôl Penodau yn CD	89
Ffigur 10: Cyfnewid Cod yn ôl Penodau FfCCh	90
Ffigur 11: Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd CD	94
Ffigur 12: Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd FfCCh	94
Ffigur 13: Cyfnewid Cod yn ôl adran y CD	97
Ffigur 14: Cyfnewid Cod yn ôl adran yn FfCCh	97
Ffigur 15: Cyfnewid Cod yn ôl hyd yn CD	103
Ffigur 16: Cyfnewid Cod yn ôl hyd yn FfCCh	103
Ffigur 17: Cyfnewid Cod yn ôl dosbarth gramadegol yn CD	106
Ffigur 18: Cyfnewid Cod yn ôl dosbarth gramadegol yn FfCCh	107
Ffigur 19: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn CD	111
Ffigur 20: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn FfCCh	112
Ffigur 21: Cyfnewid Cod ac Ysgogiad/Swyddogaeth CD	118
Ffigur 22: Cyfnewid Cod ac Ysgogiad/Swyddogaeth FfCCh	118
Ffigur 23: Cyfnewid Cod yn ôl Persbectif y Naratif FfCCh	121
Ffigur 24: Cyfnewid Cod yn ôl penodau yn MM	127
Ffigur 25: Cyfnewid Cod yn ôl penodau yn DN	128
Ffigur 26: Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd MM	132
Ffigur 27: Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd DN	132
Ffigur 28: Sgan o DN – cyflwyno deialog (DN 32-3)	136
Ffigur 29: Cyfnewid Cod yn ôl Adran yn MM	138
Ffigur 30: Cyfnewid Cod yn ôl Adran yn DN	138
Ffigur 31: Cyfnewid Cod yn ôl Hyd MM	142
Ffigur 32: Cyfnewid Cod yn ôl Hyd yn DN	142
Ffigur 33: Sgan yn dangos troednodiadau (DN 28-9)	145
Ffigur 34: Ffont Italig (MM 59)	147
Ffigur 35: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol yn MM	149
Ffigur 36: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol yn DN	150
Ffigur 37: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn MM	153
Ffigur 38: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn DN	154
Ffigur 39: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth yn MM	157
Ffigur 40: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth yn DN	157
Ffigur 41: Cyfnewid Cól yn ôl Persbectif y Bennod DN	160

Tablau

Tabl 1: Categoriâu Cyfnewid Cod ar Lafar	24
Tabl 2: Categoriâu Cyfnewid Ysgrifenedig	29
Tabl 3: Categoriâu Cyfnewid Cod mewn Llenyddiaeth.....	37
Tabl 4: Categoriâu Cyfnewid Cod (crynodeb).....	41
Tabl 5: Categoriâu Dadansoddi	44
Tabl 6: Cymeriadau CD.....	49
Tabl 7: Cymeriadau FfCCh	52
Tabl 8: Cymeriadau MM.....	54
Tabl 9: Cymeriadau DN.....	57
Tabl 10: Categoriâu Adrannau'r Testun.....	68
Tabl 11: Categoriâu Hyd.....	68
Tabl 12: Categoriâu Dosbarth Gramadegol.....	72
Tabl 13: Categoriâu Maes Semanteg	81
Tabl 14: Categoriâu Ysgogiad/Swyddogaeth	82
Tabl 15: Cyfartaledd Cyfnewid Cod (Nofelau Cymraeg).....	87
Tabl 16: Penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o Gyfnewid Cod (Nofelau Cymraeg)	92
Tabl 17: Cyfnewid Cod yn ôl Adrannau'r Testun (Nofelau Cymraeg).....	96
Tabl 18: Epigraffau FfCCh	101
Tabl 19: Cyfnewid Cod a Hyd (Nofelau Cymraeg).....	102
Tabl 20: Cyfnewid Cod – Hyd ac Adran o'r Testun (Nofelau Cymraeg)	104
Tabl 21: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol (Nofelau Cymraeg).....	108
Tabl 22: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg (Nofelau Cymraeg)	113
Tabl 23: 'Sgwrs' (Maes Semanteg) yn ôl Hyd (Nofelau Cymraeg)	114
Tabl 24: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth (Nofelau Cymraeg)	119
Tabl 25: Cyfnewid Cod – Ysgogiad/Swyddogaeth ac Adran o'r Testun (Nofelau Cymraeg).....	120
Tabl 26: Cyfartaledd Cyfnewid Cod (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)	125
Tabl 27: Penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o Gyfnewid Cod.....	134
Tabl 28: Cyfnewid Cod yn ôl Adrannau'r Testun (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)	137
Tabl 29: Cyfnewid Cod yn ôl Hyd (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd).....	141
Tabl 30: Cyfnewid Cod – Hyd ac Adran o'r Testun (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd).....	144
Tabl 31: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)	151
Tabl 32: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd).....	155
Tabl 33: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd).....	158
Tabl 34: Cyfnewid Cod – Ysgogiad/Swyddogaeth ac Adran o'r Testun	159
Tabl 35: Cyfnewid Côt yn ôl Dosbarth Gramadegol (y pedair nofel)	230
Tabl 36: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg (y pedair nofel).....	231

Byrfoddau

Y Nofelau

- CD** Miall, Twm (1990) *Cyw Dôl* Llandysul: Y Lolfa
- DN** Huston, Nancy (2013) *Danse Noire* Arles: Actes Sud
- FfCCh** Owen, Llwyd (2006) *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau*
Talybont, Ceredigion: Y Lolfa
- MM** Leblanc, Gérald (1997) *Moncton Mantra* Sudsbury:
Prise de Parole

Geiriaduron

- GPC** Geiriadur Prifysgol Cymru (1950; 2il argraffiad 2003
(ar y gweill); geiriadur.ac.uk)

Terminoleg

Dyma restr terminoleg a grëwyd er mwyn disgrifio'r termau a ddefnyddir yn y traethawd hwn. Bydd y termau hyn yn cael eu defnyddio a'u hesbonio ymhellach yng nghorff y traethawd. Pan ddefnyddir term wrth esbonio term arall, fe'i rhoddir mewn ffont drom sy'n dangos fod y term hwn hefyd yn cael ei egluro (e.e. gweler 'Benthyciad un-tro').

Benthyca / Benthyciad Gair neu idiom o iaith arall yn wreiddiol sydd bellach yn cael ei defnyddio gan ystod eang o siaradwyr. Er enghraifft, mae idioma fel *je ne sais quoi* neu *à propos* yn cael eu defnyddio'n aml yn y Saesneg gan siaradwyr nad ydynt yn medru'r Ffrangeg. Nodir y gall y geiriau hyn gael eu haddasu wrth gael eu benthyca (o ran orgraff, er enghraifft) neu beidio (e.e. *bloody* neu *blydi*). Ceir hefyd enghreifftiau o gyfieithu llythrennol sydd yn fath o fenthyca, gan fod yr ymadrodd neu'r frawddeg yn dilyn patrwm yr iaith ffynhonnell e.e. 'gwneud ei feddwl i fyny' (*calque* o'r Saesneg).

Term Saesneg: *borrowing*

Benthyciad un-tro Gair o'r **laith₂** a ddefnyddir yn yr **laith₁** (e.e. gair Saesneg mewn brawddeg Gymraeg). Nid yw'r gair hwn yn cael ei ddefnyddio gan y boblogaeth yn fwy eang, nag o angenrheidrwydd yn cael ei ddefnyddio'n aml gan yr unigolyn. Dim ond unigolion dwyieithog a all gynhyrchu benthyciadau un-tro.

Term Saesneg: *nonce borrowings* (gweler, er enghraifft, Sankoff, Poplack a Vanniarajan 1990)

Bwlch/Bylchau Geirfaol Termau sy'n bodoli yn **laith₂** ond nid yn **laith₁**. Gallant fod ar gyfer cysyniadau nad ydynt yn bodoli yn **laith₁**, er enghraifft mae tueddiad i ddefnyddio enwau Saesneg ar gyfer technoleg newydd. Ceir hefyd rai geiriau sy'n unigryw i'w hieithoedd brodorol: er enghraifft, y term Almaeneg *Weltschmerz* sydd yn golygu 'poen byd', math o dristwch melancolaidd; *sauté* am ddull Ffrangeg o ffrio bwyd; *brunch* am bryd nad yw'n frecwast nac yn ginio (*breakfast-lunch*). Ceir hefyd enghreifftiau o unigolion yn defnyddio gair/term o'r **laith₂** yn hytrach na'r cyfieithiad yn yr **laith₁**, gan nad oes ganddynt yr un arwyddocâd yn nhŷb y siaradwr. Er enghraifft, gellid defnyddio 'actiwali' yn hytrach na 'wir' (roedd o actiwali'n gwranddo / roedd o wir yn gwranddo); mae'r enghraifft gyntaf yn rhoi cywair llai ffurfiol i'r frawddeg. Mae bwlch geirfaol yn aml yn achosi **benthyciad un-tro** neu **fenthyciad**

mewn unigolion dwyieithog, neu **eiriau benthyc** ar ôl i'r term ymgartrefu a chael ei integreiddio yn **laith**₁.

Term Saesneg: *Lexical gap(s)*

Cod Term i ddisgrifio ffordd o gyfathrebu; gall olygu iaith, tafodiaith, arddull neu gywair iaith. Defnyddir cod fynychaf i olygu iaith yn yr ymchwil hwn (y Gymraeg, y Saesneg a'r Ffrangeg yn benodol).

Term Saesneg: *code*

Cod Groesi gweler **cyfnewid cod**.

Codio Yn y traethawd hwn, y broses o ddadansoddi'r cyfnewid cod sydd yn y testun, gan ddefnyddio Excel. Disgrifir y broses hon mewn mwy o fanylder yn y bennod ar fethodoleg.

Term Saesneg: *coding*

Cydygyfeiriant Pan fydd cyd-siaradwyr yn dechrau siarad yn fwy tebyg i'w gilydd, boed ar lefel ymwybodol (e.e. meddyg yn dewis ieithwedd sy'n haws i'w glaf ei deall) neu ar lefel yr isymwybod (e.e. acen, cyflymder y siarad). Y gwrthwyneb i **dargyfeiriant**.

Term Saesneg: *convergence*

Cyfnewid cod Y ffenomen o ddefnyddio dwy iaith yn yr un disgwrs. Ceir sawl term gwahanol i ddisgrifio'r un ffenomen (e.e. **cod groesi**, **cymysgu cod**, **trosi**). Ceir rhai ysgolheigion yn defnyddio'r gwahanol dermau er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gyfnewid cod. Ceir hefyd 'cod-gymysgu' a 'cod-gyfnewid' yn y Gymraeg. Defnyddir y term **cyfnewid cod** yn y traethawd hwn, a'i ddefnyddio fel term cyffredinol yn hytrach nag ar gyfer math arbennig o gyfnewid cod.

Term Saesneg: *code switching*

Cyfnewid gair unigol Defnyddio un gair o **laith**₂ mewn disgwrs sydd fel arall yn **laith**₁. Nodir bod llawer o drafod ymysg ysgolheigion ieithyddiaeth ar y gwahaniaeth rhwng **benthyciad**, **benthyciad un-tro** a chyfnewid gair unigol.

Term Saesneg: *single word switches*

Cyfnewid mewnfrawddegol Cyfnewid sydd yn digwydd o fewn brawddegau. Bydd geiriau o **iaith₁** ac **iaith₂** yn ymddangos yn yr un frawddeg.

Term Saesneg: *intrasentential switching*

Cyfnewid rhyngfrawddegol Testun sy'n defnyddio cyfnewid cod gyda brawddegau cyfan mewn un iaith neu'r llall (ond nid yn cymysgu o fewn y frawddeg). Er enghraifft, bydd brawddeg 1 yn iaith A, brawddeg 2 yn iaith B, brawddeg 3 yn ôl yn iaith A. Gall y 'brawddegau' hefyd fod yn llinellau o gerddi.

Term Saesneg: *intersentential switching*

Cyfyngiad Cywerthedd Theori gan Poplack (1980) sydd yn datgan y gall cyfnewid cod ddigwydd os yw gramadeg y ddwy iaith yn ymdebygu. Mae hyn yn ffordd i'r siaradwr sicrhau y bydd ei ddatganiad yn gwneud synnwyr. Ceir diagram disgrifiadol gan Poplack yn y bennod gyntaf (t.15).

Term Saesneg: *equivalence constraint*

Cyffyrddiant iaith Pan ddaw dwy iaith i gyswllt â'i gilydd; e.e. y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru.

Term Saesneg: *language contact*

Cymysgu cod Term tebyg i **gyfnewid cod**, ond defnyddir y term hwn gan rai er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gyfnewid cod (e.e. Auer 2009; Grosjean 1982). Ni ddefnyddir y term yn yr ymchwil hwn (yn hytrach, defnyddir 'cyfnewid cod'), heblaw wrth ddisgrifio gwaith eraill.

Term Saesneg: *code mixing*

Cymysgu ieithoedd Defnyddir y term hwn i ddisgrifio math arbennig o gyfnewid, yn arbennig gan Auer (1999) yn ei drafodaeth o **gyfnewid cod** ar lefelau gwahanol. Defnyddia **cymysgu ieithoedd** ar gyfer y defnydd o ddwy iaith yn yr un frawddeg sydd yn ystyrllon ar lefel eang (os nad byd-eang).

Term Saesneg: *language mixing*

Cystrawen Trefn a chysylltiad geiriau mewn brawddeg.

Term Saesneg: *syntax*

Term cysylltiedig: cystrawennol – *syntactic*

Dargyfeiriant Y gwrthwyneb i **cydgyfeiriant**: bydd cyd-siaradwyr yn pwysleisio'r gwahaniaeth yn eu ffordd hwy o siarad (e.e. pwysleisio acen gref Saesneg wrth siarad ag unigolion o Gymru, fel yn arbrawf Bourhis a Giles (1977 Yn: Giles et al. 1991 tt.8–9)).

Term Saesneg: *divergence*

Disgwrs anfarciedig Term gan Myers-Scotton, yn disgrifio'r defnydd o'r iaith a ddisgwylir i siaradwr ei defnyddio mewn sefyllfa arbennig.

Term Saesneg: *unmarked speech*

Disgwrs marciedig Y gwrthwyneb i'r uchod; defnyddir yr iaith na ddisgwylir i siaradwr ei defnyddio mewn sefyllfa arbennig.

Term Saesneg: *marked speech*

Eilededd iaith Symud o un iaith i'r llall ac yn ôl, mewn ffordd weddol gytbwys.

Tebyg i **gyfnewid rhyngfrawddegol**.

Term Saesneg: *language alternation*

Term cysylltiedig: eilededdol – *alternational*

Ffonetig Yn ymwneud â sain iaith. Wrth sillafu'n ffonetig, sillefir geiriau fel y maent yn cael eu dweud yn hytrach na defnyddio'r orgraff safonol. Defnyddir hyn mewn llenyddiaeth yn aml er mwyn dynodi bod gan y siaradwr acen arbennig, e.e. mae Bleddyn yn *Cyw Dôl* yn siarad Saesneg ag acen Gymraeg gref, er enghraifft:

'ai'f got tw ffaind maiself [sic] e fflat so ddat ai can get sym mor myni off ddy dôl pipyl. How dŵ iw go arownd it?' (CD 33)

Ond mae'r cymeriadau di-Gymraeg yn y nofel yn siarad Saesneg sydd wedi ei ysgrifennu mewn orgraff Saesneg safonol, er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng eu hacenion hwy ac acen Bleddyn.

Term Saesneg: *phonetic*

Ffonoleg Y system seiniau mewn iaith. Ffonem yw'r uned leiaf arwyddocaol yn adeiladwaith iaith; gweler yr Wyddor Seineg Ryngwladol am esiamplau.

Term Saesneg: *phonology*

Term cysylltiedig: ffonolegol – *phonological*

Gair (Geiriau) Benthyc Gair sydd wedi ymgartrefu yn yr iaith, ond sydd wedi dod o iaith arall yn wreiddiol. Er enghraifft, *chivalry* neu *peasant* yn y Saesneg, sydd wedi dod o'r Ffrangeg yn wreiddiol. Yn y Gymraeg, geiriau fel *ffitio* neu *cwpwrdd*, sydd wedi dod o'r Saesneg yn wreiddiol (Deuchar 2006). Yn aml, bydd y rhain wedi eu hintegreiddio i'r iaith frodorol, ond nid bob amser; hynny yw, gall y geiriau gael eu haddasu, neu beidio â chael eu haddasu. Gweler hefyd **benthyc/benthyciad**.

Term Saesneg: *loanword(s)*

iaith Fatrics Prif iaith y disgwrs, sy'n darparu'r fframwaith ieithyddol ar gyfer y disgwrs.

Term Saesneg: *Matrix Language (ML)*

iaith Fewnosodedig Yr iaith sydd yn cael ei mewnosod i fframwaith yr iaith fatrics.

Term Saesneg: *Embedded Language (EL)*

iaith₁ Yr iaith frodorol, neu'r iaith gyntaf (ar gyfer pa bynnag unigolyn sydd dan sylw – yr awdur, y siaradwr, neu'r darlennydd, er enghraifft).

Term Saesneg: *Language₁, L₁*

iaith₂ Yr ail iaith (i'r unigolyn dan sylw). Diben defnyddio'r termau iaith₁ ac iaith₂ yw gwahaniaethu rhwng pryd y dysgwyr y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae'r cysyniad o iaith₂ yn gallu bod yn broblematic yng Nghymru, gan fod gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol siaradwyr o safbwynt eu sgiliau ieithyddol, gydag amrywiaeth yng ngallu siaradwyr ail-iaith. O'r herwydd, mae rhai yn erbyn defnyddio'r termau iaith gyntaf / ail iaith neu iaith₁ / iaith₂ yng nghyd-destun Cymru, gydag adroddiad 'Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4' (Llywodraeth Cymru 2013) yn argymhell mabwysiadu'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr ieithoedd Ewropeaidd yn hytrach na'r termau hyn.

Term Saesneg: *Language₂, L₂*

iaith A / iaith B Gwahaniaethu rhwng dwy iaith mewn pâr (e.e. cyfnewid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg), heb eisiau defnyddio iaith₁ neu iaith₂, os nad oes gwahaniaeth mai'r iaith gyntaf neu'r ail iaith yw hi.

Term Saesneg: *Language A, Language B*

Idiolect Nodweddion arbennig sydd yn perthyn i unigolyn wrth siarad (yn wahanol i dafodiaith (*dialect*) sydd yn arbennig i grŵp o bobl neu ardal arbennig).

Term Saesneg: *idiolect*

Integreiddiad Gall **gair benthyg** gael ei addasu, ac felly ei integreiddio i'r **laith**₁. Gall hyn fod yn forffolegol, yn ffonolegol neu'n gystrawennol.

Term Saesneg: *integration*

Loci sgyrsiol Lleoliad y cyfnewid cod; defnyddir y term hwn gan Auer (1995).

Term Saesneg: *conversational loci*

Mewnosodedig Mewnosod geiriau o un iaith i frawddeg mewn iaith arall. Tebyg i gyfnewid mewnfrwaddegol. Gall fod yn berthynas llai cytbwys os nad oes llawer o eiriau'n cael eu mewnosod.

Term Saesneg: *insertional*

Meysydd dadansoddi Defnyddir chwe maes dadansoddi yn y traethawd hwn er mwyn dadansoddi'r cyfnewid cod: pennod, adran o'r testun, hyd, dosbarth gramadegol, maes semanteg ac ysgogiad/swyddogaeth. Mae'r meysydd dadansoddi hyn yn cynnwys categorïau gwahanol, er enghraifft, mae'r maes 'dosbarth gramadegol' yn cynnwys y categori 'ansoddair'.

Term Saesneg: *analytical fields*

Model Fframwaith iaith Fatrics Theori gan Myers-Scotton (1993) yn disgrifio perthynas anghytwys cyfnewid cod. Yn ôl Myers-Scotton, mae un iaith yn bwysicach na'r llall, ac yn darparu fframwaith y disgwrs. Gweler y ddau derm cysylltiedig, **laith Fatrics** ac **laith Fewnosodedig**.

Term Saesneg: *Matrix Language Frame Model (MLF)*

Model marciedigrwydd Model gan Myers-Scotton (1983). Tybir bod siaradwr yn fwy tebygol o ddefnyddio iaith A neu B wrth drafod pwnc neu mewn sefyllfa arbennig (e.e. gall unigolyn siarad yn y Gymraeg â'i blant, yna droi at y Saesneg er mwyn trafod technoleg, er enghraifft).

Term Saesneg: *Markedness Model (MM)*

Morffoleg Adeiladwaith geiriau, e.e. rhagddodiaid, ôl-ddodiaid, enwau a.y.b. Er enghraifft, ffurfir yr ansoddair 'gwyntog' o ddau forffem, yr enw 'gwynt' a'r ôl-ddodiad '-og'.

Term Saesneg: *morphology*

Term cysylltiedig: morffolegol – *morphological*

Newid arddull Newid arddull o fewn un iaith (math o gyfnewid cod mewn-ieithol). Defnyddir y dechneg yn aml mewn nofelau lle ceir y naratif mewn Cymraeg safonol ond y ddeialog mewn tafodiaith (nad yw'n Saesneg neu'n fratiaith).

Term Saesneg: *style shifting*

Semanteg Ystyr geiriau, neu'r astudiaeth o ystyr geiriau.

Term Saesneg: *semantics*; *semantic* yw'r ffurf ansoddeiriol.

Trosi Term a ddefnyddir gan Kathryn Jones (1993). Gweler **cyfnewid cod**.

Theori ymgymhwyso iaith Theori gan Giles, Coupland a Coupland (1991) sydd yn trafod sut y gall siaradwyr ddewis siarad yn debygacach i'w cyd-siaradwyr ai peidio. Gweler hefyd **cydgyfeiriant** a **dargyfeiriant**.

Term Saesneg: *Speech Accommodation Theory*; *Communication Accommodation Theory*

Pennod 1: Arolwg o'r Llenyddiaeth ym Maes Cyfnewid Cod

1.1 Cyflwyniad

Mae ysgolheigion a chanddynt ddiddordeb mewn dwyieithrwydd a chyswllt iaith yn ymddiddori mewn cyfnewid cod ers blynnyddoedd. Dywed Milroy a Muysken, 'Perhaps the central issue in bilingualism research is code-switching, the alternative use by bilinguals of two or more languages in the same conversation' (1995 t.7). Gan amlaf, dadansoddir cyfnewid cod mewn iaith lafar, ond mae'n faes eang iawn sy'n llawn amrywiaeth. Er enghraifft, ceir astudiaethau am ysgogiad unigolyn i gyfnewid cod (Gumperz 1982), gramadeg arbennig cyfnewid cod (Scotton 1983; Myers-Scotton 1993; Myers-Scotton 2009; Poplack 1980), ynghyd ag isbynciau eraill. Yn fwy diweddar, mae rhai ysgolheigion wedi dechrau trafod dadansoddi cyfnewid cod mewn llenyddiaeth, er enghraifft Jonsson (2005), Moyna (2008) a Montes-Alcalá (2001; 2007; 2012; 2013).

Yn y bennod hon trafodir yr ymchwil sydd wedi ei wneud eisoes ar gyfnewid cod gan ystyried beth fydd yn ddefnyddiol at ddiben y traethawd hwn. Rhennir y bennod yn ddwy brif ran. Bydd y rhan gyntaf yn trafod rhai termau pwysig yn y maes, gan drafod y gwahaniaeth rhwng 'cyfnewid cod' a 'benthycu', ac edrych ar ba agweddau o gyfnewid cod sydd o ddiddordeb i wahanol ysgolheigion. Yn yr ail ran, byddwn yn trafod rhai modelau a ddefnyddir gan ysgolheigion er mwyn dadansoddi cyfnewid cod. Rhennir y drafodaeth hon yn dair rhan, gan ganolbwyntio ar gyfnewid cod mewn iaith lafar, mewn deunydd ysgrifenedig anffurfiol ac mewn llenyddiaeth. Dadansoddir yr anawsterau neu'r diffygion yn y maes yn ogystal â'r

cryfderau a'r enghreifftiau o waith da. Bydd hyn oll yn arwain at union gwestiynau ac amcanion ymchwil y traethawd hwn.

1.1.1 Terminoleg

Problem fawr yn y maes yw diffyg consensws ynglŷn â rhai termau sosio-ieithyddol. Mae nifer o ysgolheigion yn defnyddio llawer o dermau amrywiol i ddisgrifio'r un ffenomen, er enghraifft 'cyfnewid rhyngfrawddegol' neu 'eilededd', sy'n disgrifio cyfnewid cod sy'n defnyddio brawddegau cyfan yn y ddwy iaith, a 'cyfnewid mewnfrawddegol' neu 'mewnosod', sy'n disgrifio cyfnewid cod gyda geiriau o'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un frawddeg.

Fel y dywed Jacobson:

Terms such as “Codeswitching”, also hyphenated as “code-switching”, “codemixing” (or “code-mixing”), “code alternation”, “language mixing”, and occasionally “codeshifting” have consistently appeared in the professional literature and scholars are rarely in mutual agreement which term to use at a given time. Some of the terms are even further broken down into such categories as Intersentential Codeswitching and Intrasentential Codeswitching, so as to make the life of the less experienced reader quite miserable.

(1998 tt.51-2)

Gwneir ymdrech yma i beidio â gorgymhlethu'r termau, ac i geisio'u hesbonio'n glir. Gweler yr adran 'Terminoleg' ar ddechrau'r traethawd hwn ar gyfer rhestr o dermau pwysig a'u diffiniadau, gyda'r term Saesneg sy'n cyfateb iddynt.

Nodwedd broblematic arall o gyfnewid cod yw ehangder y maes. Mae nifer o agweddau gwahanol o fewn cyfnewid cod, er enghraifft: astudiaethau o ymennydd unigolyn dwyieithog sy'n cyfnewid cod; datblygiad plentyn dwyieithog sy'n troi at gyfnewid cod er mwyn cyfathrebu; a rôl cyfnewid cod mewn affasia. Hyd yn oed o osod cyfyngiadau, ac ystyried cyfnewid cod mewn oedolion yn unig, heb ystyried pynciau mwy gwyddonol fel effaith iaith

ar yr ymennydd, buan y gwelwn fod y maes yn parhau i fod yn eang iawn. Canolbwyntia rhai, fel Gumperz (1982), ar yr hyn sy'n achosi siaradwyr i gyfnewid cod, tra bo eraill, fel Myers-Scotton (Scotton 1983; Myers-Scotton 1993; 2009) a Poplack (1980) yn trafod gramadeg arbennig cyfnewid cod. Yn ogystal, cytuna nifer o ysgolheigion fod sawl math gwahanol o gyfnewid cod; fel y dywed Milroy a Muysken:

Under this general term [of code-switching], different forms of bilingual behaviour are subsumed. Sometimes switching occurs between the turns of different speakers in the conversation, sometimes between utterances within a single turn, and sometimes even within a single utterance.

(1995 t.7)

Problem arbennig wrth astudio cyfnewid cod yn y Gymraeg yw'r diffyg llenyddiaeth ar y Gymraeg, ac yn y Gymraeg yn ogystal. Mae ymchwilyr megis Deuchar, Gathercole a Thomas o Ganolfan Ymchwil i Ddwyieithrwydd Prifysgol Bangor yn gwneud ymchwil yn y maes, gan gynnwys prosiect *Bangor Talk*, sef corpws o siaradwyr Cymraeg-Saesneg, Cymraeg-Sbaeneg a Saesneg-Sbaeneg (Bangortalk.org.uk 2010; Deuchar 2014). Ond, yn anffodus, nid oes llawer wedi cael ei ysgrifennu yn y Gymraeg, neu nid yw'r termau angenrheidiol ar gyfer y traethawd hwn wedi eu bathu yn y Gymraeg eto. Gwnaed ymdrech felly yn y traethawd hwn i ddiffinio gwahanol ffenomena a chyfieithu rhai termau i'r Gymraeg.

1.1.2 Cod, Cyfnewid cod a Chymysgu cod

Efallai mai'r term allweddol cyntaf i'w ddeall yw'r term 'cod'. Dywed Gardner-Chloros, 'Nowadays *code* is understood as a neutral umbrella term for languages, dialects, styles/registers, etc., and partly usurps the place of the more usual "catch-all" term *variety* to cover the different sub-division of "language"' (2009 t.11). Fel y gwelwn, mae gan 'cod' ystyr eang iawn, gan

gynnwys ieithoedd gwahanol, cyweiriau iaith, tafodieithoedd ac arddulliau gwahanol. Oherwydd ystyr eang 'cod', dadleua Myers-Scotton fod cyfnewid cod yn bwnc perthnasol ym mhob cymdeithas, oblegid 'style-shifting or style switching [...] occur much more often in written work, fictional or non-fictional, than is generally recognized' (2009 t.474). Trafodir enghraifft o newid arddull (*style shifting*) yn erthygl Luo ar gyfnewid cod rhwng yr iaith Saesneg safonol a thafodiaith leol y glöwyr yn *Sons and Lovers* D.H. Lawrence, gyda'r cymeriadau'n newid eu cod yn ôl y sefyllfa (2013). Yn y traethawd hwn, ni fyddwn yn trafod newid arddull ond yn canolbwyntio ar god fel iaith, hynny yw'r Gymraeg, y Saesneg a'r Ffrangeg.

Term arall allweddol i'r maes yw 'cyfnewid cod'. Nodir bod y term 'cod groesi' hefyd yn bodoli yn y Gymraeg, a defnyddir 'trosi' gan Kathryn Jones (1993). Yn fy nhyb i, ynghyd â nifer o ysgolheigion eraill, maent yn disgrifio'r un ffenomen â 'chfynewid cod'. Defnyddia rhai ysgolheigion gyfuniad o'r termau hyn yn eu gwaith er mwyn disgrifio gwahanol fathau o gyfnewid cod, ond ni fydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio yn ystod y traethawd hwn. I osgoi amwysedd, dewiswyd defnyddio'r term 'cyfnewid cod' yn unig yma, oherwydd mai dyma'r term sydd fwyaf cyffredin ymysg ysgolheigion. Felly, beth yw'r diffiniad o 'cyfnewid cod'? Dywed Jonsson:

The term *code-switching* is one of the most frequently used terms in the field of language contact. One problem when defining the term is that code-switching is often used as a cover term to encompass different types of language contact phenomena.

(2005 t.103)

Yr esboniad symlaf o'r term cyfnewid cod yw 'the alternate use of two or more languages in the same utterance or conversation' (Grosjean 1982 t.145), neu 'the alternative use of two languages either within a sentence or

between sentences' (Clyne 1987 t.740). Cyfeiria Grosjean a Clyne at ddau fath o gyfnewid cod, sef cyfnewid 'mewnfrawddegol' a 'rhyngfrawddegol'. Maent yn trafod cyfnewid cod o wahanol hyd: gall cyfnewid fod yn eiriau unigol neu'n ymadroddion iaith₂ o fewn brawddeg iaith₁ – sef cyfnewid mewnfrawddegol – neu'n frawddegau cyfan neu'n gyfres o frawddegau – sef cyfnewid rhyngfrawddegol. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol yn bwysig yng ngwaith ysgolheigion eraill; dychwelwn at hyn yn ddiweddarach yn y traethawd.

Term arall sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yw *code mixing*. Yn nhyb Pfaff, "mixing' is used as a neutral cover term for code-switching and borrowing' (1979 t.295). Ond, fel y gwelwyd uchod, *code switching* yw'r *cover term* (h.y. sy'n disgrifio sawl math o ymddygiad ieithyddol) yn nhyb Jonsson (2005 t.103). Gwahaniaetha Auer rhwng cyfnewid cod a chymysgu cod:

The distinction between functional and (locally) non-functional language alternation is important for setting off code-switching against 'code-mixing'. In the latter case, the frequent variation between two 'codes' has become a 'mode of interaction' in its own right, that is, a new code with 'rules' and regularities of its own.
(2009 t.491)

Felly mae cymysgu cod, yn ôl Auer, yn dilyn rheolau mwy pendant ac yn ieithwedd fwy sefydlog na chyfnewid cod, sy'n broses fwy rhydd. Mewn erthygl gynharach, cynigia Auer gontinwmm eilededd iaith (1999 tt.309–310).

Gwahaniaetha rhwng tri cham o gyfuno dwy iaith:

1. Cyfnewid Cod – sy'n ystyrlon ar lefel bersonol neu leol
2. Cymysgu Ieithoedd – sy'n ystyrlon ar lefel ehangach, os nad byd eang
3. *Fused Lects* – sef ieithoedd cymysg sefydlog, sydd wedi datblygu rheolau cadarn

Felly, yn ôl Auer, mae cyfnewid cod yn ieithwedd sy'n cael ei defnyddio gan grŵp bychan o unigolion, ac mae ganddynt ddewis rhydd wrth symud o un iaith i'r llall. Gall cyfnewid cod ddatblygu i fod yn gymysgu ieithoedd, a hynny'n cael ei ddefnyddio gan grŵp ehangach o siaradwyr, ond bod y dewis i symud o un iaith i'r llall yn parhau i fod yn ddewis rhydd. Yna, gall cymysgu ieithoedd ddatblygu i fod yn *fused lects*, sef ieithwedd sefydlog lle nad oes gan y siaradwr ddewis rhydd. Mae hyn oherwydd bod yna reolau pendant i'w dilyn. Term arall am hyn yw 'iaith gymysg', fel Copper Island Aleut (Rwsieg-Aleut) neu Michif (Cree-Ffrangeg). Yng nghontinwmm iaith Auer, taith unffordd yw hi o gyfnewid cod i gymysgu ieithoedd i *fused lects*; nid oes modd i ieithwedd droi'n ôl ar y broses hon, er bod modd i ieithwedd aros a sefydlogi ar un cam. Er enghraifft, cyn i Michif ddod yn *fused lect*, roedd y Ffrangeg a'r Cree yn cael eu cymysgu, ond heb reolau – hynny yw, roedd gan siaradwr ddewis rhydd wrth gyfuno'r ddwy iaith. Erbyn hyn, mae Michif wedi datblygu rheolau mwy pendant:

almost all nouns are said to be taken from French, while Cree provides most of the verbal structures (with the exception of the French copula).

(Auer 1999 t.322)

Oherwydd mai taith unffordd yw'r continwmm iaith i Auer, ni all Michif symud yn ôl o *fused lect* i gymysgu ieithoedd, neu yn ôl eto i gyfnewid cod.

Beirniedir Auer am ddefnyddio termau sy'n rhy debyg i ddisgrifio dau o'r camau gwahanol; y termau a ddefnyddia Auer yw 'cymysgu ieithoedd' a 'ieithoedd cymysg' (*language mixing a mixed languages*); disgrifia Jonsson y dewis o'r ddau derm hwn fel 'unfortunate resemblance' (2005 t.106). Sylwer ar y defnydd o'r berfenw 'cymysgu' a'r ansoddair 'cymysg': proses fyw yw

cymysgu ieithoedd ond mae'r gweithgaredd creadigol hwn wedi peidio mewn ieithoedd cymysg, gan eu bod wedi sefydlogi.

Dilyna Jonsson (2005) ddiffiniad Auer, sef bod cymysgu cod yn gyfuniad o'r ddau god sydd wedi dod yn "mode of interaction" in its own right, that is, a new code with 'rules' and regularities of its own' (Auer 2009 t.491) yn debyg i 'ieithoedd cymysg' Auer (1999). Ar y llaw arall, mae Grosjean yn diffinio cymysgu cod fel '[inserting] single items from one language into another' (1982 t.204). Mae'n amlwg o'r esiamplau hyn bod cryn benbleth yn y maes ynglŷn ag ystyr rhai termau. Yn ogystal, sylwer bod tuedd gan awduron i ddefnyddio'r un enw ac ansoddair ond mewn trefn wahanol i ddisgrifio ffenomenau gwahanol: *code mixing*, *mixed codes*, *mixed languages*, *language mixing*. Golyga hyn fod angen i'r darlennydd fod yn ofalus: gall ysgolheigion ddefnyddio'r un term yn union neu dermau tebyg iawn i ddisgrifio ffenomen wahanol.

1.1.3 Geiriau benthyc, Benthyc, Cyfnewid gair unigol a Chyfnewid un-tro
Grŵp arall o dermau sy'n achosi problem yw 'geiriau benthyc', 'benthyc' a 'cyfnewid gair unigol' (gweler yr adran Terminoleg am ddiffiniad llawn). Math o gyfnewid mewnfrawddegol yw'r rhain, sy'n effeithio ar eiriau unigol yn unig, yn hytrach na grwpiau o eiriau iaith₂ o fewn brawddeg iaith₁. Term cyfarwydd yw 'gair benthyc': dyma air sy'n dod yn wreiddiol o iaith arall ond sydd bellach wedi ymgartrefu yn yr iaith frodorol. Ystyriwch eiriau Saesneg fel *chivalry* a *peasant* sydd â'u gwreiddiau mewn Ffrangeg Normanaidd ond a ymgartrefodd mewn Saesneg Canol. Er bod y geiriau hyn yn eiriau benthyc sydd wedi hen ymgartrefu yn y Saesneg, ceir hefyd eiriau benthyc mwy modern, er enghraifft y ferf newydd Ffrangeg *googler* ar gyfer 'chwilio ar

Google' (Di-Enw 2010). Mae gair benthyc neu fenthyc yn rhan fwy sefydlog o'r iaith, tra bo cyfnewid gair unigol neu gyfnewid un-tro yn ffenomen sy'n gysylltiedig â siaradwyr dwyieithog yn unig. Yn syml, gyda gair benthyc neu fenthyc, yr iaith yn fwy cyffredinol sy'n benthyc y gair; ond yn achos cyfnewid (cyfnewid gair unigol neu gyfnewid un-tro), y siaradwr ei hun sy'n dewis defnyddio'r gair hwnnw.

Mae sawl ffordd o wahaniaethu rhwng benthyc a chyfnewid; trafodir rhai ffyrdd o wahaniaethu rhyngddynt yn yr adran ganlynol. Dadleua Poplack a Sankoff fod pedwar maen prawf er mwyn gwahaniaethu rhwng gair benthyc a benthyc:

1. Amllder defnydd (mewn iaith un person a chan fwy o bobl)
2. Dadleoli gair cyfystyr yn yr iaith gyntaf
3. Integreiddiad morffoffonemig a/neu gystrawennol
4. Derbynioldeb, boed y siaradwyr yn ymwybodol o darddiad y gair ai peidio

(1984 tt.103–4)

Mae ysgolheigion ieithyddiaeth yn aml yn penderfynu a yw gair yn air benthyc sefydlog neu'n air benthyc newydd o'r iaith₂ drwy wahaniaethu rhwng geiriau y byddai siaradwr unieithog yn gallu eu deall a geiriau na fyddent yn eu deall. Mae'r broses hon yn anodd yng Nghymru oherwydd diffyg siaradwyr uniaith Gymraeg. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, defnyddia Deuchar *Geiriadur Prifysgol Cymru* (GPC) er mwyn gwahaniaethu rhwng geiriau benthyc sefydlog, sydd wedi ymgartrefu digon yn y Gymraeg i gael eu cynnwys yn GPC – fel 'cwpwrdd' neu 'ffitio' – a geiriau fel '*ridiculous*', sy'n cael eu diffinio ganddi fel 'cyfnewid gair unigol' (2006 t.1988). Mae angen gwahaniaethu rhwng geiriau benthyc (fel 'cwpwrdd' neu 'ffitio') a 'cyfnewid gair unigol', gan fod y broses y tu cefn i'r geiriau hyn yn wahanol


iawn. Gyda 'cwpwrdd' a 'ffitio', geiriau benthycy sydd yma, gan mai'r iaith sy'n benthycy. Fodd bynnag, y siaradwr ei hunan sy'n dewis defnyddio '*ridiculous*' yn hytrach na gair Cymraeg fel 'chwerthinllyd' neu 'gwirion'.

Gwelir bod y ddwy broses hyn (canllawiau Poplack a Sankoff, neu ddull Deuchar o ddefnyddio GPC) yn gallu cael eu defnyddio i wahaniaethu rhwng benthycy a chyfnewid – edrychwn eto ar esiamplau Deuchar. Yn achos benthycy, yn ôl canllawiau Poplack a Sankoff (1984 tt.103–4), mae'r geiriau hyn yn cael eu defnyddio gan ystod eang o siaradwyr, nid oes gair 'brodorol' cyfystyr (bellach), ac mae'r geiriau wedi eu haddasu i forffoleg y Gymraeg. Gwelir bod hyn yn wir am 'cwpwrdd' a 'ffitio'. Dewisa Deuchar ddefnyddio GPC er mwyn profi mai gair benthycy sydd dan sylw yma; er mwyn dangos bod y gair yn rhan o'r iaith Gymraeg, mae wedi ei gofnodi yn GPC. Ar y llaw arall, gyda geiriau fel '*ridiculous*' neu '*camouflaged*', y siaradwr fel unigolyn sy'n benthycy y gair yn hytrach na'r iaith yn fwy cyffredinol – cyfnewid sydd yma, nid benthycy. Eto, o edrych ar ganllawiau Poplack a Sankoff (1984 tt.103–4), mae'r geiriau hyn yn cael eu cynhyrchu'n llai aml na geiriau benthycy, mae geiriau Cymraeg cyfystyr yn bodoli ('chwerthinllyd' a 'cuddliw' yn yr achos hwn), ac y mae tarddiad Saesneg y gair yn fwy amlwg nag yn achos 'cwpwrdd' neu 'ffitio', gan nad yw'r forffoleg wedi ei haddasu i'r Gymraeg. Gwelir eto fod dull Deuchar yn dangos nad yw'r gair yn ddigon integredig yn yr iaith Gymraeg, gan nad yw wedi cael lle yn GPC.

Ceir rhai ysgolheigion yn defnyddio amllder defnydd gair mewn corpws er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid a benthycy. Er enghraifft, dywed Myers-Scotton:

I use three or more occurrences in different conversations in a corpus of a minimum of twenty hours of conversation as the mark of a B form [borrowed form]. Admittedly, three is an arbitrary number. (1993 t.204)

Yn ogystal, ystyria Myers-Scotton eiriau ar gyfer syniadau neu wrthrychau newydd fel benthyciadau. Er enghraifft, byddai geiriau fel y ferf Ffrangeg newydd *googler* neu eiriau fel *'tweet'* (ar gyfer negeseuon neu ddatganiadau ar Trydar), yn cael eu hystyried fel *'B-form'* ganddi gan fod y cysyniad (ac felly'r geiriau sy'n cyd-fynd â'r cysyniad) yn newydd i'r iaith₁, ac yn gorfod benthycio geiriau gan yr iaith₂, sef y Saesneg yn yr achos hwn. Felly, yr hyn a fyddai'n cyfrif fel cyfnewid cod, yn hytrach nag yn *'B form'* fyddai 'lexemes encoding core concepts and occurring no more than twice in a relatively large corpus' (t.205). Mae'r canllawiau hyn yn ddiddorol, ac yn dangos bod sawl ffordd o fynd i'r afael â'r broblem o wahaniaethu rhwng cyfnewid a benthycio. Mae'r diagram canlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyfnewid cod a benthycio yn glir:



Figur 1: Cyfnewid vs. Benthycio

(Grosjean 2010 t.58)

Dangosir bod cyfnewid cod yn gam y tu hwnt i iaith 'normal' – ac fel yr eglurodd Auer (1999), dim ond grŵp bach o siaradwyr a fyddai'n deall cyfnewid cod. Ond mae benthycio yn cael ei weu i mewn i'r iaith bob dydd.

Gan ein bod yn byw mewn cymdeithas ddwyieithog yma yng Nghymru, mae'n bosib bod y gwahaniaeth yn fwy aneglur (fel y gwelodd Deuchar (2006)), ond byddai'r gwahaniaeth hwn yn fwy eglur mewn ieithoedd eraill, lle byddai'r grŵp a fyddai'n deall cyfnewid cod yn llawer llai nag yng Nghymru, gan fod y rhan fwyaf o siaradwyr y Gymraeg hefyd yn medru'r Saesneg.

Felly, gwelir bod integreiddiad gair yn bwysig er mwyn penderfynu ai cyfnewid ynteu fenthycia sy'n digwydd. Fodd bynnag, gall y broses hon fod yn eithaf cymhleth. Er enghraifft, mae Myers-Scotton yn ein siarsio bod angen cofio nad yw pob gair benthyg wedi ei integreiddio'n gyfan gwbl i'r laith₁, ac 'assimilation is rarely so complete (and sometimes hardly existent)' (1993 t.21). Cyfeiria at eiriau Ffrangeg fel *rendez-vous* sy'n cael eu defnyddio yn y Saesneg, heb newid yr ynganiad na'r sillafiad i weddu i'r Saesneg – ond gair benthyg sydd yma gan nad oes angen sgiliau Ffrangeg da er mwyn deall na defnyddio'r term. Yr hyn sy'n bwysig o safbwynt gwahaniaethu rhwng geiriau benthyg a chyfnewid, fel y dadleua Pfaff, yw "borrowing' may occur in the speech of those with only monolingual competence, while 'code-switching' implies some degree of competence in two languages' (1979 tt.295–6).

Trafodir y ffaith nad yw gair benthyg bob amser wedi ei integreiddio'n llwyr i'r laith₁ mewn erthygl gan Sankoff, Poplack a Vanniarajan (1990). Mewn astudiaeth o sgwrs unigolion o Puerto Rico, crëwyd damcaniaeth weithredol (*working hypothesis*) ganddynt er mwyn gwahaniaethu rhwng geiriau benthyg a chyfnewid cod (un ai cyfnewid Sbaeneg-Saesneg neu ddatganiad uniaith Saesneg). Roedd angen i fenthyciad fod wedi'i integreiddio yn ffonetig, yn forffolegol ac yn gystrawennol, a chael ei ddefnyddio'n rheolaidd

ac yn eang. Os nad oedd hyn yn wir am yr esiampl o dan sylw, datganiad uniaith Saesneg ydoedd, neu gyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg (1990 t.74). Nodir bod gramadeg y Gymraeg a'r Ffrangeg yn ddefnyddiol er mwyn dangos integreiddiad geiriau Saesneg. Oherwydd bod cenedl enwau yn effeithio ar ramadeg y Gymraeg a'r Ffrangeg, ond nid y Saesneg, gellir creu damcaniaeth ynglŷn ag integreiddio gair. Er enghraifft, os yw ansoddeiriau yn cytuno ag enwau o ran cenedl a nifer, mae'n dangos bod y geiriau wedi eu hintegreiddio, o leiaf yn nhyb y siaradwr, os nad yn y gymdeithas yn fwy eang. Yn ogystal, gallai'r system dreiglo yn y Gymraeg fod yn arwydd arall o integreiddio geiriau. Hynny yw, os yw'r gair benthg yn cael ei dreiglo, neu'n achosi treiglo yn unol â rheolau'r Gymraeg, gellir dadlau bod hyn yn arwydd o'r ffaith ei fod wedi ei integreiddio i'r iaith Gymraeg.

I ddychwelyd at erthygl Sankoff, Poplack a Vanniarajan (1990), dadleuant fod benthg yn broses fwy rhydd – nid oes rhaid glynu at y rheolau hyn, sef integreiddiad ffonetig, morffolegol a chystrawennol, a chael ei ddefnyddio'n rheolaidd ac yn eang. Dadleuant fod modd anwybyddu rhai o'r rheolau, yn enwedig integreiddiad ffonolegol, cynhyrchiad rheolaidd gan unigolyn a chynhyrchiad eang yn y gymdeithas. Defnyddir term newydd ganddynt er mwyn diffinio'r math hwn o fenthg sy'n torri'r rheolau; *nonce borrowing*, neu fenthgiad un-tro o roi enw Cymraeg arno. Unigolyn dwyieithog yn unig a all gynhyrchu'r math hwn o fenthgiad, gan fod angen gwybodaeth drylwyr o'r ddwy iaith er mwyn gallu benthg gair a thorri rheolau integreiddiad, gan greu datganiad sy'n gwneud synnwyr i gyd-siaradwyr. Gall y gair hwn gael ei ddefnyddio unwaith a pheidio â chael ei fenthg byth eto, neu gall proses arall ddigwydd: 'items may be borrowed from another language momentarily

and never be heard again, or they may be used with great regularity' (Poplack a Sankoff 1984 t.106). Gall benthyciad un-tro ddod yn rhan fwy sefydlog o'r iaith mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys iaith siaradwyr uniaith:

It is in fact reasonable to assume that as a borrowed word is more and more used, it tends to become phonologically and morphologically integrated, to displace competing recipient language forms, and at least eventually, to be accepted by its native speakers.

(Poplack a Sankoff 1984 t.105)

Felly, fe all benthyciad un-tro ddatblygu i fod yn air benthyc dros amser.

Mae ysgolheigion eraill wedi beirniadu'r term 'benthyciad un-tro' oherwydd nad yw'r diffiniad yn ddigon cryf neu fanwl (Jonsson 2005). Oherwydd hyn, mae'r termau 'geiriau benthyc' a 'chfynewid gair unigol' yn fwy cyffredin, er bod gwahaniaethu rhwng y ddau gategori hyn yn parhau i fod yn destun trafod.

Ar gyfer y traethawd hwn, byddwn yn dadansoddi cyfnewid cod mewn llenyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r ffaith mai cyfrwng ysgrifenedig sydd dan sylw yn achosi problem ynghylch integreiddiad. Sut mae modd inni bennu beth yw ynganiad y gair? Hynny yw, a yw'n cael ei ynganu fel gair Saesneg, neu a yw'n cael ei ynganu yn ôl rheolau'r Gymraeg neu'r Ffrangeg? Heblaw bod y gair wedi ei ysgrifennu'n ffonetig (e.e. addasu *actually* i fod yn 'actiwali', ac felly'n agosach at y Gymraeg), mae'r darllenydd yn rhydd i ddewis sut i ynganu'r gair dan sylw. Er enghraifft, yn ei hymchwil ar lenyddiaeth plant Sbaeneg-Saesneg, sylwa Vastaka (2013 tt.82–3) fod nifer fawr o'r geiriau benthyc yn ei chorpws yn eiriau ar gyfer bwydydd. Nid oes geiriau Saesneg ar gyfer bwydydd fel *tortilla* neu *tamale*, felly mae'n rhaid

defnyddio'r geiriau Sbaeneg, ac maent yn eiriau cyfarwydd iawn i nifer o siaradwyr uniaith. Fodd bynnag, dadleua Vastaka fod rhai awduron yn dewis amlygu'r ynganiad Sbaeneg (e.e. drwy odli *rodeo* â *feo*, er mwyn osgoi'r ynganiad Saesneg), tra bo eraill yn dewis peidio â gosod canllawiau neu awgrymiadau ynglŷn â'r ynganiad.

1.2 Dadansoddi Cyfnewid Cod

1.2.1 Cyfnewid Cod ar Lafar


Wrth geisio diffinio ac astudio cyfnewid cod, mae nifer o ysgolheigion yn ceisio creu canllawiau ar gyfer disgrifio'r broses. Gall hyn gynnwys llawer o feysydd gwahanol: trafod categorïau gramadegol y geiriau sy'n cael eu cyfnewid; ysgogiad unigolyn dros ddefnyddio cyfnewid cod a phatrymau yn hynny o beth; a chreu canllawiau a rheolau gramadegol hollol newydd, a'r oll yn ceisio disgrifio agwedd ar gyfnewid cod.

Wrth drafod pa fathau gramadegol o eiriau a gyfnewidir fwyaf, dywed Gardner-Chloros, 'Nouns may be the most frequently borrowed – and switched – word-class owing to their grammatically self-contained character, but all grammatical categories are potentially transferable' (2009 t.31).

Hynny yw, nid yw enw wedi ei integreiddio i'r frawddeg i'r un graddau â rhai geiriau eraill, gan nad oes angen marcio enw ag amser fel yn achos y ferf, na'i gytuno â gair arall, er enghraifft cytuno ansoddeiriau â chenedl a nifer yr enw y maent yn ei ddisgrifio, fel yn y Gymraeg neu'r Ffrangeg (a nifer o ieithoedd eraill, wrth gwrs). Trafodir y pwnc hwn hefyd gan Joshi, sy'n fwy manwl yn ei ganllawiau: 'individual switched lexical items are so-called "open class items", including nouns, adjectives, and verbs. "Closed class items" such as articles, prepositions, and quantifiers are never switched' (1985 Yn:

Azuma 1998 t.117). Mae tebygrwydd rhwng diffiniad Joshi a Gardner-Chloros: po fwyaf y mae'r gair yn 'perthyn' i weddill y frawddeg – hynny yw, wedi ei integreiddio â gweddill y frawddeg, yn cytuno â geiriau eraill fel ansoddeiriau neu'r fannod, neu arddodiaid yn perthyn i ferf – mwyaf anodd yw hi i'w osod mewn brawddeg o iaith arall. Mae Gardner-Chloros yn fwy hyblyg yn ei diffiniad, fodd bynnag, gan iddi ddweud bod gan bob categori gramadegol y potensial i gael ei gyfnewid (2009 t.31).

Ceisia rhai ysgolheigion ddefnyddio rheolau gramadegol er mwyn creu damcaniaethau neu 'reolau' ar gyfer y defnydd o gyfnewid cod. Er enghraifft, mae Poplack (1980) yn cymharu gramadeg y Saesneg a'r Sbaeneg er mwyn dangos lle mewn brawddeg y gall cyfnewid ddigwydd; ei henw ar hyn yw cyfyngiad cywerthedd (*equivalence constraint*). Yn syml, os yw gramadeg y ddwy iaith yn cytuno, gall cyfnewid ddigwydd. Dyma un o'i diagramau i egluro'r broses:



Ffigur 2: Cyfyngiad Cywerthedd Poplack

(Poplack 1980 t.586)

Yn y ffigur uchod, gwelir bod brawddeg Saesneg bosib (A) a brawddeg Sbaeneg bosib (B) gyda llinellau toredig yn dangos lle mae gramadeg y

ddwy iaith yn cytuno, a'r frawddeg sy'n defnyddio cyfnewid cod (C) ar waelod y diagram. Gall y cyfnewid ddigwydd lle mae unrhyw un o'r llinellau toredig. Yng ngeiriau Poplack, 'the dotted lines indicate permissible switch points and the arrows indicate ways in which constituents from two languages map onto each other' (1980 t.586). Dywed fod cyfnewid cod yn dueddol o ddigwydd 'at points in discourse where juxtaposition of L_1 and L_2 elements does not violate a syntactic rule of either language' (1980 t.586). Ni all cyfnewid ddigwydd yn y safleoedd hynny sy'n torri rheolau cystrawennol, gan y byddai'r gramadeg yn gymysglyd, ac yn gwahanu elfennau cysylltiedig o'r gramadeg – fel '*le dije*'. Gwelir felly fod y frawddeg sy'n defnyddio cyfnewid cod ('I told him pa que la trajera ligero') yn gwneud synnwyr gan i'r cyfnewid cod ddigwydd lle mae'r ddwy iaith yn cytuno – ni fyddai modd dweud '*yo him dije*' gan y byddai'n gwahanu dwy elfen gysylltiedig, sef '*le*' a '*dije*'. Er y byddai'n bosib gwneud synnwyr o'r datganiad, byddai'n chwithig iawn gan fod rheolau cystrawennol yn cael eu torri.

Academydd arall sy'n ceisio canfod ffordd o esbonio'r ffenomen o gyfnewid mewn termau gramadegol yw Myers-Scotton. Ffurfiodd ddau fodel er mwyn gwneud hyn, sef model fframwaith iaith fatrics (Myers-Scotton 1993) a model marciedigrwydd (Scotton 1983). Yn y model fframwaith iaith fatrics, dadleir mai perthynas anghytbwys yw cyfnewid cod, a bod un o'r ieithoedd yn darparu fframwaith – ac yn aml y gramadeg – i'r disgwrs: dyma'r iaith fatrics. Ar y llaw arall, mae'r iaith arall yn cael ei mewnosod i'r fframwaith hwn: hon yw'r iaith fewnosodedig. Yn y model marciedigrwydd, tybier bod siaradwr yn fwy tebygol o ddefnyddio un iaith, disgwrs anfarciedig, na'r iaith arall, sef disgwrs marciedig. Er bod modelau Myers-Scotton yn ddiddorol, nid oes

llawer o ddefnydd iddynt yn y traethawd hwn gan mai'r pwnc yw dadansoddi iaith nofelau. Os yw nofel wedi cael ei hysbysebu fel nofel "Gymraeg" neu nofel "Ffrangeg", mae'n amlwg beth yw'r iaith fatrics neu'r disgwrs anfarciedig. O ystyried y nofelau sy'n cael eu dadansoddi ar gyfer y traethawd hwn fel cyfanwaith (yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeialog un cymeriad neu bennod arbennig), mae'n wir mai prif iaith y nofelau yw'r Gymraeg neu'r Ffrangeg, er bod y Saesneg yn chwarae rhan bwysig yn y testunau. Tybier y byddai hyn yn wir ar gyfer y rhan helaeth o nofelau eraill yn ogystal.

Pwnc arall a drafodir yn aml yw ysgogiad unigolion i gyfnewid cod, gweler er enghraifft Gumperz (1982). Yn aml mae siaradwyr neu awduron yn dadlau eu bod yn dewis troi at iaith arall oherwydd bod 'ystyr arbennig' i'r gair yn yr iaith honno. Esbonia Luc Sante ei brofiad ef o'r ffenomen hon: cafodd Sante ei eni yng Ngwlad Belg cyn i'r teulu fudo i America pan oedd yn bump oed, a theimla fod ganddo ddeuoliaeth ddiwylliannol (2003 t.139). Dywed:

The word "boy" could not refer to him; he is *un garçon*. You could think that this is trivial, that "*garçon*" simply means "boy", but that is missing the point. Similarly, *maman* and *papa* are people; "mother" and "father" are notions.

(t.141)

Yn aml bydd rhaid i unigolion sy'n byw rhwng dwy iaith ddefnyddio cymysgedd o'u hieithoedd wrth drafod eu bywydau. Trafodwyd yr anhawster hwn gan Montes-Alcalá (2013). Wrth drafod ei bywyd Americanaidd â ffrindiau Sbaeneg, anodd iawn oedd canfod gair Sbaeneg am *brunch*, felly roedd yn arferol ganddi gadw'r term yn y Saesneg, gan ychwanegu esboniad os nad oedd y gwrandäwr yn ei ddeall. Bydd y diffyg hwn mewn iaith – boed yna ddiffyg gair yn gyfan gwbl yn yr iaith₁, neu fod yna ystyr arbennig

ynghlwm wrth air, fel yn achos Sante – yn aml yn golygu bod y siaradwr yn troi at fenthyca neu gyfnewid gair unigol.

Cred rhai ysgolheigion fod y pwnc sy'n cael ei drafod yn peri i unigolyn dwyieithog newid iaith. Casgliad Fishman, Copper a Ma yn eu hymchwil i iaith unigolion Puerto Ricaidd yn Efrog Newydd oedd bod trafod un o bump o feysydd penodol yn ysgogi'r unigolyn i droi at y Sbaeneg: teulu, cyfeillgarwch, crefydd, cyflogaeth ac addysg (1971 yn: Romaine 1989 t.29). Fodd bynnag, mae ysgolheigion eraill o'r farn mai'r grŵp yw'r elfen bwysicaf mewn cyfnewid cod. Trafoda Gumperz pa fath o unigolion sy'n cyfnewid cod:

Code switching is perhaps most frequently found in the informal speech of those members of cohesive minority groups in modern urbanizing regions who speak the native tongue at home, while using the majority language at work and when dealing with members of groups other than their own.

(1982 t.64)

Ar gyfer ei ymchwil, recordiodd Gumperz sgwrs nifer o siaradwyr, o gefndir Awstriaidd-lwgoslafaidd (dwyieithog Slofeneg ac Almaeneg), Indiaidd (yn siarad Hindi ond yn cael addysg yn y Saesneg) ac Americanwyr o gefndir *Latino* (yn gweithio neu'n astudio yn y Saesneg, ond yn siarad y Sbaeneg adref). Dywed Gumperz 'speakers in all three situations readily identify Slovenian, Hindi and Spanish respectively as the 'we' code, suitable with kin and close friends. German and English serve as 'they' codes to be used with outsiders or for special types of formal discourse' (1982 t.73). Gwelir felly fod y cyd-siaradwyr yn bwysig wrth i'r unigolion hyn ddewis iaith, ond eu bod hefyd yn ystyried y sefyllfa – 'special types of formal discourse', yng ngeiriau Gumperz.

Gwelir enghraifft arall o effaith grwpiau cymdeithasol ar gyfnewid cod yng ngwaith Elías-Olivares, a astudiodd batrymau iaith cymuned Sbaeneg yn Austin, Tecsas, gan greu continwwm iaith i esbonio'r cyfnewid. Ceir diagram o'r continwwm isod:





FIGURE 1. Spanish/English continuum (Elías-Olivares, 149).

Ffigur 3: Continwwm Sbaeneg-Saesneg Elías-Olivares

(Elías-Olivares, 1976, yn: Pfaff 1979 t.292)

Dadleua Elías-Olivares bod lefelau gwahanol o gyfnewid yn cael eu defnyddio gan wahanol unigolion neu is-grwpiau yn y gymdeithas. Er enghraifft, mae pobl ifanc mewn ysgol uwchradd yn dewis defnyddio Español Mixtureado, oherwydd ei fod yn rhywbeth gwahanol i'r arfer (Yn: Pfaff 1979 tt.292–3). Crëwyd diagram gwreiddiol gennyf er mwyn disgrifio'r continwwm iaith rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn seiliedig ar ddiagram Elías-Olivares:



Ffigur 4: Continwwm Iaith Cymraeg-Saesneg

Mae ‘Cymraeg Safonol’ a ‘Saesneg Safonol’ yn categorïau amlwg eu hystyr – dyma iaith sy’n “gywir” ac yn weddol ffurfiol. Byddai ‘Cymraeg Anffurfiol’ yn Gymraeg sy’n cynnwys ambell i air Saesneg; ‘Cymraeg Anffurfiol lawn’ yn Gymraeg â llawer o eiriau Saesneg; “*Wenglish*”¹ yn Saesneg â llawer o eiriau Cymraeg; a ‘Saesneg Cymreig’ yn Saesneg â rhai geiriau Cymraeg (neu eiriau Saesneg sy’n deillio o’r Gymraeg e.e. *moidering*, neu drefn brawddeg sy’n nodweddiadol o Gymry di-Gymraeg e.e. ‘Where’s he to?’ gan frodorion Caerdydd).

Nodir bod y chwe chategori hyn wedi eu seilio ar categorïau Elías-Olivares, ac felly nid oes categori yn union yng nghanol y continwmm, categori sy’n dangos ieithwedd sy’n gymysgedd cyfartal, 50% o’r ddwy iaith. Oherwydd hyn, mae un iaith bob amser yn darparu mwy o elfennau i’r ieithwedd o dan sylw. Os dymunir dangos enghraifft o ieithwedd sy’n gymysgedd cyfartal o’r ddwy iaith, yna efallai mai addasu model Elías-Olivares yw’r ateb, a defnyddio pum categori yn unig. Mae ‘Cymraeg Anffurfiol lawn’ a “*Wenglish*” yn categorïau tebyg: tybiaf y byddai damcaniaeth Myers-Scotton (1993) am y fframwaith iaith fatrics o ddefnydd yma i wahaniaethu rhyngddynt, er mwyn darganfod pa iaith yw ‘prif’ iaith y datganiad. Yn debyg i *Español Mixtureado*, mae ‘Cymraeg Anffurfiol lawn’ yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan siaradwyr ifanc. Mae’n debyg y byddai’n bosibl creu continwmm iaith ar gyfer unrhyw bâr o ieithoedd sydd â nifer o siaradwyr. Dylid nodi nad yw siaradwr yn defnyddio un math o iaith drwy’r amser, ond

¹ Nodir bod ‘*Wenglish*’ yma yn golygu iaith sy’n gymysgedd o’r Gymraeg a’r Saesneg. Defnyddir y term gan rai ar gyfer ieithwedd arbennig Saesneg yn ne Cymru, ond nid dyma sydd dan sylw yma.

yn hytrach yn amrywio ar hyd y continwmm iaith yn ôl yr achlysur, gan fod pob siaradwr yn meddu ar y gallu i gynhyrchu mwy nag un math o iaith.

Datblygodd Giles theori ymgymhwysio iaith (defnyddir y term 'speech accommodation theory' ganddo yn ei waith cynnar, cyn defnyddio 'communication accommodation theory' (CAT) yn fwy diweddar) er mwyn astudio'r ffordd y mae siaradwyr yn newid eu ffordd o siarad am nifer o resymau. Gall siaradwr ddewis (yn aml yn isymwybodol) siarad yn fwy tebyg i'w gyd-siaradwr (cydgyfeiriant neu *convergence*) neu siarad yn llai tebyg iddo (dargyfeiriant neu *divergence*) (Giles et al. 1991). Dywed Giles, Coupland a Coupland:

CAT proposes that speech convergence reflects, in the unmarked case, a speakers' or a group's need (often unconscious) for social integration or identification with another. (1991 t.18)

Felly, byddai modd dadlau bod rhai siaradwyr yn defnyddio mwy o gyfnewid cod er mwyn apelio at eu cyd-siaradwyr. Gallai hyn hefyd fod yn rheswm pam y gwneir hyn gan awduron, er mwyn apelio at ddarllenwyr sy'n defnyddio cyfnewid cod yn eu hiaith bob dydd.

1.2.1.a Modelau Cyfnewid Cod

Er mwyn deall cyfnewid cod mewn sgwrs yn well, mae'n gyffredin gan ysgolheigion rannu'r cyfnewid cod yn wahanol gategoriâu. Penderfyna Gumperz rannu'r cyfnewid yn chwe chategori:

1. Quotations / Reported speech
2. Addressee specification (h.y. newid pwy ydych am siarad â hwy)
3. Interjections (ebychiadau neu fillers – ‘vocal ticks’ fel y mae Gumperz yn eu disgrifio)
4. Reiteration (yn union neu â man newidiadau; er mwyn egluro neu bwysleisio)
5. Message qualification (cystrawennau disgrifiadol)
6. Personalization vs. Objectivization (agosáu neu bellhau)

(1982 tt.75–80)

Gellir ystyried disgrifio neges fel dewis strwythurol (gwahanu'r pwnc a'r disgrifiad ohono) neu fel dewis o hwylustod (haws esbonio yn laith₁), er enghraifft:

The oldest one, *la grande la de onze años*
 (The big one who is eleven years old) (t.79)

Mae ffocws Auer ychydig yn wahanol, gan iddo geisio diffinio cyfnewid cod yn ôl loci sgyrsiol (h.y. lle mewn brawddeg y gall cyfnewid ddigwydd) yn hytrach na'r rheswm dros y cyfnewid, er bod peth tebygrwydd rhwng y categorïau:

- (i) reported speech
- (ii) change of participant constellation, particularly addressee selection – this includes the use of code-switching in order to include/exclude/marginalise co-participants or bystanders
- (iii) parentheses or side-comments
- (iv) reiterations, i.e. quasi-translations into the other language, for example for the purpose of putting emphasis on demands or requests, or for the purposes of clarification, or for attracting attention, e.g. in the regulation purposes of turn-taking (also called ‘translations’, ‘repetitions’ or ‘recycling’)
- (v) change of activity type, also called ‘mode shift’ or ‘role shift’
- (vi) topic shift
- (vii) puns, language play, shift of ‘key’
- (viii) topicalisation, topic/comment structure.

(1995 t.120)

Gwelwn yn y tabl isod (tabl 1) fod patrymau amlwg yn ymddangos wrth gymharu categorïau cyfnewid Gumperz (1982) ac Auer (1995). Daw'r categorïau o waith y ddau fel y gwelwyd uchod, ond cyfieithwyd y termau i'r Gymraeg. Gosodir rhifau yn y golofn chwith er mwyn dangos gorgyffyrddiadau rhwng y categorïau. Bydd y rhain yn dod yn fwy pwysig wrth inni drafod mwy o gategoriâu mewn tablau diweddarach. Fel y trafodwyd uchod, cawn chwe chategori gan Gumperz ac wyth gan Auer. Mae pedwar o'r rhain yn gorgyffwrdd, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Penderfynwyd bod 'disgrifio neges' Gumperz a 'strwythuro pwnc / sylwadau' Auer yn cyfateb, oherwydd eu bod yn cyfeirio at ddewis strwythurol gan y sgwrsiwr (er ein bod eisoes wedi trafod y gallai hyn fod yn ddewis er hwylustod yn ogystal). Gwelir bod Gumperz ac Auer yn cytuno ar bedwar categori, sef: 'dyfynnu/sgwrs anuniongyrchol', 'newid cyd-siaradwr', 'ailadrodd' a 'disgrifio neges/strwythuro pwnc/sylwadau'. Wrth gymryd i ystyriaeth y gorgyffyrddiadau hyn, a'r categorïau unigryw gan Auer a Gumperz, gwelir bod deg categori gwahanol yn nhabl 1 isod:

	Gumperz (1982)	Auer (1995)
1	Dyfyniad (gan gynnwys sgwrs anuniongyrchol)	Sgwrs anuniongyrchol
2	Dewis cyd-siaradwr	Newid cyd-sgwrsiwr (cynnwys neu gau allan rhywun o fewn clyw)
3	Ailadrodd (eglhurhad)	Ailadrodd
4	Disgrifio neges	Strwythuro pwnc/sylwadau
5	Agosáu neu bellhau	–
6	Ebychiad	–
7	–	Geiriau mwys, chwarae â geiriau, newid cywair
8	–	Newid pwnc
9	–	Newid y math o weithgaredd (newid dull neu rôl)
10	–	Sylw mewn cromfachau neu neilleb

Tabl 1: Categoriâu Cyfnewid Cod ar Lafar

1.2.2 Cyfnewid Cod Ysgrifenedig

Cafwyd trafodaeth uchod yn canolbwyntio ar gyfnewid cod mewn iaith lafar. Ond mae cyfrwng arall ar gael wrth gyfathrebu, sef ysgrifennu. Mae cyweiriau gwahanol wrth ysgrifennu, o'r anffurfiol (ar *Twitter* neu rai blogiau personol ar y we, er enghraifft) i'r ffurfiol (fel traethawd PhD). Edrychwn yn gyntaf ar ochr anffurfiol y sbectrwm. Trafoda McClure (1998) gyfnewid cod ysgrifenedig ym Mecsico, Sbaen a Bwlgaria, ac mae'r categorïau hyn yn deillio o'r corpora Mecsicanaidd a Sbaenaidd. Dyma'r categorïau a ddefnyddir gan McClure ar gyfer ei hastudiaeth:

- (I) lack of a good Spanish translation;
- (II) lack of a set Spanish word or phrase;
- (III) greater explicitness of the English form;
- (IV) desire to play with well-known English phrases;
- (V) emphasis through repetition;
- (VI) simple quotation;
- (VII) quotation to reproduce a style of of [sic] speech;
- (VIII) creation of a sarcastic, satirical, or ironic tone;
- (IX) creation of a sophisticated tone; and
- (X) creation of an erudite tone.

(1998 t.134)

Mewn erthygl ddiweddarach astudia McClure (2001) gyfnewid cod Asyrieg-Saesneg, gan ddefnyddio fforymau ar-lein, posteri, pamffledi, a gwahoddiadau fel deunydd ymchwil. Nid yw'r iaith a ddefnyddir mewn fforwm ar-lein yn perthyn i'r un cywair â thraethawd, hyd yn oed os yr un unigolyn sy'n cynhyrchu'r ddwy enghraifft. Dyma'r categorïau a ddefnyddir gan McClure ar gyfer ei herthygl:

1. Lexical Gaps (diffyg term sy'n cyfateb i'r Saesneg yn Asyrieg²)
2. Differences in connotations
3. Clarification (os teimla'r siaradwr nad yw'r gair Asyrieg yn ddigon eglur)
4. Emphasis
5. Switch of interlocutors (newid cyd-siaradwyr)

(2001 tt.180–5)

Gwelir bod McClure yn defnyddio llai o gategorïau erbyn 2001: dim ond pump a ddefnyddir yn 2001 o gymharu â deg yn 1998. O edrych ar y tri chategori o 1998 – creu tŷn sarcastig, ddychanol neu eironig; creu tŷn soffistigedig; a chreu tŷn wybodus – gallai'r rhain hefyd gyfateb i'r categori 'gwahaniaeth mewn arwyddocâd' yn McClure 2001. Fodd bynnag, dangosir

² Dywed McClure bod geiriau benthg o ieithoedd eraill yn broblematic gan fod siaradwyr Asyrieg yn dod o amryw eang o wledydd gwahanol, ac felly'n meddu ar sgiliau ieithyddol gwahanol iawn; mae defnyddio'r Saesneg yn datrys y broblem hon, gan ei bod hi'n fwy tebygol y byddai'r cyd-siaradwr yn deall y gair Saesneg nag yn deall yr un iaith₂ a'i gilydd (2001 t.180).

hwy ar wahân yma, gan fod 'gwahaniaeth mewn arwyddocâd' y cyfateb orau i 'gwell eglurhad yn y Saesneg', a bod y tri chategori 'creu tôn' yn cyfateb i gategori 'materion arddulliol' Montes-Alcalá. Mae'r categori newydd cynhwysfawr yn llawer mwy effeithlon, gan fod yr effeithiau y mae siaradwyr am eu creu yn niferus tu hwnt, os nad yn ddi-rif. Diddorol nodi nad yw'r categori 'dyfynnu' o 1998 wedi ail-ymddangos yn 2001, ond byddai'r categorïau dadansoddi yn amrywio rhwng corpora, gan fod y categorïau yn cael eu creu wrth ymateb i'r corpws.

Ceir astudiaeth debyg i astudiaethau McClure gan Montes-Alcalá (2001), sy'n mynd ati i ddadansoddi'r defnydd o iaith yn ei dyddiaduron. Eto, mae'r iaith mewn dyddiadur yn anffurfiol, ac o'r herwydd efallai yn fwy tebyg i'r cyfnewid sydd i'w gael ar lafar. Dyma'r categorïau a ddefnyddir ganddi i ddadansoddi'r dyddiaduron:

1. Direct quotes
2. Emphasis
3. Clarification or elaboration
4. Parenthetical comments
5. Idiomatic expressions (nodir bod modd eu cyfieithu, ond ei bod yn anodd cael yr union ystyr yn y Sbaeneg)³
6. Linguistic routines or clichés
7. Symmetric alternation (er mwyn cadw cyfnewid yn gytbwys)
8. Triggers (gair sy'n achosi i'r geiriau sy'n dilyn/dod cynt i droi at yr un iaith)
9. Stylistic matters
10. Lexical need (diffyg gair cyfystyr, neu heb yr union ystyr)

(2001 tt.198–210)

Mewn astudiaeth fwy diweddar, dadansodda Montes-Alcalá (2007) gyfres o flogiau dwyieithog Saesneg-Sbaeneg, sydd eto mewn arddull anffurfiol,

³ Noda Montes-Alcalá 'the fact that the situations [the idiomatic expressions] describe took place in the United States triggers the use of English. It is very likely that the same action taken place in a Hispanic environment would be expressed with a Spanish idiom. The same applies to the linguistic routines or clichés' (2001 t.204)

tebycach i arddull iaith lafar. Y categorïau isod a ddefnyddiwyd yn yr achos

hwn:

1. Lexical Items (diffyg gair cyfystyr; cysylltiad â deuddiwylliannedd y siaradwyr)
2. Triggered Switches
3. Quotes (uniongyrchol ac anuniongyrchol)
4. Elaboration
5. Tags (esbonnir gan Montes-Alcalá fel 'examples where code-switching obeys linguistic routines or idiomatic expressions' (t.168), ac mae yma eto gysylltiad â deuddiwylliannedd y siaradwr)
6. Emphatic ('foregrounding', weithiau'n ailadrodd hefyd)
7. Free (y swyddogaeth yn amwys, neu'n gyfuniad eclecticig o'r categorïau eraill; gallai fod yn swyddogaeth arddulliol)

(2007 tt.167–9)

Cawn dri chategori hollol newydd gan Montes-Alcalá, sef cyfnewid enynnol (*triggers* neu *triggered switches*) (2007; 2001), eilededd er cytbwysedd (*symmetric alternation*) (2001) a chyfnewid rhydd (*free*) (2007). Mae cyfnewid enynnol yn ddarn o gyfnewid hirach sydd wedi ei achosi oherwydd un gair. Gwelir esiamplau eraill o'r math hwn o gyfnewid yng ngwaith Clyne (1987) a Valdes Fallis (1976 Yn: Grosjean 1982 t.151). Dangosir y gair enynnol mewn ffont drom:

*Estuvimos **hanging out** for a while y luego volvi a la habitación.*

We were hanging out for a while and then I returned to the room.

(Montes-Alcalá 2001 t.206)

*A las 10.30, **wake-up call**. We were so sleepy!*

At 10.30, wake-up call. We were so sleepy!

(t.207)

Gwelir bod gair neu derm yn y Saesneg yn achosi i'r siaradwr droi at y Saesneg yn y geiriau sy'n dilyn, neu weithiau'n dod cyn y gair enynnol.

Mae McClure (1998; 2001) a Montes-Alcalá (2001; 2007) wedi dadansoddi'r cyfnewid yn ôl categorïau gwahanol. Ceir tabl 2 isod yn cynnwys y categorïau hyn â'r enwau gwreiddiol wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Nodir bod colofnau gwag oherwydd ein bod yn dilyn patrwm tabl 1 (gweler y rhifau yn y golofn chwith), ond nad yw rhai o gategorïau Gumperz ac Auer yn ymddangos yng ngwaith McClure a Montes-Alcalá. Cyfateba'r rhifau yn y golofn chwith i'r rhifau yn nhabl 1. Mae rhai ysgolheigion yn defnyddio dau gategori, sy'n cyfateb i un categori yn unig yng ngwaith eraill. Sylwer ar y rhifau yn y golofn chwith er mwyn amlygu'r gorgyffyrddiadau. Os ydynt yn cael eu disgrifio gan enwau gwahanol gan yr ysgolheigion, cedwir y gwahaniaeth mewn enw am y tro. Ceir chwe chategori newydd, er eu bod yn ymddangos o dan enwau gwahanol yng ngwaith rhai o'r ysgolheigion. Penderfynwyd bod digon o orgyffwrdd rhwng ailadrodd, egluro a phwysleisio iddynt oll ddod o dan 'categori 3', yn enwedig gan fod dau gategori gan rai yn cyfateb i un categori yng ngwaith eraill. Defnyddir y nodiad { er mwyn amlygu mai un categori sy'n meddu ar amryw o enwau sydd dan sylw, yn hytrach na chategorïau gwahanol.

	McClure (1998)	McClure (2001)	Montes-Alcalá (2001)	Montes-Alcalá (2007)	
}	1	Dyfyniad syml	–	Dyfynnu	Dyfyniadau
	1	Dyfyniad i efelychu arddull o siarad	–	–	–
	2	–	Newid cyd-sgwrsiwr	–	–
}	3	–	Eglurhad	Egluro/Ymhelaethu	Ymhelaethu
	3	Pwyslais drwy ailadrodd	Pwyslais	Pwyslais	Pwysleisiol
	4	–	–	–	–
	5	–	–	–	–
	6	–	–	–	–
	7	Eisiau chwarae ag ymadrodd adnabyddus yn y Saesneg	–	–	–
	8	–	–	–	–
	9	–	–	–	–
	10	–	–	Sylw mewn cromfachau	–
}	11	Diffyg gair neu ymadrodd Sbaeneg	Llenwi bylchau geirfaol	Angen geirfaol	Eitemau Geirfaol
	11	Diffyg cyfieithiad Sbaeneg	–	Dywediadau Idiomatig	–
	11	–	–	Arferion Ieithyddol a Clichés	Tagiau
	12	Gwell eglurhad yn y Saesneg	Gwahaniaeth mewn arwyddocâd	–	–
}	13	Creu tôn sarcastig, ddychanol neu eironig	–	Materion Arddulliol	–
	13	Creu tôn soffistigedig	–	–	–
	13	Creu tôn wybodus	–	–	–
	14	–	–	Enynnol	Enynnol
	15	–	–	Eilededd er cytbwysedd	–
	16	–	–	–	Rhydd

Tabl 2: Categoriâu Cyfnwid Ysgrifenedig

Mae pedwar o gategoriâu McClure a Montes-Alcalá yn cyfateb i gategoriâu Gumperz ac Auer o dabl 1, ac mae chwe chategori newydd yn ogystal (categoriâu 11–16). Gwelir bod y categori pwysleisio, egluro neu ymhelaethu yn ymddangos yng ngwaith McClure (1998; 2001) a Montes-Alcalá (2001; 2007): gellir hefyd gysidro ‘disgrifio neges’ (Gumperz 1982 t.79) fel categori tebyg, gan fod disgrifio neges, wrth roi mwy o wybodaeth, yn fath o ymhelaethu. Diddorol nodi bod sylw mewn cromfachau yn ymddangos yng ngwaith Montes-Alcalá, gan adleisio categori tebyg Auer (1995). Mae’r tri enw yng nghategori 11 (angen geirfaol, dywediadau idiomatig ac arferion ieithyddol/clichés) wedi eu grwpio gyda’i gilydd oherwydd i Montes-Alcalá ei hun benderfynu yn fwy diweddar (2013) eu bod yn cyfateb i un categori yn ei barn hi erbyn hyn – gwelir hyn yn fanylach mewn tabl diweddarach yn y bennod hon. Mae’n drawiadol nad oes categori tebyg i’r ‘angen geirfaol’ wedi ymddangos yng ngwaith Auer na Gumperz, yn enwedig gan mai dyma’r categori sydd â’r nifer mwyaf o enghreifftiau yng nghorpws Montes-Alcalá, yn cynrychioli 27.6% yn ei hastudiaeth o flogiau (2007 t.167) – ond gan mai loci sgysiol yn hytrach nag ysgogiad cyfnewid oedd ffocws gwaith Auer, efallai fod yr amrywiaeth hwn yn ddealladwy.

1.2.3 Cyfnewid Cod mewn Llenyddiaeth

Trafodwyd eisoes y gwahaniaeth rhwng cyfnewid mewnfrwddegol a rhyngfrwddegol. Mae’r gwahaniaeth rhwng y ddau yn rhan allweddol o drafodaeth Lipski (1982) o lenyddiaeth sy’n defnyddio cyfnewid cod. Rhanna Lipski lenyddiaeth sy’n defnyddio cyfnewid cod yn dri math gwahanol.

Mae Math I yn destun unieithog mewn gwirionedd, ‘perhaps with a handful of L₂ words thrown in for flavor’ (1982 t.195). Gwelir yn aml eiriau sy’n hawdd

i'w cyfieithu neu eiriau nad ydynt yn ganolog i ystyr y darn yn cael eu defnyddio, fel ebychiadau neu enwau aelodau o'r teulu. Mae cyfnewid o'r math hwn yn gyffredin mewn testunau sydd am ddefnyddio un iaith, ond hefyd am ddangos hunaniaeth gwahanol gymeriadau, neu apelio at ddarllenwyr dwyieithog heb atal dealltwriaeth darlennydd uniaith. Er enghraifft, yng ngwaith María Amparo Ruiz, 'Spanish is used sparingly and selectively, avoiding alienation of the potential monolingual readership' (Moyna 2008 t.236), sy'n allweddol i'w gwaith gan fod Ruiz eisiau cyrraedd cynulleidfa Saesneg, ond am ddangos cymeriadau sy'n amlwg *Latino*. Trafoda Vasatka (2013) y gwahanol ffyrdd o sicrhau dealltwriaeth darllenwyr llyfrau plant Saesneg-Sbaeneg heb sgiliau dwyieithog cryf. Amlyga bedair strategaeth: cyfochri (rhoi cyfieithiad Saesneg yn yr un frawddeg); diffiniad uniongyrchol (e.e. "Pan Dulce is Mexican sweet bread" (Wing 1996 Yn: Vasatka 2013 t.62)); diffinio gair yn ddiweddarach (e.e. rhestr geirfa); awgrymu (e.e. defnyddio lluniau) (2013 tt.95–6).

Mae Math II yn destun dwyieithog sy'n defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol, efallai gyda llinellau o gerddi neu frawddegau llawn o ryddiaith mewn un iaith neu'r llall. Yma, mae'r cyfnewid yn digwydd ar ffin brawddegau neu gymal; nid yw'r ddwy iaith wir yn cysylltu'n glòs. Dadleua Lipski nad yw'r math hwn o destun yn profi cryfder sgiliau ieithyddol yr awdur yn y ddwy iaith. Honna fod Math III, sef testun dwyieithog â chyfnewid mewnfrawddegol, yn fwy nodweddiadol o "'compound-bilingual" who has learned both languages at approximately the same time and in similar or identical contexts' (1982 t.195). Ymdebyga hyn i drafodaeth Poplack am y sgiliau iaith angenrheidiol ar gyfer mathau o gyfnewid. Mae hi'n galw cyfnewid mewnfrawddegol yn

gyfnewid cymhleth neu glòs (*complex or intimate switching*) (1980 t.589).

Wrth drafod cyfnewid mewnfrawddegol, dadleua Joshi mai mewn cyfnewid o'r math hwn y byddwch yn gweld 'that the two language systems are systematically interacting with each other in the production (and recognition) of the mixed sentences' (1985 t.190). Gwelir, felly, fod peth consensws o safbwynt y math o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen er mwyn defnyddio a deall cyfnewid cod mewnfrawddegol. Dadleir bod cyfnewid cod rhyngfrawddegol yn "haws", ac y gall siaradwyr llai rhugl ddefnyddio cyfnewid fel hyn, tra bo cyfnewid mewnfrawddegol yn golygu bod rhaid i'r siaradwr fod yn weddol alluog yn y ddwy iaith. Mae hyn oherwydd bod angen gwybodaeth drylwyr o ramadeg y ddwy iaith er mwyn creu brawddegau a fydd yn gwneud synnwyr.

Fel y gwelwyd uchod, defnyddir categorïau i ddadansoddi cyfnewid mewn corpora llafar ac ysgrifenedig (nad ydynt yn llenyddol). Defnyddir categorïau ar gyfer dadansoddi cyfnewid cod mewn llenyddiaeth yn ogystal. Cawn bedwar awdur yn defnyddio'r dull hwn i ddadansoddi eu corpws o lenyddiaeth; Callahan (2004); Albakry a Hancock (2008); a Montes-Alcalá (2013; 2012). Mewn gwirionedd, mae Callahan yn defnyddio dau fath o gategorïau; un math yn ymwneud â gramadeg, a'r math arall yn dadansoddi ysgogiad neu swyddogaeth y cyfnewid cod. Dyma ei hesboniad o'i chategorïau cystrawennol sy'n ymwneud â gramadeg y cyfnewid:

The syntactic categories used for tabulation are divided into three groups, as follows:

Single lexical items: noun, adjective, adverb, verb, preposition, conjunction, interjection

Phrases: NP, AdjP, AdvP, VP, PP

Clauses: independent (including coordinate), Subordinate

(Callahan 2004 t.47)

Nodir hefyd mewn troednodyn: 'Interjections include vocatives, expletives, discourse markers, and some exclamations' (2004 t.47). Er bod sôn gan ysgolheigion am batrymau defnydd (*patterns of usage*) geiriau o wahanol ddisbarthiadau gramadegol wrth gyfnewid cod, mae'n ddiddorol eu gweld yn cael eu defnyddio i ddadansoddi corpws llenyddol. Defnyddir hefyd wyth categori arbennig ar gyfer dadansoddi ysgogiad neu swyddogaeth y cyfnewid cod, neu categorïau swyddogaeth disgwrs, i ddefnyddio term

Callahan:

The discourse function categories I chose are: (1) referential; (2) vocatives; (3) expletives; (4) quotation; (5) commentary and repetition; (6) set phrases, tags, and exclamations; (7) discourse markers; and (8) directives.

(2004 t.70)

Noda Callahan iddi greu'r wythfed categori (*directives* neu orchmyinion) mewn ymateb i'w chorpws, sy'n bwysig i'w gofio: ymateb i'r corpws y mae ysgolheigion wrth greu categorïau, ac felly dyma pam mae cymaint o amrywiaeth yn enwau'r categorïau hyn. Nid oes rhestr awdurdodol, derfynol eto'n bodoli o'r holl fathau o gyfnewid cod sy'n bosibl, oherwydd eu bod yn dibynnu ar y disgwrs, ac mae'r maes yn rhy ifanc i allu trafod yr holl fathau o ddisgwrs sy'n bodoli ym mhob pâr o ieithoedd.

Cawn hefyd categorïau gan Albakry a Hancock yn eu dadansoddiad o gyfnewid cod yn *The Map of Love*, nofel gan awdures Eifftaidd-Brydeinig, Ahdaf Souief. Defnyddir chwe chategori ganddynt:

- (1) traditional honorific titles and terms of respect
- (2) references to customs and tradition (yn cynnwys dillad a bwyd)
- (3) historical references (trafod hanes 'without presupposing prior detailed knowledge' (t.227))
- (4) greetings and conversational formulas
- (5) inter-language dialectal variation (symud rhwng Arabeg safonol a'r amrywiaeth Eifftaidd)
- (6) translational transfer (defnyddio dywediad Arabeg yn y Saesneg – 'in other words, the characters are in fact speaking Arabic but using English words' (t.230))

(2008 tt.226–230)

Sylwer bod llawer o'r categorïau hyn yn cyfateb i angen ieithyddol (h.y. nid yw'r geiriau neu'r termau hyn yn bodoli yn y Saesneg): enwau o ran parch; cyfeirio at draddodiad; cyfeirio at hanes; cyfarchion ac arferion sgrysiol.

Maent hefyd yn galluogi Souief i ddangos cysyniadau diwylliannol a marcio hunaniaeth ei chymeriadau'n debyg i arddull María Amparo Ruiz gyda'i chymeriadau *Latino* (Moyna 2008). Tybier bod Souief yn defnyddio cyfnewid cod o'r math hwn yn hytrach na chyfnewid cod mwy cymhleth oherwydd byddai cyfnewid cod felly wedi rhwystro darllenwyr uniaith Saesneg rhag deall yr ystyr. Os yw'r gynulleidfa darged yn ddarllenwyr dwyieithog, mae modd i'r awdur ddefnyddio cyfnewid cod mwy cymhleth; os oes angen cadw'r iaith yn syml, gwelwn ddulliau eraill o gyfnewid cod yn digwydd, fel yr amlygir yn erthyglau Moyna (2008) neu Vasatka (2013) a drafodwyd uchod. Yn ogystal, mae Albakry a Hancock yn cofnodi ym mha bennod y mae'r cyfnewid cod yn digwydd. Dywedant:

The number of Arabic utterances introduced into the English narrative seems to fluctuate with peaks and valleys as the novel progresses. This phenomenon, however, is conditioned by narrative necessities because the more noticeable increases in code switching occur mainly in certain chapters to mark significant events.

(2008 t.224)

Gwelir, felly, fod y defnydd o gyfnewid cod yn amrywio drwy'r testun, a bod cysylltiad i'w weld rhwng y ddyfais a'r digwyddiadau yn y plot.

Ceir eto gyfraniad gan Montes-Alcalá wrth iddi ddefnyddio categorïau i ddadansoddi nofelau Sbaeneg-Americanidd (2012; 2013). Ymdebyga'r categorïau hyn i'r rhai a ddefnyddir ganddi er mwyn dadansoddi ei dyddiaduron:

- (1) lexical need
- (2) clarification
- (3) stylistic
- (4) idiomatic expressions
- (5) emphasis
- (6) quotations
- (7) triggered switches

(2012 tt.74–5)

Mae Montes-Alcalá hefyd yn cyfuno rhai categorïau tebyg, gan egluro bod hyn er budd eglurdeb a chynildeb: cyfunir 'sylwadau mewn cromfachau' ag 'eglhurhad ac ymhelaethu'; grwpwyd 'tagiau', 'arferion ieithyddol' a 'marcwyr disgwrs' yn un categori; a chafodd 'strwythurau ffocws/pwnc' eu cynnwys yn y categori 'pwyslais'. Erbyn 2013, roedd Montes-Alcalá wedi ailystyried y categorïau hyn, ac wedi penderfynu y gellid grwpio dau o'r categorïau hyn gyda'i gilydd, sef 'angen geirfaol' a 'dywediadau idiomatig'.

Eto, er hwylustod, trefnwyd y categorïau mewn tabl (tabl 3 isod), er mwyn amlygu patrymau rhwng gwaith y gwahanol ysgolheigion, a throswyd enwau'r categorïau i'r Gymraeg. Mae'r rhifau yn y golofn chwith yn cyfateb

i'r tablau a welwyd eisoes (tablau 1 a 2), a'r golofn nesaf ati yn symleiddio categorïau'r ysgolheigion a drafodwyd yn nhablau 1 a 2 (Gumperz 1982; Auer 1995; McClure 1998; 2001; Montes-Alcalá 2001; 2007). Nodir bod newid bychan i gategori 7. Dilëwyd 'newid cywair' Auer o'r categori hwn oherwydd ei fod mor debyg i 'materion arddulliol' (categori 13 yng ngwaith McClure a Montes-Alcalá). Mae categori 7 nawr yn cynnwys 'geiriau mwys, chwarae â geiriau, a newid cywair'. Penderfynwyd bod materion arddulliol a chwarae â geiriau'n dechnegau digon gwahanol i warantu eu gwahanu.

	<i>O dablau 1 a 2</i>	Callahan (2004)	Albakry a Hancock (2008)	Montes-Alcalá (2012)	Montes-Alcalá (2013)
1	Dyfyniadau	Dyfynnu	–	Dyfyniadau	Dyfyniadau
2	Newid cyd-siaradwr	–	–	–	–
3	Ailadrodd / egluro	Sylwadaeth ac ailadrodd	–	Egluro / Ymhelaethu	Egluro / Ymhelaethu
3	Pwyslais	–	–	Pwyslais	Pwyslais
4	Disgrifio neges / strwythuro pwnc / sylwadau	–	–	–	–
5	Agosáu neu bellhau	–	–	–	–
6	Ebychiad	Rhegfeydd a llwon	–	–	–
7	Chwarae â geiriau	–	–	–	–
8	Newid pwnc	–	–	–	–
9	Newid gweithgaredd (dull / rôl)	Gorchmynion	–	–	–
10	Sylw mewn cromfach	–	–	–	–
11	Angen geirfaol (yn cynnwys dywediadau, arferion ieithyddol a clichés)	Bwlch geirfaol (<i>referential</i>)	–	Angen geirfaol	Angen geirfaol / Idiomau / Arferion ieithyddol
11	–	Teitlau cyfarchol (<i>vocative</i>)	Teitlau ac enwau o ran parch	–	–
11	–	Ymadroddion, tagiau, ebychiadau	Cyfarchion ac arferion sgysiol	Idiomau / Arferion ieithyddol	–
11	–	Marcwyr disgwrs	–	–	–
11	–	–	Cyfeirio at draddodiad	–	–
11	–	–	Cyfeirio at hanes	–	–
12	Gwahaniaeth mewn arwyddocâd	–	–	–	–
13	Arddull (creu tôn arbennig)	–	–	Arddull	Arddull
14	Enynnol (<i>triggered</i>)	–	–	Enynnol	Enynnol
15	Eilededd er cytbwysedd	–	–	–	–
16	Rhydd	–	–	–	–
17	–	–	Amrywiaeth tafodieithol rhyngieithol	–	–
18	–	–	Trosglwyddiad cyfieithiadol	–	–

Tabl 3: Categoriâu Cyfnewid Cod mewn Llenyddiaeth

Oherwydd bod gwahaniaeth rhwng cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig, gellid disgwyl y byddai gwahaniaeth rhwng y categorïau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio cyfnewid cod yn y ddau gyfrwng hyn. Daw hyn i'r amlwg wrth edrych ar Montes-Alcalá yn dadansoddi cyfnewid cod ysgrifenedig mewn cyfryngau llai ffurfiol (ei dyddiadur) ac mewn llenyddiaeth (nofelau Sbaeneg-Americanidd). Gwelir bod tuedd ganddi i gyfuno categorïau tebyg er hwylustod yn ei hymchwil mwy diweddar, tra bo rhai ysgolheigion yn manylu ar un categori ac felly'n ei rannu'n is-gategorïau, er enghraifft Albakry a Hancock (2008) – defnyddiant bedwar categori gwahanol ar gyfer cysyniadau diwylliannol, sy'n cyfateb i fwch geirfaol yn y tabl hwn. Ceir tri chategori gan Callahan (2004) a allai fod wedi dod o dan gategori gwahanol; gwelir bod '*referential*', a roddir gyferbyn â 'blwch geirfaol' yma yn gallu cyfateb i 'gwahaniaeth mewn arwyddocâd', a 'gorchmynion' yn cyfateb i 'newid rôl', ond hefyd gallai gyfateb i 'agosáu/pellhau'. Efallai mai'r categori mwyaf amwys oedd 'sylwadaeth ac ailadrodd'; penderfynwyd ei roi gyferbyn ag 'ailadrodd / ymhelaethu / pwysleisio' yn hytrach na 'disgrifio neges / strwythuro pwnc / sylwadau' oherwydd i Callahan esbonio nad oedd 'sylwadaeth ac ailadrodd' yn cynnwys deunydd gwreiddiol (2004 t.72). Eto, mae'r amrywiaeth hwn yn ddisgwyliedig oherwydd bod y categorïau yn seiliedig ar gorpws o destunau, boed yn bosteri, yn bamffledi, yn ddyddiaduron, neu'n llenyddiaeth. Nid yr un ffordd o gyfathrebu sydd ym mhob testun, na'r un arddull ym mhob darn o lenyddiaeth, ac yn yr un modd nid yr un math o gyfnewid cod sydd i'w gael chwaith.

1.3 Crynodeb

Yn rhan gyntaf y bennod hon, gwelwyd bod peth anhawster yn y maes o safbwynt y derminoleg. Gobeithio y bydd y rhestr 'Terminoleg' o fudd wrth geisio datrys y broblem hon. Yn ogystal, archwiliwyd rhai canllawiau a ddefnyddir er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid a benthycia, er enghraifft techneg Deuchar (2006) o ddefnyddio GPC, a chanllawiau Poplack a Sankoff (1984). Trafodwyd rhai nodweddion gramadegol o'r Gymraeg a'r Ffrangeg a allai fod o gymorth wrth benderfynu ar integreiddiad geiriau Saesneg yn ogystal. Yna, trafodwyd cyfnewid cod mewn iaith lafar, ac edrych ar y gwahanol ffyrdd y mae ysgolheigion yn mynd ati i ddadansoddi cyfnewid cod. Archwiliwyd hefyd elfen ramadegol cyfnewid cod, gan gynnwys gwaith Gardner-Chloros, Joshi a Myers-Scotton, ynghyd â chyfyngiad cywerthedd Poplack. Gwelwyd bod cysylltiad rhwng cyfnewid cod a grwpiau cymdeithasol, er enghraifft continwmm Sbaeneg-Saesneg Elías-Olivarez a theori ymgymhwysio iaith Giles. Trafodwyd modelau Gumperz ac Auer ar gyfer dadansoddi cyfnewid cod, gan ddefnyddio gwahanol gategoriâu. Gwelwyd rhagor o gategoriâu eto wrth ddadansoddi cyfnewid cod ysgrifenedig, a hynny yng ngwaith McClure a Montes-Alcalá, ac wrth ddadansoddi cyfnewid cod mewn llenyddiaeth yng ngwaith Callahan, Albakry a Hancock a Montes-Alcalá. Daeth i'r amlwg bod rhai categorïau yn gyffredin yng ngwaith nifer o'r ysgolheigion, ond y ddau gategori a oedd yn ymddangos yng ngwaith y mwyafrif oedd categori 1 (dyfynnu) a chategori 3 (ailadrodd / pwysleisio / egluro / ymhelaethu). Gwelwyd bod gwahaniaeth rhwng cyfnewid cod ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan fod pedwar categori cyfnewid cod ar lafar nad oeddent yn ymddangos yn y categorïau cyfnewid cod ysgrifenedig: agosáu neu bellhau; ebychiad; newid pwnc; newid math o

weithgaredd. Yn yr un modd, cafwyd pum categori newydd wrth ddadansoddi deunydd ysgrifenedig: angen geirfaol / idiom / arfer ieithyddol; gwell eglurhad / gwahaniaeth arwyddocâd; arddull / creu tŷn arbennig; cyfnewid enynnol; eilededd er cydbwysedd; a chyfnewid rhydd. Gwelwyd categorïau newydd hefyd a ddefnyddir i ddadansoddi cyfnewid cod mewn llenyddiaeth, sef amrywiaeth tafodieithol rhyngieithol a throsglwyddiad cyfieithiadol (Albakry a Hancock). Penderfynwyd cyflwyno'r categorïau ar ffurf cyfres o dablau er mwyn dangos esblygiad y categorïau dan ddylanwad y gwahanol ysgolheigion. Er hwylustod, crëwyd tabl 4 isod er mwyn dangos yr holl gategorïau a drafodwyd eisoes, sef y rhai a welir yng ngwaith Gumperz (1982), Auer (1995), McClure (1998; 2001), Montes-Alcalá (2013; 2012; 2007; 2001), Callahan (2004) ac Albakry a Hancock (2008). Yr un categorïau sydd yma, ond iddynt gael eu symleiddio a'u cyfuno er mwyn eu dangos fel un gyfres o gategorïau.

1	Dyfyniadau
2	Newid cyd-siaradwr
3	Ailadrodd / Egluro / Pwyslais
4	Disgrifio neges / Strwythuro pwnc / Sylwadau
5	Agosáu neu bellhau
6	Ebychiad
7	Chwarae â geiriau
8	Newid pwnc
9	Newid gweithgaredd (dull/rôl)
10	Sylw mewn cromfach
11	Angen geirfaol (yn cynnwys dywediadau ac arferion ieithyddol a clichés)
12	Gwahaniaeth mewn arwyddocâd
13	Arddull (creu tôn arbennig)
14	Cyfnewid Enynnol (<i>triggered</i>)
15	Eilededd er cytbwysedd
16	Cyfnewid Rhydd
17	Amrywiaeth tafodieithol rhyngieithol (<i>inter-language dialectal variation</i>)
18	Trosglwyddiad Cyfieithiadol (<i>translational transfer</i>)

Tabl 4: Categoriâu Cyfnewid Cod (crynodeb)

Bydd tabl 4 o fudd er mwyn cymharu â'r categorïau a ddefnyddir fel rhan o fethodoleg y traethawd hwn.

Gwelwyd hefyd fod damcaniaeth Lipski (1982) wedi bod yn bwysig i Montes-Alcalá (2012) wrth iddi ddewis deunydd llenyddol i'w ddadansoddi: dim ond Math II a III a ddewiswyd ganddi – hynny yw testunau sy'n defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol a mewnfrawddegol, yn hytrach nag ambell i air yma a thraw (Math I Lipski). Bydd hyn yn bwysig ar gyfer dewis y nofelau i'w dadansoddi yn y traethawd hwn: mae angen digon o enghreifftiau o gyfnewid

cod er mwyn cynnal trafodaeth academaidd, ond nid oes angen perthynas neu debygrwydd rhwng y testunau, o reidrwydd.

1.4 Cymhwyso at y Gymraeg a'r Ffrangeg

Er nad oes llawer wedi cael ei ysgrifennu ar gyfnewid cod yn y Gymraeg na'r Ffrangeg, dylai'r gwaith sydd wedi ei wneud eisoes, y rhan fwyaf ohono ar y Sbaeneg, fod yn fan cychwyn ar gyfer y gwaith hwn ar nofelau Cymraeg a Ffrangeg-Canadaidd. Oherwydd bod gramadeg y ddwy iaith yn weddol debyg (e.e. mae gan enwau genedl, ac mae'n arferol cytuno ansoddeiriau ag enwau), gellid disgwyl gweld patrymau tebyg yn y dadansoddi. Yn ogystal, bydd o fantais mai cysylltiad ieithyddol â'r Saesneg sydd wedi dod o dan sylw nifer o'r ysgolheigion sydd wedi dadansoddi cyfnewid cod. Mae hyn oherwydd bod disgwyl y bydd peth tebygrwydd rhwng cyfnewid cod â'r Saesneg o'i gymharu â chyfnewid cod rhwng ieithoedd eraill (y Swedeg a'r Arabeg, er enghraifft).

O'r drafodaeth uchod, gwelwyd bod nifer o ysgolheigion wedi dadansoddi cyfnewid cod gan ddefnyddio categorïau penodol. Nodir nad yw'n debygol y bydd pob categori yn briodol wrth ddisgrifio cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg. Er enghraifft, mae 'amrywiaeth tafodieithol rhyngieithol' Albakry a Hancock (2008) yn ymwneud â'r defnydd o eiriau mewn Arabeg safonol, a geiriau yn nhafodiaith yr Aifft. Gan mai'r nod yw astudio'r gwahaniaeth rhwng cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg, yn hytrach nag amrywiaeth tafodieithol, mae hwn yn un o'r categorïau na fydd yn cael ei ddefnyddio yn y traethawd hwn. Prif amcan y gwaith ymchwil yw datblygu methodoleg sy'n adeiladu ar y dull o

ddadansoddi gan ddefnyddio categorïau. Bydd y fethodoleg newydd hon yn cael ei datblygu a'i phrofi drwy ddadansoddi'r nofelau dan sylw, a chreu astudiaethau achos o'r nofelau hyn. Trafodir y fethodoleg mewn mwy o fanylder yn y bennod nesaf.

1.5 Casgliadau

Wrth ddarllen llenyddiaeth gefndirol, ac wrth lunio'r bennod hon, daeth i'r amlwg bod angen gofal gyda'r defnydd o derminoleg yn y Gymraeg, yn enwedig gan fod llawer ohono yn newydd i'r Gymraeg. Mae'n arfer drwg yn y maes i gyfeirio at ffenomenau ieithyddol cymhleth sy'n defnyddio termau tebyg iawn, ond heb eu hegluro'n llawn i'r darllenwyr, efallai gan gymryd eu bod yn gyfarwydd â hwy eisoes. Mae hyn yn rhwystredig iawn i'r rhai sy'n dod i'r maes o'r newydd. Gwnaed ymdrech i osgoi hyn yn y traethawd hwn wrth lunio'r rhestr terminoleg. Yn y rhestr terminoleg, ceir diffiniad o dermau yn y Gymraeg, a'r term sy'n cyfateb yn y Saesneg, ac esboniad o rai theorïau canolog yn y maes, er enghraifft model fframwaith iaith fatrics Myers-Scotton.

Daeth i'r amlwg hefyd fod defnyddio categorïau i ddadansoddi cyfnewid cod yn ffordd hwylus o lunio trafodaeth. Dyma'r categorïau y penderfynwyd eu defnyddio⁴ er mwyn dadansoddi ysgogiad neu swyddogaeth y cyfnewid mewn nofelau yn y traethawd hwn:

⁴ Noder bod rhai o'r categorïau wedi eu rhoi o'r neilltu yn y lle cyntaf, er enghraifft newid cyd-sgwrsiwr, gan ei bod yn ymddangos na fyddent yn debygol o ymddangos mewn llenyddiaeth – nid oedd newid cyd-sgwrsiwr yng ngwaith Callahan, Albakry a Hancock na Montes-Alcalá wrth ddadansoddi llenyddiaeth. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r data a oedd yn y corpws, gwelwyd bod angen ei ail-ychwanegu at y rhestr o gategorïau i'w defnyddio gan fod esiampl wedi ei canfod mewn un o'r nofelau.

Dadansoddi ysgogiad neu swyddogaeth cyfnewid
Bwlch geirfaol
Ailadrodd / Egluro / Pwyslais
Dyfynnu
Ebychiad
Agosáu / pellhau
Newid cyd-sgwrsiwr
Creu tŷn arbennig
Cyfnewid enynnol
Cyfeirio

Tabl 5: Categoriâu Dadansoddi

Yn ogystal, teimlir y byddai diffinio cyfnewid cod yn ôl dosbarth gramadegol (ar gyfer geiriau unigol, enw, berf, ansoddair a.y.b.) hefyd o fudd er mwyn amlygu patrymau cyfnewid. O gofio trafodaeth Gardner-Chloros (2009) a Joshi (1985), dylid gweld patrymau yn ymddangos. Cofnodir hefyd hyd y darnau o gyfnewid, er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol. Byddwn hefyd yn nodi ym mha bennod y mae'r cyfnewid yn digwydd, er mwyn gweld a oes cysylltiad rhwng y cyfnewid cod a'r digwyddiadau yn y plot. Defnyddiwyd yr un dechneg gan Albakry a Hancock (2008). Penderfynwyd y byddai hefyd o fudd i ddadansoddi cyfnewid cod yn ôl maes semanteg, sef y pwnc y mae'r gair yn perthyn iddo; er enghraifft, sylwa Kathryn Jones fod nifer o siaradwyr Cymraeg yn dueddol o droi at y Saesneg er mwyn cyfrif neu ddweud pris eitem (1993). Mae'n amlwg, felly, fod rhai pynciau neu dasgau ieithyddol y mae siaradwyr yn fwy cyfforddus yn eu cwblhau mewn un iaith na'r iaith arall.

Prif nod yr ymchwil yw datblygu'r fethodoleg hon, sydd wedi ei ffurfio o sawl maes dadansoddi, a'i phrofi a'i mireinio drwy ddadansoddi pedair nofel.

Cymherir y cyfnewid cod sydd yn y nofelau er mwyn gweld a oes mathau

gwahanol o gyfnewid yn cael eu defnyddio. Byddwn hefyd yn cymharu'r nofelau Cymraeg â'r nofelau Ffrangeg-Canadaidd i weld aï'r un math o gyfnewid cod sydd mewn llenyddiaeth sy'n deillio o'r ddwy gymdeithas hyn, neu a oes sawl math o gyfnewid cod ar gael i awduron.

Pennod 2: Y Fethodoleg

2.1 Y Nofelau: Dewis testunau

Ar gyfer y traethawd hwn, roedd rhaid dewis sampl o nofelau i'w dadansoddi.

Yn wreiddiol, y bwriad oedd dadansoddi chwech i wyth o nofelau, ond oherwydd manylder y dadansoddi, dewiswyd pedair nofel yn unig i'w dadansoddi, dwy yn y Gymraeg a dwy yn y Ffrangeg. Y prif ystyriaethau wrth ddewis y testunau oedd bod digon o gyfnewid cod yn digwydd yn y nofelau er mwyn cynnal trafodaeth academaidd. Trafoda Montes-Alcalá y broses o ddewis ei chorpws o blith nofelau Americanaidd-Latino:

the only criterion for choosing these specific authors and novels was the simultaneous use of both Spanish and English in their narratives. Code-switching in these three novels [which form the corpus] is pervasive both in the narrative part and in the dialogs. Thus, the selection of texts and authors does not intend to be comprehensive nor representative of canonical US-Latino novelists by any means but rather a sample of bilingual fiction.

(2012 t.73)

Proses debyg oedd dewis y nofelau ar gyfer y dadansoddiad hwn – nid oedd criteria arbennig, dim ond bod y cyfnewid cod yn dreiddiol yn y testun (*pervasive* i ddefnyddio term Montes-Alcalá) ac yn digwydd yn y naratif yn ogystal ag yn y ddeialog – hynny yw, nid ambell ddarn o gyfnewid yma a thraw sydd yn y testun, ond mae esiamplau o gyfnewid cod trwy'r testun cyfan.

Aethpwyd ati felly i ddewis testunau'n seiliedig ar faint o gyfnewid cod oedd ynddynt. Roedd Llwyd Owen yn ddewis amlwg yn y Gymraeg, oherwydd i ieithwedd *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* gael cymaint o sylw wedi i'r nofel gael ei chyflwyno ar gyfer Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2005.

Penderfynwyd dadansoddi un o nofelau Twm Miall, ac fe ddewiswyd *Cyw Dôl* oherwydd ei fod yn dangos ieithwedd wahanol y prif gymeriad, Bleddyn, wrth siarad Saesneg o'i gymharu â siaradwyr uniaith Saesneg Caerdydd, a fyddai'n bwynt trafod diddorol.⁵ Canfyddais *Moncton Mantra* Gérald Leblanc wrth ddarganfod trafodaeth academaidd o'r cyfnewid cod yn y nofel, a meddwl y gallwn fynd â'r drafodaeth hon ymhellach. Dewiswyd *Danse Noire* gan Nancy Huston oherwydd ei bod yn llawn cyfnewid cod, yn cynnwys cymeriadau uniaith Saesneg, a hefyd yn dangos ieithwedd siaradwyr ail iaith yn debyg i *Cyw Dôl*. Mae tebygrwydd rhwng y pedair nofel, gan i *Cyw Dôl* a *Moncton Mantra* gael eu cyhoeddi tua'r un cyfnod (1990au), ac i *Ffawd Cywilydd* a *Chelwyddau* a *Danse Noire* gael eu cyhoeddi tua'r un cyfnod yn ogystal (2006 a 2013 yn ôl eu trefn). Creu astudiaethau achos yw bwriad y traethawd hwn, yn hytrach na chreu gorolwg hollgynhwysfawr o gyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg mewn llenyddiaeth. Y nod yw peilota'r fethodoleg er mwyn ei defnyddio mewn astudiaeth ehangach yn y dyfodol – ac o'r herwydd, gellid bod wedi dewis unrhyw destunau i wneud hyn, dim ond bod digon o gyfnewid cod ynddynt. Bydd darganfyddiadau'r gwaith dadansoddi yn arddangos ymddygiad ieithyddol yn y pedair nofel hyn, ynghyd â thueddiadau ieithyddol y pedwar awdur. Er hyn, mae modd i'r dadansoddiad hwn awgrymu rhai patrymau a thueddiadau ehangach o safbwynt cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg. Wrth fynd ati i ddadansoddi, nodir nad wyf yn dadansoddi *pob* gair sydd yn y testunau,

⁵ Diolch i Dr Llŷr Gwyn Lewis am dynnu fy sylw at y nofel hon. Mae'r gwahaniaeth rhwng siaradwyr uniaith Saesneg a siaradwyr dwyieithog Cymraeg-Saesneg i'w weld yn *Cyw Haul* yn ogystal, ond nid oes cymaint o gymeriadau uniaith Saesneg yn y nofel honno o'i chymharu â'r dilyniant, *Cyw Dôl*.

ond yn canolbwyntio ar y geiriau Saesneg yn unig. Felly, yn y drafodaeth o'r fethodoleg sy'n dilyn, y geiriau Saesneg sydd dan sylw.

I. *Cyw Dôl (1990) – Twm Miall*

byrfodd: CD

Mae'r nofel hon yn ddilyniant i *Cyw Haul* (1988), eto'n trafod bywyd Bleddyn Williams sydd wedi symud i Gaerdydd erbyn hyn. Adroddir ei hanes yng Nghaerdydd, o fod ar y dôl i weithio fel garddwr, a chawn wybod am ei garwriaethau a'i ffrindiau. Ar ddiwedd y nofel mae Bleddyn yn penderfynu dychwelyd adref i Ffestiniog, wedi syrffedu ar Gaerdydd. Mae'r nofel hon yn y person cyntaf gan ddefnyddio llais Bleddyn.

Ia. Cymeriadau

Bleddyn Williams	O Ffestiniog yn wreiddiol, wedi symud i Gaerdydd oherwydd diffyg gwaith a chyffro. Aros gyda'i ffrind Mal Jôs, cyn symud i fyw at Gethin. Ceisio'i orau i beidio â chael swydd (yn enwedig y rhai a awgrymir gan swyddfa'r dôl), cyn dechrau gweithio fel garddwr. Siarad Saesneg ag acen Gymraeg gref (sydd wedi ei hysgrifennu'n ffonetig).
Mal Jôs	Ffrind o Ffestiniog sy'n astudio i fod yn feddyg ym Mhrifysgol Caerdydd. Annibynadwy, Bleddyn yn digio gydag ef.
Gethin O'Neill	O Dde Cymru ac yn siarad Cymraeg, byw ar Rodfa Colum. Chwarae gitâr a smocio canabis, hoffus ond anghofus.
Steve	Ffrind Gethin, hefyd o'r De ac yn medru'r Gymraeg. Ar y dôl, yna'n cael gwaith yn gwerthu offer swyddfa. Bleddyn yn symud i'w fflat pan yw pethau'n mynd yn chwithig rhyngddo a Karen.

Karen	Byw i fyny'r grisiau o fflat Gethin, mam i 'lityl Pî't'. Uniaith Saesneg, mae'n debyg o Dde Cymru (mae ei chwaer yn byw yn Y Barri). Wedi cael perthynas â Gethin cyn dechrau perthynas â Bleddyn.
Nerys	Byw i lawr y grisiau o fflat Mal Jô's, astudio celf yn y brifysgol. Uniaith Saesneg o Fae Colwyn. Cael perthynas â Bleddyn cyn iddo symud at Gethin.
Mrs Maelor Jones	Cyflogi Bleddyn fel garddwr a thasgmon. Snobyddlyd, crefyddol a dirwestwraig yn allanol, ond yn cuddio gin a sigarêts wrth y gwely. Yn wreiddiol o Ynys Môn. Ceisio cadw ei mam rhag siarad â neb; cywilydd ganddi o'i chefnidir.
Mam Mrs Maelor Jones	Anhapus i fod yng Nghaerdydd, hapus i siarad â Bleddyn am Ogledd Cymru.
Dynes y Post	Uniaith Saesneg, cael traferth â Chymdeithas yr Iaith, ac yn gas wrth Bleddyn pan yw'n mynd yno i godi pres.
Gweithwyr y dôl	Uniaith Saesneg, ffraeo â Bleddyn ac yn niwsans iddo.

Tabl 6: Cymeriadau CD

Ceir hefyd nifer o gymeriadau ymylol yn y nofel, a rhai yn ymddangos mewn un olygfa yn unig:

- Ivor, cyfwelydd ar gyfer swydd – siarad llith o Saesneg, gweiddi ar Bleddyn am fethu â datrys pos mathemateg ac am fod yn ddiog, cyn cael ei ddwrddio gan ei reolwr – Ivor yw'r rheswm na allant ddod o hyd i neb ar gyfer y swydd.
- Chef gwesty'r Angel (Eidalwr neu Sbaenwr) sy'n holi Bleddyn am lysiau mewn cyfweliad.
- Dynion y tu allan i ffatri gwneud teils – rhegi ar Bleddyn a'i hel oddi yno; maent am gadw'r swydd i un o'u ffrindiau.

- Nifer o blismyn uniaith Saesneg sy'n ymddangos ar ôl i Bleddyn gael ei arestio ar gam. Plismon Cymraeg hefyd, sy'n adnabod Harri, tad Bleddyn. Mae'n gadael Bleddyn yn rhydd a'i berswadio i beidio â dwyn achos yn erbyn yr heddlu.
- Vic ac Allan, dau droseddwr y mae Bleddyn yn cyfarfod â nhw yng ngorsaf yr Heddlu. Uniaith Saesneg. Trafod ei arestio ar gam a Byddin Cymru Rydd.
- Nifer o unigolion uniaith Saesneg mewn tafarndai ac yn yr arddangosfa gelf. Hefyd unigolion Cymraeg eu hiaith wrth i Bleddyn aros am Steve a Gethin yn y *New Ely*.
- Dau feddyg uniaith Saesneg – daw'r meddyg cyntaf i'r tŷ pan fo Bleddyn yn sâl, ac â Bleddyn i weld y llall. Wrth roi ei gyfeiriad i'r meddyg, mae'n dadlau ag ef oherwydd nad yw Bleddyn yn credu ei honiad nad yw Sir Feirionnydd yn bod bellach, a bod Ffestiniog nawr yn rhan o Wynedd.
- Gyrrwr bws yn ôl i'r Gogledd – 'I'm not Welsh, I'm from Landydnno.'
(CD 180)

II. *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau (2006) – Llwyd Owen*

byrfodd: FfCCh

Adroddir hanes Luc Swan, brodor o Gaerdydd sy'n gweithio yn y cyfryngau yn y nofel hon. Cawn hanes ei blentyndod, gan gynnwys gwallgofrwydd ei dad, ei gamdriniaeth gan gariad ei fam cyn i'w fam droi at alcoholiaeth ac i Luc gael ei gymryd i ofal y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ôl yn y presennol, darganfydda Luc fod '*boy band*' y mae'n gweithio â nhw yn camdrin merched ifanc, ac mae'n penderfynu dial arnynt gan geisio eu lladd. Mae hon yn nofel llawn rhegfeydd, trais, cyffuriau a rhyw. Mae rhan helaeth

o'r nofel yn y person cyntaf, gan ddefnyddio llais Luc fel oedolyn, a rhai penodau eraill yn y trydydd person o bersbectif cymeriadau eraill, gan gynnwys Luc fel plentyn, a'i dad, John.

Ila. Cymeriadau

Luc Swan	Brodor o Gaerdydd, sengl a heb blant. Cymro Cymraeg, wedi cael ei gymryd i ofal y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl cael ei gam-drin; ni chawn wybod am ei gyfnod mewn gofal. Gweithio fel rhedwr yn y cyfryngau, yfed yn drwm a chymryd cyffuriau. Tuedda i drin merched fel gwrthrychau.
Whitey (Gareth Robert Johnson)	Ffrind ers ysgol feithrin i Luc, tad i Katie (ond nid yw mewn perthynas â'r fam). Cerddor ac yn ysmegu canabis yn dragwyddol, 'borderline Rasta' (FfCCh 29). Ar y dôl tan iddo gael swydd mewn gorsaf radio ysbyty.
John Swan	Tad Luc, gweithio fel peintiwr. Wedi dechrau perthynas â Joan, mam Luc, tra bo'i wraig gyntaf yn feichiog â Sam/Doc. Mae John yn taro bargaen â'r diafol yn gyfnewid am ei enaid ei hunan ac enaid Luc heb sylweddoli hynny, ac mae'n mynd yn wallgof pan yw Luc yn 7 oed. Mae mewn ysbyty ac yn ddiymateb am y rhan fwyaf o'i fywyd.
Emlyn Eilfyw Jones	Bòs Luc, gweithio i'r diafol yn casglu eneidiau. Wedi cael swydd fel cyfarwyddwr gan fod ei fam yn y cyfryngau.
Joan Swan	Gwraig John, llawer iau nag ef. Nid yw'n hoffus iawn, angen llawer o sylw. Dechrau perthynas â Steve ar ôl 'colli' ei gŵr, ac yn gwrthod credu Luc ar ôl iddo gael ei gam-drin gyntaf. Troi at alcohol ar ôl darganfod ei fod yn dweud y gwir.
Steve	Cariad Joan sy'n cam-drin Luc.

<i>Fflach!</i> – Marcel Menteur (Rhodri Jones), Stifyn a Snez	<i>Boy band</i> y mae Emlyn yn gweithio â nhw, sydd wedi recordio albwm ac yn rhan o sioe deledu. Maent yn ymwybodol o waith Emlyn â'r diafol. Cymryd cyffuriau caled ac yn cam-drin eu hedmygwyr ifanc. Marcel a Stifyn o Dde Cymru, Snez o Gaernarfon, oll yn medru'r Gymraeg.
Cariad	Merch y mae Luc yn ei ffansïo, ond sy'n dechrau perthynas ag Emlyn.
Steph	Merch sy'n gweithio ar y ddesg groeso yn swyddfa Luc. Siarad Cymraeg ag acen Rhydfelen gref (wedi'i ysgrifennu'n ffonetig). Mae hi'n ffansïo Luc.
Doc (Sam)	Mab cyntaf John, hanner brawd i Luc. Wedi hyfforddi fel meddyg, ond erbyn hyn yn gwerthu cyffuriau ac arfau i <i>gangsters</i> Caerdydd.

Tabl 7: Cymeriadau FfCCh

Ceir eto nifer fawr o gymeriadau ymylol uniaith Saesneg, a nifer ohonynt ond yn ymddangos mewn un olygfa yn unig:

- Madame y puteindy, dwy butain (un o ddwyrain Ewrop heb lawer o Saesneg, a'r llall o Gaerdydd, uniaith Saesneg), a chwsmer sy'n blismon.
- Gyrrwr bws yn siarad Saesneg ag acen Rasta.
- Dr. Powell (meddyg Luc) a'r dderbynyddes (uniaith Saesneg).
- Dr. Shaitan (meddyg John a Joan yn ystod ei beichiogrwydd), nyrs yn ystod yr enedigaeth (uniaith Saesneg).
- Cyflwynwyr *Sion a Sian* a'r tîm cynhyrchu pan yw John a Joan yn ymddangos ar y rhaglen yn siarad Cymraeg.
- Tîm cynhyrchu *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* pan yw'r rhaglen yn cael ei recordio yng nghapel teulu Luc.

- Cymdogion John a Joan yn siaradwyr Cymraeg.
- Cydweithwyr Luc – rhai'n uniaith Saesneg, ond rhai'n Gymry Cymraeg.
- Cymeriadau pan aiff Luc am gyfweliad – nifer o Gymry Cymraeg.

III. *Moncton Mantra (1997) – Gérald Leblanc* *byrfodd: MM*

Alain Gautreau, dyn ifanc o *Nouveau Brunswick*, yw arwr y nofel hon. Nid oes llinyn storiol na phlot fel y cyfryw, ond yn hytrach adroddir meddyliau Alain a hanes digwyddiadau yn ei fywyd yn y brifysgol ac fel awdur, gan gynnwys llawer o fyfyrion ar fywyd a beth yw bod yn *Acadien*. Bywyd caotig yw bywyd Alain, yn llawn cyffuriau a rhyw, a golygfa olaf y nofel yn rhithweledigaeth – neu'n hytrach yn rhithg~~lywed~~igaeth – o'r holl leisiau yr ydym wedi eu clywed eisoes yn y nofel, sy'n esbonio bywyd Alain fel *Acadien* ifanc yn y saithdegau. Eto, mae'r nofel hon yn y person cyntaf, o bersbectif Alain.

IIIa. Cymeriadau

Oherwydd mai nofel fer iawn yw hon (7 phennod, a 72 o dudalennau), ac oherwydd defnydd arddull llif yr ymwybod, mae nifer fawr o'r cymeriadau ond yn ymddangos mewn golygfa neu ddwy, heb lawer o ddeialog. Y cymeriadau canolog yw Alain, Anne-Marie, Gilles a Xavier Roy (er nad yw Gilles na Xavier yn ymddangos drwy gydol y nofel).

Alain Gautreau	<i>Acadien</i> ac awdur ifanc sy'n hoyw. Yfed yn drwm ac yn arbrofi â chyffuriau.
Anne-Marie Doucet	Ffrind Alain, problemau iechyd meddwl, mae'n debyg oherwydd cyffuriau. Mwy tueddol i droi at y Saesneg, er enghraifft wrth ddadlau yn y fferyllfa wrth geisio prynu cyffuriau.
Gilles Robichaud	Cariad Alain, hefyd yn awdur. Mae'r berthynas yn dod i ben ar ôl i Alain ddarganfod fod Gilles yn cymryd heroin.
Xavier Roy	Ffrind Alain sy'n byw yn Leominster nawr, oedd wedi ei fagu yn y Ffrangeg tan yn chwech oed, cyn newid iaith yn yr ysgol. Mae'n siarad Saesneg a Ffrangeg ag Alain.
Claude Léger	Cariad Alain. Artist, tueddol o siarad cymysgedd o Ffrangeg a Saesneg.

Tabl 8: Cymeriadau MM

Ceir hefyd nifer o gymeriadau ymylol sy'n ymddangos mewn pythiau bach o'r nofel, ac nid ydym yn dod i'w hadnabod yn dda iawn:

- Ti-Col Richard – ddim yn hoff o Saeson nac o *Québécois*. *Acadien* balch iawn (siarad Ffrangeg).
- Pierre-Paul Léger a Norbert Léger – dau ffrind y mae Alain yn symud i fyw â nhw (siarad Ffrangeg).
- Frederic Wilson – cariad cyntaf Alain. Mae'n symud i Asia ychydig wythnosau ar ôl dechrau eu perthynas (siarad Ffrangeg).
- Gweinyddes (uniaith Saesneg) mewn caffi sy'n gwrthod siarad Ffrangeg; Alain ac Anne-Marie yn meimio eu harcheb yn hytrach nag archebu yn y Saesneg.

Adroddir hanes Milo Lacnoire a'i deulu tra bo Milo ar ei wely angau: bywyd ei daid yn Nulyn cyn mewnfudo i Québec; carwriaeth ei fam a'i dad; a hanes Milo yn byw gyda theuluoedd maeth cyn i'w daid ei ddarganfod a'i gymryd yn ôl i fyw gyda'i deulu. Gwelwn Milo'n tyfu'n oedolyn, yn dechrau ar yrfa yn y diwydiant ffilm ac yn cyfarfod â'i gariad Paul. Eto, mae ochr dywyll i'r nofel hon; putain yw mam Milo, a chawn olygfeydd yn ymwneud ag alcoholiaeth a cham-drin cyffuriau, cam-drin plant a thrais. Y trydydd person, sef llais Paul, sy'n adrodd yr hanes, mewn sgwrs unochrog â Milo, wrth iddynt freuddwydio am greu ffilm o'i fywyd, gan gynnwys llawer o gyfeirio at dechnegau ffilmio. Noder bod cyfieithiad o'r darnau Saesneg yn y nofel yn ymddangos fel troednodiadau; dyma'r unig nofel i ddarparu cymorth ieithyddol o unrhyw fath. Mae'n debyg fod Huston wedi cynnwys y cyfieithiadau oherwydd nad oes sicrwydd fod pob darlennydd ffrancoffon yn rhugl yn y Saesneg (o leiaf yn ddigon rhugl i allu darllen nofel ddwyieithog yn hawdd). Mae hyn yn sefyllfa wahanol iawn i awdur sy'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa Gymraeg. Trafodir hyn mewn mwy o ddyfnder yn y bennod ar y nofelau Ffrangeg-Canadaidd.

IVa. Cymeriadau

Milo Lacnoire	Mab Awinita a Declan. Wedi ei roi yng ngofal teuluoedd maeth yn faban. Hapus iawn â theulu o'r Iseldiroedd, ond gorfod gadael ar ôl i'r fam farw. Cael ei guro gan y teulu maeth olaf sy'n Almaeneg. Mae'n ddeurywiol. Hoff o'i daid, ond nid yw'n hoff o weddill y teulu.
---------------	--

Awinita	Mam Milo. Indiad brodorol sy'n siarad Saesneg ag acen Cree (wedi ei hysgrifennu'n ffonetig). Gweithio fel putain ers iddi fod yn ifanc. Fe'i gwelwn yn datblygu problemau â chyffuriau. Mae hi'n caru Declan, ond yn deall ei fod yn dda i ddim; mae hi'n gadael ar ôl genedigaeth Milo, gan ofyn i Declan ofalu amdano.
Neil Kerrigan/Lacnoire	Brodor o Ddulyn, ond gorfod gadael ar ôl bradychu'r Gweriniaethwyr yn ystod Gwrthryfel y Pasg. Ffoi i Ganada a newid ei enw i Lacnoire. Nid yw'n cyfaddef i neb yng Nghanada beth ddigwyddodd yn Nulyn. Priodi merch o Québec, Marie-Jeanne. Neil a'i wraig yn penderfynu magu'r bechgyn fel Gwyddelod Saesneg eu hiaith a'r merched fel <i>Québécoises</i> Ffrangeg eu hiaith.
Paul Schwarz	Cariad Milo, cyfarwyddwr ffilmiau. Iddew o Efrog Newydd.
Declan	Tad Milo, un o feibion Neil. Wedi bod yn y carchar ac yn cael trafferth canfod gwaith. Problem ag alcohol. Talu teuluoedd maeth Milo, cyn dweud wrth Neil am fodolaeth Milo.
Marie-Thérèse	Modryb Milo, merch hynaf Neil a Marie-Jeanne. Crefyddol, ond yn dueddol i fod yn greulon – mae hi'n curo Milo ac yn llosgi'r llyfrau y mae Neil wedi eu gadael iddo yn ei ewyllys. Yn gadarn iawn mai'r Ffrangeg yw iaith y cartref.
Régis Dubé	Gŵr Marie-Thérèse. Gweithio fel coedwigwr. Siarad Ffrangeg fel rheol, heblaw am un olygfa lle mae Neil yn troi at y Ffrangeg a Régis yn troi at y Saesneg. Régis yn siarad Saesneg ag acen Québécois gref (wedi ei hysgrifennu'n ffonetig).

François-Joseph a Jean-Joseph, meibion Marie-Thérèse a Régis.	Yn eu harddegau pan ddaw Milo i fyw atynt. Casáu Milo oherwydd ei fod yn glyfar ac yn cael sylw. Maent yn cael rhyw gyda'i gilydd yn eu harddegau, ac mae Jean-Joseph yn ymweld ag ysgol Milo ac yn ei gam-drin unwaith yn 1967.
Puteiniaid sy'n gweithio ag Awinita (Deena, Lorraine, Cheryl); Liz y fadame; Irwin, barmon; cwsmeriaid Awinita	Saesneg eu hiaith; mae'r puteiniaid a Liz mewn nifer o olygfeydd ac yn siarad tipyn, ond Irwin yn fwy o gymeriad yn y cefndir. Cymeriadau tywyll; Lorraine yn cymryd heroin ac yn ei roi i Awinita; Deena'n cael ei threisio, ei lladd a'i thaflu mewn bin. Cwsmeriaid Awinita'n gymysg eu hiaith, ond y rhai mwy canolog yn siarad Saesneg (mae'n debyg oherwydd mai dyma iaith Awinita; nid oes golygfa lle mae hi'n siarad Ffrangeg, er ei bod hi'n medru'r iaith Cree).

Tabl 9: Cymeriadau DN

Eto ceir nifer o gymeriadau ymylol sy'n gymysg eu hiaith:

- Teuluoedd maeth Milo sy'n fewnfudwyr – un teulu o'r Iseldiroedd a'r llall o'r Almaen – cawn bytiau o Almaeneg ac Iseldireg. Golygfa gyda mam y teulu o'r Iseldiroedd yn darllen stori Saesneg ond heb ddeall rhai geiriau.
- Thom, cefnder a ffrind Neil yn ystod Gwrthryfel y Pasg. Mae eu deialog wedi ei hysgrifennu yn y Ffrangeg er mai'r Saesneg y byddai'r cymeriadau yn ei siarad mewn gwirionedd mae'n debyg. Ceir hefyd gymeriadau yn y cefndir sy'n seiliedig ar rai o arweinwyr y Gwrthryfel: Pádraic Pearse, Thom McDonough, John MacBride, James Connolly, a Constance Markiewicz.
- Edith a Timide, ffrindiau ysgol Milo, Ffrangeg eu hiaith ond ychydig o gyfnewid cod.

- Kim a'i gŵr Sherman, Americanwyr Saesneg eu hiaith. Mae Milo'n cael perthynas â nhw pan yw'n ei arddegau.
- Viviane, merch y mae Milo'n cael perthynas â hi pan yn bedair ar bymtheg oed. Ffrangeg ei hiaith. Maent yn mynd i Nevada cyn i Viviane ei adael.
- Roxanne, merch y mae Milo'n cael perthynas â hi yn Toronto. Siarad Saesneg â Milo.
- Eugénio, bachgen o Frasil y mae Milo'n ei ddarganfod a'i fabwysiadu.

2.1.2 Nodweddion Cyffredin

Yn y pedair nofel, ceir nifer o nodweddion cyffredin a allai gael effaith ar y cyfnewid cod. Yn gyntaf, mae tair o'r nofelau yn y llais cyntaf ac yn defnyddio arddull llif yr ymwybod. Disgrifia Fernihough arddull llif yr ymwybod, wrth drafod gwaith James Joyce, fel a ganlyn:

it attempts to render as closely as possible the *chaos* of the inner life, and the raw, unfinished quality of our thoughts and impressions, as well as the sheer speed with which they meld into one another.

(2007 t.66)

Disgrifia Humphrey ffuglen llif yr ymwybod fel llenyddiaeth sy'n rhoi pwyslais ar yr 'exploration of the prespeech levels of consciousness for the purpose, primarily, of revealing the psychic being of the characters' (1954 t.4). Yn sicr gallai hyn gael effaith ar y cyfnewid, gan fod yr awdur am roi'r argraff nad yw'r siaradwr am sensro ei iaith, boed yn iaith Saesneg neu'n rhegfeydd – neu nad yw'n *gallu* sensro ei iaith, gan fod y meddyliau'n ffurfio bron ar eu pennau eu hunain, ar lefel *prespeech*. Mae *Danse Noire* yn defnyddio'r trydydd person, ond yn defnyddio llais un o'r cymeriadau, Paul, fel adroddwr y stori, mewn sgwrs unochrog â Milo wrth iddynt gynllunio ffilm o'i fywyd.

Gan fod llais cymeriad ‘go iawn’ yn adrodd y stori, mae’r iaith yn fwy ymlaciedig na phetasai’r stori’n cael ei hadrodd gan lais nad yw’n gysylltiedig â chymeriad – hynny yw, adroddwr hollbresennol a dienw, llais a ddefnyddir ar gyfer y naratif yn unig, yn hytrach na’i gyplysu ag un o gymeriadau’r nofel. Er enghraifft, dywed Alun Jones, golygydd creadigol FfCCh, ei fod o’r farn mai ‘Luc, y cymeriad brith, sydd wedi dylanwadu ar iaith y nofel hon’ (Owen et al. 2006 t.133). Gwelir, felly, sut y gall ymgais awdur i gymeriadu drwy roi ieithwedd arbennig i gymeriad gael effaith ar ieithwedd y nofel gyfan, rhywbeth na fyddai wedi digwydd i’r fath raddau o ddefnyddio llais amhersonol i adrodd y stori.

Mae’r ffaith mai hanes un person sy’n cael ei adrodd yn nodwedd arall sy’n gyffredin rhwng y pedair nofel. Er mai hanes teulu Milo sydd yn *Danse Noire*, Milo ei hun yw canolbwynt yr hanes, ac adroddir hanes y taid a’r fam er mwyn inni ddeall Milo’n well. Yn y nofelau eraill cawn Luc, sy’n cael ei boenydio gan ellyll ei isymwybod a phroblemau rhywiol; Alain yn myfyrio ar ei hunaniaeth fel *Acadien* ac awdur; a Bleddyn sydd newydd symud i Gaerdydd, ac yn teimlo ar goll mewn dinas sy’n llawn cymeriadau uniaith Saesneg. Cymeriadau sy’n ceisio darganfod eu hunaniaeth a’u pwrpas yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol ydynt. O’r safbwynt hwn, mae’r nofelau oll yn perthyn i genre’r *Bildungsroman*, gan ein bod yn gweld cymeriad yn datblygu wrth geisio canfod ei bwrpas a’i rôl mewn cymdeithas – ‘*man in the process of becoming*’ (Bakhtin et al. 1986 t.19).⁶

⁶ Ffont italig yn y testun gwreiddiol.

Nodwedd arall sy'n gyffredin i'r pedair nofel yw bodolaeth cymeriadau uniaith Saesneg. Mae'r gymdeithas yng Nghymru ac yng Nghanada yn cynnwys unigolion dwyieithog (Cymraeg-Saesneg neu Ffrangeg-Saesneg), ac unigolion sy'n uniaith Saesneg (a sawl grŵp o unigolion sy'n siarad ieithoedd eraill, wrth gwrs). Mae'r nofelau yn dangos yr amrywiol elfennau ieithyddol hyn drwy gynnwys cymeriadau sy'n uniaith Saesneg, ynghyd â'r cymeriadau canolog sy'n ddwyieithog. Gwelir hefyd eu bod yn dangos rhai cymeriadau sy'n fewnfudwyr o wledydd eraill (e.e. chef o'r Eidal neu Sbaen yn CD, gyrrwr bws Rasta a phutain o ddwyrain Ewrop yn FfCCh, ac mae Neil ei hun wedi mudo i Ganada).⁷ Yng ngeiriau un o gymeriadau CD, 'you've got a mixture down here, see, it's full of liquorice all sorts, Cardiff is' (CD 135), ac mae dinasoedd y nofelau eraill yn llawn o *liquorice all sorts* yn ogystal. Felly mae'r nofelau'n bortread realistig o'r cymdeithasau hyn – dangosir bod y cymeriadau sy'n medru'r Gymraeg neu'r Ffrangeg yn gorfod troi at y Saesneg er mwyn cyfathrebu â chymeriadau sy'n uniaith Saesneg. Gan fod y nofelau'n rhai cyfoes sydd wedi eu lleoli mewn dinasoedd amlddiwylliannol, byddai'n afrealistig pe na byddai'r cymeriadau'n cyfarfod cymeriadau uniaith Saesneg. Mae cynnwys y cymeriadau hyn, a'u dangos yn siarad y Saesneg, yn ddewis ymwybodol ar ran yr awduron gan iddynt geisio adlewyrchu realiti cymdeithas ddwyieithog.⁸ Dangosir sefyllfaoedd deuglosig, er enghraifft iaith Saesneg y feddygfa (FfCCh), gweinyddes Saesneg mewn caffi (MM),

⁷ Mae cymeriad Awinita hefyd yn ddiddorol, gan nad yw hi chwaith yn perthyn i'r gymdeithas ffrancoffon, er nad yw hi'n fewnfudwr. Mae hi'n cynrychioli Indiaid brodorol Canada gan ei bod hi'n perthyn i'r llwyth Cree.

⁸Gallai'r awduron ddewis ysgrifennu'r ddeialog yn y Gymraeg, gan awgrymu neu ddweud mai'r Saesneg sy'n cael ei siarad. Ceir rhai nofelau sy'n ysgrifennu'r ddeialog yn y Gymraeg er nad dyna'r iaith a fyddai'n cael ei siarad gan y cymeriadau, e.e. *Petrograd* (2008) Wiliam Owen Roberts. Gwelir nad yw Huston yn adlewyrchu 'gwir' iaith Neil yn Nulyn ychwaith, er bod llawer o ddeialog Saesneg yng ngweddill y nofel (noder bod anghysondeb yn hyn o beth o safbwynt realaeth ieithyddol DN).

gweithwyr swyddfa'r dŵl a dynes y Post yn uniaith Saesneg (CD), a dewis taid a nain Milo i fagu eu meibion yn y Saesneg, gan ei fod yn rhoi gwell cyfle o ran swyddi iddynt (DN). Gwelir felly fod agweddau o fywyd yng Nghymru ac yng Nghanada lle mae'n rhaid i'r cymeriadau ddefnyddio'r Saesneg, sydd eto'n rhan o bortread realaidd y nofelau o'r sefyllfa ieithyddol gyfoes yn y gwledydd hyn.

Nodwedd arall sy'n gyffredin i'r pedair nofel yw'r tueddiad i gyfeirio at elfennau o ddiwylliant Saesneg, boed yn ffilmiau, yn gerddoriaeth, neu'n ddywediadau Saesneg. Mae hyn yn arwyddocaol iawn; rhagdybir nid yn unig fod y darlennydd yn gyfarwydd â'r iaith Saesneg, ond hefyd â diwylliant Saesneg ei iaith. Mae yna gyfeiriadaeth at ystod eang o elfennau diwylliannol, gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, rhaglenni teledu a dyfyniadau athronyddol. Ceir dadansoddiad mwy trylwyr o gyfnewid cod y nofelau yn y penodau sy'n dilyn, ond mae'r gymdeithas yn y nofelau'n cael ei phortreadu fel cymdeithas sy'n cynnwys diwylliant Saesneg ei iaith yn ogystal â'r diwylliant (cynhenid) Cymraeg neu Ffrangeg.

Mae bywyd dinesig hefyd yn nodwedd gyffredin yn y nofelau, gan eu bod ill pedair yn wedi eu lleoli mewn dinasoedd (CD a FfCCh yng Nghaerdydd, MM yn Moncton, a DN yn cynnwys Montréal, Dulyn, Efrog Newydd yn ogystal â chefn gwlad Québec). Gwelir lleoliad a ffordd ddinesig o fyw – nid yn unig bywyd dinesig ond bywyd tywyll yn y ddinas. Gwelwn Bleddyn yn yfed yn drwm ac yn smocio cannabis (CD), Alain yn arbrofi â chyffuriau niferus, problemau iechyd meddwl ei ffrind Anne-Marie, a pherthynas Alain a Gilles yn dod i ben ar ôl i Alain ddarganfod nodwyddau heroin (MM). Mae'r ddwy nofel arall yn dywyllach fyth gan inni weld mam Milo fel putain â phroblemau

cyffuriau, ei dad yn alcoholig, a chefnder Milo yn ei gam-drin (DN), Luc yn ymweld â phuteiniaid a chymryd cyffuriau, ei frawd Doc yn gwerthu cyffuriau ac arfau i isfyd Caerdydd, a mwy nag un achos o gam-drin plant (FfCCh). Cawn weld a oes cysylltiad rhwng y math o fywyd sy'n cael ei bortreadu a'r ieithwedd sy'n cael ei defnyddio yn y nofelau hyn.

2.2 Methodoleg

Tynnwyd ar waith nifer o academyddion ym maes ieithyddiaeth wrth greu'r fethodoleg; trafodwyd gwaith nifer ohonynt yn y bennod flaenorol. Gwelwyd eu bod yn dueddol o ddadansoddi cyfnewid cod, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn ôl categorïau. Mae Auer (1995) yn dadansoddi yn ôl loci sgysiol, Fishman, Copper a Ma yn edrych ar ba bynciau sy'n achosi cyfnewid cod (1971 yn: Romaine 1989), tra bo'r ysgolheigion eraill a drafodwyd yn dueddol o ddadansoddi ysgogiad neu swyddogaeth y cyfnewid. Mae Callahan (2004) yn edrych ar gategorïau cystrawennol yn ogystal, sy'n ymwneud â gramadeg y cyfnewid. Mae gan y fethodoleg ar gyfer y traethawd hwn nifer o haenau. Dadansoddir yn ôl chwe maes dadansoddi: lleoliad yn y gyfrol (o ran pennod); adran o'r testun (e.e. deialog, naratif); hyd; dosbarth gramadegol; maes semanteg (neu'r pwnc dan sylw) ac ysgogiad/swyddogaeth y cyfnewid. Yn ogystal, wrth ddadansoddi FfCCh a DN, nodir o safbwynt pa gymeriad (persbectif cymeriad) yr adroddir y stori wrth gyfnewid cod (mae CD a MM yn defnyddio'r un safbwynt neu lais drwy gydol y nofel).

Esbonnir ymhellach isod beth yw'r meysydd a ddefnyddir i ddadansoddi'r cyfnewid cod yn y nofelau. Cam cyntaf y dadansoddi yw darllen y nofel yn fanwl, gan nodi pob enghraifft o gyfnewid cod (hynny yw, pob gair Saesneg). Excel a ddefnyddiwyd er mwyn creu cronfeydd data o'r codio, gan nodi'r holl

gyfnewid Saesneg sy'n ymddangos yn y testunau. Ar gyfer corpws mwy gellid arbrofi â meddalwedd gwahanol er mwyn hwyluso'r gwaith (e.e. NVivo neu Atlas), ond penderfynwyd bod Excel yn ddigonol ar gyfer corpws bychan. Yn dilyn, ceir esiampl o'r gwaith codio a wnaed ar Excel. Dyma sgrinlun o'r ddogfen ar gyfer dadansoddi FfCCh:

Darn o gyfnewid cod: dyfynnu o'r nofel

Gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd: Tudalen, Llais (cymeriad neu wrth ddyfynnu), nodiadau

Tud.	Pennod	Dyfyniad	Adran	Llais	Hyd	Dosbarth Gramadegol	Maes semanteg	Ysgogiad/Swyddogaeth	Ysgogiad/Swyddogaeth 2	Nifer	Nodiadau
76	25	2	touchy-feely sheranigans	naratif		< brawddeg	ymadrodd enwol	rhyw	Bwlch geirfaol	1	
77	25	2	THUNDERBIRDS ARE GO!	naratif		brawddeg	brawddeg	cyfeiriadaeth - teledu	Dyfynnu	1	
78	26	2	Bollocks, fi yn siomedig	naratif		1 Gair	ebychiad	rheg	Ebychiad	1	ok
79	26	2	Gutted, a dweud gwir	naratif		1 Gair	ansoddair	emosiwn /	Bwlch geirfaol	1	ok
80	26	2	Dw i'n haeddu esboniad, surely.	naratif		1 Gair	adferf	term Saesneg	Bwlch geirfaol	1	
81	27	2	please clean me'	dyfynnu	ysgrifen	< brawddeg	cymal	hiwmor	Dyfynnu	1	wedi ei sgwer
82	27	2	Lucky dip yn y bag plastic cerddrol	naratif		< brawddeg	ymadrodd enwol	ymadrodd	Bwlch geirfaol	1	
83	27	2	Family heirloom	naratif		< brawddeg	ymadrodd enwol	ymadrodd	Bwlch geirfaol	1	
84	28	2	"All right, boss?"	deialog	Luc	brawddeg	brawddeg	cyfarchiad	Bwlch geirfaol	1	sgwrsio à Wh
85	28	2	"...sychedig as fuck"	deialog	Whitey	< brawddeg	ymadrodd enwol	rheg	Ailadrodd/egluro/	1	
86	29	2	"Fi'n knackered though"	deialog	Whitey	< brawddeg	ansoddair + adfe	term Saesneg	Bwlch geirfaol	1	
87	29	2	"Mae Katie'n nuts"	deialog	Whitey	1 Gair	ansoddair	term Saesneg	Bwlch geirfaol	1	ok
88	29	2	"Fuckin hell"	deialog	Luc	brawddeg	brawddeg	rheg	Ebychiad	1	orgraff ddidd
89	29	2	smocio weed	naratif		1 Gair	enw	cyffuriau	Bwlch geirfaol	1	ok
90	29	2	borderline Rasta	naratif		1 Gair	ansoddair	term Saesneg	Bwlch geirfaol	1	
91	29	2	demos galore	naratif		1 Gair	ymadrodd enwol	cerddoriaeth	Bwlch geirfaol	1	ok
92	29	2	y fucking lot	naratif		1 Gair	ansoddair	rheg	Ailadrodd/egluro/	1	
93	29	2	johnny	naratif		1 Gair	enw	rhyw	Bwlch geirfaol	1	ok
94	29	2	chwarae miwsic a smoco ganja	naratif		1 Gair	enw	cyffuriau	Bwlch geirfaol	1	noder - 'cerdc
95	29	2	pot head	naratif		< brawddeg	ymadrodd enwol	cyffuriau	Bwlch geirfaol	1	a slang
96	30	2	rock star	naratif		< brawddeg	ymadrodd enwol	cerddoriaeth	Bwlch geirfaol	1	
97	30	2	fuckers	naratif		1 Gair	enw	rheg	Bwlch geirfaol	1	ok
98	30	2	therapist	naratif		1 Gair	enw	iechyd	Bwlch geirfaol	1	
99	30	2	tits-up	naratif		1 Gair	ansoddair	slang	Bwlch geirfaol	1	ok
100	30	2	la-la-land	naratif		1 Gair	enw	slang	Bwlch geirfaol	1	ok

Meysydd dadansoddi: Pennod; Adran o'r testun; Hyd; Dosbarth Gramadegol; Maes semanteg; Ysgogiad/Swyddogaeth (1 a 2)

Ffigur 5: Sgrinlun o'r Gwaith Dadansoddi ar Excel

Trafodwyd eisoes fethodoleg Deuchar er mwyn penderfynu pa eiriau sy'n eiriau benthg sefydlog a pha rai sy'n gyfnewid gair unigol (2006 t.1988) – os yw'r gair yn ymddangos yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* (GPC), yna gair benthg sydd dan sylw yn hytrach na chyfnewid. Penderfynwyd defnyddio'r un dull o wahaniaethu ar gyfer y traethawd hwn. Nodir bod nifer o eiriau Saesneg, yn enwedig yn FfCCh, yn ymddangos yn orgraff y Saesneg gwreiddiol, yn hytrach nag yn orgraff y Gymraeg, sef yr hyn a welir yn GPC. Er enghraifft, mae'r gair 'blydi' yn ymddangos yn GPC, ond mae Llwyd Owen yn ysgrifennu'r gair yn orgraff y Saesneg, 'bloody', er mai'r un gair ydyw yn y bôn. Penderfynwyd y byddai unrhyw gofnod yn GPC, boed yn yr un orgraff â'r nofel ai peidio (cyn belled â bod y gair yn y nofel yn dilyn yr un ystyr â'r diffiniad yn GPC)⁹, yn dynodi mai benthgiad yn hytrach na chyfnewid oedd yr enghraifft. Felly, ni chynhwyswyd yr enghreifftiau hyn yn y codio.

Yn ogystal, roedd nifer o enghreifftiau o gyfnewid ag ieithoedd eraill heblaw'r Saesneg, gan gynnwys Lladin a Sbaeneg. Nid oedd y rhain yn cael eu cyfrif fel rhan o'r corpws gan mai archwilio cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg yw pwrpas y traethawd hwn. Penderfynwyd hefyd nad oedd enwau priod yn cyfrif ar gyfer y bas data; er enghraifft, roedd nifer o enwau bandiau neu actorion Saesneg yn ymddangos yn y nofelau.¹⁰ Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheol hwn. Cyfeirir at *The South Wales Constabulary* yn FfCCh – ond mae'r enw 'Heddlu De Cymru' yn un cyfarwydd. Felly, gellid dadlau bod yr awdur wedi dewis defnyddio'r enw

⁹ Er enghraifft, ceir sawl enghraifft o slang Saesneg lle mae'r gair yn ymddangos yn GPC, ond ystyr wreiddiol y gair sydd yn y geiriadur yn hytrach nag ystyr newydd y slang – e.e. cyfeirir at 'gelfi swish' (FfCCh 258), ond yr ystyr sydd yn GPC yw 'Siffrwd, si; sblash, fflatsh' (2000), yn hytrach na chrand neu foethus.

¹⁰ Nid yw Montes-Alcalá yn cyfrif enwau priod fel cyfnewid cod ychwaith (2012 t.74).

Saesneg yn fwriadol. Yn ogystal, roedd cyfeirio at le neu wlad yn ôl ei enw Saesneg yn cyfrif fel cyfnewid cod, er enghraifft 'Thailand' yn lle 'Gwlad Thai' (FfCCh 218), eto gan fod yr enw Cymraeg fel arfer yn un cyfarwydd ac felly'n ddewis bwriadol gan yr awdur. Cafwyd enghraifft ddiddorol yn FfCCh, lle disgrifiwyd Luc a'i gydweithwyr fel rhai a oedd yn smocio fel 'Dot Cottons'¹¹ (FfCCh 11) – sylwer ar yr 's' Saesneg er mwyn marcio'r lluosog. Enw cymeriad yw Dot Cotton, ond oherwydd presenoldeb yr 's', gellid dadlau mai enw cyffredin ydyw. Ond mae elfen yr enw priod yn rhy flaenllaw: ni all darlennydd nad yw'n gyfarwydd â'r cymeriad a'i nodweddion ddeall y gymhariaeth. Oherwydd i mi benderfynu mai enw priod oedd yma, ni chynhwyswyd y term hwn yn y bas data; eto diddorol gweld bod yr awdur yn defnyddio cyfeiriadaeth at ddiwylliant Saesneg yma ac yn chwarae ag iaith yn y fath fodd.

Defnyddiwyd techneg debyg ar gyfer dadansoddi'r nofelau Ffrangeg-Canadaidd, gan ddefnyddio geiriadur sy'n rhoi diffiniad uniaith Ffrangeg, yn debyg i GPC, yn hytrach na geiriadur Ffrangeg-Saesneg. Er bod nifer o eiriaduron o Ffrangeg Québec a Chanada yn bodoli, ar ffurf electronig ac yn gopiau caled, nid ydynt mor fanwl a chynhwysfawr â geiriaduron Ffrangeg Ffrainc fel Robert, Larousse neu Dixel. Defnyddiwyd *Le Grand Robert* (1992, ailargraffiad 1996) ar gyfer y dasg hon, yn rhannol oherwydd iddo gael ei gyhoeddi'n weddol ddiweddar. Yn ogystal, penderfynwyd defnyddio'r geiriadur hwn yn hytrach na geiriadur *l'Académie française* oherwydd mai un o dasgau'r *Académie* yw amddiffyn yr iaith Ffrangeg rhag dylanwad geiriau estron. O'r herwydd mae'r *Académie* yn gyndyn i ychwanegu nifer o eiriau

¹¹ Cymeriad o'r opera sebon *EastEnders* yw Dot Cotton, cymeriad sy'n ysmegu'n drwm.

Saesneg i'r geiriadur, er iddynt gael eu defnyddio'n aml gan siaradwyr Ffrangeg.

Dylid nodi hefyd fod GPC wrthi'n cael ei ail-argraffu fesul adran; yr argraffiad copi caled mwyaf diweddar yw *Rhan 12 (bôn – brifaf)* yn 2013, a cheir copi electronig o'r rhan diweddaraf, *Rhan 13 (brig – brithosod)* ar dudalen 'Gwaith mewn Llaw' gwefan GPC (2013). Disgwylir y bydd nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid a drafodir yn y traethawd hwn yn ymddangos yn yr ailargraffiad. Trafodwyd eisoes y gall cyfnewid ddatblygu i fod yn air benthg (gweler t.7); byddant yn peidio â bod yn enghreifftiau o gyfnewid yn ôl rheolau'r fethodoleg hon, felly, os ydynt yn ddigon rhan o'r iaith Gymraeg i gael eu cofnodi yn GPC. Yn anffodus, mae geiriau'n troi o fod yn gyfnewid i fenthgciad yn rhan anochel o esblygiad ieithyddol, sy'n effeithio gwaith o'r fath ym mhob iaith, ac mae geiriau newydd yn ymsefydlu mewn iaith yn effeithio ar y broses ddeinamig o ysgrifennu geiriadur. Fodd bynnag, trafodir y patrymau ieithyddol cyfredol sydd i'w canfod eleni (2015) yn y nofelau hyn, gan greu astudiaethau achos.

2.2.1 Meysydd Dadansoddi

Er mwyn trafod cyfnewid cod crëwyd model er mwyn gallu cymharu'r nofelau â'i gilydd. Mireiniwyd y model wrth i'r dadansoddi fynd rhagddo, gan ymateb i'r data a oedd yn codi. Ceir chwe maes dadansoddi craidd: Pennod; Adran o'r Testun; Hyd; Maes Gramadegol; Maes Semanteg ac Ysgogiad / Swyddogaeth. Byddaf hefyd yn dadansoddi Llais neu Bersectif y Naratif mewn dwy o'r nofelau (FfCCh ac DN), sydd yn defnyddio llais neu safbwynt cymeriadau gwahanol wrth adrodd y stori. Wrth gyflwyno data o'r gwaith dadansoddi, cychwynnaf drwy drafod y nifer o esiamplau o gyfnewid cod sy'n

codi ym mhob nofel fel cyfanwaith, gan roi cyfartaledd er mwyn gallu cymharu'r nofelau.

2.2.1.a *Lleoliad; Pennod ac Adran o'r Testun*

Nodir ble yn union mae'r cyfnewid cod yn digwydd: mewn epigraff, naratif, deialog neu ddyfyniad. Mae'r rhain yn weddol hunanesboniadol (naratif a deialog yn enwedig), dyfyniad yn gallu bod yn ddyfyniad o gân neu ddarn o lenyddiaeth, er enghraifft, ac epigraff yn ddyfyniad i agor y nofel neu bennod. Ni cheir y term 'epigraff' yn GPC, ond dyma'r diffiniad ar gyfer '*epigraph*' yn yr *Oxford English Dictionary*:

a short quotation or pithy sentence places at the commencement of a work, a chapter, etc. to indicate the leading idea or sentiment; a motto. (2014)

Yn nhabl 10 isod rhestrir y pedwar categori sy'n disgrifio adrannau o'r testun:

Adran
Epigraff
Naratif
Deialog
Dyfyniad

Tabl 10: Categoriâu Adrannau'r Testun

Nodir hefyd ym mha bennod y mae'r cyfnewid yn digwydd. Gwneir hyn oherwydd gall digwyddiadau'r bennod gael effaith ar y cyfnewid cod.

2.2.1.b *Hyd y Cyfnewid*

Cofnodir hyd y cyfnewid, ac fe benderfynwyd rhannu'r cyfnewid yn bedwar categori; gweler y tabl isod:

Hyd
Un Gair
Llai na Brawddeg
Brawddeg
Mwy na Brawddeg

Tabl 11: Categoriâu Hyd

Nodir nad wyf yn ceisio diffinio beth yw brawddeg, ond yn hytrach yn dilyn yr atalnodi a ddefnyddir yn y nofelau – hynny yw, dangosir diwedd brawddeg gan yr atalnod llawn. Mae tuedd yn CD a DN i nodi deialog fel cymal o frawddeg hwy, er enghraifft:

‘I’ll prescribe you some antibiotics,’ medda’r ddynas. ‘I suggest you stay in bed for a few days. Fluids only till you feel better.’
(CD 90)

Yn y dyfyniad uchod, gwelir bod dau ddarn o gyfnewid: y cyntaf ‘I’ll prescribe you some antibiotics’ yn llai na brawddeg, gan fod yr atalnod llawn ar ôl ‘ddynas’. Mae’r ail ddarn o gyfnewid, ‘I suggest you stay in bed for a few days. Fluids only till you feel better.’ yn fwy na brawddeg.¹² Nodir bod ‘medda’r ddynas’ yn *tag* er mwyn nodi’r siaradwraig, sy’n ddewis diddorol ar ran yr awdur. Drwy ychwanegu’r tag mae’r awdur yn defnyddio’r Gymraeg i fframio’r ddeialog Saesneg; byd Cymraeg sydd yma, er bod y Saesneg yn rhan ohono. Trafodir arwyddocâd y ffordd hon o gofnodi deialog yn fanylach yn ddiweddarach yn y traethawd.

Rhoddwyd y pedwar categori hyd mewn dewislen ddisgynnol o fewn Excel gan nad oedd angen hyblygrwydd fel ar gyfer rhai o’r meysydd eraill – dewiswyd y pedwar categori cyn dechrau ar y broses o godio’r nofelau. Isod ceir sgrinlun o’r ddewislen ddisgynnol o fewn y ddogfen Excel:

¹² Dwy frawddeg sydd yma, wrth gwrs, ond nid wyf yn cyfrif *sawl* brawddeg o gyfnewid cod sy’n digwydd o’r bron. Penderfynwyd bod digon o fanylder o grwpio’r enghreifftiau hwy na brawddeg at ei gilydd, a’u disgrifio fel ‘mwy na brawddeg’ yn hytrach na’u cyfrif. Byddai brawddeg a hanner o gyfnewid cod hefyd yn cael ei disgrifio fel ‘mwy na brawddeg’ (ceir sawl enghraifft fel hyn mewn deialog, os yw’r ail frawddeg yn cynnwys tag fel yn yr esiampl uchod).

	Hyd	Dosb: Gram
itey	> brawddeg	brawc
itey	brawddeg	brawc
dja / Whitey / idame / Whitey		
ladame	> brawddeg	bawc
idame	1 Gair < brawddeg brawddeg	bawc
idame	> brawddeg	bawc

Figur 6: Dewislen ddisgynnol Excel

2.2.1.c Dosbarth Gramadegol

Yn y bennod flaenorol, fe drafodwyd gwaith ysgolheigion a oedd am archwilio gramadeg arbennig cyfnewid cod, gan gynnwys Poplack (1980) Callahan (2004), a Gardner-Chloros (2009). Penderfynwyd felly i archwilio gramadeg cyfnewid cod drwy ddadansoddi dosbarth gramadegol yr enghreifftiau. Hynny yw, a oedd yr enghraifft yn enw, yn ansoddair, yn ymadrodd enwol, ac yn y blaen. Gwelwyd eisoes wrth drafod hyd yr enghreifftiau, fod brawddeg gyfan (yn ôl atalnodi'r nofel) yn cael ei disgrifio fel 'brawddeg', tra bo enghreifftiau hwy o gyfnewid, a oedd wedi eu ffurfio o gyfres o frawddegau, yn cael eu disgrifio fel 'mwy na brawddeg'. O ran dosbarth gramadegol, mae'r enghreifftiau sy'n frawddegau cyflawn o amryw hyd (h.y. brawddegau unigol neu gyfres o frawddegau) oll yn cael eu disgrifio fel 'brawddeg'.¹³ Ceir hefyd nifer fawr o enghreifftiau o gymalau, yn enwedig wrth i rai o'r awduron ymgorffori deialog yn rhan o'r naratif, er enghraifft yr

¹³ Penderfynwyd peidio â gwahaniaethu rhwng brawddegau unigol neu gyfres o frawddegau gan fod eu gramadeg yr un fath yn y bôn, ac y byddai'r gwahaniaeth o ran hyd yn cael ei ddangos gan y maes dadansoddi 'hyd'. O'r herwydd, ni chrëwyd categori gramadegol 'brawddegau'.

esiampyl o CD a welwyd uchod. Mae peth o'r cyfnewid yn cynnwys mwy nag un gair o wahanol feysydd gramadegol, er enghraifft 'L'était *drastically reduced*, so' (MM 56), a ddisgrifir gennyf fel 'ymadrodd ansoddeiriol [*drastically reduced*] + cysylltair [so]'. Gan mai dim ond un darn o gyfnewid sydd yma, penderfynwyd ei osod mewn categori arbennig ('ymadrodd ansoddeiriol + cysylltair'), yn hytrach na rhoi tocyn yr un i 'ymadrodd ansoddeiriol' a 'cysylltair', fel y gwnaed gyda maes dadansoddi arall a drafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon. Nid oes nifer fawr o enghreifftiau o'r fath, ond mae'n ddiddorol nodi'r gwahanol gyfuniadau o eitemau gramadegol sy'n digwydd yn y testunau.

Dyma dabl o'r holl gategorïau sy'n ymddangos yn y maes dadansoddi 'dosbarth gramadegol' – dangosir yr eitem o gyfnewid cod sydd dan sylw mewn ffont drom:

Dosbarth Gramadegol	Enghraifft
Acronym	STD reit ddifrifol (FfCCh 20)
Adferf	' Anyway , rhaid fi fod ar fy ffordd nawr' (CD 169)
Ansoddair	Les parents sont dutch (DN 70)
Ansoddair + adferf	Fi'n knackered though (FfCCh 29)
Arddodiad	« Quoi c'est qui va on? » (MM 47)
Berf	Est venu begger (DN 106)
Berfenw	Baricedio llwybrau (CD 42)
Brawddeg	What beautiful hair you have, Milo! (DN 72)
Cyfarchiad	"Helô, bore da, good morning. " (FfCCh 129)
Cymal	' This is supposed to be a savings account, ' medda hi (CD 29)
Cysylltair	And j'ai même (DN 199)
Ebychiad	Sade for fuckssakes! (FfCCh 95)
Enw	ffeiarworcs ar fin cychwyn (CD 62)
Gair gwneud	Eilfywfuckingjones (FfCCh 54)
Gorchymyn	' In ' (CD 42)
Pennill	<i>Mae 'pennill' yn golygu darn o farddoniaeth neu eiriau cân (gan gynnwys cymeriadau'n canu), ac yn cynnwys cwpledi.</i> What kind of beast would turn its life into words ? What atonement is this all about ? — and yet, writing words like these, I'm also living (MM 76) ' Lay lady, lay, lay across my big brass bed... His clothes are dirty but his hands are clean and you're the best thing that he's ever seen. ' (CD 48)
Rhagenw	Avant my trentième (DN 197)
Sain	NEE-NAW-NEE-NAW-NEE-NAW... (FfCCh 75)
Ymadrodd adferfol	vivre là-bas, at least at first (DN 199)
Ymadrodd ansoddeiriol	parti welcym hòm (CD 174)
Ymadrodd ansoddeiriol + cysylltair	L'était drastically reduced, so (MM 56)
Ymadrodd arddodiadol	"Ni on the way nawr." (FfCCh 154)
Ymadrodd berfol	"Dim byd, let's go. " (FfCCh 45)
Ymadrodd enwol	dear dark Dublin (DN 118)

Tabl 12: Categoriâu Dosbarth Gramadegol

2.2.1.ch Maes Semanteg

Ysbrydolwyd y maes hwn yn rhannol gan waith Gumperz (1982) a Fishman, Copper a Ma (1971: yn Romaine 1989), sy'n datgan y bydd cyfnewid yn digwydd wrth drafod rhai meysydd penodol. Yn ogystal, fel siaradwraig y Gymraeg, rwyf wedi sylwi fod rhai meysydd yn fwy tebygol o ysgogi cyfnewid cod, fel Kathryn Jones sy'n gweld siaradwyr y Gymraeg yn troi at y Saesneg i gyfrif neu i nodi pris eitemau (1993). Enghraifft arall yw'r modd y mae nifer o siaradwyr y Gymraeg yn troi at y Saesneg er mwyn rhegi, neu er mwyn trafod maes technegol. Ni ddefnyddiwyd y maes hwn i ddadansoddi cyfnewid cod mewn llenyddiaeth o'r blaen, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Gyda'r maes dadansoddi hwn, mae amrywiaeth eang iawn o gategoriâu gwahanol, gyda rhai darnau o gyfnewid yn perthyn yn amlwg i bwnc penodol, er enghraifft rhegfeydd, dillad neu fwyd, ac eraill yn fwy amwys. Gyda'r cyfnewid amwys, cawsant eu rhannu'n gategoriâu gwahanol: 'term Saesneg' ar gyfer geiriau unigol, 'ymadrodd gosod' ar gyfer ymadroddion (*set phrases* – dyma'r union eiriau i'w defnyddio; gweler esiamplau isod) a 'dywediad Saesneg' ar gyfer yr enghreifftiau a oedd yn ddywediadau, yn idiomau neu'n ddiarhebion. Roedd rhai enghreifftiau hefyd o 'chwarae â dywediad Saesneg', yn enwedig yn nofel Llwyd Owen, gan ei fod yn dueddol o ddefnyddio hanner dywediad neu chwarae â dywediad Saesneg. Isod ceir enghreifftiau o'r categorïau hyn, oll o FfCCh:

Dywediad Saesneg

once a Scout always a Scout (FfCCh 114)

Just what the doctor ordered (FfCCh 232)

Actions speak louder than words. (FfCCh 254)

Term Saesneg

actually *yn sefyll yna* (FfCCh 92)

"Na fel bydd hi o nawr 'mlaen – groupies yn bobman" (FfCCh 155)

Ti'n genius, yn athrylith o gyfieithydd (FfCCh 180)¹⁴

Chwarae â dywediad Saesneg

Onwards and...fu...fuckwards... (FfCCh 90)

new leaf an' all that (FfCCh 151)

When it rains... (FfCCh 208)

Ymadrodd Gosod

No man's land o lais (FfCCh 126)

rhoi wide berth (FfCCh 134)

fel teachers pet (FfCCh 179)

Nodir bod nifer fawr o gategoriâu gwahanol yn ymddangos yn y maes hwn, ac nad ydynt yn cael eu dewis o ddewislen ddisgynnol fel yn achos 'hyd' ac 'ysgogiad/swyddogaeth'. Er nad oedd 'dosbarth gramadegol' ychwaith yn cael ei ddewis o ddewislen ddisgynnol, mae'r categorïau hyn yn rhai cyfarwydd ac eithaf clir. Fodd bynnag, mae'r categorïau maes semanteg yn

¹⁴ Nodir bod hon yn enghraifft ddiddorol, gan mai'r cyfieithiad Cymraeg am '*genius*' yw 'athrylith'. Efallai fod Llwyd Owen yn defnyddio'r cyfnewid cod mewn rôl gynorthwyol, gan amlygu ystyr y gair 'athrylith' ar gyfer y rhai a fyddai'n anghyfarwydd ag ef, neu efallai ei fod yn ddewis arddulliol wrth ailadrodd yr un gair yn y ddwy iaith.

fwy cymhleth; nid yn unig oherwydd bod rhai darnau o gyfnewid nad ydynt yn perthyn yn amlwg i unrhyw gategori penodol, ond hefyd oherwydd y gallai rhai darnau o gyfnewid berthyn i nifer o categorïau gwahanol. Roedd rhaid treulio amser yn sicrhau bod yr un categorïau maes semanteg wedi eu defnyddio wrth ddadansoddi'r pedair nofel, er mwyn sicrhau cymhariaeth ystyrlon. Yn ystod y broses o ddadansoddi cafwyd arbrofi â chategorïau gwahanol, ac wrth ddod yn fwy cyfarwydd â'r gwaith, roedd y fethodoleg yn datblygu. Yn sicr, erbyn dadansoddi'r nofel olaf, roedd hi'n llawer haws penderfynu beth oedd categori maes semanteg y darn o gyfnewid (er y gallai hyn fod a wnelo ag arddull cyfnewid cod y nofel gyntaf i'w dadansoddi, FfCCh, gan fod Llwyd Owen yn hoff o ddefnyddio ymadroddion a geiriau Saesneg bron ar hap ar adegau!). Wrth edrych yn ôl ar y broses, sylweddolais y dylwn fod wedi cadw rhestr o'r holl categorïau gwahanol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi – byddai hyn wedi arbed amser wrth wneud y gwaith addasu a chywiro.

Dylid nodi ei bod hi'n anodd peidio bod yn oddrychol wrth bennu categorïau maes semanteg. Hawdd yw canfod hyd darn o gyfnewid, ond anos yw pennu categori ar gyfer rhan enghreifftiau o gyfnewid cod – yn enwedig gyda chategorïau mwy pen agored (e.e. y gwahaniaeth rhwng term Saesneg, ymadrodd gosod a dywediad Saesneg). Pe bai'r gwaith codio hwn yn cael ei wneud gan unigolyn arall, mae bron yn ddi-os y byddai'r categorïau ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, fe wnaed ymdrech i fod mor wrthrychol â phosibl, ac mae'r gwaith hwn yn rhoi syniad inni o dueddiadau semantegol cyfnewid cod. Fodd bynnag, rhaid dweud nad yw pob categori yn eistedd yn hollol

gyfforddus, ac mae'r maes dadansoddi hwn yn sicr yn un fydd angen ei ystyried ymhellach wrth fynd ymlaen â'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae tuedd i gael cyfnewid sy'n perthyn i fwy nag un maes semanteg, er enghraifft 'mae'n fuckin freezing' (FfCCh 134). Un darn o gyfnewid sydd yma, oherwydd bod y ddau air Saesneg yn ymddangos ochr yn ochr, ond o fewn yr un darn o gyfnewid mae dau gategori maes semanteg yn ymddangos. Yn amlwg mae yma reg, ond mae yma hefyd air sy'n cyfeirio at y tywydd. Gyda'r cyfnewid a oedd yn perthyn i fwy nag un categori maes semanteg, cofnodwyd, yn yr achos hwn, 'rheg / tywydd' wrth ddadansoddi'r testun. Yna, wrth fynd ati i lunio'r tablau, byddai'r enghraifft hon o gyfnewid yn cael ei rhannu er mwyn rhoi dau docyn inni, un ar gyfer 'rheg' a'r llall ar gyfer 'tywydd'. O'r herwydd, mae cyfanswm yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y maes semanteg yn fwy na chyfanswm y cyfnewid sydd yn y nofel gyfan. Isod ceir sgrinlun o'r ddogfen ar Excel er mwyn amlygu'r broses hon:

diod / rheg / slang	2	3	6						
dywediad Saesneg / rhyw	1	2	2	k	chwarae â geiriau	1	rheg	259	
dywediad Saesneg / ymadrodd gosod	1	2	2	k	cyffuriau	4	ymadrodd gosod	139	
dywediad Saesneg / ymadrodd gosod / term Saesneg / r	1	4	4	k	diod	5	sgwrs	129	
emosiwn / slang	1	2	2	k	dywediad Saesneg	3	term Saesneg	128	
ffilm / rheg	1	2	2	k	ebychiad	1	slang	68	
gwaith / rheg	2	2	4	k	emosiwn	1	rhyw	49	
iechyd / diod	1	2	2	k	ffilm	1	dywediad Saesneg	27	
rheg / chwarae â geiriau	1	2	2	k	gair cyfansawdd Saesne	1	gwaith	26	
rheg / cyffuriau	1	2	2	k	gwaith	3	teledu	26	
rheg / diod	2	2	4	k	iechyd	1	hiwmor	23	
rheg / gair cyfansawdd Saesneg	1	2	2	k	nifer		cyffuriau	21	
rheg / gwaith / radio	1	3	3	k	radio	1	dillad	20	
rheg / nifer		2	0	k	rheg	34	diod	17	
rheg / rhifo	1	2	2	k	rhifo	1	emosiwn	15	
rheg / rhyw	7	2	14	k	rhyw	19	cyfeiriadaeth - cerddoriaeth	14	
rheg / slang	1	2	2	k	sgwrs	3	chwarae â geiriau	14	
rheg / term Saesneg	7	2	14	k	slang	14	ebychiad	14	
rhyw / cyffuriau	1	2	2	k	term Saesneg	17	iechyd	14	
rhyw / term Saesneg	1	2	2	k	tywidd	1	cartref	10	
sgwrs / rhyw	3	2	6	k	ymadrodd gosod	10	dyfynnu	10	
slang / cyffuriau	2	2	4	k			Llai na 10 enghraifft	145	
slang / rheg	2	2	4	k		121			
slang / rhyw	6	2	12	k					
term Saesneg (x2)	3	2	6	k					1168
term Saesneg / ymadrodd gosod	2	2	4	k					

Y categorïau maes semanteg sy'n cynnwys dwy elfen

Y categorïau sydd wedi eu cynnwys yn y categorïau 'lluosog' (ar y chwith), nawr wedi eu rhannu'n gategorïau unigol

Y categorïau maes semanteg terfynol (y categorïau lluosog wedi eu gwahanu a'u rhannu rhwng y categorïau eraill)

Figur 7: Rhannu'r categorïau maes semanteg sy'n cynnwys mwy nag un elfen

Dyma dabl yn dangos yr holl gategoriâu sy'n perthyn i 'maes semanteg':

Maes Semanteg	Enghraifft
Americana	aros am y drive thru (FfCCh 243)
Amser	tua half nine (FfCCh 55)
Anifail	'mhigo gan jeliffish (CD 91)
Annog	— <i>Come on, Anne-Marie.</i> (MM 41)
Bwyd	son snack solitaire (DN 328)
Byddin	salvage mission (FfCCh 90)
Cam-ddyfynnu	dear dark Dublin (DN 118)
Carchar	Inmates (FfCCh 275)
Cartref	yn y "sitting room" (CD 152)
Cenedl	les Brits (DN 77)
Cerddoriaeth	ei boy band (FfCCh 109)
Corff	treiddio i mewn i dy frên di (CD 142)
Crefydd	Bwdist mÿnc (CD 6)
Cyfarchiad	"All right, boss?" (FfCCh 28)
Cyfeiriadaeth – athroniaeth	<i>The only thing necessary for the triumph of evil, / is for good men to do nothing.</i> – Edmund Burke (FfCCh 242)
Cyfeiriadaeth – barddoniaeth	<i>« my own crude night imaginings, my own crude soul notes taken down in moments of isolation, dreams piercings, sequences of nocturnal thoughts and primitive illumination».</i> (MM 65)
Cyfeiriadaeth – celf	— <i>We are constantly under attack,</i> (MM 38)
Cyfeiriadaeth – cerddoriaeth	'As I was out walking on a corner one day, I spied an old hobo, in a doorway he lay, His face was all grounded in the cold sidewalk floor And I guess he'd been there for a whole night or more. Only a hobo, but no more is gone Leavin' nobody to sing his sad song...' (CD 69)
Cyfeiriadaeth – drama	<i>Be thou familiar, but by no means vulgar.</i> (DN 237)
Cyfeiriadaeth – comedi	<i>If you play New Kids on the Block backwards they sound better. "Oh, Bill, don't pick on them, they're such a good image for the children." Fuck that! When did mediocrity and banality become a good image for your children? I want my kids to listen to people who fucking rocked! I don't care if they died in puddles of their own vomit! I want someone who plays from his fucking heart!</i> – Bill Hicks (FfCCh 145)
Cyfeiriadaeth – ffeminyddiaeth	<i>«The personal is political !»</i> (MM 71)

Cyfeiriadaeth – ffilm	<i>The greatest trick the Devil ever pulled / was convincing the world he didn't exist</i> – Verbal Kint (FfCCh 7)
Cyfeiriadaeth – gêm	pin-the-tail-on-the-donkey (FfCCh 143)
Cyfeiriadaeth – llenyddiaeth	'...the old people now began to take a pride in me...' (<i>The Autobiography of a Super-Tramp</i>) (CD 8)
Cyfeiriadaeth – teledu	THUNDERBIRDS ARE GO! (FfCCh 25)
Cyfieithu	le mot swans, c'est des cygnes (DN 261)
Cyffuriau	mi wnaeth Gethin joint arall (CD 84)
Cymeriadu dysgwr	Faut look the truth in the face (DN 199) <i>Neil DN sy'n creu'r esiamplau hyn pan fo'n dechrau dysgu Ffrangeg, ac yn cyfnewid cod mewn ffordd neilltuol iawn. O'r herwydd, mae'r categori hwn yn ymdebygu at y categori 'sgwrs' – mae Neil yn cyfnewid cod oherwydd ei fod yn gorfod gwneud (oherwydd ei sgiliau ieithyddol), yn hytrach nag o ddewis, yn debyg i gymeriadau uniaith Saesneg a'r cymeriadau eraill sydd am gyfathrebu â hwy.</i>
Cymreigio term Saesneg	tynnu sickie (FfCCh 55)
Cymreigio ymadrodd gosod	mastyrmeindio'r prosidings (CD 35)
Chwarae â dywediad Saesneg	What goes around... (FfCCh 158) what you see you do not get (FfCCh 78)
Chwarae â geiriau	(Tan-paid more like). (FfCCh 175)
Chwaraeon	o'n i awydd swim bach (CD 64)
Daearyddiaeth	dans l'East End (MM 54)
Dawnsio	troi o gwmpas aaaaaaaaaaaaaand grapevine. (FfCCh 151)
Dillad	efo'r dresin-gown (CD 94)
Diod	mae'r hangover (FfCCh 156)
Diwylliant 60/70au	du <i>peace and love</i> (MM 49)
DIY	ddau frwsh emylshiyn (CD 46)
Dyfyniad	<i>Defnyddir y categori hwn ar gyfer dyfynnu (e.e. geiriadur, papur newydd, tatŵ, poster a.y.b.)</i> 'CHRIST is the HEAD of this house, THE UNSEEN GUEST at every meal, THE SILENT LISTENER to every conversation' [Ilun yn nhŷ Mrs Maelor Jones] (CD 156)
Dywediad Saesneg	<i>Defnyddir y categori hwn ar gyfer idiomau Saesneg (h.y. dyma'r union eiriau i'w defnyddio)</i> 'The lights are on, but nobody's home.' (FfCCh 132)
Ebychiad	— <i>Hey man !</i> (MM 34)

Emosiwn	'dipresd uffernol' (CD 26)
Ffilm	rhyw chick-flick shit no doubt (FfCCh 233)
Ffôn	'reverse the charge call' (CD 26)
Ffrenigigo term Saesneg	<i>space out</i> (MM 29)
Ffug-gyfeiriadaeth	<i>Barddoniaeth gan Llwyd Owen yn cael ei roi fel epigraff yn FfCCh, ond ei fod yn ymddangos o dan y ffug enw Len Wydlow</i> (FfCCh 9)
Gair cyfansawdd Saesneg	Blahblahpsychologicalblahblahblah. (FfCCh 231)
Garddio	cael rocyri (CD 151)
Gwaith	yn gweithio overtime (FfCCh 157)
Gwallt	efo poni-têl (CD 58)
Gwleidyddiaeth	'bownd Dduw o fod yn Welsh Nash' (CD 13)
Hiwmor	Os taw e, pass me that Bible and pour me a Perrier! (FfCCh 146) <i>Nodir bod y categori hwn yn rhoi nifer fawr o enghreifftiau yn FfCCh, gyda'r punchline yn cael ei roi yn y Saesneg.</i> <i>Ar gyfer y categori hwn, mae'n rhaid bod y cyfnewid cod yn rhan o strwythur yr hiwmor – hynny yw, ni fyddai jôc o ddileu'r geiriau Saesneg, yn hytrach na jôc sy'n digwydd defnyddio'r Saesneg.</i>
Hwiangerdd Saesneg	'BA-BA-Black Sheep' (FfCCh 221)
Iechyd	sud ma'ch faricos-fêns chi (CD 144)
Llysenw	Y cymeriadau Lityl Pît a Milc Shêc yn CD ¹⁵
Modur	la <i>van</i> (MM 52)
Mytholeg	gyda'r werewolves (FfCCh 172)
Nifer	Loads o ferched (FfCCh 53)
Odl	<i>crème et chrême et whim</i> (DN 219)
Onomatopoeia	NEE-NAW-NEE-NAW-NEE-NAW... (FfCCh 75)
Pensaernïaeth	mewn semi (FfCCh 60)
Pwyslais	"Couldn't you see that one coming or what?" (FfCCh 201) <i>Marcel (cymeriad Cymraeg rhugl) yn troi i'r Saesneg ar ôl cael anaf yn ei lygad</i>
Radio	"air-play cynta'r band[...]" (FfCCh 179)
Rheg	hen ffwcin wrach 'na (CD 38)

¹⁵ Ar ôl llawer o waith meddwl, penderfynwyd cynnwys y rhain fel enghreifftiau o gyfnewid cod, yn hytrach na'u heithrio o'r dadansoddiad fel enwau priod eraill. Dyfarnwyd bod yr enwau hyn yn adlewyrchu gweithred greadigol ar ran y siaradwyr; crëwyd yr enw Milc Shêc fel cyfeiriadaeth at ryw ddigwyddiad arbennig mae'n debyg, a *little Pete* neu 'lityl Pît' yw'r enw a ddefnyddir ar gyfer mab Karen. Nodir bod yr orgraff Gymraeg hefyd yn ffactor bwysig, gan ei fod yn dangos bod yr enwau hyn, sydd â'u gwreiddiau yn y Saesneg, wedi eu hintegreiddio i'r Gymraeg.

Rhifo	'Ffeif pownd ffiffdi, ia?' (CD 58) <i>Nodir bod arian a rhifo wedi cyfuno oherwydd prinder enghreifftiau, felly mae un enghraifft o 'tshiec-bwc' (CD 52) yn y categori hwn.</i>
Rhyw	STD reit ddifrifol (FfCCh 20)
Seisnigo term Ffrangeg	pour faire du <i>pensing</i> , (MM 77)
Sain	(Bong.) [<i>sain Milo yn cael ei guro gyda'r ffôn</i>] (DN 111)
Sefydliad llywodraeth	ffonio'r ffeiar brigêd (CD 90) <i>Nodir bod y categori hwn yn cynnwys yr heddlu, diffoddwyr tân, GIC, a swyddfa'r dôl</i>
Sgwrs	<i>Sgwrs uniaith Saesneg a ddynodir gan y categori 'sgwrs'</i>
Siop	checkout assistant (FfCCh 92)
Slang	ces deux <i>dolls</i> (MM 49)
Swydd	professional elephant keeper (CD 76)
Tafodiaith	"Ble ti'n fynd mewn such a 'urry?" (FfCCh 240) <i>Steph, cymeriad o Rydfelen</i>
Technoleg	er bod 'unkown number' yn fflachio ar y sgrin fach. (FfCCh 166)
Teledu	'runner / production assistant' (FfCCh 197)
Term cyfreithiol	wrongful arést (CD 43)
Term hanesyddol	<i>Home Rule</i> (DN 52)
Term Saesneg	<i>Defnyddir y categori 'term Saesneg' ar gyfer geiriau Saesneg nad oedd yn perthyn yn amlwg i gategori arall maes semanteg; dim ond un gair o hyd ydynt.</i> joué le go-between (DN 188)
Torcyfraith	y paedos (FfCCh 265)
Trafnidiaeth	pasio'r bÿs Shelter (CD 8)
Tywydd	mae'n fuckin freezing (FfCCh 134)
Ymadrodd gosod	<i>Defnyddir y categori 'ymadrodd gosod ar gyfer geiriau Saesneg nad oedd yn perthyn yn amlwg i gategori arall maes semanteg; maent yn fwy nag un gair o hyd, ond heb fod yn frawddegau cyfan nac yn idiomau.</i> parti welcym hôm (CD 174)
Ysbyty	yr intensif cêr (CD 63)
Ysgol	High School de Saint-Jean (MM 13)
Ystafell	i'r bar i'r lownj (CD 112)

Tabl 13: Categoriâu Maes Semanteg

2.2.1.d Ysgogiad/Swyddogaeth y cyfnewid

Crëwyd y maes dadansoddi hwn gan dynnu ar waith nifer o'r ysgolheigion a drafodwyd yn y bennod flaenorol. Trafodwyd eisoes nad oedd pob categori

a welwyd yn y bennod flaenorol yn gweddu ar gyfer y gwaith dadansoddi dan sylw. Er enghraifft, roedd rhai'n ymwneud ag iaith lafar (e.e. newid pwnc) ac felly ddim yn gweddu at ddadansoddi testunau llenyddol, tra bo rhai nad oeddent yn berthnasol ar gyfer y Gymraeg na'r Ffrangeg (er enghraifft amrywiaeth tafodieithol rhyng-ieithol, a oedd yn ymwneud â thafodiaith Arabeg (Albakry a Hancock 2008)). Isod ceir tabl yn dangos y categorïau a ddefnyddir er mwyn dadansoddi'r cyfnewid yn y pedair nofel:

Categori	Esboniad
Bwlch geirfaol	Diffyg gair yn y Gymraeg/Ffrangeg. Gwahaniaeth arwyddocâd. Arferion ieithyddol, dywediadau idiomatig.
Ailadrodd/egluro/pwyslais	Ailadrodd yr hyn sydd wedi cael ei ddweud eisoes. Troi at yr iaith arall i egluro'r hyn sydd wedi ei fynegi'n gynharach. Pwysleisio rhywbeth drwy ei ddweud yn yr iaith arall (weithiau drwy ailadrodd).
Dyfyniad	Dyfynnu darn o lenyddiaeth, barddoniaeth a.y.b. Hefyd yn cynnwys sgwrs uniaith Saesneg (gan fod yr awdur yn dyfynnu'r cymeriadau uniaith Saesneg).
Ebychiad	Yn debyg i'r categori gramadegol 'ebychiad'; mae rhegfeydd yn ffurfio rhan fawr o'r categori hwn.
Agosáu/pellhau	Ymgais gan y siaradwr/cymeriad i greu agosatrydd neu bellter rhyngddo a'r pwnc.
Newid cyd-sgwrsiwr	Newid cyd-sgwrsiwr h.y. o rywun di-Gymraeg i rywun Cymraeg ei iaith.
Creu effaith arbennig	e.e. cymeriadu dysgwr, dywediadau Saesneg, jôcs sydd ddim ond yn gweithio yn y Saesneg, chwarae â geiriau.
Cyfnewid enynnol	Cyfnewid yn cael ei ysgogi gan ddarn o gyfnewid blaenorol.
Cyfeirio	Cyfeiriadaeth, chwarae â dywediad, term hanesyddol.

Tabl 14: Categorïau Ysgogiad/Swyddogaeth

Fodd bynnag, nodir nad yw'r enghreifftiau hyn oll yn codi ym mhob nofel – roedd yn rhaid i'r dadansoddi fod yn hyblyg ac ymateb i'r data yn y nofelau. Nodir hefyd bod ail golofn ddewisol, sef 'Ysgogiad/Swyddogaeth 2', yn cael

ei defnyddio wrth ddadansoddi'r testun, eto'n cynnwys yr un categorïau â'r rhai a nodir yn y tabl uchod. Isod ceir sgrinlun o'r ddogfen Excel a ddarparwyd wrth ddadansoddi FfCCh, er mwyn dangos y golofn ddewisol 'Ysgogiad/Swyddogaeth 2':

Hyd	Dosbarth Gramadeg	Maes semantec	Ysgogiad/Swyddogaeth	Ysgogiad/Swyddogaeth 2	Nifer
< brawddeg	ymadrodd enw	rhyw	Bwlch geirfaol		1
brawddeg	brawddeg	cyfeiriadaeth - teledu	Dyfynnu		1
1 Gair	ebychiad	rheg	Ebychiad	Bwlch geirfaol	1
1 Gair	ansoddair	emosiwn /	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	adferf	term Saesneg	Bwlch geirfaol		1
< brawddeg	cymal	hiwmor	Dyfynnu		1
< brawddeg	ymadrodd enw	ymadrodd	Bwlch geirfaol		1
< brawddeg	ymadrodd enw	ymadrodd	Bwlch geirfaol		1
brawddeg	brawddeg	cyfarchiad	Bwlch geirfaol		1
< brawddeg	ymadrodd enw	rheg	Ailadrodd/eglurof	Bwlch geirfaol	1
< brawddeg	ansoddair + adf	term Saesneg	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	ansoddair	term Saesneg	Bwlch geirfaol		1
brawddeg	brawddeg	rheg	Ebychiad		1
1 Gair	enw	cyffuriau	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	ansoddair	term Saesneg	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	ymadrodd enw	cerddoriaeth	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	ansoddair	rheg	Ailadrodd/eglurof	Bwlch geirfaol	1
1 Gair	enw	rhyw	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	enw	cyffuriau	Bwlch geirfaol		1
< brawddeg	ymadrodd enw	cyffuriau	Bwlch geirfaol		1
< brawddeg	ymadrodd enw	cerddoriaeth	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	enw	rheg	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	enw	iechyd	Bwlch geirfaol		1
1 Gair	ansoddair	slang	Bwlch geirfaol		1

Figur 8: Sgrinlun o Ysgogiad/Swyddogaeth 2

Nid oedd dwy ysgogiad/swyddogaeth cyfnewid yn bodoli ar gyfer y rhan helaeth o'r darnau o gyfnewid, ond roedd ambell ddarn o gyfnewid yn cael ei ddefnyddio am fwy nag un rheswm neu oherwydd mwy nag un ysgogiad. Er enghraifft, penderfynwyd bod defnyddio rhegfeydd fel ansoddeiriau nid yn unig yn perthyn i'r categori bwlch geirfaol (oherwydd diffyg rhegfeydd tebyg yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu'r Ffrangeg a'r Saesneg), ond hefyd yn gosod pwyslais, gan fod troi at y Saesneg er mwyn rhegi yn gwneud i'r datganiad

sefyll allan o'r testun Cymraeg neu Ffrangeg.¹⁶ Oherwydd bod rhai darnau o gyfnewid yn rhoi mwy nag un tocyn ysgogiad/swyddogaeth cyfnewid inni, mae'r cyfanswm ar gyfer y categori hwn yn fwy nag ar gyfer cyfanswm cyfnewid y nofelau cyfan.

Dylid hefyd gydnabod yr elfen oddrychol yn y categori hwn, gan nad yw hi'n bosib gwybod i sicrwydd beth oedd bwriad yr awdur wrth iddo ddefnyddio cyfnewid cod. Fodd bynnag, mae hyn yn broblem sy'n wynebu pob un sy'n dadansoddi cyfnewid cod. Yn ogystal, mae'n ansicr a fyddai'r awduron ei hunain yn sicr o'i bwriad wrth gyfnewid cod ym mhob enghraifft wrth edrych yn ôl ar y testun. Gan nad ydym yn cael ein dysgu i gyfnewid cod, ond yn hytrach yn ei gaffael yn naturiol, nid yw pawb yn ymwybodol o'r rhesymeg sydd y tu ôl i'r cyfnewid cod ym mhob achos.

2.2.2 Graffiau

Defnyddiwyd yr holl feysydd dadansoddi hyn er mwyn dadansoddi'r cyfnewid, ac i greu tablau o'r data. Yna, crëwyd graffiau er mwyn rhoi'r data ar ffurf fwy gweledol, sef:

Graff Bar – Penodau, Dosbarth Gramadegol, Maes Semanteg,

Llais/Persbectif Pennod

Graff Cylch – Adran, Hyd, Ysgogiad/Swyddogaeth

¹⁶ Gellid dadlau bod *pob* enghraifft o gyfnewid cod yn gosod pwyslais, ond nid wyf yn cytuno â hyn. Os yw'r cymeriad yn dyfynnu, neu'n defnyddio gair nad yw'n bodoli yn y Gymraeg neu'r Ffrangeg, go brin fod hyn hefyd yn rhoi pwyslais ar y darn o gyfnewid. Ond, gyda rhegfeydd, mae rhegfeydd eraill yn bodoli yn y Gymraeg a'r Ffrangeg – pam troi at y Saesneg felly? Maent yn tynnu sylw atynt eu hunain, ac yn pwysleisio'r gair sy'n dilyn o'u defnyddio fel ansoddeiriau. Yn aml, mae'r rhegfeydd yn y Saesneg yn gryfach na'r rhai Cymraeg/Ffrangeg, sy'n dueddol o fod yn rhai yn erbyn Duw, felly gwelir bod elfen arall o bwyslais wrth ddewis rhegfeydd cryfach.

Gyda'r meysydd sy'n cynnwys nifer fawr o categorïau gwahanol, er enghraifft maes semanteg, mae'r categorïau a chanddynt nifer fechan o enghreifftiau yn cael eu grwpio gyda'i gilydd gan fod cyn lleied o enghreifftiau. Er enghraifft, grwpiwyd y categorïau maes semanteg FfCCh a oedd yn cynnwys llai na deg enghraifft gyda'i gilydd (gweler t.110). Yn ogystal, mae'r siartiau bastai yn cynnwys gwybodaeth am nifer a chanran yr enghreifftiau o gyfnewid cod.

2.3 Crynodeb

Manylwyd ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer codio'r pedair nofel dan sylw yn y bennod hon. Ffurfiwyd y fethodoleg o chwe maes dadansoddi gwahanol, a'r meysydd hyn wedi eu ffurfio o sawl categori gwahanol. Er enghraifft, mae'r maes dadansoddi 'hyd' wedi ei ffurfio o bedwar categori: un gair, llai na brawddeg, brawddeg a mwy na brawddeg. Trafodwyd rhai o'r penderfyniadau a wnaed wrth ddadansoddi'r nofelau, er enghraifft nodwyd nad oedd union orgraff y geiriau'n bwysig wrth ddewis a oedd yr enghraifft yn gyfnewid cod neu'n fenthycu, cyn belled â bod yr un ystyr yn cael ei gynnwys yn GPC. Trafodwyd hefyd rai o anawsterau'r gwaith codio, er enghraifft gwahaniaethu rhwng gwahanol feysydd semanteg. Yn y ddwy bennod sy'n dilyn, byddwn yn trafod canlyniadau'r gwaith codio, gan rannu'r penodau yn ôl ieithoedd y nofelau.

Pennod 3: Y Nofelau Cymraeg

Yn y bennod hon, ceir trafodaeth o'r nofelau Cymraeg, *Cyw Dôl* (1990) a *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* (2006). Mae'r ddwy nofel wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, ac wedi eu hysgrifennu gan ddau awdur proffesiynol, er bod Twm Miall yn wreiddiol o Drawsffynydd tra bo Llwyd Owen yn frodor o Gaerdydd.¹⁷ Mae nifer o dablau a siartiau wedi eu cynnwys isod, sy'n dangos y data a gasglwyd wrth ddadansoddi cyfnewid cod yn y nofelau. Yn y tablau a'r siartiau, CD fydd yn ymddangos gyntaf, neu ar y chwith yn y tablau, gan mai'r nofel hon a gyhoeddwyd gyntaf. Mae'r siartiau bar mewn dau liw gwahanol, gyda CD mewn glas a FfCCh mewn coch. Yr un gyfres o liwiau a ddefnyddir ar gyfer y siartiau bastai, gan ddefnyddio lliw penodol ar gyfer pob categori.

3.1 Nifer

Mae un darn o gyfnewid cod yn cael ei gyfrif fel gair neu eiriau Saesneg sy'n ymddangos o fewn y testun Cymraeg; y Gymraeg sy'n dangos ffiniau darn o gyfnewid cod. Er enghraifft;

“Mae e'n hollol embarrassing. Alla i ddim aros fan hyn trwy'r dydd.”

(FfCCh 23)

'[...]moment ysblennydd o anobaith anfoesgar.

Elvis has just left the building.

Cyrhaeddodd ei Audi [...]

(FfCCh 24)

¹⁷ Am ragor o fanylion bywgraffiadol, gweler tt.163.

Gwelir o'r enghraifft gyntaf mai cyfnewid o hyd 'un gair' sydd yma, sef 'embarassing', sy'n ymddangos mewn brawddeg Gymraeg. Gyda'r ail enghraifft, brawddeg yw hyd y cyfnewid ('Elvis has just left the building'), gyda brawddegau Cymraeg ar y naill ochr a'r llall iddi. Ond un darn o gyfnewid cod ydynt ill dau er eu bod o hyd gwahanol – nid ydym yn cyfrif y geiriau yn unigol.

O ran cyfanswm y darnau o gyfnewid cod yn y nofelau, mae FfCCh yn bell ar y blaen, gyda 1105 darn o gyfnewid cod, tra bo 646 darn o gyfnewid yn CD.

O ran cyfartaledd (nifer y darnau o gyfnewid cod wedi ei rannu â nifer y tudalennau), gwelir bod y ddwy nofel yn weddol debyg:

Nofel	Cyfanswm y darnau o gyfnewid cod	Tudalennau	Cyfartaledd
CD	646	180	3.59
FfCCh	1105	285	3.88


Tabl 15: Cyfartaledd Cyfnewid Cod (Nofelau Cymraeg)

Felly mae'r cyfartaledd yn dangos tebygrwydd rhwng cyfnewid cod CD a FfCCh nad oedd i'w weld o edrych ar y cyfanswm yn unig. Mae cyfanswm y cyfnewid cod yn FfCCh yn llawer mwy na CD, ond mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd ei bod hi'n nofel hwy o dipyn. Diddorol yw nodi bod cyfartaledd y cyfnewid yn y ddwy nofel yn weddol isel. Fodd bynnag, gwelir bod y defnydd o gyfnewid cod yn amrywio rhwng penodau – nid yw'r enghreifftiau wedi eu rhannu'n gyfartal drwy'r nofelau.


3.2 Penodau

Nodir ym mha bennod y mae'r cyfnewid cod yn digwydd, gan fod posibilrwydd bod cysylltiad rhwng y digwyddiadau yn y nofelau a'r math o

ieithwedd sy'n cael ei defnyddio. Isod ceir dau siart bar yn dangos sut mae'r cyfnewid cod yn cael ei rannu rhwng y gwahanol benodau. Pwysleisir eto fod CD yn nofel fyrrach na FfCCh, ond bod ganddi fwy o benodau: 44 pennod yn CD, a 30 yn FfCCh. Mae'r penodau yn CD yn llawer byrrach na FfCCh, gyda nifer ohonynt yn dudalen neu ddwy o hyd yn unig. Nodir bod peth cyfnewid cod ym mhob pennod o FfCCh, ac ym mhob pennod heblaw dwy o CD (pennod 15 a 29). Ym mhennod 15 mae Bleddyn yn hel meddyliau am beth fyddai ef a'i ffrindiau'n ei wneud pe bai adref, ac ym mhennod 29 cawn gofnod byr o'i amser yn nhŷ Steve pan fo Steve i ffwrdd. Penodau byr yw'r ddwy, heb unrhyw ddeialog ond yn hytrach yn cynnwys monologau gan Bleddyn yn disgrifio'i fywyd.



Ffigur 9: Cyfnewid Cod yn ôl Penodau yn CD



Ffigur 10: Cyfnewid Cod yn ôl Penodau FfCCh

O edrych ar y graffiau uchod gwelir bod amrywiaeth glir rhwng penodau'r ddwy nofel. O edrych ar y penodau sy'n cynnwys y nifer fwyaf o ddarnau o gyfnewid cod, mae pennod 10 CD yn cynnwys 10% o'r cyfnewid cod sydd yn y nofel gyfan, a phennod 7 FfCCh yn cynnwys 9% o'r cyfnewid cod a welir yn y nofel gyfan. Mae hyn oherwydd bod cysylltiad yn bodoli rhwng yr ieithwedd a digwyddiadau'r nofel. Mae pennod 7 FfCCh yn cynnwys Luc a Whitey yn ymweld â phuteindy, ac mae'r merched sy'n gweithio yno yn uniaith Saesneg – ac yn siaradus! O'r herwydd, mae llawer iawn o'r ddeialog ym mhennod 7 yn uniaith Saesneg, gyda Luc a Whitey'n troi at y Saesneg wrth i'r cymeriadau geisio cyfathrebu â'i gilydd. Mae pennod 10 CD yn cynnwys Bleddyn yn cael ei arestio ac yn cyfarfod nifer o blismyn a throsteddwyr uniaith Saesneg. Isod, yn nhabl 16, nodir y tair pennod yn CD a FfCCh sy'n cynnwys y nifer fwyaf o gyfnewid cod, gyda chrynodeb o ddigwyddiadau'r bennod:


Cyw Dôl			Ffawd Cywilydd a Chelwyddau		
Pennod	Digwyddiadau	Darnau o Gyfnewid Cod	Pennod	Digwyddiadau	Darnau o Gyfnewid Cod
10	Bleddyn yn cael ei arestio ar gam; cyfarfod troseddwy'r a phlismyn uniaith Saesneg	65	7	Luc a Whitey yn mynd i buteindy; merched uniaith Saesneg.	102
21	Bleddyn yn sâl; Karen (uniaith Saesneg), sy'n byw yn y fflat fyny'r grisiau, yn ei helpu.	50	14	Luc yn mynd i weld Whitey yn y gwaith, chwarae CD <i>Fflach!</i> ar radio'r ysbyty fel <i>taste test</i> .	79
6	Bleddyn yn cyfarfod Nerys (uniaith Saesneg) am y tro cyntaf; mae hi'n byw i lawr y grisiau o fflat Mal Jôs.	39	24	Luc yn gadael ei swydd, Emlyn yn gofyn iddo fynd â bag draw i dŷ <i>Fflach!</i>	75

Tabl 16: Penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o Gyfnewid Cod (Nofelau Cymraeg)


Mae cynnwys cymeriadau uniaith Saesneg yn cael effaith amlwg ar y cyfnewid cod yn y ddwy nofel. Yn y tabl uchod gwelir mai dyma'r prif reswm am y cyfnewid cod ym mhob un o'r tair pennod o CD, ac un bennod o FfCCh. Sylwer nad yw'r ddwy bennod arall o FfCCh, penodau 14 a 24, wedi eu heffeithio cymaint gan bresenoldeb cymeriadau uniaith Saesneg – er bod Luc yn siarad â derbynyddes uniaith Saesneg, Whitey'n cyflwyno ei sioe radio yn y Saesneg ac yn siarad Saesneg â Sister Fatima sy'n gweithio yn yr ysbyty. Ond nid oes siaradwyr uniaith Saesneg o gwbl ym mhennod 24, er bod Emlyn yn ysgrifennu post uniaith Saesneg ar fforwm ar-lein. Yn hytrach,

presenoldeb geiriau unigol neu ymadroddion Saesneg sy'n cyfrannu fwyaf at y cyfnewid cod yn y bennod hon. O edrych ar y chwe phennod hyn, gellid dadlau bod Llwyd Owen yn defnyddio math gwahanol o gyfnewid cod i Twm Miall. Yn nhair pennod CD, dangos sefyllfa ddeuglosig y mae Twm Miall yn bennaf, gan gynnwys cymeriadau uniaith Saesneg, a deialog Saesneg yw'r prif reswm am gyfnewid cod yn y tair pennod. Yn nhair pennod FfCCh, fodd bynnag, mae mwy o enghreifftiau o gyfnewid cod mewnfrawddegol, sy'n awgrymu mai nodwedd o iaith y Cymry Cymraeg eu hunain yw'r cyfnewid cod yn y nofel hon.

Ceir dau graff arall isod sy'n dangos y cyfnewid cod ym mhenodau'r ddwy nofel yn ogystal â hyd y penodau. Crëwyd y graffiau hyn er mwyn gweld a oedd cysylltiad rhwng hyd penodau a'r nifer o ddarnau o gyfnewid cod a oedd ynddynt. Mae'r nifer o ddarnau o gyfnewid cod ym mhob pennod i'w gweld ar y llinell las, tra bo'r llinell oren yn dangos y nifer o dudalennau sydd yn y penodau hynny.



Figur 11: Cyfnwïd Cod – Penodau a'u Hyd CD



Figur 12: Cyfnwïd Cod – Penodau a'u Hyd FfCCh

O edrych ar bennod 10 yn CD, sef y bennod sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel, gwelir rhywbeth diddorol. Mae'r bennod yn cynnwys 65 enghraifft o gyfnewid cod, ac mae hi'n un o benodau hiraf CD (9 tudalen o hyd). Mae pennod 21 hefyd yn 9 tudalen o hyd, ac yn cynnwys 50 enghraifft o gyfnewid cod – hon yw'r ail bennod â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn CD. Fodd bynnag, gwelir bod pennod 20, sydd hefyd yn 9 tudalen o hyd, ond yn cynnwys 11 enghraifft o gyfnewid cod. Y bennod â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn FfCCh yw pennod 7, sy'n cynnwys 102 o enghreifftiau. Hon yw pennod hiraf y nofel, yn 20 tudalen o hyd. Mae'r ddwy bennod nesaf a chanddynt y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn cynnwys 79 enghraifft (pennod 14) a 75 enghraifft (pennod 24). Mae'r ddwy bennod yn 12 tudalen o hyd. Mae nifer o benodau eraill yn cwmpasu 12 tudalen, a rhai â mwy o dudalennau na hyn ond yn cynnwys llai o enghreifftiau o gyfnewid cod (e.e. pennod 2, pennod 3). Felly, er bod y penodau hiraf yn edrych yn fwy tebygol o gynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod, nid yw hyn yn wir bob tro.

3.3 Adrannau o'r Testun


Defnyddir pedwar categori 'adran' er diben y dadansoddi: naratif, deialog, epigraff a dyfynnu (trafodir y diffiniadau ar t.68). Isod yn nhabl 17 ceir y gwahanol adrannau o'r testun lle mae cyfnewid cod yn digwydd a hynny mewn trefn ddisgynnol o ran nifer o enghreifftiau. Rhoddir manylion ynglŷn â'r nifer a'r ganran ar gyfer CD a FfCCh (canran o gyfanswm yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel). Ceir hefyd siartiau bastai a grëwyd o'r data hwn.

Mae FfCCh yn cynnwys epigraffau ar gyfer pob pennod,¹⁸ tra bo CD yn cynnwys epigraff ar gyfer y nofel gyfan yn unig a hwnnw yn y Gymraeg.


	Cyw Dôl			Ffawd Cywilydd a Chelwyddau		
1	Deialog	441	68%	Naratif	658	59%
2	Naratif	182	28%	Deialog	374	34%
3	Dyfynnu	23	4%	Dyfynnu	53	5%
4	–	–	–	Epigraff	20	2%

Tabl 17: Cyfnewid Cod yn ôl Adrannau'r Testun (Nofelau Cymraeg)

¹⁸ Mae epigraff yn ddyfyniad byr a ddefnyddir i agor y nofel, neu i agor y bennod. Gweler esboniad llawn ar t.67.



Ffigur 13: Cyfnewid Cod yn ôl adran y CD



Ffigur 14: Cyfnewid Cod yn ôl adran yn FfCCh

Gwelir gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy nofel. Fel y dadleuwyd eisoes, mae presenoldeb cymeriadau uniaith Saesneg yn cael effaith amlwg ar CD, felly mae'n naturiol fod y rhan helaeth o'r cyfnewid cod yn digwydd fel rhan o'r ddeialog (ond cofier bod 'deialog' yma (adran o'r testun) hefyd yn cynnwys deialog cymeriadau dwyieithog sy'n defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol). Ar y llaw arall, gwelwn fod y rhan fwyaf o'r cyfnewid cod yn FfCCh yn digwydd fel rhan o'r naratif. Mae hyn yn ddiddorol gan fod CD a FfCCh ill dau yn defnyddio'r prif gymeriad fel llais yr adroddwr. Felly, mae'n amlwg fod arddull Luc yn wahanol iawn i arddull Bleddyn; dim ond 28% o'r cyfnewid cod yn CD sy'n digwydd yn y naratif, o gymharu â 59% yn FfCCh. Yn amlwg felly, mae Bleddyn yn defnyddio llai o gyfnewid cod na Luc. Wrth gwrs, rhywbeth dychmygol, wedi ei greu gan yr awdur yw cymeriad. Ond gall y cymeriadau feddu ar eu hidiolect arbennig eu hunain – hynny yw, mae'r awdur yn dewis rhoi ieithwedd arbennig i'r cymeriad. Er enghraifft, dywed Alun Jones mai ieithwedd Luc yn arbennig sy'n effeithio ar ieithwedd FfCCh (Owen et al. 2006 t.133). Gall y cyfnewid cod, felly, fod yn sgil effaith neu'n rhan o'r cymeriadu.

Yn FfCCh, mae Luc Swan yn dueddol o ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Saesneg un ai yn y naratif Gymraeg neu yn ei sgwrs. Efallai fod hyn yn adlewyrchu ieithwedd wahanol prif gymeriad CD, Bleddyn, sydd o Lan Ffestiniog a Luc, sy'n frodor o Gaerdydd; neu gallai hyn adlewyrchu ieithwedd wahanol yr awduron, sydd o'r un haniaeth â'r ddau brif gymeriad. Gallai'r gwahaniaeth oedran rhwng y testunau fod yn ffactor bwysig arall: efallai fod cyfnewid cod wedi dod yn rhywbeth mwy poblogaidd erbyn 2006

o'i gymharu â 1990. Mae'n anodd bod yn sicr iawn o'r rheswm am y gwahaniaeth hwn heb inni hefyd edrych ar fwy o nofelau ac awduron.

Er bod cyfnewid cod wedi ymddangos mewn llenyddiaeth yn y Gymraeg cyn i Llwyd Owen ysgrifennu FfCCh, efallai fod awduron a oedd yn defnyddio cyfnewid cod cyn hyn yn ceisio cadw'r naratif yn fwy 'pur' a chadw'r cyfnewid cod ar gyfer deialog y cymeriadau yn unig. Esbonia Bakhtin:

Nevertheless, heteroglossia (other socio-ideological languages) can be introduced into purely poetic genres, primarily in the speeches of characters. But in such a context it is objective. It appears, in essence, as a *thing*, it does not lie on the *same* plane with the real language of the work: it is the depicted gesture of one of the characters and does not appear as an aspect of the word doing the depicting.

(2010 t.287)

Felly mae'r ddeialog yn cael ei gweld fel rhywbeth sy'n sefyll ar wahân i'r naratif mewn nofel. Mewn testunau realaidd clasurol, rydym yn esgus nad yw'r naratif wedi cael ei ysgrifennu neu ei greu, oherwydd 'the narrative discourse functions simply as a window on reality' (MacCabe yn: Williams 2005 t.16). Felly, efallai ei bod hi'n fwy derbyniol i gael deialog mewn ieithwedd wahanol i'r testun (boed yn dafodiaith, yn fratiaith, neu'n gyfnewid cod), a bod y defnydd o gyfnewid cod yn y naratif yn rhan o'r rheswm pam y mae FfCCh wedi ysgogi cymaint o drafodaeth yma yng Nghymru. Gallai rhoi'r cyfnewid cod yn y naratif olygu ei fod yn cael ei weld fel mwy o fygythiad i iaith leiafrifol, wrth i'r Saesneg ddechrau tresmasu ar y naratif yn ogystal â'r ddeialog. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth y dylid edrych arno mewn mwy o ddyfnder yn y dyfodol.

Fel y soniwyd eisoes, mae Llwyd Owen wedi cynnwys epigraff i agor pob pennod. Daw'r rhain o nifer o ffynonellau gwahanol, boed o lenyddiaeth, yn

athroniaeth neu'n gomedi (e.e. darn o *stand up* Bill Hicks, pennod 13).

Maent hefyd yn deillio o ieithoedd gwahanol, a chyfieithir nifer ohonynt i'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn hyn o beth, fel y sylwa Owain Rhys yn ei adolygiad o'r nofel (2006). Ceir tabl isod yn dangos ffynhonnell y dyfyniad, yr iaith y mae'n ymddangos ynddi ac a ydyw'n gyfieithiad ai peidio:

Pennod		laith	Cyfieithiad
Rhagair	Verbal Kint	Saesneg	Na
Rhagair	Anhysbys	Cymraeg	?
Rhagair	Robert Johnson	Saesneg	Na
1	Len Wydlow [Llwyd Owen]	Saesneg	Na
2	Black Sabbath	Saesneg	Na
3	Anon	Saesneg	Na
4	Russ [Brawd Llwyd Owen]	Cymraeg	Na
5	Geraint Jarman	Cymraeg	Na
6	www.crystallinks.com	Saesneg	Na
7	Ice T	Saesneg	Na
8	Frank Zappa	Saesneg	Na
9	Stephen Vincent Binet	Saesneg	Na
10	Cornell Haynes Jnr [Nelly]	Cymraeg	le – o'r Saesneg
11	www.teenpuberty.com	Cymraeg	le – o'r Saesneg
12	Hen Ddywediad Albanaidd	Saesneg	Na
13	Bill Hicks	Saesneg	Na
14	Alexander O'Neil	Saesneg	Na
15	Henry David Thoreau	Cymraeg	le – o'r Saesneg
16	Tao Te Ching	Cymraeg	le – o'r Tsieinëeg
17	Samuel Griswold Goodrich	Saesneg	Na
18	Mark Twain	Cymraeg	le – o'r Saesneg
19	Marcel Proust	Saesneg	le – o'r Ffrangeg
20	William Wordsworth	Cymraeg	le – o'r Saesneg
21	John Lubbock	Cymraeg	le – o'r Saesneg
22	Robert Southey	Saesneg	le – o'r Saesneg
23	Y Geiriadur Tywyll	Cymraeg	?
24	Mathew 4 Adnod 9	Cymraeg	Na
25	Edmund Burke	Saesneg	Na
26	Nathan Algren	Saesneg	Na
27	Mahatma Gandhi	Saesneg	Na
28	Anon	Saesneg	Na
29	Carl Sagan	Cymraeg	le – o'r Saesneg
30	Antoine de Saint-Exupery	Saesneg	le – o'r Ffrangeg

Tabl 18: Epigraffau FfCCh

Pam fod rhai dyfyniadau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg ac eraill wedi eu gadael yn y Saesneg? Mae hi'n aneglur pam y mae dyfyniadau Mark Twain, Wordsworth a John Lubbock, er enghraifft, wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg,


ond dyfyniadau gan Edmund Burke, Nathan Algren a Mahatma Gandhi heb eu cyfieithu. Onid gwell fyddai un ai gadael pob dyfyniad yn eu hieithoedd gwreiddiol, gan gynnig cyfieithiad Cymraeg i helpu'r darlennydd, neu gyfieithu pob dyfyniad i'r Gymraeg (er, rhaid cyfaddef, byddai hyn yn anodd iawn ar gyfer dyfyniadau o ganeuon, fel 'I am the Slime' Frank Zappa, sy'n agor pennod 8).

3.4 Hyd


Maes arall a ddefnyddir er mwyn dadansoddi'r cyfnewid cod yw 'hyd' (gweler diffiniad t.68). Isod yn nhabl 19 dangosir cyfnewid cod yn ôl hyd, gyda'r categorïau wedi eu trefnu o'r mwyaf i'r lleiaf niferus o ran nifer o enghreifftiau. Ceir eto ddau siart bastai a grëwyd o'r data.

	Cyw Dôl			Ffawd Cywilydd a Chelwyddau		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Llai na Brawddeg	246	38%	Un Gair	470	42%
2	Un Gair	197	30%	Llai na Brawddeg	387	35%
3	Mwy na Brawddeg	166	26%	Brawddeg	162	15%
4	Brawddeg	37	6%	Mwy na Brawddeg	86	8%

Tabl 19: Cyfnewid Cod a Hyd (Nofelau Cymraeg)



Ffigur 15: Cyfnewid Cod yn ôl hyd yn CD



Ffigur 16: Cyfnewid Cod yn ôl hyd yn FfCCh

Eto mae'r data yn nhabl 19 a graff 15 a 16 yn cyd-fynd i ryw raddau â'r tablau blaenorol. Gyda FfCCh, gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r cyfnewid cod yn digwydd yn y naratif. Oherwydd bod FfCCh yn ffafrio defnyddio cyfnewid o hyd un gair neu lai na brawddeg, dangosir mai cyfnewid mewnfrwaddegol a ddefnyddir fwyaf yn y nofel hon. Efallai fod hyn er mwyn ffitio'r cyfnewid cod Saesneg o fewn y naratif Cymraeg. Isod ceir tabl 20 sy'n dangos niferoedd yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn ôl eu hyd a'r adran o'r testun y maent yn perthyn iddo. Mae'r ffigyrau mewn glas ar gyfer CD ac mewn coch ar gyfer FfCCh.

		Adran o'r Testun				
		Naratif	Deialog	Dyfynnu	Epigraff	CYFANSWM
Hyd	Un Gair	120 333	72 119	5 18	0 0	197 470
	Llai na Brawddeg	59 235	177 129	10 23	0 0	246 387
	Brawddeg	0 81	37 60	0 8	0 13	37 162
	Mwy na Brawddeg	3 9	155 66	8 4	0 7	166 86
	CYFANSWM	182 658	441 374	23 53	0 20	646 1105

Tabl 20: Cyfnewid Cod – Hyd ac Adran o'r Testun (Nofelau Cymraeg)

O edrych ar y tabl uchod gwelir bod tueddiad yn CD a FfCCh i ddefnyddio darnau o gyfnewid cod o hyd un gair neu lai na brawddeg yn y naratif, sef cyfnewid mewnfrwaddegol. Mae dyfynnu hefyd yn dueddol o fod yn gyfnewid mewnfrwaddegol. Mae deialog yn dangos patrwm mwy cytbwys, heb ddangos tuedd gref at gyfnewid mewnfrwaddegol na rhyngfrwaddegol. Fodd bynnag, mae epigraff yn gyfnewid rhyngfrwaddegol: mae'n debyg fod hyn i'w ddisgwyl gan fod epigraff yn rhywbeth ar wahân i weddill y bennod neu'r nofel, fel rhyw fath o isdeitl.

Mae'r ffaith fod llawer o'r cyfnewid cod yn CD o hyd llai na brawddeg yn nodweddu'r ffordd y mae Twm Miall yn ysgrifennu deialog. Tuedda i ysgrifennu rhan o'r datganiad, cyn ychwanegu tagiau megis 'medda o' neu 'medda hi', er enghraifft:


'This is supposed to be a savings account,' medda hi,
'not a cheque book.'

(CD 29)


Fel y trafodwyd eisoes yn y bennod ar fethodoleg, nid ydym yn ceisio diffinio beth yw brawddeg, ond yn hytrach yn dilyn yr atalnodi a ddefnyddir yn y nofelau. Felly, mae'r darn o gyfnewid cod sy'n rhan o sgwrs uniaith Saesneg yn dod yn gymal o fewn brawddeg hwy, yn hytrach na brawddeg annibynnol. Yn yr esiampl uchod, ceir tag Cymraeg ('medda hi') yn gwahanu dau ddarn o gyfnewid cod o hyd llai na brawddeg. Efallai fod defnyddio'r tag hwn yn ymdrech fwriadol ar ran Miall i gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, neu i fframio disgwrs Saesneg mewn byd Cymraeg. Er na allwn fod yn sicr beth yw'r ysgogiad i ysgrifennu sgwrs yn y ffordd hon, gallwn weld fod Miall yn defnyddio mwy o Gymraeg o ychwanegu'r tagiau hyn na phetai wedi peidio â'u cynnwys.

3.5 Dosbarth Gramadegol

Maes arall a ddefnyddir i ddadansoddi'r cyfnewid cod yw 'dosbarth gramadegol' (gweler t.70 am gyflwyniad byr). Isod ceir siartiau bar yn dangos sut mae'r cyfnewid cod yn cael ei rannu rhwng gwahanol gategoriâu'r dosbarth gramadegol.



Figur 17: Cyfnewid Cod yn ôl dosbarth gramadegol yn CD



Ffigur 18: Cyfnewid Cod yn ôl dosbarth gramadegol yn FfCCh

Isod yn nhabl 21 dangosir y pum dosbarth gramadegol sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddwy nofel Gymraeg:

Cyw Dôl				Ffawd Cywilydd a Chelwyddau		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Brawddeg	192	29%	Brawddeg	238	21%
2	Cymal	141	21%	Enw	233	21%
3	Enw	103	15%	Ymadrodd Enwol	196	17%
4	Ymadrodd Enwol	85	13%	Ansoddair	140	12%
5	Ansoddair	46	7%	Cymal	66	5%

Tabl 21: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol (Nofelau Gymraeg)

Sylwer fod cyfnewid cod o hyd gair unigol neu ymadrodd unigol, a chyfnewid cod hwy yn cael eu heffeithio yn wahanol wrth ddadansoddi cyfnewid cod yn ôl dosbarth gramadegol. Ar y naill law, mae'r categori 'brawddeg' (dosbarth gramadegol) yn cynnwys dwy elfen: nid yn unig frawddegau unigol, ond hefyd ddarnau o gyfnewid sy'n hwy na brawddeg. Ar y llaw arall, mae geiriau unigol ac ymadroddion wedi eu rhannu rhwng nifer o gategoriâu gwahanol, er enghraifft enw, ansoddair, ymadrodd enwol neu ymadrodd ansoddeiriol. Mae'r holl enghreifftiau o gyfnewid cod o hyd brawddeg a mwy na brawddeg (namyn 11 enghraifft CD a 10 FfCCh) yn perthyn i'r categori brawddeg yma (dosbarth gramadegol). Ond mae'r enghreifftiau byrrach (un gair a llai na brawddeg) yn cael eu rhannu rhwng categorïau gwahanol. Mae'r 443 enghraifft yn CD a'r 857 enghraifft yn FfCCh – er eu bod yn fwy niferus na'r enghreifftiau hwy (brawddeg a mwy na brawddeg) – yn cael eu rhannu'n weddol gyfartal rhwng nifer o gategoriâu gwahanol, sy'n golygu bod y categorïau hyn yn cynnwys llai o enghreifftiau na'r categori brawddeg. Mae'n debygol, felly, os yw nofel yn defnyddio cyfnewid cod o hyd 'brawddeg' a 'mwy na brawddeg', y byddai'r categori 'brawddeg' (dosbarth

gramadegol) yn ymddangos fel un sy'n cynnwys nifer fawr o enghreifftiau yn ogystal.

Mae'n ddiddorol mai'r un categorïau sy'n ymddangos yn y pump uchaf yn y ddwy nofel; diddorol fydd gweld a yw'r patrwm hwn hefyd yn bodoli mewn gweithiau eraill yn y Gymraeg ac ieithoedd eraill. Mae'r darganfyddiadau hyn yn cyd-fynd â gwaith gan ysgolheigion eraill i ryw raddau. Awgryma Gardner-Chloros mai enwau sy'n cael eu cyfnewid fynychaf, er bod modd cyfnewid pob categori gramadegol, o leiaf mewn theori (2009 t.31).

Anghytuna Joshi â Gardner-Chloros gan ddweud bod modd cyfnewid enwau, ansoddeiriau a berfau ('open class terms') ond nad oes modd cyfnewid y fannod, arddodiaid a meintiolwyr ('closed class items') (1985). Ymddengys o'r data fod modd cyfnewid yr eitemau ieithyddol y mae Joshi'n eu disgrifio fel 'closed class items', er nad ydynt yn niferus iawn yn y corpws; enwau ac ansoddeiriau yw'r geiriau unigol mwyaf poblogaidd o safbwynt cyfnewid, gyda chymalau, ymadroddion enwol a brawddegau hefyd yn ymddangos yn y pum categori a chanddynt y nifer fwyaf o enghreifftiau.

Mae'n ddiddorol nodi bod llawer o enghreifftiau o gyfnewid mewnfrawddegol yn y ddwy nofel. Yn ôl Lipski, mae cyfnewid mewnfrawddegol mewn llenyddiaeth yn nodweddiadol o "'compound-bilingual" who has learned both languages at approximately the same time and in similar or identical contexts' (1982 t.195).¹⁹ Yn sicr, mae Cymry dwyieithog yn rhugl yn y


¹⁹ Nodir bod y disgrifiad hwn yn broblematic yng Nghymru. Yn gyntaf, mae hi'n anodd iawn diffinio rhuglder, yn enwedig gan fod gan siaradwyr sgiliau ieithyddol amrywiol (e.e. siaradwr iaith gyntaf sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd, siaradwr Cymraeg sydd ond yn siarad y Saesneg yn yr ysgol a.y.b.). Ceir trafferth gyda diffiniad Lipski o ystyried y siaradwyr hynny sy'n siarad y Gymraeg fel iaith gyntaf. Er eu bod ar y cyfan hefyd yn gyfartal-rugl yn y Saesneg, mae nifer o siaradwyr yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn y cartref ond yn dysgu'r Saesneg mewn ystafell ddosbarth, nid mewn 'similar or identical contexts' (t.195), fel

Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dueddol o ddysgu'r ddwy iaith yn ystod eu plentyndod cynnar (yn wahanol i gynulleidfa ffrancoffon y nofelau Ffrangeg-Canadaidd: trafodir hyn maes o lawr). Mae'n debyg, felly, fod y sgiliau ieithyddol hyn yn cael effaith ar y math o gyfnewid y mae'r awduron am ei gynnwys yn eu nofelau – nid yn unig sgiliau ieithyddol yr awdur ei hunan ond sgiliau'r darpar-ddarllenwyr yn ogystal.


3.6 Maes Semanteg

Maes arall a ddefnyddir er mwyn dadansoddi'r cyfnewid cod yw 'maes semanteg'. Mae hwn yn disgrifio'r pwnc y mae'r darn o gyfnewid yn perthyn iddo (gweler esboniad pellach ar t.73). Yn y graffiau isod, grwpwyd y categorïau a chanddynt lai na phum enghraifft (CD) neu lai na deg enghraifft (FfCCh) gan fod y niferoedd mor fychan. Mae'r categorïau hyn yn amrywio rhwng y ddwy nofel. Mae 25 categori â llai na phum enghraifft yn CD, yn cynnwys 'garddio' (4 enghraifft), 'gwallt' (1 enghraifft) a 'crefydd' (1 enghraifft). Mae 40 categori â llai na deg enghraifft yn FfCCh, yn cynnwys 'rhifo' (9 enghraifft), 'cyfarchiad' (3 enghraifft) a 'tywydd' (1 enghraifft).

yr awgryma Lipski. Er hyn, mae'r ffaith ein bod ni'n dysgu'r Saesneg fel plant ifanc ac yn ei defnyddio'n gyson yn golygu bod modd inni ddod yn gyfartal-rugl o fewn rhai blynyddoedd.



Ffigur 19: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn CD



Ffigur 20: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn FfCCh

	Cyw Dôl			Ffawd Cywilydd a Chelwyddau		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Sgwrs	350	54%	Rheg	252	22%
2	Term Saesneg	59	9%	Ymadrodd Gosod	139	12%
3	Ymadrodd Gosod	35	5%	Sgwrs	129	11%
4	Rheg	20	3%	Term Saesneg	128	11%
5	Sefydliad Llywodraethol	20	3%	Slang	64	5%

Tabl 22: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg (Nofelau Gymraeg)

Nodir fod y categori 'sgwrs' yn dynodi sgwrs uniaith Saesneg yn unig. Gall hyn fod yn ddarn o ddeialog gan gymeriad uniaith Saesneg, neu gan gymeriad dwyieithog yn troi at y Saesneg er mwyn cyfathrebu â chymeriad di-Gymraeg. Yn nhabl 22 uchod gwelir fod y categori 'sgwrs' yn cynnwys nifer o enghreifftiau, gan fod presenoldeb cymeriadau uniaith Saesneg (boed drwy siarad eu hunain neu'n achosi sgwrs y cymeriadau eraill i droi i'r Saesneg) yn cael effaith ar y ddwy nofel Gymraeg, ac yn enwedig ar CD. O gofio bod Twm Miall yn dueddol o gofnodi sgwrs fel rhan o frawddeg Gymraeg, gellid cymryd yn ganiataol mai dyma'r rheswm pam fod yr enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n perthyn i'r categori 'sgwrs' yn fwy niferus yn CD nag yn FfCCh. Fodd bynnag, o edrych ar y tabl isod, sy'n dangos y categori maes semanteg 'sgwrs' wedi ei rannu yn ôl hyd, gwelwn y mai anghywir fyddai dod i'r canlyniad hwnnw:

	CD	FfCCh
Un Gair	27	3
Llai na brawddeg	138	27
Brawddeg	34	33
Mwy na brawddeg	152	63
Cyfanswm categori 'sgwrs'	351	126

Tabl 23: 'Sgwrs' (Maes Semanteg) yn ôl Hyd (Nofelau Cymraeg)

Hyd yn oed os oes ychydig o wahaniaeth yn y categorïau byrrach, gyda CD yn sicr yn defnyddio mwy o sgwrs o faint 'un gair' a 'llai na brawddeg', nid dyma'r unig reswm pam fod cymaint o enghreifftiau o gyfnewid cod yn CD yn perthyn i'r categori 'sgwrs'. O gymharu'r sgwrs sydd o faint 'mwy na brawddeg', gwelwn fod 152 enghraifft yn CD o'i gymharu â 63 yn FfCCh. Felly, nid ffordd Twm Miall o ysgrifennu deialog yw'r rheswm fod y categori 'sgwrs' yn cynnwys cymaint o enghreifftiau. Yn hytrach, mae sgwrs Saesneg *yn gyffredinol* yn cael effaith gref ar CD – effaith gryfach nag ar FfCCh, fel y gwelir o'r tablau uchod.

Nodwedd flaenaf FfCCh yw faint o regi sydd yn y nofel – mae'r rhybudd iaith anwedus ar gefn y nofel yn dyst i hyn. Er bod Bleddyn yn hoff o regi, fel Luc, nid yw ei regfeydd mor gryf. Mae rhai rhegfeydd sy'n deillio o'r Saesneg, fel 'blydi' a 'twat', wedi eu cynnwys yn GPC, ac felly, yn ôl rheolau'r fethodoleg, nid ydynt yn cael eu cyfrif fel cyfnewid cod. Dyma pam nad yw'r categori 'rheg' yn cynnwys mwy o enghreifftiau yn CD. Ar y llaw arall, mae Luc yn hoff iawn o regi'n gryf, gan ddefnyddio'r gair 'fuck' neu 'fuckin' yn aml iawn, gan ddefnyddio orgraff Saesneg gyda'r k, er weithiau'n colli'r g olaf yn 'fucking', er enghraifft "Fi ar fuckin *Heno*" (FfCCh 201). Nid yw'r gair hwn yn ymddangos yn GPC, ac felly mae'n cael ei gyfrif fel cyfnewid cod.

Fodd bynnag, mae ysgolheigion eraill wedi canfod ffordd arall o wahaniaethu rhwng geiriau benthg a benthca neu gyfnewid cod. Fel y gwelwyd eisoes, yn ôl Poplack a Sankoff, mae pedwar criteria i'w bodloni er mwyn gwahaniaethu rhwng gair benthg a benthca:

1. Amllder defnydd (yn iaith un person a gan fwy o bobl)
2. Dadleoli gair cyfystyr yn yr iaith gyntaf
3. Integreiddiad morffoffonemig a/neu gystrawennol
4. Derbynoldeb, boed y siaradwyr yn ymwybodol o darddiad y gair ai peidio

(1984 tt.103–4)

Mae rhegfeydd Saesneg yn rhai sy'n cael eu defnyddio gan nifer o siaradwyr yn y Gymraeg, felly mae'r criteria hwn yn hawdd i'w fodloni. Yn ogystal, nid yw pawb yn glynu wrth yr orgraff Saesneg fel Llwyd Owen. Dewisa Dewi Prysor Gymreigio'r orgraff, a'i droi yn 'ffwc', 'ffyc', 'ffwcin' neu 'ffacin', er enghraifft "Yn anffodus, gyfaill, ia – o ffyc!" medda Bic.' (Prysor 2006 t.18) a "Ffacin hel, mae o'n *annoying*" (t.49). Yn ôl Poplack a Sankoff, nid oes rhaid bodloni *pob* categori, ac felly gallwn dybio bod modd cysidro'r gair hwn fel gair benthg yn ôl rheolau Poplack a Sankoff, er nid yn ôl y rheolau a ddefnyddiwyd at ddibenion y traethawd hwn. Felly, gellid dadlau bod rhegfeydd cyffelyb wedi dod yn eiriau benthg yn y Gymraeg – ac nid yn y Gymraeg yn unig, gan fod sawl iaith yn benthg rhegfeydd o'r Saesneg. Amser a ddengys a yw'r gair hwn wedi dod yn gymaint rhan o'r iaith Gymraeg fel iddo gael ei gynnwys yn y broses o ail argraffu GPC.

Mae enghraifft arall o FfCCh yn defnyddio cyfnewid cod mewn ffordd ddiddorol. Mae Llwyd Owen yn ceisio cyfieithu rhai termau Saesneg i'r Gymraeg, gyda chanlyniadau cymysg. Maent yn gyfieithiadau llythrennol, neu *calques*, sy'n cyfeirio at y Saesneg yn hytrach na chreu term Cymraeg o'r newydd, sy'n golygu bod angen sgiliau dwyieithog datblygedig a

soffistigedig iawn er mwyn deall y jôc. Cyfeiria Lamarre at ‘bilingual winks’ a geir ar arwyddion siopau ym Montréal sy’n chwarae â’r ddwy iaith, gan fod rhaid i’r arwyddion hyn fod yn ddwyieithog.²⁰ Esbonia:

Essentially, bilingual winks and bilingual wordplay are humorous transgressions, examples of one language sneaking or crossing over into the domain of another. They play with languages either slyly to get around legislative constraints, in which case to my mind they are covert, a bilingual wink; or they mess more blatantly with the line drawn between languages, in which case, they are bilingual wordplay but without the wink.

(2014 t.137)

Ceir sawl enghraifft o’r arwyddion hyn gan Lamarre; ‘chouchou’ yn enw ar siop sgidiau (y cyfieithiad Ffrangeg fyddai ‘sweetiepie’, yn ôl Lamarre, ac fe’i ynganir fel ‘shoe-shoe’(t.132)), neu caffi ‘T & biscuits’, a all gael ei ynganu fel ‘tea and biscuits’ yn y Saesneg, neu ‘thé et biscuits’ yn y Ffrangeg. Gwelir bod rhai esiamplau o jôcs ieithyddol neu chwarae ar iaith yn FfCCh; ceir rhai enghreifftiau isod:

Polwraig (FfCCh 76) ar gyfer *poledancer*

Breuddwyd bysgotwr (FfCCh 111) *dreamcatcher*

Cân heintus (FfCCh 151) *catchy tune*

Y winwydden glecs (FfCCh 184) *the grapevine*

Fel y dwedodd y dyn gwyllt, 'galla i wrthsefyll popeth ar wahân i demtasiwn'. (FfCCh 197) [cyfeirio at Oscar Wilde]

²⁰ Dywed Siarter Iaith Québec 1977 y dylai arwyddion siopau fod yn uniaith Ffrangeg; fodd bynnag, dyfarnwyd yn 1988 gan Y Goruchaf Lys yng Nghanada bod y ddeddf unieithog hon yn mynd yn erbyn Siarter Québec ar Hawliau Dynol a’r Siarter Ganadaidd ar Hawliau a Rhyddid; gallai Québec hawlio mai’r Ffrangeg oedd *prif* iaith yr arwyddion, ond nid yr unig iaith (Lamarre 2014).

Gwyrdd galchad (FfCCh 29) am *whitey*, bod yn sâl ar ôl gor-ysmygu canabis


Ar y llaw arall roedd yna rywbeth ynddo oedd yn ei dychryn i'w chraidd (FfCCh 37) *scared her to the core*

Ei chorden G (FfCCh 57) *G-string*


Gyda'r enghreifftiau uchod, mae angen i'r darlennydd allu trawsieithu a chyfieithu er mwyn deall beth y mae'r awdur yn ceisio ei fynegi.

3.7 Ysgogiad/Swyddogaeth

Isod ceir dau siart bastai a thabl 24 yn dangos y cyfnewid cod yn ôl ysgogiad/swyddogaeth (am esboniad o'r categorïau, gweler t.81).



Ffigur 21: Cyfnewid Cod ac Ysgogiad/Swyddogaeth CD



Ffigur 22: Cyfnewid Cod ac Ysgogiad/Swyddogaeth FfCCh

	Cyw Dôl			Ffawd Cywilydd a Chelwyddau		
		Canran	Nifer		Canran	Nifer
1	Dyfyniad	57%	378	Bwlch Geirfaol	60%	728
2	Bwlch Geirfaol	39%	256	Dyfyniad	16%	196
3	Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	2%	15	Creu Effaith Arbennig	8%	99
4	Ebychiad	1%	5	Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	8%	92
5	Creu Effaith Arbennig	1%	3	Ebychiad	7%	82
6	Agosáu / Pellhau	0%	1	Cyfeirio	1%	17
7	Cyfeirio	0%	1	Cyfnewid Enynnol	0%	2
8	–	–	–	Newid Cyd- sgwrsiwr	0%	1

Tabl 24: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth (Nofelau Cymraeg)

Gwelir eto ddylanwad cymeriadau uniaith Saesneg ar CD, gan fod sgysiau Saesneg yn cael eu categoreiddio fel 'dyfyniad' yn y maes dadansoddi hwn (er bod dyfyniadau o lenyddiaeth a cherddoriaeth hefyd yn rhan o'r categori). Ar y llaw arall, mae'r mwyafrif o gyfnewid cod yn FfCCh yn perthyn i'r ysgogiad/swyddogaeth 'Bwlch Geirfaol'. Mae hyn yn nodweddiadol o ffordd Luc Swan (neu Llwyd Owen) o gyfnewid cod, ac yn cyd-fynd i ryw raddau â'r canlyniadau a welsom ar gyfer y categorïau eraill. Gwelwyd eisoes bod cyfnewid mewnfrawddegol yn fwy cyffredin yn y naratif, wrth i eiriau neu ymadroddion gael eu mewnosod yn y naratif. Er mwyn gweld a oes perthynas rhwng ysgogiad/swyddogaeth ac adran o'r testun, crëwyd tabl 25 isod sy'n dangos niferoedd yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn ôl eu hysgogiad/swyddogaeth a'r adran o'r testun y maent yn perthyn iddo. Eto, mae'r ffigyrau mewn glas ar gyfer CD ac mewn coch ar gyfer FfCCh.

		Adran o'r Testun				
		Naratif	Deialog	Dyfynnu	Epigraff	CYFANSWM
Ysgogiad/Swyddogaeth	Dyfyniad	10 14	353 134	15 29	0 20	378 197
	Bwlch Geirfaol	167 522	82 188	7 17	0 0	256 727
	Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	2 58	10 30	3 4	0 0	15 92
	Ebychiad	3 46	2 33	0 3	0 0	5 82
	Creu effaith arbennig	1 78	1 17	1 4	0 0	3 99
	Agosáu / Pellhau	0 0	1 0	0 0	0 0	1 0
	Cyfeirio	1 14	0 3	0 0	0 0	1 17
	Newid Cyd-sgwrsiwr	0 0	0 1	0 0	0 0	0 1
	Cyfnewid Enynnol	0 1	0 0	0 1	0 0	0 2
	CYFANSWM	184 733	449 406	26 58	0 20	659 1217

Tabl 25: Cyfnewid Cod – Ysgogiad/Swyddogaeth ac Adran o'r Testun (Nofelau Cymraeg)


Gwelwyd bod y naratif yn fwy tueddol o gynnwys cyfnewid mewnfrwddegol.

Yn nhabl 25 uchod gwelir bod yr ysgogiad/swyddogaeth sydd i'w weld yn y naratif yn llawer mwy tebygol o fod yn fwllch geirfaol. Gwelir bod cysylltiad felly rhwng bwllch geirfaol a chyfnewid mewnfrwddegol. Mae hyn yn cysylltu hefyd â nifer o gategoriâu maes semanteg – e.e. rheg, ymadrodd gosod a therm Saesneg – sy'n dueddol o fod yn eiriau unigol neu ymadroddion gosod wedi eu mewnosod i frwddegau Cymraeg.

3.8 Llais neu Bersbectif y naratif

Yn wahanol i CD, sy'n defnyddio Bleddyn fel adroddwr y stori drwy'r nofel gyfan, mae FfCCh yn newid persbectif yn ystod y nofel. Er mai Luc yn ddi-os yw prif adroddwr y stori, mae persbectifau cymeriadau eraill yn cael eu

defnyddio – er nad yw'r cymeriadau hyn yn adrodd y stori yn y person cyntaf, fel Luc. Mae Luc, fel oedolyn, yn adrodd ei hanes yn y person cyntaf, ond mae adrannau'r cymeriadau eraill yn cael eu hadrodd yn y trydydd person. Er enghraifft, cawn benodau gan John Swan cyn iddo fynd yn wallgof, a phenodau gan Luc fel plentyn. Ceir adrannau byrrach o safbwynt cymeriadau eraill, fel Whitey, aelodau *Fflach!*, neu Steph, derbynyddes Akuma. Casglwyd data ar faint o gyfnewid cod a oedd yn digwydd yn y gwahanol bersbectifau hyn – gweler y graff isod. Nodir nad ydym yn sôn am y ddeialog yma; nid yw sgôr Steph yn adlewyrchu faint y mae hi'n cyfnewid cod yn ei deialog, ond yn hytrach faint o gyfnewid cod sy'n digwydd yn y rhan o'r nofel sydd o'i phersbectif hi (pennod 27, tt.264-265).



Ffigur 23: Cyfnewid Cod yn ôl Persbectif y Naratif FfCCh

Yn ôl y disgwyl, Luc fel oedolyn sy'n cyfrannu'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod at y nofel. Mae'n anodd dweud pa mor arwyddocaol yw

canlyniadau'r categori hwn, gan fod Luc nid yn unig yn brif gymeriad i'r nofel, ond hefyd yn adrodd rhan helaeth o'r stori. Yn ogystal, mae Llwyd Owen yn dueddol o ddefnyddio Cymraeg mwy safonol wrth ddefnyddio'r trydydd person – a Luc yw'r unig gymeriad i adrodd y stori yn y person cyntaf. O'r herwydd, nid oes cymhariaeth dda rhwng Luc a chymeriadau eraill y nofel sydd â phennod neu adran wedi ei hysgrifennu o'u safbwynt hwy. Efallai, mewn ymchwil yn y dyfodol, gellid edrych ar gyfnewid cod mewn deialog cymeriadau (yn hytrach nag yn yr adrannau sydd wedi eu hysgrifennu o'u persbectif hwy), gan weld a oes rhai cymeriadau'n fwy tebygol o gyfnewid cod na'i gilydd. Bydd mwy o drafodaeth ar hyn mewn pennod ddiweddarach yn cymharu'r nofelau Cymraeg a'r nofelau Ffrangeg-Canadaidd, gan fod *Danse Noire* hefyd yn defnyddio persbectif gwahanol gymeriadau ar gyfer penodau gwahanol.

3.9 Crynodeb

Yn y bennod hon trafodwyd patrymau cyfnewid cod CD a FfCCh. Gwelwyd bod y ddwy nofel yn defnyddio cyfnewid cod mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft mae sgwrs cymeriadau uniaith Saesneg yn cael effaith fawr ar CD, tra bo cyfnewid cod FfCCh yn perthyn i ieithwedd arbennig Luc, er bod y ddwy nofel yn cynnwys cymeriadau uniaith Saesneg. Mae'r ddwy hefyd yn nofelau dinesig, wedi eu lleoli yng Nghaerdydd. A yw hyn yn rhoi mwy o gyfle i'r awdur gynnwys cymeriadau uniaith Saesneg, er mwyn adlewyrchu cymdeithas gyfoes realistig? Ai rhywbeth dinesig, felly, yw cyfnewid cod yng Nghymru? Mae'n debygol bod y lleoliad yn cael effaith ar y nofel, yn rhannol oherwydd presenoldeb y cymeriadau uniaith Saesneg, ac oherwydd ieithwedd arbennig brodorion y ddinas, fel Luc. Er hyn, mae nofelau sydd

wedi eu lleoli yn y wlad hefyd yn cynnwys cymeriadau uniaith Saesneg, er enghraifft *Martha Jac a Sianco* Caryl Lewis (2004) – felly nid ffenomen ddinesig yn unig yw cynnwys y cymeriadau hyn. Cofier hefyd fod y cymeriadau sy'n medru'r Gymraeg hefyd yn defnyddio cyfnewid cod mewnfrawddegol. A fyddai'r awdur yn defnyddio ieithwedd wahanol wrth greu cymeriadau gwledig yn hytrach na rhai dinesig?

Yn ogystal, gwelwyd bod llawer o enghreifftiau o gyfnewid mewnfrawddegol yn y ddwy nofel Gymraeg. Mae hyn yn galw ar sgiliau ieithyddol uchel gan y darllenwyr, sy'n llai o broblem yng Nghymru oherwydd bod siaradwyr y Gymraeg yn dueddol o fod yn gyfartal-rugl yn y Saesneg. Nid dyma'r sefyllfa ym mhob cymdeithas ddwyieithog. Yn ogystal, gwelwyd bod yr un categorïau dosbarth gramadegol (ansoddair, brawddeg, cymal, enw, ac ymadrodd enwol) yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddwy nofel.

Gwelwyd bod cysylltiad rhwng rhai categorïau, er enghraifft gwelwyd cysylltiad clir yn CD rhwng dyfynnu (ysgogiad/swyddogaeth), sgwrs (maes semanteg) a deialog (adran); mewn ffordd, mae canlyniadau'r gwahanol gategorïau yn atgyfnerthu ei gilydd. Efallai y gwelwn batrwm tebyg yn ymddangos mewn nofelau eraill, wrth inni ddarganfod cysylltiad rhwng gwahanol gategorïau.

Trafodwyd rhai patrymau a thueddiadau'r nofelau Cymraeg yn y bennod hon. Yn y bennod nesaf, byddwn yn dadansoddi'r nofelau Ffrangeg-Canadaidd, cyn trafod y pedair nofel gyda'i gilydd.

Pennod 4: Y Nofelau Ffrangeg-Canadaidd

Fel y gwelwyd eisoes yn y bennod flaenorol, nid oedd egwyddorion penodol ar gyfer dewis y nofelau. Yr unig beth angenrheidiol oedd bod digon o gyfnewid cod yn digwydd yn y nofelau er mwyn llunio trafodaeth academiaidd – hynny yw, nid ambell ddarn o gyfnewid cod yma a thraw sydd yn y testun, ond bod y cyfnewid drwy'r nofel gyfan. Nid yw hyn yn fethodoleg anghyffredin; dyma'r egwyddorion a ddilynodd Montes-Alcalá yn ei hymchwil hi (2012). Yn ddiddorol iawn, cyhoeddwyd CD a MM tua'r un cyfnod, ac mae digwyddiadau'r ddwy nofel hefyd yn perthyn i'r un cyfnod, CD yn digwydd yn 1974 mae'n debyg, tra bo MM yn dechrau yn Hydref 1971 (er bod rhai ôl-fflachiau at ddigwyddiadau sy'n cymryd lle cyn y 70au). *Danse Noire* yw'r nofel fwyaf diweddar o'r pedair nofel, gan iddi gael ei chyhoeddi yn 2013, tua'r un cyfnod â FfCCh (2006).

Felly, daw'r ddwy nofel Ffrangeg-Canadaidd o gyfnodau gwahanol, DN yn nofel ddiweddar iawn a MM wedi ei chyhoeddi bron ugain mlynedd yn ôl. Daw'r ddau awdur o ardaloedd gwahanol yng Nghanada, gyda Leblanc (awdur MM) yn hanu o *Nouveau Brunswick* a Huston (awdur DN) yn hanu o Calgary, Alberta. Mae MM wedi ei lleoli yn ninas Moncton, *Nouveau Brunswick* yn ystod y saithdegau, a DN yn Iwerddon a Québec.²¹ Mae'r ddwy nofel yn rhai dinesig (er bod rhannau bychain ohonynt wedi eu lleoli yng nghefn gwlad Canada), ac yn rhai gweddol dywyll o ran pwnc. Mae'r ddwy nofel yn trafod cam-drin cyffuriau, ond mae DN yn dywyllach fyth, yn trafod puteiniaid, trais a cham-drin plant.

²¹ Am ragor o fanylion ar gefndir yr awduron a'r nofelau, gweler t.162.

Fel yn achos y bennod flaenorol, mae'r tablau a'r siartiau sy'n dilyn yn dangos y data a gasglwyd wrth ddadansoddi cyfnewid cod yn y nofelau. Gan mai MM yw'r nofel hynaf yn gronolegol, fe'i trafodir yn gyntaf; MM sydd hefyd yn ymddangos gyntaf yn nhrefn y graffiau, neu ar y chwith yn y tablau. Eto, defnyddir yr un lliwiau ar gyfer cylchrannau'r categorïau cyfatebol yn y siartiau bastai, tra defnyddir un lliw ar gyfer siartiau bar: gwyrdd ar gyfer MM a llwyd ar gyfer DN.

4.1 Nifer

Diffinnir un darn o gyfnewid fel gair, geiriau neu hyd yn oed frawddegau Saesneg, wedi eu ffinio gan y Ffrangeg (gweler esiampl ar t.86). Cofier y gall darn o gyfnewid cod fod yn amrywiol iawn o ran hyd – gan gynnwys gair unigol neu gyfres hir o frawddegau; trafodir hyn mewn mwy o ddyfnder yn ddiweddarach yn y bennod hon. Isod ceir tabl yn dangos cyfartaledd y cyfnewid cod yn MM a DN:

<i>Nofel</i>	<i>Cyfanswm darnau o gyfnewid cod</i>	<i>Tudalennau</i>	<i>Cyfartaledd</i>
MM	176	72	2.44
DN	415	349	1.19


Tabl 26: Cyfartaledd Cyfnewid Cod (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)

Gwelir bod gwahaniaeth rhwng y ddwy nofel. Er bod mwy o ddarnau o gyfnewid cod yn DN, mae hi'n nofel llawer hirach na MM a'i chyfartaledd yn is. O'i gymharu â'r ddwy nofel Gymraeg, mae'r cyfartaledd hwn yn isel, cymharer 3.59 yn CD a 3.88 yn FfCCh – gweler t.86. Mae hyn yn dangos bod llai o ddarnau o gyfnewid cod yn y ddwy nofel Ffrangeg-Canadaidd. Cofier nad ydym yn gwahaniaethu yma rhwng hyd y darnau o gyfnewid cod –


mae un gair Saesneg o fewn brawddeg Ffrangeg a chyfres o frawddegau Saesneg ill dau yn cyfri fel *un* darn o gyfnewid cod.

4.2 Penodau

Isod ceir dau siart bar yn dangos cyfnewid cod yn ôl penodau, er mwyn archwilio'r cysylltiad posib rhwng digwyddiadau yn y nofel, sef datblygiadau yn y plot, a chyfnewid cod.



Ffigur 24: Cyfnewid Cod yn ôl penodau yn MM



Ffigur 25: Cyfnewid Cod yn ôl penodau yn DN

Nodir bod pennod 3 MM yn cynnwys 27% o'r holl gyfnewid cod sy'n digwydd yn y nofel, a phennod 19 DN yn cynnwys 10% o'r cyfnewid cod sy'n digwydd yn y nofel honno. Mae'r canran hwn o bennod 19 DN yn ymdebygu i ganrannau'r penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofelau Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r canran o bennod 3 MM yn uwch. O edrych ar y graffiau gwelir, ychydig yn annisgwyl efallai, fod patrwm pendant i'w weld yn MM. Gallai hyn yn awgrymu fod Gérard Leblanc yn ymwybodol o gyfnewid cod ac yn ceisio cyfleu effaith arbennig yn y nofel drwy roi'r nifer fwyaf o esiamplau o gyfnewid cod ym mhennod ganolog y nofel. Efallai ei bod hi'n arwyddocaol mai dyma'r bennod lle y mae Alain yn dweud wrth ei gyd-letywyr newydd di-Ffrangeg, 'je suis encore chez moi' ['dwi adref o hyd'] (MM 49) – er bod y Saesneg wedi treiddio i mewn i'w Ffrangeg, mae'n *rhan* o ieithwedd ffrancoffon arbennig Moncton, yn hytrach nag yn ei gorchfygu neu ei mygu. Fel y dywed Masson, mae gan Acadie sawl *parole* gwahanol, gan fod ganddi ddwy iaith a degau o gyweiriau iaith:

L'écrivain acadien se trouve donc dans une position très intéressante: au lieu de construire un style, il détermine une langue. La langue de cette littérature n'est pas une langue établie.

['Mae'r awdur Acadien felly'n canfod ei hun mewn sefyllfa ddiddorol iawn: yn hytrach na llunio arddull, caiff ddewis ei iaith. Nid yw iaith y llenyddiaeth hon yn iaith sefydledig']

(1997 Yn: Richard 1998 t.20)

Mae'r cymeriadau hefyd yn ymwybodol iawn o'u hiaith, yn enwedig Alain sy'n awdur: dywed Richard 'cette identité est inextricablement reliée à la notion de langue étant donné que le narrateur est écrivain' ['mae yna gysylltiad annatod rhwng yr hunaniaeth hon a'r cysyniad o iaith gan fod adroddwr y stori yn awdur'] (1998 t.21). Yn sicr, ceir nifer o enghreifftiau o gymeriadau yn myfyrio ar iaith: Alain yn disgrifio ei ieithwedd yn gymysgedd o 'français dit


standard et de vieux français acadien [...] parsemé de bouts d'anglais' ['Ffrangeg a elwir yn safonnol a hen Ffrangeg acadien [...] yn frith o ddarnau o Saesneg'] (MM 22); cyfarwyddwr ffilm o Québec yn dweud ei fod am wneud ffilm ar ddwyieithrwydd, a'i fod am ddod i Moncton er mwyn ffilmio marwolaeth iaith (MM 63) neu Alain ac Anne-Marie yn ceisio archebu coffi gan weinyddes sy'n gwrthod deall y Ffrangeg, ac Alain yn ymateb '*whoever heard of peasants speaking two languages*' (MM 80).²² Dywed Chiasson yn ei ragair i MM mai thema ganolog y nofel yw Moncton ei hun, ac i Leblanc 'l'élément francophone constituait l'âme de Moncton' ['yr elfen ffrancoffon oedd enaid Moncton'] (2012 t.10); hebddi byddai Moncton yn ymdebygu i unrhyw dref fechan arall yng Ngogledd America.

Mae arddull MM yn ymdebygu i ddyddiadur, er ei bod hefyd yn cynnwys deialog. Mae'n llawn o bytiau bach am hanesion Alain, gyda llawer yn digwydd mewn ychydig iawn o dudalennau heb blot na llinell storiol. Cawn hanes nifer o ddigwyddiadau dros gyfnod o flynyddoedd yn dechrau yn 1971 ac yn gorffen yn 1978 (o dderbyn bod y nofel yn dilyn trefn gronolegol; 1975 yw'r dyddiad olaf pendant a gawn, a hynny ym mhennod 4 – dim ond enwau tymhorau a misoedd a geir wedi hyn). Mae'r patrwm cyfnewid cod yn DN yn fwy ar hap, gyda'r cyfanswm o gyfnewid cod yn amrywio rhwng pob pennod. Diddorol yw nodi bodolaeth penodau heb unrhyw gyfnewid cod o gwbl yn y nofel hon: pennod 14 lle mae Neil yn paratoi i fynd i Ganada, gyda'r rhan fwyaf o'r naratif yn trafod sut i ffilmio'r digwyddiad; pennod 20 eto gyda Neil, y tro hwn gydag ef yn ceisio dod i'r arfer â'i fywyd newydd yng nghefn gwlad Québec wrth i'w wraig, Marie-Jeanne, roi genedigaeth i'w plentyn cyntaf; a


²² Ffont italig yn y testun gwreiddiol.

phennod 24 yn fontage o fywyd Awinita, ond heb gynnwys sgwrs, eto gyda'r naratif yn trafod technegau ffilmio.

Isod ceir dau graff sy'n dangos y berthynas rhwng hyd y penodau a'r nifer o ddarnau o gyfnewid cod ynddynt. Mae'r llinell las yn dangos y nifer o ddarnau o gyfnewid cod, a'r llinell oren yn dynodi'r nifer o dudalennau yn y bennod.



Ffigur 26: Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd MM



Ffigur 27: Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd DN

Dengys Ffigur 26 batrwm trawiadol iawn. Mae MM yn nofel fer iawn, ac ond yn cynnwys 7 pennod. Pennod 3 yw'r bennod gyda'r nifer fwyaf o

enghreifftiau o gyfnewid cod, ond er hyn dim ond 10 tudalen sydd yn y bennod. Gwelwn hefyd nad yw pennod 7 (dwyt dudalen) hefyd ond yn cynnwys dwy enghraifft o gyfnewid cod, a phennod 6 (9 tudalen) yn cynnwys 17 enghraifft o gyfnewid cod. O gofio mor amrywiol oedd y nifer o enghreifftiau o gyfnewid ym mhenodau'r nofelau Cymraeg, gellid dadlau bod y patrwm hwn yn un a grëwyd gan yr awdur yn fwriadol. Ceir patrwm trawiadol iawn o safbwynt DN yn ogystal. Gwelir bod y llinell las sy'n dynodi'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn croesi'r llinell oren sy'n dynodi hyd y penodau nifer o weithiau. Golyga hyn bod penodau yn DN sy'n cynnwys nifer uchel o dudalennau, ond heb nifer uchel o enghreifftiau o gyfnewid cod – a dyma'r unig nofel i ddangos patrwm o'r fath.²³ Er hyn, gwelwn mai pennod 19 DN, sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod (41 enghraifft) yw pennod hwyaf y nofel (25 tudalennau). Fodd bynnag, dim ond 12 tudalen sydd ym mhennod 17, y bennod gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau *ond un* DN (39 enghraifft). Felly nid oes cysylltiad cryf rhwng hyd penodau a'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod a geir ynddynt.

O ran y penodau gyda'r nifer fwyaf o gyfnewid cod, ceir tabl isod yn eu dangos gyda chrynodeb byr o'r hyn sy'n digwydd ynddynt:

²³ Nodir bod rhai penodau o CD heb unrhyw gyfnewid cod ynddynt, ond maent yn benodau byr o'u cymharu â DN.

Moncton Mantra			Danse Noire		
Pennod	Digwyddiadau	Darnau o Gyfnewid Cod	Pennod	Digwyddiadau	Darnau o Gyfnewid Cod
3	Anne-Marie yn galw Alain i ofyn am arian i gael presgripsiwn. Prynu'r cyffuriau; mae hi'n cael rhithweledigaethau. Cyfarfod Roland sy'n siarad 'tantôt en français, tantôt en anglais' (MM 48)	49	19	Milo yn cyfarfod Kim a Sherman; dechrau perthynas. Cael ei anfon i ysgol grefyddol; rhedeg i ffwrdd; cael ei arestio.	41
4	Ffrindiau Alain yn casglu arian er mwyn ei helpu i dalu'r rhent. Parti yn nhŷ ei ffrindiau sy'n symud allan; mynd i nôl Roland. Siarad ag Yvon sydd am beintio llun o Alain.	39	17	Neil wedi cyrraedd Québec, ceisio dysgu Ffrangeg (gwallau – defnyddio'r Saesneg wrth siarad Ffrangeg).	39
2	Anne-Marie yn gadael asid mewn llyfr ffiseg. Alain yn symud i fyw gyda Robert a Régine. Gweld Gilles sy'n defnyddio cyffuriau eto, Alain yn canfod nodwyddau; gorffen y berthynas a mynd i'r Swistir.	27	18	Awinita'n darganfod ei bod hi'n disgwyl Milo; trafod â Dec. Cyfarfod cwsmeriaid. Liz yn ei helpu â'i phroblem cyffuriau.	30

Tabl 27: Penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o Gyfnewid Cod (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)


Ceir cymeriadau uniaith Saesneg yn DN sy'n sicr yn cael effaith ar faint o gyfnewid cod sy'n cael ei gynnwys yn y nofel. Fel y gwelir wrth drafod y meysydd dadansoddi eraill yn ddiweddarach yn y bennod hon, deialog Saesneg sy'n cyfrannu at y rhan helaeth o'r cyfnewid cod yn DN. Mae'r rhan fwyaf o'r cymeriadau canolog yn ddwyieithog Ffrangeg-Saesneg, a theulu Neil yn deulu dwyieithog gan i'r merched gael eu magu yn y Ffrangeg a'r bechgyn yn y Saesneg. Ceir golygfa ym mhennod 26 (Neil, 1927; tt.306-310) sy'n dangos y teulu Noirlac wrth y bwrdd bwyd, a'r plant yn dadlau gyda'i gilydd yn y ddwy iaith er mwyn dangos cymhlethdod ieithyddol y teulu hwn.

Mae un nodwedd ddir o edrych ar ddeialog y nofel hon; tuedda Nancy Huston ysgrifennu darnau hir o sgwrs yn debyg i sgrïpt, yn yr arddull Ffrangeg. Disgrifir yr arddull Ffrangeg fel a ganlyn: 'Em rules [dash –] are sometimes used to introduce lines of dialogue, for example in James Joyce's stories and in some foreign texts' (Butcher 1992 t.153). Gellir hefyd ddefnyddio'r *guillemets* (« ») yn y Ffrangeg:

In conversational matter guillemets are sometimes put at the beginning and end of the remarks, and the individual utterances are denoted by a spaced dash. But it is more common to dispense with guillemets altogether, and to denote the speakers by a dash only.
(Ritter 2002 t.276)

Gweler o'r enghraifft isod nad yw Huston yn defnyddio'r *guillemets*, ond yn defnyddio'r dash [–] yn unig (cofier nad yw hyd darn o gyfnewid yn effeithio ar y nifer – un darn o gyfnewid sydd dan sylw, boed yn air unigol neu'n dudalennau o Saesneg).²⁴

²⁴ Gweler diffiniad o beth yw un darn o gyfnewid ar t.86.



Figur 28: Sgan o DN – cyflwyno deialog (DN 32-3)

Gwelir bod y ddeialog yn ymddangos fel sgript, heb gynnwys nodiadau na thagiau megis 'meddai o' neu 'meddai hi'. Wrth gwrs, nid yw'r rhain yn orfodol yn y Gymraeg na'r Saesneg, ond mae'n arferol eu defnyddio. Yn sicr, byddai ysgrifennu deialog yn y modd a welir yn y llun uchod, llinellau a llinellau o ddeialog heb unrhyw ymyrraeth, yn fwy anghyffredin yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Yn MM, ceir rhai cymeriadau mylol uniaith Saesneg (e.e. y parti angloffon y mae Alain yn ei ddarganfod yn ei fflat (MM 49), neu'r weinyddes sy'n gwrthod cymryd archeb yn y Ffrangeg (MM 80)), ond diddorol yw nodi bod hefyd nifer o gymeriadau dwyieithog sy'n aml yn troi at y Saesneg, er enghraifft Xavier, Anne-Marie neu Roland. Felly, gwelir bod cyfnewid cod yn amrywio rhwng


penodau yn y ddau lyfr, a DN yn cynnwys penodau heb unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod o gwbl. Yn ogystal, gwelir bod cysylltiad rhwng cyfnewid cod a chynnwys cymeriadau uniaith Saesneg yn DN, tra bo MM yn defnyddio mwy o gyfnewid cod yn achos cymeriadau sy'n defnyddio bratiaith neu *Franglais*.

4.3 Adrannau o'r Testun


Isod ceir tabl a siartiau bastai yn dangos cyfnewid cod yn y ddwy nofel yn ôl adrannau o'r testun (gweler t.68). Nodir bod epigraff MM yn y Saesneg, ond bod epigraffau DN (sy'n seiliedig ar y grefft ymladd neu'r ddawns 'capoeira' o Frasil) yn yr iaith Ffrangeg.

	Moncton Mantra			Danse Noire		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Deialog	87	49%	Deialog	329	79%
2	Naratif	59	34%	Dyfynnu	51	12%
3	Dyfynnu	29	16%	Naratif	35	9%
4	Epigraff	1	1%	–	–	–

Tabl 28: Cyfnewid Cod yn ôl Adrannau'r Testun (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)



Ffigur 29: Cyfnewid Cod yn ôl Adran yn MM



Ffigur 30: Cyfnewid Cod yn ôl Adran yn DN

Gwelir fod 49% o'r cyfnewid cod yn MM yn digwydd yn y ddeialog – mae hyn yn cynnwys deialog uniaith Saesneg yn ogystal â chyfnewid cod mewnfrawddegol Saesneg o fewn sgwrs Ffrangeg. Fel yr awgryma Richard, mae'r testun yn gwneud defnydd helaeth o *français standard*, sef Ffrangeg cywir a safonol, gan ddefnyddio geiriau Saesneg neu Ffrangeg *acadien* fel rhan o'r ddeialog neu mewn ambell ymadrodd gan Alain yn rhan o'r naratif (1998 t.24). Ceir rhai cymeriadau dwyieithog sy'n fwy tebygol nag eraill o ddefnyddio cyfnewid cod Saesneg (e.e. Anne-Marie, Xavier, Roland) a rhai cymeriadau ymylol uniaith Saesneg. Oherwydd bod y nofel yn y llais cyntaf, sef llais Alain, ceir ychydig o gyfnewid cod (34%) yn y naratif yn ogystal. Fel y dywed Black:

the speech of fictional characters can make a most useful contribution to their characterisation: they can indicate what they are doing, suggest their relations with other characters, and mark their educational and social status. Some writers (Austen is an obvious example) manipulate the language of their characters in such a way that the closer the character's language to that of the narrator, the closer their agreement on significant moral and ideological matters.

(2006 t.63)²⁵

Ymddengys fod Leblanc yn manteisio ar lais unigryw Alain, ei idiolect, drwy ddefnyddio ei ieithwedd o 'français dit standard et de vieux français acadien [...] parsemé de bouts d'anglais' ['Ffrangeg a elwir yn safonol a hen Ffrangeg acadien [...] yn frith o ddarnau o Saesneg'] (MM 22), er mwyn portreadu iaith unigryw Moncton.

²⁵ Efallai fod cysylltiad yma rhwng tebygrwydd yr awduron a'u prif gymeriadau, fel y trafodwyd eisoes yng nghyd-destun y pedair nofel ar gyfer y traethawd hwn. Efallai fod Austen yn rhoi iaith debyg i'w hidiolect ei hunan i'w prif gymeriadau (Elizabeth Bennet *Pride and Prejudice* (1813), Emma Woodhouse *Emma* (1815), neu Anne Elliot *Persuasion* (1818) a.y.b.) oherwydd eu bod yn rhannu cefndir tebyg, yn ogystal â chytuno ar 'significant moral and ideological matters' (boed yn ddewis bwriadol ar ran Austen ai peidio).

Fel y gwelwn yn glir o'r siart bastai uchod, mae'r rhan helaeth o'r cyfnewid cod yn DN yn digwydd yn y ddeialog. Ychwanegir cyfieithiad o'r holl ddeialog er mwyn helpu'r darllenwyr nad ydynt yn medru'r Saesneg (neu o leiaf nad ydynt yn ddigon rhugl i'w deall yn hawdd). Diddorol nodi mai mewn *joual*, sef iaith lafar a siaredir yn Québec, yr ysgrifennir y cyfieithiad hwn, yn hytrach nag mewn Ffrangeg safonol. Yn ôl Huston, penderfynodd ddefnyddio *joual* gan mai felly y byddai'r cymeriadau yn siarad petasent yn siarad Ffrangeg yn hytrach na'r Saesneg – er iddi gyfaddef fod hyn wedi gwylltio ambell i Ffrancwr (Boisvert 2013). Mae hyn yn ddewis diddorol ganddi, gan ei bod hi'n ymbellhau oddi wrth siaradwyr Ffrangeg *Metropole*, ac yn hytrach yn dewis cysylltu gyda siaradwyr Ffrangeg yng Nghanada. Gall 'cod' hefyd gyfeirio at arddull (gweler yr adran terminoleg am ddiffiniad llawn o 'cod'), felly mae Huston yn cynnwys cod arall yn ei thestun, yn ogystal â'r Ffrangeg a'r Saesneg safonol.²⁶ Efallai fod y ffaith fod y cyfnewid cod wedi ei gadw ar gyfer deialog a dyfyniadau (heblaw am y 9% sy'n rhan o'r naratif) yn adlewyrchu'r ffaith fod yr awdur yn ceisio cadw'r naratif yn fwy safonol ac felly'n haws i ddarllenwyr nad ydynt yn medru'r Saesneg ei ddeall. Mae'n ddiddorol mai 9% yn unig o'r cyfnewid cod yn y nofel sy'n digwydd yn y naratif gan fod y nofel hon, fel y nofelau eraill, yn defnyddio llais un o'r cymeriadau fel adroddwr y stori, er ei fod yn y trydydd person yn hytrach nag yn y person cyntaf. Gallai hyn awgrymu fod Huston – ac efallai awduron eraill yn ogystal – yn llai tebygol o ddefnyddio cyfnewid cod os ydynt yn defnyddio'r trydydd person yn hytrach na'r person cyntaf yn y naratif. Fodd

²⁶ Nid yw newid arddull (*style shifting*) yn gyfnewid cod yn ôl y canllawiau a ddefnyddwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, fel yr eglurwyd yn gynharach yn y traethawd. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o 'cod' yng ngwaith ysgolheigion eraill yn gallu bod yn fwy eang a chynnwys arddulliau gwahanol hefyd.


bynag, byddai'n rhaid dadansoddi mwy o nofelau cyn dod i unrhyw benderfyniadau terfynol ynglŷn â'r cysylltiad hwn.

4.4 Hyd


Fel yr esboniwyd eisoes, diffinnir un darn o gyfnewid fel darn o gyfnewid Saesneg wedi ei ffinio gan y Ffrangeg (am esboniad o'r pedwar categori 'hyd' gweler t.68). Isod ceir tabl a siartiau bastai yn dangos y cyfnewid cod yn y ddwy nofel yn ôl hyd:

Moncton Mantra				Danse Noire		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Un Gair	71	40%	Mwy na Brawddeg	193	46%
2	Llai na Brawddeg	59	34%	Llai na Brawddeg	98	24%
3	Brawddeg	36	20%	Un Gair	75	15%
4	Mwy na Brawddeg	10	6%	Brawddeg	49	12%

Tabl 29: Cyfnewid Cod yn ôl Hyd (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)



Ffigur 31: Cyfnewid Cod yn ôl Hyd MM



Ffigur 32: Cyfnewid Cod yn ôl Hyd yn DN

O ran hyd, mae MM yn dueddol i ddefnyddio mwy o gyfnewid o hyd un gair neu lai na brawddeg. Felly, cyfnewid mewnfrawddegol sy'n cael ei ffafrio yn y nofel hon, sef gair neu ymadrodd Saesneg o fewn brawddeg Ffrangeg. Gwelwyd eisoes fod hyn yn nodweddiadol, yn ôl Lipski, o "compound bilingual" who has learned both languages at approximately the same time and in similar or identical contexts' (1982 t.195). Felly, gallwn dybio nid yn unig fod Leblanc ei hun yn gyfartal-rugl yn y Ffrangeg a'r Saesneg, ond bod y cymeriadau hefyd yn gyfartal-rugl. Yn ogystal, mae disgwyl i'r *darllenwyr* hefyd fod yn gyfartal-rugl yn y ddwy iaith, yn enwedig gan i Leblanc ddewis peidio â chynnwys cymorth ieithyddol i'r darlennydd yn ei nofel, er enghraifft glos neu gyfieithiad, yn wahanol i Huston.

Sefyllfa wahanol iawn a welir yn DN o ran cyfnewid cod. Dengys y siart bastai uchod fod cyfnewid o hyd mwy na brawddeg yn cyfrannu 46% at yr holl gyfnewid cod yn y nofel, a 12% o hyd brawddeg. Golyga hyn fod cyfnewid rhyngfrawddegol, sef brawddegau cyfan mewn un iaith neu'r llall (yn wahanol i gyfnewid mewnfrawddegol) yn cyfrannu at dros hanner y cyfnewid cod yn DN.

Isod ceir tabl sy'n dangos y cyfnewid cod yn ôl ei hyd a'r adran o'r testun y mae'n perthyn iddo. Dangosir y niferoedd ar gyfer MM mewn gwyrdd, a'r niferoedd ar gyfer DN mewn llwyd:

		Adran o'r Testun				
		Naratif	Deialog	Dyfyntu	Epigraff	CYFANSWM
Hyd	Un Gair	38 27	30 31	3 17	0 0	71 75
	Llai na Brawddeg	19 7	25 83	15 8	0 0	59 98
	Brawddeg	2 0	28 45	6 4	0 0	36 49
	Mwy na Brawddeg	0 1	4 170	5 22	1 0	10 193
	CYFANSWM	59 35	87 329	29 51	1 0	176 415

Tabl 30: Cyfnewid Cod – Hyd ac Adran o'r Testun (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)

Gwelir bod MM yn fwy tueddol o gynnwys cyfnewid o hyd un gair fel rhan o'r naratif, ond bod hyd deialog wedi ei rannu'n fwy cyfartal rhwng y pedwar categori – o leiaf heblaw am y categori 'mwy na brawddeg'. O edrych ar yr ystadegau ar gyfer DN, gwelir bod un tueddiad cryf iawn i'w weld yma: cyfnewid fel rhan o'r ddeialog, ac o hyd mwy na brawddeg.

Gall y cyfnewid fod o hyd sylweddol, er enghraifft sgwrs Awinita â chwsmer newydd, Don, sy'n parhau am dair tudalen (DN 341–343) – ond cofier bod y cyfieithiad yn ymddangos mewn troednodiadau ar waelod y tudalennau, ac felly'n cymryd lle ar y dudalen a'u gwneud yn dudalennau byrrach. Yn y sgan isod, gwelir bod sawl darn o ddeialog yn y darn, rhai ohonynt wedi eu hintegreiddio i'r testun Ffrangeg, a'r cyfieithiad yn ymddangos ar waelod y dudalen (nodiadau dadansoddi yw'r aroleuo oren). Ond nid yw'r darnau o gyfnewid cod yn dilyn y naill ar ôl y llall, ac nid ydynt wedi eu rhifo. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r darlennydd weithio'n galetach, gan ddefnyddio ei synnwyr cyffredin i weld pa ddarn o'r ddeialog y mae'r cyfieithiad yn cyfeirio ato.

Sans nous saluer ni même nous jeter un coup d'œil, le barman – capté simultanément en vrai et en reflet – nous sert un Coke. Un peu de temps s'écoule.

Dans la glace, toujours du point de vue d'Awinita, nous voyons un homme entrer dans le bar, traînant avec lui de la sloche et du spleen. La porte claque derrière lui. Relevant la présence d'une femme (blonde et apparemment jeune), qui, assise au comptoir (seule), lui tourne le dos (rouge chatoyant), il plisse les yeux sous l'effet de la surprise.

L'inconnu sort de la pénombre et se mue en jeune homme aux cheveux roux coupés à ras et au visage trop hâve pour faire apparaître ses taches de rousseur. Nos yeux font le point sur ses bottes de cowboy, ni neuves ni propres... puis remontent jusqu'à son visage, affublé maintenant d'un sourire.

— Mind if I sidddown?

— Free country.

— Free my ass.

Elle rit. Petit choc agréable pour lui : la fille a un beau rire grave. Pour vérifier, il marmonne à nouveau *Free my ass* et ça marche, elle rit mieux. *Happy to free your ass for you*, Sir, murmure-t-elle d'une voix rauque et ironique qu'il trouve surprenante et excitante, venant d'un corps ou plutôt d'un visage si juvénile. Il n'a encore détaillé ni l'un ni l'autre mais, le faisant, il reçoit deux chocs supplémentaires : cette blonde est indienne, et cette enfant va enfanter.

Au lieu de montrer son étonnement, il commande un double whisky. Bizarrement, la grossesse de la fille le rassure, peut-être parce qu'elle suggère qu'elle n'est

— J'peux-tu m'asseoir? – C't un pays libre. – Libre comme mon cul.
— On peut s'occuper de ça quand vous voulez, m'sieu.

28

pas mineure (encore que, bien sûr, en y mettant ce qu'il faut, on peut engrosser une gamine de douze ans). Le barman pose son verre au milieu de leur silence – à l'instant précis où, synchrones, ils décident de le rompre.

— What's your name? dit-elle et What you drinking? dit-il.

— Declan, répond-il, alors même qu'elle dit *Rum and Coke*.

Ils rient à nouveau et l'homme sent à quel point, déjà, avant même que l'alcool n'ait commencé à faire son effet, leurs rires lubrifient les rouages de la conversation et la rendent plus facile.

— Bring the lady another rum and Coke, if you please, Sir, s'écrie le rouquin tout en allumant une cigarette et en en proposant une à la fille, qui l'accepte... Son *oui* instantané à la proposition de boire et de fumer lui fait comprendre qu'il pourrait y avoir d'autres *oui*, qu'elle était sérieuse à l'instant en parlant de son cul. Un frisson dur le parcourt des couilles aux orteils et il s'efforce d'estimer l'écart entre le prix de ce corps et le nombre de dollars dans son portefeuille. Le deuxième chiffre est sans doute plus élevé que le premier, mais pas de beaucoup. Il lui faudra boire lentement et prier pour qu'elle ne soit pas poivrote. Trop de rhum, pas bon pour le polichinelle dans son tiroir. Il lève son verre. Vite, une phrase, n'importe laquelle... mais ne trouve qu'un lamentable *And yours?* juste au moment où Awinita remercie le barman pour un deuxième verre de ce qu'elle sait être du Coca-Cola pur.

— C'est quoi ton nom? [...] Qu'est-ce tu bois?
— Un autre rum and coke pour ma voisine, s'il vous plaît, m'sieu.
— Pis le tien?

29

Figur 33: Sgan yn dangos troednodiau (DN 28-9)

Mae cynnwys cyfieithiad mewn troednodyn yn creu effaith ddiddorol, gan fod y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr ar yr un dudalen, fel petai Huston yn ceisio atgynhyrchu'r byd dwyieithog y mae'r cymeriadau'n byw ynddo. Eto, gwelir bod yr awdur wedi dewis math o gyfnewid sy'n gweddu i sgiliau ieithyddol nifer o'r darllenwyr. Yn ôl Lipski, mae llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod rhyngfrawddegol (sef Math II) yn nodweddiadol o:

“co-ordinate bilingual”, who has learned each of the languages in a different setting and who therefore associates entire contexts and, consequently, entire propositions with a specific language. It is impossible, from such texts, to establish the true bilingual

competence of the writer, but the fact that entire propositions are expressed monolingually indicates that the writer sees fit to separate the two linguistic and cultural domains. The work should be evaluated accordingly.

(1982 t.195)

Cafodd Huston ei geni yn Calgary, Alberta, cyn i'r teulu symud i New Hampshire. Symudodd i Baris yn 1973 i astudio am flwyddyn, ond mae hi'n parhau i fyw yno hyd heddiw. Mae hi'n disgrifio ei hun fel 'English Canadian' (Huston 2003), yn wahanol i'r sawl sy'n 'wir ddwyieithog', a ddisgrifir ganddi fel a ganlyn: 'les vrais [bilingues] sont ceux qui [...] apprennent dès l'enfance à maîtriser deux langues à la perfection et passent de l'une à l'autre sans état d'âme particulier' ['y gwir dwyieithog yw'r rhai sy'n dysgu o'u plentyndod i feistrolir ddwy iaith i berffeithrwydd gan symud o un i'r llall heb unrhyw ing penodol'] (Huston 2004 t.53). Disgrifia ei hunan fel 'faux bilingue' (t.53) sy'n anghofio ac yn cymysgu geiriau er iddi fod yn ddwyieithog ers blynyddoedd. Dylid nodi, er hyn, ei bod hi'n sicr yn hollol rugl yn y ddwy iaith gan iddi gyhoeddi nifer o nofelau yn y Ffrangeg a'r Saesneg, gan gyfieithu nifer ohonynt ei hunan. Efallai fod agwedd Huston at ei dwyieithrwydd ei hunan wedi gadael ei ôl ar y math o gyfnewid cod sydd i'w gael yn DN – mae Lipski yn datgan y byddai awdur llenyddiaeth 'Math II' (mae DN yn perthyn i'r categori hwn) yn fwy cyfforddus yn cadw'r ddwy iaith ar wahân. Mae ei ddisgrifiad o'r awdur yn addas ar gyfer disgrifio Huston, gan iddi ddysgu'r Ffrangeg yn ddiweddarach yn ei bywyd, ac yn sicr ddim mewn 'similar or identical contexts' (1982 t.195). Gwelir agwedd wahanol a gwahanol ddefnydd o gyfnewid cod gan Huston a Leblanc ar y pwynt hwn – mae MM yn perthyn i lenyddiaeth 'Math III' Lipski yn hytrach na 'Math II', gan fod MM

yn fwy tueddol o ddefnyddio cyfnewid mewnfrawddegol a DN yn fwy tueddol o ddefnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol.

Er bod Leblanc yn defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol yn fwy aml na Huston, gwelir nad yw'r Saesneg mor integreiddiedig i'r iaith yn y nofel hon ag yn y nofelau Cymraeg. Mae hyn oherwydd bod y geiriau Saesneg yn dueddol o gael eu rhoi mewn ffont italig. Isod ceir sgrinlun o MM er mwyn dangos hyn:²⁷

— Tu voulais lire mes poèmes? Envoye! C'est le temps! *The product of a very sick mind!*
Il s'installe confortablement dans le salon avec les feuilles et prend un air sérieux pour me lire. Après quelques pages, il lance les feuilles sur le plancher et déclare sur un ton décisif et sans appel:
— C'est de la *bullshit*! T'es capable de faire mieux que ça. Je le sais. Pourquoi t'écris sur Moncton? C'est pas un sujet, ton *trip* acadien. *It's for the birds!* Ça te *hold back!*
Sur le coup, ses propos me sidèrent, mais le temps de le dire et je rebondis:
— Tu sais pas de quoi tu parles! T'es assis là à porter des jugements à l'emporte-pièce sur tout ce qui grouille, sans considération aucune pour quoi que ce soit. Tu ne rêves qu'à ta carrière future à New York. Tu n'as rien que du mépris pour Yvon Goguen pis les autres. Tu juges en pensant t'élever au-dessus de la mêlée, mais tu te méprises toi-même au fond. T'es plein de merde mon *goddam!*
— *Whoa, boy!* Pas si fort! *Hey man*, j'aime ça quand tu *stick up* pour ce que tu crois. Je suis pas d'accord avec ce que tu viens de me dire, ben j'aime ça de te voir aller de même.

Ffigur 34: Ffont Italig (MM 59)


Fel yr esbonia Richard: 'les italiques servent de rappel au lecteur que ces mots n'appartiennent pas tout à fait au discours' ['mae'r ffont italig yn gweithredu fel rhywbeth i atgoffa'r darlennydd nad yw'r geiriau hyn wir yn perthyn i'r disgwrs'] (1998 t.25). Trafodwyd eisoes bod MM yn perthyn i lenyddiaeth Math III yn ôl damcaniaeth Lipski (1982). Fodd bynnag, disgrifia Lipski lenyddiaeth Math III fel a ganlyn: 'it is in such texts that the high degree of integration of a bilingual grammar becomes most apparent' (1982 t.195). Dylid nodi nad yw *pob* gair Saesneg yn cael ei italeiddio – er

²⁷ Nodir mai e-lyfr yw'r fersiwn o MM a ddefnyddiwyd, felly sgrinlun sydd uchod yn hytrach na delwedd a sganiwyd o'r nofel, fel gyda DN.


enghraifft, ceir 'une toune [tune] folklorique' (MM 62) heb ddefnyddio'r print italig, ond eithriad yw hyn. Er bod y defnydd o'r geiriau a'r ymadroddion Saesneg o fewn brawddegau Ffrangeg yn soffistigedig, ac yn galw am sgiliau ieithyddol uchel er mwyn sicrhau bod y brawddegau'n gwneud synnwyr, mae'r ffont italig yn mynd yn erbyn yr integreiddio hwn. Felly, er bod Leblanc, wrth ddefnyddio cyfnewid mewnfrawddegol yn perthyn i lenyddiaeth Math III Lipski, mae'r Saesneg yn amlwg yn llai integreiddiedig o gymharu â'r ddwy nofel Gymraeg nad ydynt yn defnyddio ffont italig ar gyfer y Saesneg.

4.5 Dosbarth Gramadegol

Isod ceir dau graff yn dangos cyfnewid cod yn ôl dosbarth gramadegol:



Ffigur 35: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol yn MM



Ffigur 36: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol yn DN

Yn nhabl 31 isod dangosir y pum dosbarth gramadegol gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau (yn y drefn o'r mwyaf i'r lleiaf):

	<i>Moncton Mantra</i>			<i>Danse Noire</i>		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Brawddeg	41	23%	Brawddeg	224	53%
2	Enw	40	22%	Cymal	79	19%
3	Cymal	24	13%	Enw	51	12%
4	Ymadrodd Enwol	20	11%	Pennill	17	4%
5	Ansoddair	13	7%	Ymadrodd Enwol	14	3%

Tabl 31: Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)


Gwelir o'r tabl uchod mai yn DN yn unig ceir y categori 'pennill'. Y rheswm dros hyn yw bod llawer o ddyfynnu barddoniaeth yn y nofel hon, yn wahanol i'r nofelau eraill – mae Neil (taid Milo) yn ffrindiau â nifer o awduron Gwyddelig ac yn hoff o drafod llenyddiaeth gyda'i wŷr Milo. Nid yw 'ansoddair' yn ymddangos ym mhump uchaf DN, ond mae 'brawddeg', 'cymal', 'enw' ac 'ymadrodd enwol' yn ymddangos yn DN a MM fel ei gilydd. Diddorol yw nodi bod y patrwm hwn yn cyd-fynd â'r patrwm yn y nofelau Cymraeg. Mae hyn eto yn atgyfnerthu theori Joshi fod "open class terms" (e.e. enwau, ansoddeiriau a berfau) yn fwy tebygol o gael eu cyfnewid, tra bo "closed class terms" (e.e. y fannod, arddodiaid a meintiolwyr) byth yn cael eu cyfnewid (1985). Mae Gardner-Chloros yn cytuno i ryw raddau, gan ddweud mai enwau sy'n cael eu cyfnewid gan amlaf, ond bod modd cyfnewid pob categori gramadegol, o leiaf mewn theori (2009 t.31).

Sylwer hefyd fod nifer fawr o enghreifftiau o'r categori 'brawddeg' yn ymddangos yn DN, gan gyfrannu at 53% o'r cyfnewid cod. Mae'r categori 'brawddeg' (dosbarth gramadegol) yn cynnwys cyfnewid o hyd 'brawddeg' a 'mwy na brawddeg' (gweler t.70). Gwelir llawer iawn o enghreifftiau o


gyfnewid rhyngfrawddegol yn y nofel hon, fel y gwelwyd eisoes wrth ddadansoddi cyfnewid cod yn ôl hyd. Wrth edrych ar gyfnewid cod yn ôl dosbarth gramadegol, diddorol yw nodi mai 'brawddeg' yw'r categori dosbarth gramadegol â'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn MM yn ogystal, er nad yw'r enghreifftiau mor niferus â'r rhai yn DN – 23% yn MM o gymharu â 53% yn DN. Eto, gwelir effaith defnyddio nifer o wahanol gategoriâu gramadegol er mwyn dadansoddi geiriau unigol ac ymadroddion, tra bo brawddegau unigol a chyfresi o frawddegau yn cael eu grwpio gyda'i gilydd yn y categori gramadegol 'brawddeg'.

4.6 Maes Semanteg

Isod ceir dau siart bar a thabl yn dangos cyfnewid cod yn y ddwy nofel yn ôl maes semanteg, sy'n disgrifio'r pwnc y mae'r cyfnewid yn perthyn iddo (am esboniad pellach, gweler t.73). Fel yn achos y nofelau Cymraeg, grwpwyd y categorïau gyda nifer fechan o enghreifftiau gyda'i gilydd wrth ffurfio'r graffiau. Yn achos y nofelau Ffrangeg-Canadaidd, grwpwyd y categorïau â llai na 5 enghraifft gyda'i gilydd (MM), neu lai na 3 enghraifft (DN). Ceir 16 categori â llai na 5 enghraifft yn MM, yn cynnwys cyfeiriadaeth – barddoniaeth (4 enghraifft), llysenw (3 enghraifft) ac emosiwn (1 enghraifft). Ceir 13 categori â llai na 3 enghraifft yn DN, yn cynnwys Ffrengigo term Saesneg (2 enghraifft), rheg (2 enghraifft) a bwyd (1 enghraifft). Gweler enghreifftiau o'r holl gategoriâu maes semanteg a ddefnyddiwyd ym mhob nofel ar t.73, ac yn Atodiad 2.



Ffigur 37: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn MM



Ffigur 38: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg yn DN

Isod yn nhabl 32 gwelir y pum categori maes semanteg gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau:

	Moncton Mantra			Danse Noire		
		Nifer	Canran		Nifer	Canran
1	Sgwrs	44	25%	Sgwrs	296	71%
2	Term Saesneg	29	16%	Cymeriadu Dysgwr	20	4%
3	Cyffuriau	18	10%	Cyfeiriadaeth – drama	18	4%
4	Cyfeiriadaeth – cerddoriaeth	12	6%	Cyfeiriadaeth – barddoniaeth	16	3%
5	Ebychiad	10	5%	Sain	14	3%
	Rheg	10	5%	–	–	–

Tabl 32: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)

Mae'r canlyniadau uchod o safbwynt MM yn cyd-fynd â thrafodaeth Richard. Dewisodd Richard rannu'r cyfnewid cod yn y nofel rhwng pedwar categori: *drogue* (e.e. *stoned*, *snort*); *party/musique* (e.e. *cruiser*, *boogie*); *années 60/70* (e.e. *groovy*, *love beads*); *autres* (e.e. *High School*, *pick-up*) (1998 tt.25–6). Nodir bod mwy o gategorïau na hyn wedi eu defnyddio ar gyfer y dadansoddiad yn y traethawd hwn, felly nid yw fy nghategorïau i yn mapio ar rai Richard bob tro. Er enghraifft, penderfynwyd bod y gair *groovy* yn perthyn i'r categori 'term Saesneg', gan ei fod yn ansoddair mwy amwys na'n rhan annatod o ddiwylliant y 60/70au. Dylid nodi bod y categorïau wedi eu creu wrth ymateb i'r data a oedd yn bresennol yn y pedair nofel. Gan fod cymaint o amrywiaeth yn y pedair nofel, datblygwyd llawer o gategorïau – mwy mae'n debyg nag o ymateb i un nofel *yn unig*. Er enghraifft, mae


amrywiaeth eang iawn i'w gael yng nghyfnwid FfCCh o'i gymharu a MM, yn rhannol oherwydd bod llawer mwy o enghreifftiau o gyfnwid yn FfCCh.²⁸

Gwelir o'r graffiau uchod fod 'sgwrs', sef sgwrs uniaith Saesneg, yn categori sy'n cynnwys llawer o enghreifftiau yn MM a hefyd 'term Saesneg', sef gair unigol Saesneg nad yw'n perthyn yn amlwg i categori arall (am esboniad llawn, gweler t.73). Gwelir hefyd bod cyffuriau a cherddoriaeth yn ysgogi cyfnwid. Mae 'sgwrs' hefyd yn cynnwys nifer fawr o enghreifftiau yn DN, gan gyfrannu at 71% o'r cyfnwid cod yn y nofel gyfan. Gwelwyd eisoes bod y mwyafrif o'r enghreifftiau o gyfnwid cod yn DN yn rhan o'r ddeialog. Yn sicr, mae hyn yn dangos mai portreadu sefyllfa ieithyddol benodol y mae Huston yn ceisio ei wneud yma; hynny yw, cynnwys cymeriadau sy'n siarad Saesneg yn hytrach nag unigolion sy'n defnyddio'u dwy iaith fel rhan o'r un datganiad. Felly, mae presenoldeb cymeriadau uniaith Saesneg yn effeithio ar ganlyniad meysydd dadansoddi gwahanol, gan gynnwys 'adran' (gan ei fod yn rhan o'r ddeialog) a 'maes semanteg' (gan ei fod yn perthyn i'r categori 'sgwrs').


4.7 Ysgogiad/Swyddogaeth

Isod ceir dau siart bastai a thabl yn dangos cyfnwid cod yn ôl ysgogiad neu swyddogaeth (am esboniad o'r categorïau gweler t.81).

²⁸ Er enghraifft, mae llawer iawn o enghreifftiau o'r categori 'term Saesneg' yn ymddangos yn FfCCh; mewn nofel heb sawl enghraifft o'r fath, efallai na fyddai'r categori wedi ei greu.



Figur 39: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth yn MM



Figur 40: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth yn DN

Yn nhabl 33 isod dangosir y categorïau ysgogiad/swyddogaeth yn nhrefn y mwyaf i'r lleiaf niferus o ran nifer o enghreifftiau. Nodir bod naw categori wedi cael eu defnyddio ar gyfer y codio, ond nid yw pob categori yn ymddangos yn MM na DN. Dim ond pum ysgogiad/swyddogaeth a gofnodwyd ar gyfer MM, a chwech ar gyfer DN. Nid yw'r tri chategori 'agosáu/pellhau', 'newid cyd-sgwrsiwr' na 'cyfnewid enynnol' yn bresennol yn y ddwy nofel hyn.

Moncton Mantra				Danse Noire		
		Canran	Nifer		Canran	Nifer
1	Bwlch Geirfaol	48%	85	Dyfyniad	82%	341
2	Dyfyniad	42%	73	Bwlch Geirfaol	9%	39
3	Ebychiad	6%	11	Creu effaith arbennig	6%	23
4	Creu effaith arbennig	2%	4	Ebychiad	2%	10
5	Ailadrodd/ Egluro/ Pwyslais	2%	3	Ailadrodd/ Egluro/ Pwyslais	1%	2
6	–	–	–	Cyfeirio	0%	2

Tabl 33: Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth (Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)

Gwelir bod nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i'r categori 'bwlch geirfaol' yn MM, sy'n cyfrannu at 48% o'r cyfnewid cod, a hynny'n cysylltu â'r ddadl fod cyfnewid mewnfrawddegol yn cyfrannu nifer fawr o'r enghreifftiau o gyfnewid cod at y nofel hon. Mae 'dyfyniad' hefyd yn rhoi llawer o enghreifftiau (42%), sy'n cynnwys sgwrs uniaith Saesneg a dyfyniadau Saesneg (e.e. geiriau caneuon, llenyddiaeth). Mae hyn yn dangos fod disgwyl i'r darllenydd fod yn gyfarwydd nid yn unig â'r iaith Saesneg, ond hefyd â diwylliant Saesneg ei iaith. Yn DN, 'dyfyniad' yw'r ysgogiad/swyddogaeth sy'n rhoi'r nifer fwyaf o enghreifftiau, gan gyfrannu at 82% o'r cyfnewid cod yn y nofel. Eto, gwelir bod cysylltiad rhwng y meysydd dadansoddi, gan fod canlyniadau maes semanteg yn cyd-fynd â chanlyniadau'r meysydd dadansoddi eraill a drafodwyd eisoes, a oedd yn

dangos fod 'sgwrs' (maes semanteg) a 'deialog' (adran) yn cynnwys nifer o enghreifftiau.

Isod ceir tabl arall sy'n ceisio dangos un o'r cysylltiadau hyn rhwng meysydd dadansoddi. Dangosir ysgogiad/swyddogaeth ac adran o'r testun. Rhoddir yr ystadegau ar gyfer MM mewn gwyrdd, a DN mewn llwyd.

		Adran o'r Testun				
		Naratif	Deialog	Dyfynnu	Epigraff	CYFANSWM
Ysgogiad/Swyddogaeth	Dyfyniad	2 2	44 289	26 51	1 0	73 342
	Bwlch Geirfaol	54 27	30 12	2 0	0 0	86 39
	Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	3 0	6 2	0 0	0 0	9 2
	Ebychiad	1 0	10 9	0 0	0 0	11 9
	Creu effaith arbennig	2 4	1 19	1 0	0 0	4 23
	Agosáu / Pellhau	0 0	0 0	0 0	0 0	0 0
	Cyfeirio	0 2	0 0	0 0	0 0	0 2
	Newid Cyd-sgwrsiwr	0 0	0 0	0 0	0 0	0 0
	Cyfnewid Enynnol	0 0	0 0	0 0	0 0	0 0
	CYFANSWM	62 35	91 331	29 51	1 0	183 417

Tabl 34: Cyfnewid Cod – Ysgogiad/Swyddogaeth ac Adran o'r Testun
(Nofelau Ffrangeg-Canadaidd)


Gwelir o'r tabl uchod bod llawer o'r ddeialog yn DN yn perthyn i'r categori dyfyniad. Nid yw hyn yn annisgwyl; gwelwyd eisoes fod sgwrs Saesneg y cymeriadau'n cael effaith fawr ar y nofel hon, ac mae'r holl enghreifftiau o sgwrs Saesneg yn perthyn i'r categori 'dyfyniad' wrth edrych ar ysgogiad/swyddogaeth. Gwelir yr un tueddiad yn MM ag a welwyd yn FfCCh, sef bod llawer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n rhan o'r naratif yn perthyn i'r ysgogiad/swyddogaeth 'bwlch geirfaol'. Yn ogystal, gwelwyd bod

llawer o'r enghreifftiau o gyfnewid yn MM sy'n rhan o'r naratif yn gyfnewid mewnfrawddegol, sydd eto'n debyg i'r hyn sydd i'w weld yn FfCCh.

4.8 Persbectif y naratif

Mae DN wedi ei rannu'n grefftus iawn, gyda'r nofel wedi ei rhannu yn 10 adran yn ôl symudiadau'r capoeira. Ceir tair pennod ym mhob adran, yn y drefn Milo, Neil, ac Awinita, sydd o bersbectif y cymeriadau hyn er mai llais Paul sy'n adrodd y stori. Dyma pam y defnyddir y term 'persbectif y naratif' yma, oherwydd nad y cymeriadau eu hunain sy'n lleisio'r penodau hyn.

Mae'r penodau'n amrywio o ran hyd, ond maent yn yr un drefn o bersbectif y cymeriadau bob tro. Cofnodwyd ym mha bersbectif yr oedd y cyfnewid yn digwydd, er mwyn gweld a oedd cysylltiad rhyngddo a'r cyfnewid cod.



Ffigur 41: Cyfnewid Côt yn ôl Persbectif y Bennod DN

Diddorol nodi fod llai o gyfnewid gan Neil o'i gymharu â Milo ac Awinita. Y rheswm mae'n debyg yw oherwydd bod y penodau sydd wedi eu lleoli yn Nulyn yn y Ffrangeg, a heb gynnwys llawer o gyfnewid cod. Diddorol nodi nad adrannau Awinita sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid

cod. Yn wahanol i Neil a Milo, nid yw Huston yn dangos Awinita'n siarad y Ffrangeg – sy'n awgrymu nad yw hi'n gymeriad dwyieithog sy'n gallu dewis newid iaith. Fodd bynnag mae penodau Milo ac Awinita'n gyfartal yn y nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod y maent yn eu cynnwys. Ond mae Milo yn gymeriad dwyieithog, sy'n medru dewis siarad Ffrangeg, ac yn gwneud y dewis hwn yn aml. Ond mae'n *rhaid* i Awinita siarad Saesneg (mae hi'n siarad yr iaith Cree â'i theulu, er ei bod wedi ei ysgrifennu yn y Saesneg). Felly mae'n ddiddorol bod cymeriadau gyda sgiliau ieithyddol gwahanol iawn yn rhoi'r un nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod inni.

4.9 Crynodeb

Gwelwyd bod tueddiad cryf gan DN i ddefnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol, tra bo MM yn fwy tueddol o ddefnyddio cyfnewid mewnfrawddegol, sy'n cydfynd â damcaniaeth Lipski ynglŷn â'r tri math gwahanol o lenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod. Gwelwyd bod cysylltiad rhwng hyn a'r math o gyfnewid cod y mae'r awduron am ei bortreadu. Mae MM yn dangos ieithwedd unigryw Moncton, tra bo DN yn rhoi mwy o bwyslais ar ddangos rhai cymeriadau'n siarad y Saesneg gyda'i gilydd. Yn y bennod nesaf byddwn yn trafod rhai tueddiadau cyffredin rhwng y pedair nofel, gan ganolbwyntio ar yr elfen ddamcaniaethol yn hytrach na chanlyniadau penodol y codio.

Pennod 5: Edrych o'r Newydd ar Gyfnewid Cod

Yn y penodau blaenorol, rydym wedi trafod yr ymchwil ar gyfnewid cod sy'n bodoli eisoes, a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y traethawd hwn cyn trafod canlyniadau dadansoddi'r pedair nofel yn benodol. Yn y bennod hon byddwn yn trafod rhai o'r tueddiadau a ddaeth i'r amlwg wrth astudio'r nofelau. Byddwn yn trafod yr hyn sy'n nodweddu llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod, gan ganolbwyntio ar y nodweddion hynny sy'n gyffredin rhwng y pedair nofel. Pwrpas y bennod hon yw trafod arwyddocâd ehangach y math hwn o lenyddiaeth, gan archwilio elfennau o theori gyfredol a'r cysylltiadau â'r awdur a'i gymdeithas. Yn gyntaf, edrychwn ar agweddau gwahanol ar gyfnewid cod mewn llenyddiaeth, a thrafod rhai elfennau sy'n ganolog i'r broses: yr awdur, y cymeriadau, y gymdeithas a'r darlennydd. Yn ail ran y bennod, trown at thema gyffredin yn y pedair nofel, sef thema 'Y Ddinas' gan fanylu ar y math arbennig o fywyd sy'n cael ei bortreadu; bywyd 'tywyll' ac anodd ydyw, yn cynnwys rhegi, rhyw, cyffuriau, torcyfraith a phuteinio. Tybier efallai fod cysylltiad rhwng y thema hon a chyfnewid cod. Bydd y bennod hon, felly, yn canolbwyntio ar elfennau llenyddol a chymdeithasol a'u cysylltiad â chyfnewid cod.

5.1 Pwy sy'n cyfnewid cod?

Yr awdur, fel creawdwr y gwaith, yw man cychwyn llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod, gan mai ef neu hi sy'n penderfynu llunio'r gwaith gan dynnu ar ei (g)wybodaeth o wahanol ieithoedd. Diddorol yw nodi bod tebygrwydd rhwng prif gymeriadau'r nofelau a'u hawduron: mae'r cymeriadau'n dal drych i'w creawdwr. Daw awdur CD, sef Twm Miall, yn

wreiddiol o Drawsfynydd, er ei fod wedi byw yng Nghaerdydd am nifer o flynyddoedd. Mae'n gweithio fel awdur proffesiynol, yn bennaf yn ysgrifennu dramâu a straeon byrion (literaturewales.org d.d.: gwelwyd 01/09/2014). Daw Bleddyn, y prif gymeriad, o Lan Ffestiniog yn yr hen sir Feirionnydd, rywle tebyg i gartref Twm Miall, ac mae yntau yn mentro i fyw yng Nghaerdydd.

Brodor o Gaerdydd yw Llwyd Owen, awdur FfCCh, ac mae'n gweithio fel cyfieithydd ac awdur proffesiynol (llwydowen.co.uk d.d.: gwelwyd 05/08/2014). Yn sicr, mae dinas Caerdydd yn lle pwysig iddo: 'Y peth sy'n gwneud Caerdydd yn lle mor arbennig i fi yw mai dyma lle cefais fy ngeni a fy magu. Rwy'n adnabod y ddinas, yn blasu ac yn arogl'r ddinas. Mae hi yn fy ngwaed' (Emyr a Griffiths 2008 t.29). Fel Llwyd Owen, brodor o Gaerdydd yw Luc Swan, prif gymeriad y nofel. Mae Luc yn gymeriad sy'n amlwg wedi ei wreiddio yng Nghaerdydd, gyda nifer o'i brofiadau wedi eu seilio ar brofiadau'r awdur yn ei swydd gyntaf (Sheppard 2012 t.54).

Cafodd Gérald Leblanc ei eni a'i fagu yn *Nouveau Brunswick*; daw'n wreiddiol o dref Bouctouche, ac fe symudodd i Moncton i fynychu'r brifysgol er iddo dreulio ychydig llai na blwyddyn academiaidd yno (MM 86). Yn debyg i Leblanc, ganwyd Alain yn Bouctouche a symudodd i Moncton er mwyn mynychu'r brifysgol, er iddo adael cyn graddio. Mae Alain hefyd yn gweithio fel awdur a chanddo ddiddordeb mewn iaith a chymeriad arbennig y diwylliant *acadien*.

Ganed Nancy Huston yn Calgary, Alberta, cyn treulio sawl mis yn yr Almaen â'r wraig a fyddai'n dod yn llysfam iddi, tra bo rhieni Huston yn ysgaru

(Fresnel 2012). Symudodd y teulu i New Hampshire pan oedd Huston yn ei harddegau. Symudodd i Baris i astudio, ac erbyn hyn mae hi wedi treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd yno (Kinginger 2004 t.166). Dechreuodd ysgrifennu yn y Ffrangeg: traethodau o dan ddylanwad *Le Mouvement du Liberation de Femmes*, cyn ysgrifennu ei nofel gyntaf *Les Variations Goldberg* yn 1981 (Frey 1998). Mae hi hefyd wedi cyfieithu llawer o'i gwaith ei hun. Er nad yw cymeriadau DN yn dod o gefndir tebyg iawn i Nancy Huston, mae tebygrwydd yn y ffaith eu bod hwy hefyd yn ymfudwyr. Yn ogystal, cafodd y prif gymeriad Milo ei fagu heb adnabod ei rieni; cafodd Huston brofiad tebyg iddo, gan i'w mam adael y plant gyda'u tad ar ôl i'r briodas ddod i ben pan oedd Huston yn chwech oed (Fresnel 2012; Huston 2004).

Nid yw'r cysylltiad hwn rhwng y cymeriad a'r awdur yn rhywbeth anghyffredin, gan fod awduron yn dueddol o ysgrifennu am yr hyn sy'n gyfarwydd iddynt – fel y dywedir yn y Saesneg, 'write what you know'. Efallai fod awduron y pedair nofel hyn wedi penderfynu eu bod am drafod, mewn rhyw ffordd, eu profiadau ieithyddol yn eu nofelau. Dewisodd Llwyd Owen greu llenyddiaeth yn defnyddio'r math o Gymraeg y mae ef a'i gyfoedion yn ei siarad (Owen et al. 2006 t.128). Gwelir Twm Miall yn dangos y gwahaniaeth rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yng Nghaerdydd (Sheppard 2013). Uchelgais Gérald Leblanc oedd portreadu Moncton a'i hieithwedd arbennig hi (Chiasson 2012), tra bo Nancy Huston am greu 'un récit qui entrelace habilement trois destins et qui rend un hommage touchant à la langue d'ici' ['stori gywrain sy'n plethu tair tynged ac sy'n deyrnged deimladwy i iaith Québec'] (Boisvert 2013).

Dylid hefyd grybwyll rhyw'r awduron a'r cymeriadau. Mae tri o'r pedwar awdur yn ddynion, ac mae'r rhan helaeth o'r prif gymeriadau'n ddynion hefyd: Bleddyn (CD), Luc (FfCCh), Alain (MM), Milo, a Neil (DN) – er bod Awinita (DN) yn fenyw. Gallai hyn fod yn gyd-ddigwyddiad; fel yr eglurwyd eisoes, dewiswyd y nofelau hyn oherwydd bod digon o gyfnewid cod yn digwydd ynddynt, gan geisio gwneud rhyw ymgais i ddarganfod nofelau a oedd yn debyg i'w gilydd mewn rhyw ffordd, er nad oedd hyn yn flaenoriaeth. Ond dylid nodi bod rhai theorïau penodol yn canolbwyntio ar ferched a chyfnewid cod. Dadleir bod menywod yn fwy agored i gydgyfeiriant na dynion; maent yn fwy tebygol o geisio adlewyrchu'r ffordd y mae eu cydsiaradwyr yn siarad (Woolard 1997 Yn: Gardner-Chloros 2009 t.80). Ond nid oes consensws i'w gael o ran a yw menywod yn fwy neu'n llai tebygol o gyfnewid cod na dynion: mae Gardner-Chloros (2009 tt.82-3) yn dangos bod gwahanol astudiaethau wedi dod i ganlyniadau gwrthgyferbyniol – rhai heb ddarganfod unrhyw gysylltiad rhwng rhyw a chyfnewid cod, a rhai wedi canfod cysylltiad.²⁹ Gellid dadlau, o'r ymchwil a wnaethpwyd yn y traethawd hwn, fod gwahaniaeth yng nghyfnewid cod dynion a merched, gan fod Huston, ein hunig awdur sy'n fenyw, yn defnyddio cyfnewid cod mewn ffordd wahanol, gan ganolbwyntio ar gyfnewid rhyngfrawddegol. Ond nid yw'r pedair nofel hyn yn ddigon o dystiolaeth inni allu honni bod gwahaniaeth rhwng cyfnewid cod awduron benywaidd a gwrywaidd. Byddai'n ddiddorol gwneud rhagor o ymchwil i'r cyfeiriad hwn.

²⁹ Dylid nodi bod Gardner-Chloros yn cyfeirio at 'the long-established finding that women use more standard forms than men (Labov, 1972; Trudgill, 1972; Chambers, 2003)' (t.82), ond mae hi'n dweud bod y canfyddiadau hyn wedi eu seilio ar yr astudiaeth o sefyllfa uniaith yn hytrach na chyfnewid cod.

Ffactor bwysig arall yw ei bod hi'n anodd iawn trafod profiad ieithyddol nad ydych wedi ei brofi eich hunan. Mae'r awduron yn debygol o ddewis cymeriadau sy'n debyg iddynt hwy eu hunain, gydag idiolect yr awdur a'r cymeriadau'n ymdebygu i'w gilydd. Golyga hyn fod yr iaith yn gredadwy, ac nad yw'n swnio'n ffals i'r darllenwyr. Byddai'n anodd ail-greu iaith rhywun arall, heblaw eich bod yn gyfarwydd iawn â'r ieithwedd honno. Mae Huston yn ceisio cyfleu iaith nad yw'n perthyn i'w hieithwedd hi'n bersonol gan ei bod hi'n portreadu iaith unigolion yn Québec. Fodd bynnag, dywed ei bod hi'n gyfarwydd â'r dafodiaith hon, ei bod hyd yn oed yn siarad â'r acen hon pan fydd hi yn Québec (Huston 2004 t.35), a'i bod hi'n teimlo 'si le joual est une langue, il faut que d'autres l'utilisent, pas seulement les natifs' ['os yw *joual* yn iaith, mae'n rhaid i eraill ei defnyddio, nid y brodorion yn unig'] (Boisvert 2013). Mae dewis cymeriad y gallwch greu ieithwedd gredadwy ar ei gyfer yn bwysig iawn os mai dyma brif iaith y nofel. O'r pedair nofel, mae tair ohonynt yn defnyddio llais cymeriad yn y person cyntaf i adrodd y stori (CD, FfCCh a MM), felly mae angen i lais y cymeriad fod yn un credadwy. Fodd bynnag, adroddir yr hanes yn DN yn y trydydd person, ond gan ddefnyddio llais un o'r cymeriadau, sef Paul Schwarz. Mae Ffrangeg Paul yn fwy safonol na'r cymeriadau eraill. Nid yw hi'n broblem felly nad iaith Huston ei hunan – brodor o Ganada angloffon sydd wedi treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd ym Mharis – yw'r *joual* (Ffrangeg Québec) na'r cyfnewid cod gan gymeriadau Canada ffrancoffon, oherwydd mai'r Ffrangeg safonol yw prif iaith y nofel. Er ein bod yn gweld rhai o'r cymeriadau'n defnyddio cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg a'r *joual*, mae hyn yn cael ei gyfyngu i'r ddeialog ar y cyfan (t.138:

graff 'adran' DN),³⁰ gan ddefnyddio mwy o gyfnewid rhyngfrawddegol (t.142: graff 'hyd' DN). Yn ogystal, mae cyfartaledd cyfnewid cod DN yn isel o'i gymharu â'r tair nofel arall (Atodiad 1). Felly, o'r pedair nofel hyn, gwelir bod mwy o duedd i ddefnyddio cyfnewid cod (yn enwedig cyfnewid mewnfrawddegol) pan fo'r stori yn cael ei hadrodd yn y person cyntaf yn hytrach nag yn y trydydd person – er bod modd cynnwys cyfnewid cod yn y trydydd person yn ogystal.

Dangosir y cymeriadau yn y nofelau o fewn eu cymdeithas ieithyddol amrywiol, ac mae'r gymdeithas hon hefyd yn cyfnewid cod. Ond dangosir y gymdeithas ieithyddol mewn dwy ffordd wahanol yn y pedair nofel. Ar y naill law, mae dau o'r pedwar awdur yn ysgrifennu o'r tu mewn i'r gymdeithas y maent yn eu portreadu – Llwyd Owen a Chaerdydd, a Gérard Leblanc a Moncton. Hynny yw, brodorion ydynt yn disgrifio eu hardaloedd eu hunain a'u profiadau yn y lleoliadau hyn. Ar y llaw arall, mae Twm Miall a Nancy Huston yn ysgrifennu o'r tu allan i'r gymdeithas y maent yn ei thrafod yn eu nofelau, er bod Twm Miall wedi byw yng Nghaerdydd am gyfnod, a bod Nancy Huston wedi treulio amser yn Québec. Mae hyn hefyd yn wir i ryw raddau am y prif gymeriadau: mae Luc yn frodor o Gaerdydd sy'n trafod ei fywyd yn y ddinas honno; daw Bleddyn o Sir Feirionnydd, ond mae'r nofel yn digwydd yng Nghaerdydd (dylid nodi bod Bleddyn ei hun hefyd yn cyfnewid cod; nid cymeriadau Caerdydd yn unig a wna hyn); ac mae Alain yn wreiddiol o Bouctouche, *Nouveau Brunswick*, ac wedi symud i Moncton. Mae DN yn fwy cymhleth o ran ei chymeriadau gan fod Neil yn ymfudwr i Ganada o

³⁰ Sylwer bod y ddeialog Saesneg wedi ei gyfieithu i'r *joual* gan Nancy Huston, yn hytrach nag i'r Ffrangeg safonol (t.140).

Iwerddon, Awinita yn Indiad Brodorol sy'n byw ym Montréal, a Milo yn gymeriad amlddiwylliannol a anwyd ym Montréal. Fodd bynnag, Paul Schwarz o Efrog Newydd sy'n adrodd y stori. Gwelir bod gan yr awdur ddewis i'w wneud: a yw'r awdur a'r cymeriadau yn cael eu lleoli'n bendant o fewn y gymuned ieithyddol y mae'r nofel yn ceisio ei phortreadu ai peidio?³¹

Dangosir, felly, fod cysylltiadau yn bodoli rhwng: yr awdur, creawdwr y nofel; y cymeriadau, sy'n gyfrwng ar gyfer y cyfnewid cod; a'r gymdeithas ieithyddol y mae'r awdur a'r cymeriadau yn rhan ohoni. Ond mae un person arall y mae angen ei drafod yn ogystal: y darlennydd. Os na all y darlennydd ddeall y cyfnewid cod, yna gall hyn amharu ar ei ddealltwriaeth o'r nofel: rhaid meddwl pa sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar y darlennydd er mwyn deall y testun sy'n cael ei greu. Fel y dywed Bohata (2004 t.114), wrth ddewis ysgrifennu mewn un iaith neu'r llall, neu i gyfnewid cod yn y testun, mae'r awdur yn creu neu'n dewis ei gynulleidfa. Yng ngeiriau'r awdur o Kenya, Ngũgĩ wa Thiongĩ'o, 'the choice of a language already pre-determines the answer to the most important question for producers of imaginative literature: For whom do I write? Who is my audience?' (1981 Yn: Bohata 2004 t.114). Mae angen i'r awdur, felly, gymryd i ystyriaeth beth yw sgiliau ieithyddol ei gynulleidfa darged. Mae awduron Cymraeg yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa sy'n gyfartal-rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg; ond mae dewis cyfnewid cod yn fwy annisgwyl yn achos Leblanc, awdur MM, gan fod siaradwyr cyfartal-rugl Ffrangeg-Saesneg yn y lleiafrif yng Nghanada (17.5%

³¹ Sylwer bod y mewnfudwyr yn gallu cael eu defnyddio er mwyn cynnig sylwadau ar y ddinas: er enghraifft, sylwa Bleddyn CD ar Gymraeg gwahanol y dinasyddion – a diffyg Cymraeg rhai ohonynt (Sheppard 2013 t.92). Yn CD defnyddir hyn er mwyn amlygu'r gwahaniaeth rhwng Bleddyn, sydd o'r Gymru wledig, a dinasyddion Caerdydd.

o'r boblogaeth sy'n ddwyieithog yn ôl cyfrifiad 2001 (Statistics Canada 2014)). Yn ei gyflwyniad i'r nofel, disgrifia Chiasson y nofel fel 'le témoignage d'un climat, d'une époque et d'un parcours qui fut celui de plusieurs écrivains de ma génération' ['tystiolaeth o hinsawdd, o gyfnod ac o daith a oedd yn perthyn i nifer o awduron o fy nghenedlaeth'] (2012 t.8). Felly, mae'n debygol bod Leblanc yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa benodol iawn, sef y rhai sydd un ai yn rhan o'r gymdeithas hon neu sydd â diddordeb ynddi.

Trafodwyd damcaniaeth Lipski yn helaeth yn y traethawd hwn (t.30). Yn ôl Lipski, mae llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol yn debygol o gael ei chreu gan awduron sy'n gyfartal-rugl yn eu dwy iaith, tra bo llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod rhyngfrawddegol yn debygol o gael ei chreu gan awduron sydd wedi dysgu eu hiaith mewn amgylchiadau gwahanol i'w gilydd. Pwysleisia ei bod hi'n anodd profi beth yw sgiliau ieithyddol yr awdur, ond dywed 'the writer sees fit to separate two linguistic and cultural domains. The work should be evaluated accordingly' (1982 t.195). Wrth ddadansoddi'r cyfnewid cod yn ôl hyd, gwelir bod y data yn atgyfnerthu dadl Lipski gan fod y gwahaniaeth hwn i'w weld yn glir yn y pedair nofel. Mae tair o'r nofelau (CD, FfCCh a MM) yn defnyddio mwy o gyfnewid mewnfrawddegol, tra bo DN yn defnyddio mwy o gyfnewid rhyngfrawddegol (gweler y graffiau 'hyd' yn Atodiad 1Atodiad 1

[Tablau a Graffiau o'r Pedair Nofel \(atgynhyrchiadau o gorff y traethawd\)](#). Mae hyn yn amlygu'r ffaith fod DN yn defnyddio cyfnewid cod mewn ffordd wahanol i'r tair nofel arall. Mae'n debygol fod hyn oherwydd bod Huston yn

ymwybodol o ddarllenwyr nad ydynt yn gyfartal-rugl yn eu dwy iaith, gan ei bod yn cynnwys cyfieithiad o'r sgysiau Saesneg – a hon yw'r unig nofel i wneud hyn. Mae'r ffaith nad yw awduron y nofelau eraill yn cynnwys cyfieithiad na glos o unrhyw fath yn dangos eu bod yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa a chanddynt sgiliau ieithyddol penodol a datblygedig iawn. Mae hyn yn awgrymu nad oes angen cymorth ieithyddol ar y gynulleidfa hon, nid yn unig oherwydd eu bod nhw'n gyfartal-rugl, ond hefyd eu bod nhw eisoes yn gyfarwydd â'r ffordd hon o gyfathrebu, boed trwy ei defnyddio'n bersonol neu drwy ei chlywed gan siaradwyr eraill. Mae cynulleidfa DN, fodd bynnag, angen mwy o gymorth gan nad oes disgwyl i'w sgiliau ieithyddol dwyieithog fod mor gryf â sgiliau ieithyddol darllenwyr y tair nofel arall.

Yn ogystal, gwelir bod dwy strategaeth ar gael i'r awduron wrth ddefnyddio cyfnewid cod: adlewyrchu iaith yr unigolyn neu adlewyrchu iaith y gymdeithas. Mae FfCCh a MM yn adlewyrchu iaith yr unigolyn; gwelir mai'r categori 'ysgogiad/swyddogaeth' gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw 'bwlch geirfaol' (60% FfCCh, 47% MM – gweler y graffiau yn Atodiad 1).³² Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn digwydd yn y naratif (59% FfCCh, 34% MM – gweler Atodiad 1) ac yn gyfnewid mewnfrawddegol (77% FfCCh, 74% MM – gweler y graff 'hyd' yn Atodiad 1). Felly, mae FfCCh a MM yn dangos cymeriadau dwyieithog sy'n cyfnewid cod fel rhan o'u hieithwedd eu hunain, yn hytrach nag er mwyn cyfathrebu â chymeriadau uniaith Saesneg – mae'r cyfnewid cod yn rhan o idiolect y cymeriadau. Os yw'r awduron yn dewis adlewyrchu iaith y gymdeithas yn

³² Bwlch geirfaol yw diffyg term cyfystyr yn y ddwy iaith; gweler diffiniad llawn ar t.81.

hytrach na'r unigolyn, daw patrwm arall i'r amlwg, fel yn CD a DN.³³ Mae'r rhan fwyaf o'r cyfnewid yn y nofelau hyn yn perthyn i'r categori 'dyfyniad' (ysgogiad/swyddogaeth) (sy'n cynnwys sgwrs uniaith Saesneg yn ogystal â dyfyniadau) (57% CD, 82% DN – gweler y graffiau yn Atodiad 1) ac yn perthyn i'r adran 'deialog' (68% CD, 79% DN – graff 'adran' yn Atodiad 1). Gwelir bod 351 enghraifft (52%) o gyfnewid cod CD a 296 enghraifft yn DN (71%) yn perthyn i'r categori 'sgwrs' (sgwrs uniaith Saesneg). Gwelir bod mwy o duedd i ddefnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol yn DN (58% – gweler y graff 'hyd' yn Atodiad 1), er nad yw'r tuedd hwn i'w weld yn CD. Gwelir, felly, fod y cymeriadau yn y ddwy nofel hyn yn troi at y Saesneg mewn deialog; dyma ddylanwad cymeriadau uniaith Saesneg, wrth i'r cymeriadau dwyieithog newid iaith er mwyn cyfathrebu â hwy.

Fodd bynnag, nid yw'r nofelau sy'n dangos ieithwedd unigolion (FfCCh a MM) yn dangos yr unigolion hyn mewn gwagle ieithyddol. Edrychwn ar y maes dadansoddi 'ysgogiad/swyddogaeth' (gweler Atodiad 1), a'r categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau *ond un*. Gwelir mai'r categori hwn yw 'dyfyniad' ar gyfer FfCCh (16%) a MM (40%), ac mae'r categori 'sgwrs' (maes semanteg) yn cynnwys sawl enghraifft hefyd (129 enghraifft neu 11% FfCCh a 44 enghraifft neu 24% MM). Gwelir bod y nofelau hyn felly'n dangos effaith cymeriadau uniaith Saesneg yn ogystal. Mae CD a DN hefyd yn dangos ieithwedd unigolyn i ryw raddau: o edrych eto ar y categori 'ysgogiad/swyddogaeth' gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau *ond un*, gwelir mai

³³ Dylid nodi bod iaith yr unigolyn yn gynnrych y gymdeithas hefyd, wrth gwrs. Fodd bynnag, yr hyn sydd dan sylw yma yw bod nofel sy'n adlewyrchu iaith y gymdeithas yn fwy cyffredinol yn defnyddio cyfnewid cod i ddangos presenoldeb cymeriadau uniaith Saesneg, ac felly'n defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol.

'bwlch geirfaol' ydyw (39% CD, 9% DN). Mae CD hefyd yn defnyddio llawer o gyfnewid mewnfrawddegol (68% – gweler t.103). Felly, er bod modd dadlau mai'r *brif* ffenomen yn y testunau yw dangos cyfnewid cod mewn ieithwedd unigolyn *neu* mewn cymdeithas, gwelir bod cyfuniad o'r ddwy elfen hyn yn y testunau i wahanol raddau.

Gwelir effaith ieithwedd y prif gymeriad yn arbennig wrth i'r awdur ddewis ysgrifennu yn y person cyntaf. Fel y dywed Lefi Gruffudd, golygydd cyffredinol FfCCh:

Er ein bod yn gweld bod angen dileu llawer o ffurfiau a chyffelybiaethau Saesneg diangen, yn sylfaenol rhaid oedd cadw mynegiant amherffaith Luc Swan fel y'i cyflwynwyd gan yr awdur. [...] Onid mynegiant amrwd, uniongyrchol y llais ifanc adweithiol yw rhan o athrylith y nofel honno? Ac fel *Catcher in the Rye* bydd darllenwyr yn gweld bod rheswm dros lais ac ieithwedd Llwyd Owen yn *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau*.

(Owen et al. 2006 t.133)

Ymhelaetha Alun Jones, golygydd creadigol FfCCh, gan ddadlau bod Llwyd Owen 'yn awyddus i'w brif gymeriad siarad iaith roedd ef ei hun wedi ei defnyddio gyda'i gyfoedion – er nad dyna'r iaith y bydd yn ei siarad â mi' (t.132). Pwysleisia Alun Jones y cysylltiad rhwng y cymeriad Luc Swan a'r iaith yn y nofel pan ddywed:

Hoffwn bwysleisio nad ydw i'n gweld, nac yn dymuno gweld, awduron yn llacio eu gafael ieithyddol i'r fath raddau ag y gwnaeth Llwyd Owen. Yn fy marn i, Luc, y cymeriad brith, sydd wedi dylanwadu ar iaith y nofel hon. (2006 t.133)

Mae'r ffaith bod y nofelau hyn yn defnyddio arddull llif yr ymwybod yn rhoi uniongyrchedd i'w lleisiau. Mae'r arddull llif yr ymwybod yn cael ei ddefnyddio er mwyn mynegi dryswch ac anrhefn y bywyd mewnol, gan

gyfleu'r meddyliau amrwd ac anorffenedig sydd yn ein hymennydd, meddyliau sy'n cael eu cynhyrchu'n gyflym iawn ac sy'n toddi i mewn i'w gilydd (Fernihough 2007 t.66). Gan fod y meddyliau hyn yn rhai sy'n digwydd ar 'the prespeech level of consciousness' (Humphrey 1954 t.4), maent yn cael eu creu *cyn* i'r cymeriad allu sensro'r hyn y mae am ei ddweud. Fodd bynnag, dylid cofio mai crefft gelfyddyd yw llenyddiaeth, ac mai testun sydd wedi cael ei greu gan yr awdur yr ydym yn ei astudio. Fel y dywed Humphrey, 'the author of a stream-of-consciousness novel is always presenting a created character's consciousness and not his own, no matter how autobiographical the bias is' (1954 t.63), er mai rhan o grefft ysgrifennu yn arddull llif yr ymwybod yw darbwylo'r darllenydd nad yw'r broses hon o greu yn bodoli, a'n bod ni'n clustfeinio ar feddyliau'r cymeriadau.

Er bod cyfnewid cod yn bodoli ar lafar, a bod ei ddefnyddio mewn llenyddiaeth yn apelio at nifer o ddarllenwyr, mae beirniaid llenyddol yng Nghymru yn gyndyn i'w groesawu fel elfen mewn llenyddiaeth. Gwelir Emyr Llywelyn yn ceisio annog Caryl Lewis i beidio â chynnwys rhegfeydd ac i gadw rhag 'y gordefnydd o fratiaith a Saesneg' yn ei nofelau (2005 t.31), neu erthygl Emlyn Evans sy'n dadlau y dylid cadw rhegfeydd a geiriau Saesneg allan o lenyddiaeth Gymraeg (2013). Er i Ceri Wyn ennill y gadair am ei awdl 'Lloches' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014, roedd Alan Llwyd, un o'r beirniaid, yn gadarn ei farn mai 'dyna un gwendid enfawr i mi: y gordefnydd a wneir o'r iaith Saesneg, a hynny heb ddim math o angen gwneud hynny yn aml' (2014 t.9). Gwelwyd agwedd debyg gan feirniaid eisteddfodol Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2005. Ni chafodd FfCCh ennill y gystadleuaeth yn y flwyddyn honno gan fod yr 'iaith yn broblem fawr', er i'r

beirniaid gydnabod mai dyma nofel orau'r gystadleuaeth (Pritchard et al. 2005 t.98).³⁴ Efallai nad syndod yw bod yr Eisteddfod, gŵyl lenyddol a diwylliannol genedlaethol Cymru, am gadw safonau ieithyddol ac yn erbyn y defnydd o'r Saesneg yn ein llenyddiaeth. Wrth drafod ei ddewis o ieithwedd yn y nofel hon, dywed Llwyd Owen, 'Fy mwriad, pan ddechreuais y broses o ysgrifennu'r nofel, oedd cynhyrchu nofel fyddwn i, a phobl debyg i fi, yn ei mwynhau' (2006 t.5), gan ddefnyddio'r math o iaith 'dwi'n ei defnyddio o ddydd i ddydd ac yn ei chlywed yn cael ei siarad gan fy nghyfoedion' (Owen et al. 2006 t.128). Yn sicr, o safbwynt Llwyd Owen, mae'r ieithwedd y mae'n ei defnyddio yn ei nofelau yn rhywbeth newydd ac anghyffredin, ac yn elfen unigryw ddeniadol wrth i awdur newydd geisio gwerthu ei waith.

Cysidrwn hefyd y gallai fod cysylltiad yma â theori ymgymhwysio iaith. Trafodwyd eisoes y theori hon, sy'n dadlau bod siaradwyr yn debygol o adlewyrchu'r ffordd y mae eu cyd-siaradwyr yn siarad, er mwyn hybu 'social integration or identification with another [h.y. y cyd-siaradwr]' (Giles et al. 1991 t.18). Felly, gallwn dybio bod y nofelau hyn yn ceisio adlewyrchu'r math o ieithwedd sy'n cael ei defnyddio yn y byd go-iawn, er mwyn apelio at ddarpar-ddarllenwyr. Ceir astudiaethau ieithyddol o Gymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg sy'n profi bod y math hwn o iaith yn bodoli yn y byd go-iawn, er enghraifft y prosiect *Bangor Talk* (Bangortalk.org.uk 2010; Deuchar

³⁴ Rhaid cofio mai ar deipysgrif, drafft anghyhoeddedig o FfCCh y seilir sylwadau'r beirniad, yn hytrach na'r nofel a gyhoeddwyd gan Y Lolfa. Mewn erthygl gan Rhodri Llŷr Evans, cyhuddwyd y beirniaid o '[f]radychu safonau yn enw parchusrwydd Nain' (2010 t.119) drwy beidio â rhoi'r wobwr i FfCCh (nofel sy'n llawn rhegfeydd a thrais), a gwobrwyo nofel lai mentrus. Mewn ymateb i'r erthygl, dywed Elfyn Pritchard a Bethan Mair mai 'ar sail ei hiaith wallus – yn cynnwys idiomaau Saesneg wedi eu cyfieithu, cam gyfieithu o'r Saesneg ac yn arbennig cystrawen wallus y penderfynwyd na ellid gwobrwyo Llwyd Owen' (2011). Er bod dylanwad y Saesneg i'w weld yn y fersiwn gyhoeddedig o FfCCh, mae'n debyg bod gwaith golygu wedi cywiro'r 'camgymeriadau oedd yn britho'r gwaith ac yn llesteirio'r mynegiant' (Pritchard a Mair 2011).

2014) neu waith Shana Poplack ar amrywiaethau o'r iaith Ffrangeg (er enghraifft: Poplack a Levey 2010; Sankoff a Poplack 1985). Felly, er bod cyfnewid cod yn nodwedd fwy newydd mewn llenyddiaeth, mae'n hen elfen o'r iaith lafar. Mewn ymchwil yn y dyfodol, gellid archwilio'r cysylltiad hwn ymhellach, boed drwy holi'r awduron eu hunain am yr ysgogiad i ddefnyddio cyfnewid cod, neu drwy gymharu patrymau cyfnewid cod ar lafar mewn corpws tebyg i *Bangor Talk* a'r hyn sydd i'w weld mewn llenyddiaeth.

5.1.1 Tu hwnt i'r iaith Saesneg

Nid dim ond yr *iaith* Saesneg sy'n ymddangos yn y nofelau hyn; mae hefyd lawer o gyfeirio at *ddiwylliant* Saesneg ei iaith. Ceir toreth o gyfeiriadaeth at gerddoriaeth Saesneg ym mhob nofel, a rhai yn cyfeirio at ffilmiau, llenyddiaeth, dyfyniadau gan athronwyr a *stand up* Saesneg yn ogystal. Os oes dyfyniadau yn cael eu cynnwys yn y nofelau, mae'r rhain wedi eu cyfrif fel cyfnewid cod a'u cynnwys yn y corpws. Fodd bynnag, os enwir rhywbeth, boed yn berson, yn nofel neu'n enw albwm cerddorol, ystyrir hyn yn enw priod, ac felly nid yw'n cael ei gyfrif fel cyfnewid cod, fel yr eglurwyd (t.66). Ond er nad yw'n gyfnewid cod fel y cyfryw, mae'n rhagdybio bod y darlennydd yn ddigon cyfarwydd â'r diwylliant Saesneg ei iaith i adnabod cyfeiriadau o'r fath. Mae hyn yn dangos bod yr awduron yn disgwyl i'w cynulleidfa fod yn ymwybodol o ddiwylliant Saesneg ei iaith, er mae'n rhaid cofio ei fod yn ddiwylliant cyfarwydd dros y byd i gyd, nid yn unig i'r rhai sy'n siarad Saesneg yn rhugl. Ond os yw'r awdur yn penderfynu cynnwys nifer o ddyfyniadau, mae angen i'r darlennydd ddeall eu harwyddocâd. Nodir bod DN yn dueddol o *drafod* llenyddiaeth yn ogystal â'i ddyfynnu, er enghraifft Milo a Neil yn trafod *Hamlet* (DN 176-8).

Dadleua Angharad Price fod awduron yn cynnwys cyfeiriadaeth at ddiwylliant Saesneg ei iaith oherwydd ei fod yn perthyn i'r 'diwylliant dwyieithog y bodola'r darlennydd Cymraeg cyfoes ynddo' (2002 t.99). Cyfeiria'n benodol at y ffordd y mae Robin Llywelyn yn defnyddio chwarae ieithyddol-ddiwylliannol, sy'n galw i gof y ffordd y mae Llwyd Owen yn chwarae ag iaith yn yr un modd, er enghraifft drwy ddisgrifio Luc a'i gydweithwyr fel rhai sy'n smocio fel 'Dot Cottons' (FfCCh 11). Mae'r nofelau eraill yn cyfeirio at ddiwylliant Saesneg ei iaith yn ogystal, er mai FfCCh yw'r unig nofel i integreiddio eitemau o ddiwylliant Saesneg i'r iaith mewn ffordd mor soffistigedig. Esbonia Angharad Price sut y mae hyn yn apelio at ddarllenwyr:

Drwy dynnu ar y dwyieithrwydd hwn gall Robin Llywelyn chwarae yn ddeheuig ag iaith, apelio at god ieithyddol ei gynulleidfa ragdybiedig a chynyddu realaeth ieithyddol y naratifau. Hynny yw, y darlennydd Cymraeg 'eneiniedig' ddwyieithog yn unig a fydd yn gallu gwerthfawrogi amcan y chwarae.

(Price 2002 t.99)

Gwelir, felly, sut y mae cynnwys yr elfen hon yn helpu i adeiladu ar yr elfen o realaeth gymdeithasol sydd i'w chael yn y nofelau.

Dylid nodi hefyd bod ieithoedd eraill i'w gweld yn y nofelau a ddadansoddwyd. Nid oedd yr enghreifftiau hyn yn rhan o'r codio, gan mai geiriau Saesneg yn unig yr oeddwn am eu dadansoddi. Yr oeddent, felly, y tu hwnt i'r fethodoleg; er fy mod yn cadw cofnod o'r enghreifftiau, nid oeddent yn cael eu codio. Er bod geiriau benthyg o ieithoedd eraill i'w gweld yn y nofelau (e.e. yn FfCCh ceir: 'déjà vu' (FfCCh 133); 'vice versa' (FfCCh 238); 'yng nghimono' (FfCCh 44); a 'tsumani' (FfCCh 24)), ceir enghraifft fwy diddorol o rôl ieithoedd eraill yn DN. Gwelir Awinita'n siarad Cree â'i theulu,

er nad yw'r iaith yn ymddangos yn y nofel ond yn hytrach yn cael ei gynnwys mewn ffordd feta-ieithyddol (*metalinguistic*) – hynny yw, trwy ddweud mai'r iaith Cree sy'n cael ei siarad, yn hytrach nag ysgrifennu'r ddeialog yn yr iaith Cree ei hun (ond gwneir ymdrech i adlewyrchu'r iaith honno: er enghraifft, dywed mam Awinita, 'cela fait bien des lunes', 'ton corps est fort?', 'la vie vit. Le monde suit son cours' (MM 170) ['bu sawl lleuad ers dy weld', 'a yw dy gorff yn gryf?' (h.y. a wyt ti'n iach?), 'mae bywyd yn byw. Mae'r byd yn dilyn ei lwybr']]). Ceir hefyd lawer o gyfeiriadaeth at ddawns y *capoeira*, gan ddefnyddio enwau'r symudiadau yn y Bortiwgaleg. Yn ogystal, yn y penodau cynnar sy'n adrodd hanes Neil yn Nulyn, fe gyflwynir y ddeialog yn y Ffrangeg yn hytrach nag yn y Saesneg, sef yr iaith y byddech yn disgwyl i'r cymeriadau siarad. Mae hyn yn ddewis diddorol ar ran yr awdur. Er bod darnau hir o gyfnewid cod yn y nofel, efallai y byddai rhoi'r ddeialog yn y penodau sydd wedi eu lleoli yn Iwerddon yn y Saesneg yn golygu bod gormod o Saesneg yn ymddangos yn y nofel fel cyfanwaith i apelio at y gynulleidfa darged o gofio nad oes disgwyl iddynt fod yn rhugl yn y Saesneg. Efallai mai blaenoriaeth Huston yw dangos y math o ieithwedd sydd i'w gael yn Québec, yn hytrach na dangos ieithwedd Dulyn. Mae hyn oherwydd mai Québec yw lleoliad y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'r nofel – heblaw am amser Neil yn Nulyn, a Milo yn ymweld ag Efrog Newydd a Brasil. Felly, Québec a'r cymeriadau yno yw canolbwynt y nofel, yn hytrach na Dulyn. Mae'r cymeriadau'n rhai gwahanol iawn: Neil o Ddulyn yn ymfudo i Québec; Awinita'n Indiad Brodorol sy'n byw yn Montréal; a Milo'n cael ei fagu gan deuluoedd maeth cyn i Neil ei gymryd yn ôl at ei deulu yn Québec. Gwelwn Milo'n dysgu Ffrangeg fel plentyn, Neil yn dysgu Ffrangeg fel oedolyn, ac

Awinita'n gymeriad nad yw'n medru'r Ffrangeg. Dangosir mai byd amlddiwylliannol sydd yn DN, gyda'r tri phrif gymeriad o gefndiroedd gwahanol ac yn berchen ar sgiliau ieithyddol gwahanol, er eu bod oll yn perthyn i'w gilydd.

Yn ogystal, ceir enghraifft o frawddeg Siapanaeg yn FfCCh wrth i Emlyn gyflawni defod ger corff marw Winston Conrad er mwyn casglu ei enaid.

Mae'n adrodd y geiriau canlynol: "Ore ni ata-e-rareta chikara ni yotte, oma-e no tamashii a akuma ni watasu." (FfCCh 51) – y cyfieithiad Saesneg fyddai 'with the power invested in me, your soul I give to the devil'.³⁵ Rhaid nodi na fyddai'r frawddeg hon yn ystyrion i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr, ac yn hytrach yn llafar-gân ddi-ystyr sy'n chwarae rhan mewn defod satanaidd.³⁶ Yn ogystal, 'Akuma' yw enw cwmni cynhyrchu Emlyn ble mae Luc yn gweithio, sef y gair Siapanaeg am 'devil, demon, fiend, Satan, evil spirit' (Tangorin.com 2007). Gwelir eto sut y mae Llwyd Owen yn chwarae gemau ieithyddol â'r darlennydd, gan ddangos yn glir bod cysylltiad rhwng y cwmni ac addoli satanaidd, ond dim ond os yw'r darlennydd yn deall union ystyr y gair 'akuma'. Dywed Llwyd Owen (dros e-bost, 18/03/15) iddo ddewis defnyddio'r Siapanaeg fel iaith y diafol yn y nofel oherwydd honiad San Francis Xavier yn yr unfed ganrif ar bymtheg mai iaith y diafol oedd Siapanaeg, gan fod yr iaith yn atal Cristnogaeth rhag lledaenu.

Cofier hefyd nad *un* math o iaith yn unig sy'n cael ei ddefnyddio yn y nofelau hyn. Disgrifir CD fel nofel sy'n cynnwys '[t]afodiaith, geiriau benthyg o'r

³⁵ Diolch yn fawr i Amy Raye am y cyfieithiad hwn.

³⁶ Nodir bod yr wyddor Ladin yn cael ei defnyddio, yn hytrach na'r wyddor Siapanaeg. Golyga hyn nad yw'r testun yn fud i'r darlennydd – oherwydd ei fod yn gallu darllen y llythrennau, gall wneud sain, er nad yw'n deall yr ystyr – sydd yn bwysig, gan mai llafargan sydd yma. Diolch i'r Athro Helena Bodin am dynnu fy sylw at y ffaith hon (2015).

Saesneg ac ymadroddion llafar a sathredig' (Price 2002 t.141), FfCCh yn 'cymysgu Cymraeg llenyddol, bratiaith wallus, Wenglish, *patois* Cymraeg a Saesneg' (Owen 2006 t.5), ac Alain MM yn disgrifio'i iaith ef fel a ganlyn: 'la langue que je parle est un mélange de français dit standard et de vieux français acadien qui me vient de mon origine villageoise, parsemé de bouts d'anglais' ['mae'r iaith dwi'n ei siarad yn gymysgedd o Ffrangeg a elwir yn safonol a hen Ffrangeg acadien sy'n dod o fy ngwreiddiau pentrefol, yn frith o ddarnau o'r Saesneg'] (MM 22). Gwelir bod DN hefyd yn cynnwys sawl math o iaith, gan gynnwys Saesneg a Ffrangeg safonol, cyfnewid cod, *joual* y cymeriadau Québécois a'r cyfieithiadau, yn ogystal â thafodiaith rhai o'r cymeriadau. Gwelir, felly, fod y nofelau hyn wedi eu gweu o sawl math o iaith, a dim ond un o'r amrywiaethau hyn yw'r cyfnewid cod – efallai mai un rhan fach o ddiddordeb yr awduron mewn iaith yn fwy cyffredinol ydyw.

5.2 Themâu cyffredin

5.2.1 Y Ddinas

Wrth astudio'r pedair nofel, gwelwyd bod rhai themâu yn gyffredin rhyngddynt. Gellid ystyried felly a oes cysylltiad rhwng y themâu hyn a'r cyfnewid cod. Mae'r ddinas yn thema sy'n ymddangos ym mhob un o'r nofelau, a digwyddiadau'r pedair nofel wedi eu lleoli, ar y cyfan, yn y ddinas (er i ddarnau o MM a DN ddigwydd yng nghefn gwlad Québec). Dywed Chiasson mai Moncton yw thema ganolog *Moncton Mantra*, a'r ddinas yn darparu naws ac awyrgylch arbennig y nofel, yn enwedig felly gan ei bod hi'n ddinas ddwyieithog, gan mai dangos ei chymeriad ieithyddol oedd bwriad Leblanc wrth ysgrifennu'r nofel (2012 t.10). Yn yr un modd, gellir dadlau bod Caerdydd yn thema ganolog yn FfCCh, gan i Llwyd Owen gynnwys cymaint

o gyfeiriadaeth at ddinaslun unigryw Caerdydd. Mae MM a FfCCh wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn eu dinasoedd, ac yn cyfeirio'n benodol at enwau strydoedd a lleoedd.³⁷ Er enghraifft, ar ddechrau pennod 25 FfCCh, gwelwn Luc yn edrych ar fachlud yr haul sy'n 'wefreiddiol o swreal dros y Cylchdro Hud' (FfCCh 242), cyn troi i'r dde tua'r carchar, a '[ch]ymrud detour slei i Newport Road' (FfCCh 243) i brynu rhywbeth i'w fwyta. Ar ôl hyn, cawn gyfeiriadau penodol at dŷ aelodau'r band *Fflach!*: 'Lawr Newport Road, Boulevard de Nantes, Stryd y Castell, Cathedral Road cyn cyrraedd pen fy nhaith, y Tŷ Trybini gwreiddiol' (FfCCh 245). Diddorol yw gweld bod Llwyd Owen yn cyfeirio at Ffordd Casnewydd a Heol y Gadeirlan yn y Saesneg, er ei fod yn defnyddio'r enw Cymraeg ar Stryd y Castell, a'i fod wedi dewis cynnwys yr enw Ffrangeg Boulevard de Nantes, stryd sydd wedi ei henwi ar ôl un o efeilldrefi Caerdydd. Er mai awdurdodau'r cyngor sy'n dewis enwau'r strydoedd, mae gan y trigolion ddewis ieithyddol, p'un ai i ddefnyddio'r enw Cymraeg neu'r enw Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofod dwyieithog sydd i'w gael o fewn y ddinas.

Yn yr un modd, cawn wybod cyfeiriad pob tŷ newydd y mae Alain yn symud iddo, er enghraifft 'Alexandre Cormier et Lyne Bureau quittent le 62 Beechwood Terrace pour emménager dans un autre appartement. Robert et Régine m'invitent à les remplacer' ['mae Alexandre Cormier a Lyne Bureau yn gadael 62 Beechwood Terrace i symud i fflat arall. Gofynna Robert a Régine imi gymryd eu lle'] (MM 32), ac ym mhennod 4 gwelwn Alain a Roland yn gadael bar *Kacho*: 'Nous sortons en sautant comme des enfants

³⁷ Nodir nad oedd yr enwau hyn yn rhan o'r broses codio, gan eu bod yn enwau priod. Cedwais gofnod o'r enghreifftiau, ond nid oeddent yn cael eu dadansoddi fel y cyfnewid cod.

dans la rue Dufferin pour se rendre sur la rue St. George, entre Highfield et Weldon' ['Rydym yn gadael dan neidio fel plant ar ffordd Dufferin er mwyn mynd at ffordd Sant George, rhwng Highfield a Weldon'] (MM 55). Gwelir bod y nofel wedi ei gwreiddio ym Moncton, a bod Moncton, ac *Acadie* yn gyffredinol, yn thema ganolog yn y nofel fel y dangosodd Chiasson.

Gellid dadlau bod ieithwedd arbennig y nofelau yn estyniad o'r cysylltiad cryf hwn â'r dinasoedd. Gan fod y nofelau wedi eu hangori'n gadarn yn eu dinasoedd, byddai'r defnydd o dafodiaith benodol yn ddewis arddulliol priodol gan yr awduron er mwyn cymeriadu trigolion y dinasoedd. Math arbennig o dafodiaith a welir yn y nofelau, tafodiaith sydd wedi ei chreu o ddwy iaith sy'n dod i gysylltiad â'i gilydd yn y dinasoedd arbennig hyn. Fel y dywed Chiasson, 'Leblanc a souvent affirmé que l'élément francophone constituait l'âme de Moncton, que si elle perdait cette composante, la ville n'aurait pas plus de prestance que n'importe quelle autre petite ville nord-américaine' ['Honnai Leblanc yn aml mai'r elfen francoffon oedd enaid Moncton, ond os collai hi'r elfen hon, ni fyddai gan y ddinas fwy o bresenoldeb nag unrhyw ddinas fach arall yng ngogledd America'] (2012 t.10).

Yn sicr, mae cyfnewid cod Luc Swan, y brodor o Gaerdydd, yn rhan o'r hyn sy'n gwneud FfCCh yn nofel mor drawiadol a dadleuol. Felly, efallai fod y cyfnewid cod sy'n bresennol yn y nofelau yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd debyg i'r gyfeiriadaeth at ddinaslun Caerdydd a Moncton: mae'n dangos nodwedd o'r dinaslun haniaethol yn hytrach na'r diriaethol. Yr hyn sy'n ddi-ddorol yw bod yr awdur yn defnyddio'r prif gymeriadau, Luc ac Alain, er mwyn dangos yr ieithwedd unigryw hon. Mae'n estyniad o elfen hunangofiannol y testunau: fel y dywed Llwyd Owen, y math hwn o ieithwedd

y mae ef a'i gyfoedion yn ei ddefnyddio (Owen et al. 2006 t.128), a *chiac* arbennig Moncton yw'r iaith y mae Gérald Leblanc yn mwynhau ei chymysgu â Ffrangeg safonol yn ei iaith ei hun (Chiasson 2012 t.10). Ond diddorol yw'r cysylltiad hwn rhwng yr unigolyn a'r gymdeithas, gan mai iaith y gymdeithas yn fwy eang sydd wedi effeithio ar idiolect y cymeriadau Luc ac Alain. Fodd bynnag, fel y trafodwyd eisoes, nodweddion iaith unigolyn sydd i gyfrif dros y mwyafrif o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn FfCCh a MM, tra bo DN a CD yn dangos cymdeithas ddwyieithog wrth iddynt gynnwys deialog cymeriadau uniaith Saesneg.

Efallai fod y nofelau hyn yn trin y ddinas fel rhywbeth ystrydebol: nid y wlad, cadarnle iaith a thraddodiad, a ddewisir fel lleoliad y cyfnewid cod, ond dinas fodern ac amlddiwylliannol. Disgrifia Boudreau a Robichaud Moncton fel dinas sydd wedi ei rhannu rhwng ei lleiafrif ffrancoffon a'i mwyafrif angloffon, '[qui] peut bien en effet, être considérée comme une zone frontalière, avec tout ce que cela comporte de différenciation et de métissage' ['Gellir ei chysidro, mewn gwirionedd, fel ardal ar y ffin, gyda'r oll y mae hynny'n ei gynnwys o wahaniaethu a chymysgu'] (1995 t.155). Defnyddiant gyfieithiad o eiriau Angelo Ara a Claudio Magris er mwyn esbonio beth a olygir wrth y gair 'ffin':

une ligne qui divise et qui relie, une coupure vive comme une blessure qui a du mal à se cicatriser, un *no man's land*, un territoire mixte dont les habitants ont souvent l'impression de n'appartenir vraiment à aucune patrie bien définie, ou du moins de ne pas lui appartenir avec cette certitude évidente qui fait que d'ordinaire, on s'identifie à son propre pays.

['llinell sy'n gwahanu ac yn uno, toriad byw fel anaf sy'n gwrthod gwella, tir neb, tiriogaeth gymysg ble mae gan y trigolion y teimlad nad ydynt wir yn perthyn i unrhyw famwlad bendant, neu o leiaf

nad ydynt yn perthyn iddo â'r sicrwydd amlwg hwnnw yr ydym fel arfer yn ei gysylltu â'n gwlad ein hunain']

(Ara a Magris 1991 yn: Boudreau a Robichaud 1995 t.156)

Os yw dinasoedd yn cael eu gweld fel ardaloedd ar y ffin, gallai hyn esbonio pam fod y pedair nofel hyn sydd wedi eu lleoli mewn dinasoedd yn defnyddio cyfnewid cod. Fodd bynnag, nid mewn nofelau dinesig yn unig y mae cyfnewid cod mewn llenyddiaeth yn bodoli; cofier bod y nofelau hyn wedi eu dewis yn syml oherwydd bod digon o gyfnewid cod ynddynt i gynnal trafodaeth academaidd, heb ystyried themâu ehangach. Mae rhai nofelau yn dangos cyfnewid cod mewn lleoliadau gwledig, er enghraifft: *Martha Jac a Sianco* Caryl Lewis (2004); trioleg Dewi Prysor: *Brithyll* (2006), *Madarch* (2007) a *Crawia* (2008); a *Lladd Duw* (2010) hefyd gan Prysor (er rhaid dweud bod prif gymeriadau *Lladd Duw* wedi symud yn ôl i Ogledd Cymru ar ôl blynyddoedd yn byw bywydau di-Gymraeg yn Llundain, ac mae *Brithyll*, *Madarch* a *Crawia* yn nofelau sy'n cynnwys trais, torcyfraith, rhyw a chyffuriau i'r un graddau â'r nofelau dinesig a astudiwyd ar gyfer y traethawd hwn). Ond mae nifer o awduron yn gwneud ymdrech i gadw ieithwedd eu nofelau'n Gymraeg safonol sy'n rhydd o gyfnewid cod. Un enghraifft o hyn yw'r nofel *Caersaint* gan Angharad Price (2010), nad yw'n cynnwys prin unrhyw gyfnewid cod, er i'r nofel bortreadu fersiwn dychmygol o Gaernarfon; yn sicr byddai Cofis cynhenid yn debygol o ddefnyddio cyfnewid cod.

Gwelir bod rhai nofelau, er enghraifft *O! Tyn y Gorchydd* (2002), eto gan Angharad Price, yn mynd i'r pegwn ieithyddol arall, yn cynnwys ieithwedd sy'n über-Gymraeg yn ei ffurfioldeb. Fel y dadleua Christine Jones (2006) am lenyddiaeth mewn tafodiaith, os mai tafodiaith yw'r 'norm' yn y testun gall ddieithrio'r darllenydd, yn enwedig os nad ydyw'n gyfarwydd â'r dafodiaith

honno. Gellir cymhwyso'r theori hon at lenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod. Ar y naill law, os yw'r darllenydd yn dueddol o ddefnyddio cyfnewid cod yn ei iaith ei hun, byddai nofelau sy'n defnyddio'r un math o ieithwedd yn gyfarwydd ac yn creu teimlad o agosatrwydd rhwng y darllenydd a'r testun. Ond ar y llaw arall, os yw nofel yn defnyddio Cymraeg cywir a ffurfiol iawn ac os yw'r ieithwedd hon yn anghyfarwydd i'r darllenydd, yna byddai'n debygol o gael ei ddieithrio gan hyn. Wrth gwrs, gallai'r gwrthwyneb fod yn wir os yw Cymraeg ffurfiol yn fwy cyfarwydd i'r darllenydd na chyfnewid cod: mae hyn oll yn dibynnu ar ba ieithweddau y mae'r darllenydd yn gyfarwydd â hwynt. Diau fod pennu ieithwedd yn ddewis diddorol ar ran yr awdur, a dylid cofio bod nifer o ddewisiadau ieithyddol gwahanol ar gael i awduron, yn enwedig i'r rhai sy'n ysgrifennu ar gyfer cymdeithas ddwyieithog.

Gellid dadlau mai rheswm arall paham fod y ddinas yn cael ei dewis fel lleoliad y nofelau hyn yw bod y ddinas hefyd yn dywyll yn ieithyddol. Hynny yw, gall y ddinas gael ei dirnad fel lleoliad bygythiol i'r Gymraeg oherwydd ei bod yn cael ei gweld fel rhywbeth tu hwnt i fyd y Cymry Cymraeg, gan fod 'holllt rhwng y Gymru wledig a'r Gymru ddinesig' (Sheppard 2013 t.99).

Dadleua Gwynn ap Gwilym nad yw'r ddinas yn rhan o'r byd llenyddol

Cymraeg ar dri phwynt:

1. Na wnaeth y ddinas fawr ddim cyfraniad i'r bywyd llenyddol Cymraeg.
2. Mai protest ffyrnig yn erbyn y bywyd dinesig yw holl lenyddiaeth Gymraeg ddifrifol y blynyddoedd diwethaf yma.
3. Fod yna fudiad yn awr ar droed i geisio creu llenyddiaeth Gymraeg ddinesig, artiffisial, ond na all y mudiad hwnnw ddim llwyddo.

(1979 t.260)

Er ei bod hi'n ystrydeb, y wlad yw cadarnle'r iaith, tra bo'r dinasoedd yn cael eu gweld fel lleoedd mwy Seisnig. Fodd bynnag, mae'r safbwynt hwn yn dechrau newid. Mae hyn oherwydd bod y dinasoedd yn dod yn lleoedd mwy Cymreig, fel y gwelir yn ffigyrau'r Cyfrifiad diwethaf (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2012). Gwelir rhai nofelau, drwy ganolbwyntio ar yr elfen Gymraeg, yn '[p]ortreadu dinas sydd yn dir diffaith ac sy'n methu cynnal iaith, diwylliant na dychymyg' (Sheppard 2013 t.96). Er enghraifft, dangosir nifer o Gymry'r ddinas yn snobyddlyd, fel y protestwyr iaith sy'n gwrthod siarad â Bleddyn (CD 136). Ond efallai mai dyma pam fod yr ieithwedd newydd hon, y cyfnewid cod, yn cael ei defnyddio mewn lleoliadau dinesig. Fel y dywed Daniel Williams, 'bydd angen realaethau newydd wrth inni greu ac ail-greu Cymreictod' (2005 t.25); dadleua nad cyd-ddigwyddiad yw hi, efallai, fod nofelau fel *Dyn yr Eiliad* Owen Martell (2003), sy'n defnyddio ieithwedd newydd anturus, wedi eu lleoli yn yr ardaloedd sy'n gweld adfywiad o ran y Gymraeg (y cymoedd, yn achos *Dyn yr Eiliad*). Efallai mai symptom ohonom ni fel Cymry'n ceisio ail-ddychmygu ein hunaniaeth yw'r ieithwedd newydd hon. Yn sicr, mae'r ffaith fod yr ieithwedd hon wedi ei chreu o gwbl yn profi bod y Gymraeg yng Nghymru a'r Ffrangeg yng Nghanada yn ieithoedd hyblyg a modern, sy'n esblygu i adlewyrchu bywyd eu siaradwyr. Diddorol gweld a fydd nofelau gwledig yn dechrau cynnwys mwy o gyfnewid cod, neu a fydd y defnydd o gyfnewid cod mewn llenyddiaeth Gymraeg ddinesig yn newid mewn rhyw ffordd wrth i'r ystrydeb o'r ddinas Seisnig a di-Gymraeg wanychu.

Wrth drafod ail nofel Llwyd Owen, *Fydd Gobaith Cariad* (2006), dywed Glyn Jones:

Ond cofier nad llenyddiaeth a sgrifennwyd mewn dinas, na llenyddiaeth am ddinas hyd yn oed sy'n gwneud llên yn ddinesig. Perthyn i lên ddinesig nodweddion arbennig. Oes, mae ynddi buteinio, rhegi, alcohol, cyffuriau, ond cofier mai amlwynebog yw pob dinas, a bod iddi ddiwylliant, cyfoeth, crefydd a chariad yn ogystal.

(2008 t.36)

Yn sicr, cawn olwg ar ochr dywyll y ddinas yn y nofelau a ddadansoddwyd ar gyfer y traethawd hwn, gan weld '[p]uteinio, rhegi, alcohol [a ch]yffuriau'.

Cawn Bleddyn a'i ffrindiau yn 'smocio dôp' yn CD, ac Alain a nifer o'i ffrindiau yn arbrofi â chyffuriau yn MM. Mae Alain yn rhoi diwedd ar ei berthynas â'i gariad, Gilles, ar ôl iddo ddarganfod nodwyddau yn eu hystafell. Ceir hefyd gymeriadau sy'n gaeth i heroin yn DN, er enghraifft Awinita yn ei ddefnyddio tra'n disgwyl Milo. Ceir darlun cignoeth o'i bywyd fel putain yn cyfarfod cleientiaid atgas, yn delio â phroblem alcohol ei chariad, a chaiff ei hysgogi i adael ar ôl geni Milo. Gwelodd ochr beryglus ei swydd ar ôl i un o'i chydweithwyr gael ei threisio a'i lladd cyn i'w chorff gael ei daflu mewn bin. Er bod bywyd Milo dipyn hapusach na bywyd ei fam, mae yntau yn cael ei gam-drin fel plentyn, yn mynd i'r carchar, ac yn dioddef o broblemau yn ymwneud â chyffuriau yn ei dro. Mae Milo, ar ei wely angau, wedi dal HIV ar ôl defnyddio heroin (MM 184).

Bywyd caled iawn a gaiff Luc Swan yn FfCCh hefyd. Collodd ei dad i salwch meddwl pan oedd yn blentyn ac yna caiff ei gam-drin gan gariad newydd ei fam tra'n fachgen ysgol. Ar ôl i'w fam wrthod credu cyhuddiadau Luc, mae hi'n ei ddarganfod gyda'i chariad, ac yn troi at alcohol er mwyn ymdopi â'r peth, ac mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd Luc i'w gofal. Fel oedolyn, mae'r digwyddiadau hyn yn parhau i effeithio arno, gan iddo

ddioddef o hunllefau ac ôl-fflachiau. Mae yntau (ynghyd â'i ffrind Whitey) yn arbrofi â chyffuriau. Ar ôl darganfod fod aelodau'r band *Fflach!* yn bedoffiliaid, mae'n ceisio eu lladd. Cawn hefyd weld enghreifftiau o addoli satanaidd wrth i Emlyn gasglu enaid Winston (FfCCh 51) a thad Luc yn taro bargaen gyda'r diafol am ei enaid ei hun ac enaid Luc, sy'n cyfrannu at ei wallgofrwydd (FfCCh 229).

Yn ei thrafodaeth o'r nofel MM, rhannodd Richard y cyfnewid cod yn bedwar categori gwahanol: drogues, party/musique, années 60/70 ac autre.

Esbonia:

Ces expressions font partie de l'*underground*, de l'univers "sex, drugs and rock'n'roll" de Gérald Leblanc. Cet underground est ambigu, à la fois force d'attraction et de répulsion pour le narrateur. D'un côté c'est l'interdit, l'attrait de l'Autre, mais c'est aussi le danger, la menace.

[‘Mae'r ymadroddion yn rhan o'r *underground*, y bydysawd 'sex, drugs & rock'n'roll' Gérald Leblanc. Mae'r *underground* hwn yn amwys, yn rym atyniadol ac yn ffaidd ar yr un pryd i adroddwr y stori. Ar y naill law mae'n waharddedig, atyniad yr Arall, ond mae hefyd yn berygl, yn fygythiad']

(1998 t.26)

Mae hyn hefyd yn wir am y nofelau eraill: mae'r bywyd *underground*, yr isfyd hwn y tu hwnt i'r brif ffrwd yn rhan fawr o'r pedair nofel. Gwelir o edrych ar y categorïau maes semanteg fod yr elfen hon yn cael effaith ar y cyfnewid cod yn y nofelau: mae pob nofel yn cynnwys enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'cyffuriau' (17 enghraifft CD; 21 enghraifft FfCCh; 19 enghraifft MM; 2 enghraifft DN), yn ogystal â rhegfeydd (20 enghraifft CD; 259 enghraifft FfCCh; 10 enghraifft MM; 2 enghraifft DN) (gweler t.81 am esboniad o'r categorïau, neu t.231 am dabl sy'n dangos pa rai sy'n codi ym mhob testun). Gwelir hefyd fod rhai o'r penodau yn cynnwys llawer o gyfnewid cod oherwydd dylanwad rhai cymeriadau o'r isfyd, er enghraifft y puteiniaid sy'n

siarad Saesneg ym mhennod 7 FfCCh, neu Awinita'n gweithio yn y puteindy ym mhennod 18 DN.

Er bod Glyn Jones yn awgrymu bod dwy ochr i lèn ddinesig, rhaid edrych ychydig yn fwy manwl am ochr bositif y ddinas yn y pedair nofel hyn, gan fod yr ochr dywyll mor flaenllaw. Mae bywyd yng Nghaerdydd CD yn eithaf diniwed o'i gymharu â'r nofelau eraill, ac yn fywyd cyfarwydd i nifer o bobl ifanc. Dangosir bywyd Bleddyn fel dyn ifanc yn mercheta, yn yfed yn drwm ac yn arbrofi â chyffuriau yn y nofel. Gwelwn Bleddyn yn beirniadu cymeriadau gwannach, fel Mrs Maelor Jones ddauwynebog, sy'n ymddwyn yn grefyddol a dirwestol ond yn cuddio sigarêts a photel gin wrth y gwely. Mae Bleddyn yn dychwelyd adref ar ôl cael digon ar Gaerdydd. Ond er bod FfCCh yn dangos ochr dywyllach i Gaerdydd, gwelwn fod Luc Swan yn gymeriad da mewn gwirionedd, er ei fod yn byw bywyd cymhleth a'i fod wedi colli ei enaid oherwydd camgymeriad ei dad. Mae Luc eisiau amddiffyn eraill rhag byw trwy'r un artaith o gael eu cam-drin fel yntau, ac yn canfod pwrpas i'w fywyd wrth geisio lladd *Fflach!* Ond mae daioni Luc yn cael ei gyferbynnu â drygioni cythreulig Dewina, sy'n ymgorfforiad o'r Diafol; Emlyn, sy'n gweithio iddi; paedoffilia aelodau *Fflach!*; a brawd mawr Luc sy'n gwerthu cyffuriau ac arfau i *gangsters* Caerdydd.

Cymeriad dwyochrog yw Milo yn DN, sy'n defnyddio heroin ac yn treulio cyfnod yn y carchar am ddianc o'r ysgol a churo'i ffrind oherwydd iddo gario straeon amdano. Ond gwelwn ochr garedig iddo yn ei berthynas gariadus â'i gymar Paul, a'r ffaith iddo fabwysiadu Eugénio wrth weithio ym Mrasil.

Cymeriad tebyg i Bleddyn yw Alain MM, ychydig ar goll ac yn byw bywyd cymhleth, a nifer o'i ffrindiau yn dioddef o broblemau â chyffuriau. Fodd

bynnag, yn wahanol i Bleddyn, mae'n llawn cariad tuag at ei ddinas, a hynny i'w weld yng ngolygfa olaf y nofel wrth iddo glywed lleisiau sy'n cyfrannu at dirwedd ieithyddol Moncton.

Mae'r ddeuliaeth hon yn y nofelau hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn y cymeriadau. Mae'r cymeriadau'n chwilio am eu hunaniaeth eu hunain: Luc yn edrych am ei bwrpas mewn bywyd a'i ganfod wrth ddarganfod bod *Fflach!* yn cymryd mantais o'u hedmygwyr ifainc; Bleddyn yn ceisio dechrau bywyd newydd yng Nghaerdydd, cyn dychwelyd i'r Gogledd gan ddatgan mai 'dympe oedd Caerdydd' (CD 180); Alain yn archwilio ei hunaniaeth fel awdur *Acadien* ifanc; Milo yn adrodd hanes ei deulu ar ei wely angau. Drwy eu lleoli mewn dinas dywyll, mae yna rwystrau i'w gorchfygu, sy'n rhoi cyfle i'r cymeriadau ddangos y daioni sydd ynddynt. Efallai fod yr awduron wedi penderfynu adlewyrchu'r penbleth sydd o fewn y cymeriadau drwy roi ieithwedd gymysg iddynt, a hynny'n dangos cymhlethdod eu hunaniaeth. Fel y dywed Bakhtin am y *Bildungsroman*, 'the imagine of *man in the process of becoming*' (1986 t.19),³⁸ gan bwysleisio perthynas y math hwn o nofel â realaeth. Efallai ei bod hi'n naturiol felly i'r awduron adlewyrchu personoliaeth eu cymeriadau gan ddefnyddio ieithwedd realistig y gymdeithas ddwyieithog.³⁹

O'r pedair nofel hyn, mae'n glir bod cyfnewid cod yn ffenomen sy'n fwy tebygol o gael ei chysylltu â bywyd mewn dinas, a bywyd tywyll mewn dinas yn arbennig. Dylid nodi mai cydberthynas sydd dan sylw yma, yn hytrach

³⁸ Ffont italig yn y testun gwreiddiol.

³⁹ Efallai y dylid hefyd ystyried oedran y cymeriadau; mae Luc, Bleddyn ac Alain oll yn ddynion ifanc yn eu hugeiniau, mae'n debyg, ac fe welwn Milo yn tyfu o fod yn fachgen i fod ar ei wely angau. Mae cyfnewid cod yn ieithwedd sy'n cael ei chysylltu â phobl ifanc, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yma; efallai bod perthynas rhwng eu hoedran, y newid yn eu cymeriadau a'r cyfnewid cod.

nag achosiad (*correlation* nid *causation*). Felly, er bod perthynas rhwng yr elfennau hyn, nid yw'r thema hon yn *achosi'r* cyfnewid cod.

5.3 Casgliad

Gan mai dim ond pedair nofel oedd modd eu cynnwys yn y gwaith ymchwil hwn, astudiaethau achos yn unig ydynt – ni honnir ein bod wedi dangos patrymau cyfnewid cod cyffredinol mewn llenyddiaeth Gymraeg a Ffrangeg-Canadaidd. Ond mae'r gwaith dadansoddi wedi caniatáu inni edrych ar rai tueddiadau yn y pedair nofel hyn. Er enghraifft, gwelir bod dau brif fath o gyfnewid cod, sef cyfnewid sy'n ymwneud ag idiolect yr unigolyn, a chyfnewid sy'n adlewyrchu arferion cymdeithas ddwyieithog yn gyffredinol. Gwelwyd hefyd fod y themâu'r cyfrolau yn effeithio ar y cyfnewid cod – er enghraifft, y tuedd i ddefnyddio geiriau Saesneg i drafod cyffuriau.

Gwelwyd bod angen i'r awdur, y cymeriadau, y gymdeithas a'r darlennydd fod yn ddwyieithog os am gynnwys cyfnewid cod mewn llenyddiaeth. Tuedda'r awduron i ddefnyddio prif gymeriad sy'n debyg iddynt hwy eu hunain o ran cefndir, mae'n debyg oherwydd ei bod yn anodd cyfleu profiad ieithyddol nad ydych wedi ei brofi eich hun. Ond mae'r gymdeithas yn fater arall: gellir dangos cymeriad sy'n frodor o'r gymdeithas a borthrëir yn y nofel (e.e. Luc FfCCh), neu gellir creu cymeriad sy'n fewnfudwr i'r gymdeithas honno (e.e. Bleddyn CD). Gwelwyd bod rhai dewisiadau arddulliol yn effeithio ar neu'n gysylltiedig â chyfnewid cod, er enghraifft ym mha lais yr adroddir y stori, arddull llif-yr-ymwybod, a'r ffaith nad un math o iaith yn unig a geir yn y nofel. Er enghraifft, gellir amrywio ieithwedd rhai cymeriadau a pheri iddynt fod yn fwy tafodieithol.

Trafodwyd hefyd bod defnyddio cyfnewid cod yn fath o ieithwedd sy'n perthyn i iaith lafar bob dydd nifer o siaradwyr; gallai hyn apelio at ddarpar ddarllenwyr, er ei fod yn dibynnu i ryw raddau ar ba mor gyfarwydd ydynt â'r math hwn o ieithwedd. Gwelwyd bod thema gyffredin i'r pedair nofel a ddadansoddwyd sef y ddinas ac isfyd tywyll sy'n llawn puteinio, cyffuriau a thrais. Yn ogystal, dadleuwyd bod y prif gymeriadau'n rhai cymhleth, sydd wedi eu dal rhwng elfennau da a drwg eu personoliaethau, a bod y nofelau felly'n perthyn i genre'r *Bildungsroman*. Awgrymwyd efallai fod cysylltiad rhwng yr elfennau hyn a chyfnewid cod. Wrth fynd ymlaen i ddadansoddi rhagor o destunau gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, gwelir i ba raddau y gellir atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn a darganfod patrymau pellach o gyfnewid cod. Un peth a ddaeth yn amlwg iawn yn ystod yr ymchwil hwn: proses gymhleth ac amrywiol iawn yw cyfnewid cod, a bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol er mwyn adeiladu ar yr astudiaethau achos a drafodwyd yma.

Diwedd glo

Yn y traethawd hwn, fe osodwyd sylfeini cadarn ar gyfer ymchwil pellach gan bontio dwy ddisgyblaeth a thorri tir newydd ac arbrofol wrth gyfuno elfennau meintiol ieithyddiaeth ac elfennau o feirniadaeth lenyddol fwy traddodiadol. Prif bwrpas y traethawd oedd creu a mireinio'r fethodoleg i ddadansoddi cyfnewid cod. Dechreuwyd hefyd ar y broses o gasglu a chreu terminoleg bwrpasol yn y Gymraeg. Gwelwyd o'r canlyniadau bod dau brif fath o gyfnewid cod; y cyntaf yn portreadu'r gymdeithas ddwyieithog yn gyffredinol, a'r ail yn perthyn i idiolect arbennig y cymeriadau. Gwelwyd hefyd bod y pedair nofel hyn yn rhai dinesig sy'n cynnwys trais, torcyfraith, rhyw a chyffuriau, a'u bod yn perthyn i genre'r *Bildungsroman*.

Yn y dyfodol, gellid defnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd i ddadansoddi rhagor o nofelau, yn ogystal â genres llenyddol eraill. Diddorol fydd darganfod a oes patrymau cyfnewid cod gwahanol i'w gweld y tu hwnt i'r nofel. Gellid archwilio'r gwahaniaethau penodol sy'n bodoli rhwng genres. Er enghraifft, mae'r ddrama, yn wahanol i'r nofel, yn destun a ysgrifennir er mwyn ei berfformio. Diddorol fyddai gweld a yw'r elfen berfformiadol hon yn ysgogi defnydd gwahanol o gyfnewid cod.

Er ein bod eisoes wedi cymharu'r cyfnewid cod a ddefnyddir yn iaith y cymeriadau sy'n adrodd y stori yn y nofelau, gellid dadansoddi ieithwedd y cymeriadau yn eu deialogau yn ogystal. Gellid cymharu idiolect y cymeriadau hyn er mwyn gweld sut y mae gwahanol awduron yn mynd ati i greu ieithwedd arbennig ar gyfer eu cymeriadau. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid mireinio'r fethodoleg er mwyn dadansoddi deialog pob cymeriad.

Byddai astudiaeth hwy yn rhoi'r cyfle i gymharu'n fanylach rhwng awduron; er enghraifft cymharu awduron benywaidd a gwrywaidd er mwyn gweld a oes gwahaniaeth yn y ffordd y maent yn defnyddio cyfnewid cod yn eu gwaith, yn ogystal â chymharu canon o waith gan awdur unigol, er enghraifft sut y mae defnydd Llwyd Owen o gyfnewid cod wedi newid a datblygu yn ystod ei yrfa.

Wrth ddadansoddi rhagor o enghreifftiau, dylid cynnwys llenyddiaeth sydd wedi ei lleoli y tu hwnt i'r ddinas, yn wahanol i'r pedair nofel a ddadansoddwyd ar gyfer y traethawd hwn. Gellid edrych, er enghraifft, ar nofelau megis *Brithyll* (2006), *Madarch* (2007) a *Crawia* (2008) Dewi Prysor, sydd wedi eu lleoli yng nghefn gwlad.

Drwy edrych ar ragor o lenyddiaeth, diau y byddai rhai patrymau yn dod yn fwy eglur. Gellid edrych yn fwy craff ar ramadeg arbennig cyfnewid cod wrth gasglu rhagor o ddata. Er enghraifft, a yw enwau Saesneg yn dueddol o gael eu trin fel enwau gwrywaidd ynteu benywaidd? A yw rhegfeydd yn cael eu defnyddio fel enwau neu fel ansoddeiriau?

Wrth ddilyn y camau uchod, gellid cyfrannu at faes ysgrifennu creadigol, drwy annog mwy o awduron i arbrofi ag iaith a chyfnewid cod – ac mewn mwy o ieithoedd na Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg. Gellid cynnig patrymau a thueddiadau cyffredin iddynt, ac archwilio rhesymau awduron eraill dros ddewis defnyddio cyfnewid cod. O'r safbwynt theoretig, gellid archwilio'r cysylltiad rhwng cyfnewid cod llenyddol ac ôl-drefedigaethedd ac ôl-foderniaeth; efallai y bydd cysylltiadau â theorïau eraill i'w gweld wrth ddadansoddi mwy o lenyddiaeth. Fel y pwysleisiwyd eisoes, mae'r astudiaeth hon wedi dechrau ar y broses o ddadansoddi cyfnewid cod mewn

llynyddiaeth; ond gwelir bod potensial mawr ar gyfer ymchwil i'r dyfodol, a hynny er mwyn ymestyn a dyfnhau'r drafodaeth.

Llyfryddiaeth

Nofelau

- Huston, N. (2013) *Danse Noire*. Arles: Actes Sud
- Leblanc, G. (1997) *Moncton Mantra*. Sudsbury: Prise de Parole
- Miall, T. (1990) *Cyw Dôl*. Llandysul: Y Lolfa
- Owen, Ll. (2006) *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau*. Talybont, Ceredigion: Y Lolfa

Geiriaduron

- Geiriadur Prifysgol Cymru (1950; 2il argraffiad 2003 (ar y gweill); geiriadur.ac.uk)
- Le Grand Robert (1992; 2il argraffiad 1996)

Ffynonellau Eilaidd

- Albakry, M. a Hancock, P.H. 2008. Code switching in Ahdaf Soueif's *The Map of Love*. *Language and Literature* 17(3), tt. 221–234.
- Auer, P. 2009. Bilingual Conversation. Yn: Coupland, N. a Jaworski, A. goln. *The New Sociolinguistic Reader*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 109–123.
- Auer, P. 1999. From codeswitching via language mixing to fused lects: Toward a dynamic typology of bilingual speech. *International Journal of Bilingualism* 3(4), tt. 309–332.
- Auer, P. 1995. The pragmatics of code-switching: A sequential approach. Yn: Milroy, L. a Muysken, P. goln. *One Speaker, Two languages*. Cambridge [England]; New York: Cambridge University Press, tt. 90–135.
- Auer, P. a Schmidt, J. E. goln. 2010. *Language and Space: An International Handbook of language association: Volume 1 - Theories and Methods*. Berlin/Efrog Newydd: Walter de Gruyter
- Azuma, S. 1998. Meaning and Form in Code-switching. Yn: Jacobson, R. gol. *Codeswitching Worldwide*. Berlin: Mouton de Gruyter, tt. 109–123.
- Bangortalk.org.uk 2010. Bangor Talk [Arlein]. Ar gael: <http://bangortalk.org.uk/> [Gwelwyd: 2 Ionawr 2015].
- Bakhtin, M.M., Emerson, C. a Holquist, M. 1986. *Speech Genres & Other Late Essays*. Austin: University of Texas Press.

- Bakhtin, M.M. a Holquist, M. 2010. *The Dialogic Imagination: Four Essays*. University of Texas Press.
- Black, E. 2006. *Pragmatic Stylistics*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Bodin, H. 2015. "Beautiful emblems and mysterious rune stone": Greek, Cyrillic and Chinese scripts as silent ideograms within Western literature. *Inverted Runes Symposium, Prifysgol Uppsala, 05/09/15*. Uppsala: Heb ei gyhoeddi.
- Bohata, K. 2004. *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English*. Cardiff: University of Wales Press.
- Boisvert, R. 2013. Danse noire de Nancy Huston: le rythme du coeur. *Le Soleil*. Ar gael: <http://www.lapresse.ca/le-soleil/arts-et-spectacles/livres/201310/05/01-4696945-danse-noire-de-nancy-huston-le-rythme-du-coeur.php> [Gwelwyd: 18 Awst 2014].
- Boudreau, R. a Robichaud, A.-M. 1995. Frontières de langues dans une littérature marginale: L'exemple de Gérard Leblanc. *Études canadiennes* 21(39), tt. 153–163.
- Butcher, J. 1992. *Copy-editing: The Cambridge Handbook for Editors, Authors and Publishers*. 3rd arg. Cambridge: Cambridge University Press.
- Callahan, L. 2004. *Spanish/English Codeswitching in a Written Corpus*. Amsterdam ; Philadelphia : John Benjamins Publishing.
- Chiasson, H. 2012. Préface: Le Memorable Mantra de Moncton. Yn: *Moncton Mantra*. 3ydd arg. Sudsbury: Prise de Parole, tt. 8–11.
- Clyne, M.G. 1987. Constraints on code-switching: how universal are they? *Linguistics* 25, tt. 739–764.
- Coupland, N. a Jaworski, A. goln. 2009. *The New Sociolinguistic Reader*. Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Courtivron, I. De gol. 2003. *Lives in Translation: Bilingual Writers on Identity and Creativity*. New York: Palgrave Macmillan
- Deuchar, M. 2014. Documentation File for the Bangor Siarad Corpus [Arlein]. Ar gael: http://bangortalk.org.uk/docs/Siarad_doc.pdf.
- Deuchar, M. 2006. Welsh-English code-switching and the Matrix Language Frame model. *Lingua* 116(11), tt. 1986–2011.
- Di-Enw 2010. Googler - trafodaeth fforwm [Arlein]. Ar gael: <http://forum.wordreference.com/showthread.php?t=2040087>.

- Dowty, D. R., Karttunen, L., a Zwicky, A. M. goln. 1985. *Natural Language Parsing: Psychological, Computational, and Theoretical Perspectives*. Cambridge: Cambridge University Press
- Eisteddfod Genedlaethol (2014 Sir Gâr) a Hughes, J. E. goln. 2014. *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*. Llandysul, Ceredigion: Gwasg Gomer
- Eisteddfod Genedlaethol (2005: Eryri a'r Cylch) a Hughes, J. E. goln. 2005. *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*. Llandysul: Gwasg Gomer
- Emyr, L. a Griffiths, S. 2008. Trigolion Caerdydd. *Barn* (246/7), tt. 23–9.
- Evans, E. 2013. Llenyddiaeth Gymraeg yn taro'r gwaelod. *Barn* 606/7, tt. 76–7.
- Evans, Rh. 2010. 'Monopoli'r Eisteddfod Genedlaethol' *Tu Chwith* 33, tt.117-120.
- Fernihough, A. 2007. Consciousness as a stream. Yn: Shiach, M. gol. *The Cambridge Companion to The Modernist Novel*. Cambridge [England] ; New York: Cambridge University Press, tt. 65–81.
- Fresnel, H. 2012. Interview de Nancy Huston | Psychologies.com [Arlein]. Ar gael: <http://www.psychologies.com/Culture/Philosophie-et-spiritualite/Savoirs/Interviews/Nancy-Huston-Plus-les-femmes-sont-autonomes-plus-elles-deviennent-objets> [Gwelwyd: 22 Hydref 2014].
- Frey, P. 1998. Portrait : Nancy Huston: une chambre à soi sous les toits - Lire. 01/06. Ar gael: http://www.lexpress.fr/culture/livre/nancy-huston-une-chambre-a-soi-sous-les-toits_802214.html [Gwelwyd: 11 Tachwedd 2014].
- Gardner-Chloros, P. 2009. *Code switching*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Geiriadur Prifysgol Cymru 2013. Adnoddau Arlein: AIL ARGRAFFIAD O ADRAN A-B O'R GEIRIADUR [Arlein]. Ar gael: http://www.wales.ac.uk/dictionary/gpc_pdfs.htm [Gwelwyd: 11 Mawrth 2015].
- Geiriadur Prifysgol Cymru 2000. swish [Arlein]. Ar gael: <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> [Gwelwyd: 22 Mawrth 2014].
- Giles, H., Coupland, N. a Coupland, J. 1991. Accommodation theory: Communication, context, and consequence. Yn: Giles, H., Coupland, N., a Coupland, J. goln. *Contexts of Accommodation: Developments in Applied Sociolinguistics*. Cambridge [England] ; New York: Cambridge University Press, tt. 1–68.
- Giles, H., Coupland, N., a Coupland, J. goln. 1991. *Contexts of Accommodation: Developments in Applied Sociolinguistics*. Cambridge [England] ; New York: Cambridge University Press

- Grosjean, F. 2010. *Bilingual: Life and Reality*. Cambridge, Mass.; London: Harvard University Press.
- Grosjean, F. 1982. *Life with two languages: An introduction to bilingualism*. Cambridge, Mass.; London: Harvard University Press.
- Gumperz, J. 1982. *Discourse strategies*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Gwilym, G. ap 1979. Cymraeg y Pridd a'r Concrit. *Barn* 203/4, tt. 259–264.
- Humphrey, R. 1954. *Stream of consciousness in the modern novel*.
- Huston, N. 2004. *Nord perdu: suivi de Douze France*. Arles: Actes Sud.
- Huston, N. 2003. The mask and the pen. Yn: Courtivron, I. De gol. *Lives in Translation: Bilingual Writers on Identity and Creativity*. New York: Palgrave Macmillan, tt. 55–68.
- Jacobson, R. gol. 2001 *Codeswitching Worldwide: II*. Berlin: Mouton de Gruyter
- Jacobson, R. gol. 1998. *Codeswitching Worldwide*. Berlin: Mouton de Gruyter
- Jacobson, R. 1998. Conveying a broader message through bilingual discourse. Yn: Jacobson, R. gol. *Codeswitching Worldwide*. Berlin: Mouton de Gruyter, tt. 51–76.
- Jones, C. Llenyddiaeth mewn Tafodiaith. *Llenyddiaeth Mewn Theori*, 1, tt.81–99.
- Jones, G. 2008. Llwyd ein Llên mewn Dinas Amlwynebog. *Tu Chwith* 29, tt. 36–8.
- Jones, K. 1993. 'Dwisio hanner dwshin o wyau a phedwar beefburger': Rhai rhesymau dros drosi o un iaith i'r llall'. *Barn* 368, tt. 5–7.
- Jonsson, C. 2005. Code-switching in Chicano Theater: Power, Identity and Style in Three Plays by Cherríe Moraga. Prifysgol Umeå.
- Joshi, A.K. 1985. Processing of sentences with intrasentential code switching. Yn: Dowty, D. R., Karttunen, L., a Zwicky, A. M. gol. *Natural Language Parsing: Psychological, Computational, and Theoretical Perspectives*. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 190–205.
- Kellman, S. G. gol. 2003. *Switching Languages*. Lincoln: U of Nebraska Press

- Kinginger, C. 2004. Bilingualism and emotion in the autobiographical works of Nancy Huston. *Journal of Multilingual and Multicultural Development*. Ar gael: <http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/01434630408666527> [Gwelwyd: 1 Rhagfyr 2014].
- Lamarre, P. 2014. Bilingual winks and bilingual wordplay in Montreal's linguistic landscape. *Journal of the Sociology of Language* (228), tt. 131–151. Ar gael: <http://www.degruyter.com/view/j/ijsl.2014.2014.issue-228/ijsl-2014-0008/ijsl-2014-0008.xml?format=INT>.
- Lipski, J. 1982. Spanish-English language switching in speech and literature: theories and models. *Bilingual Review/La Revista Bilingüe* 9(3), tt. 191–212.
- literaturewales.org WILLIAMS, LLION (TWM MIALL) | Rhestr Awduron Cymru [Arlein]. Ar gael: <http://www.literaturewales.org/rhestr-awduron/i/129913/desc/williams-llion-twm-miall/> [Gwelwyd: 1 Medi 2014].
- Luo, D. 2013. Code Switching in Sons and Lovers. *Advances in Literary Study* 01(04), tt. 39–42. Ar gael: <http://www.scirp.org/journal/PaperInformation.aspx?PaperID=38710&#abstract> [Gwelwyd: 23 Ionawr 2014].
- Llwyd, A. 2014. Beirniadaeth Alan Llwyd. Yn: Eisteddfod Genedlaethol (2014: Sir Gâr) a Hughes, J. E. goln. *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*. Llandysul, Ceredigion: Gwasg Gomer, tt. 6–11.
- llwydownen.co.uk Bywgraffiad/Biography [Arlein]. Ar gael: <http://www.llwydownen.co.uk/bywgraffiad/> [Gwelwyd: 5 Awst 2014].
- Llywelyn, E. 2005. Llythyr at lenor Cymraeg ifanc. *Y Faner Newydd* 31, tt. 30–1.
- Llywodraeth Cymru 2013. *Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*.
- McClure, E. 2001. Oral and Written Assyrian-English codeswitching. Yn: Jacobson, R. gol. *Codeswitching Worldwide: II*. Berlin: Mouton de Gruyter, tt. 157–191.
- McClure, E. 1998. The relationship between form and function in written national language: English codeswitching: Evidence from Mexico, Spain, and Bilgaria. Yn: Jacobson, R. gol. *Codeswitching Worldwide*. Berlin: Mouton de Gruyter, tt. 125–150.
- Milroy, L. a Muysken, P. goln. 1995. *One Speaker, Two languages*. Cambridge [England] ; New York: Cambridge University Press
- Milroy, L. a Muysken, P. 1995. Introduction: Code-switching and Bilingualism Research. Yn: Milroy, L. a Muysken, P. goln. *One Speaker, Two languages*. Cambridge, England and New York: Cambridge University Press, tt. 1–14.

Montes-Alcalá, C. 2013. Code-switching in US-Latino literature. *Code-Switching in Literature Conference, Prifysgol Birkbeck 05/07/13*. Llundain: Heb ei gyhoeddi.

Montes-Alcalá, C. 2012. Code-switching in US-Latino Novels. Yn: Sebba, M., Mahootian, S., a Jonsson, C. goln. *Language Mixing and Code-switching in writing: Approaches to Mixed-Language Written Discourse*. Efrog Newydd: Routledge, tt. 68–88.

Montes-Alcalá, C. 2007. Blogging in Two Languages: Code-Switching in Bilingual Blogs [Arlein]. Ar gael: <http://www.lingref.com/cpp/wss/3/paper1537.pdf>.

Montes-Alcalá, C. 2001. Written codeswitching: Powerful bilingual images. Yn: Jacobson, R. gol. *Codeswitching Worldwide: II*. Berlin: Mouton de Gruyter, tt. 193–219.

Mougeon, R. a Bénéak, E. goln. 1989. *Le français parlé hors Québec*. Québec: Presses de l'Université Laval

Moyna, M.I. 2008. Portrayals of Spanish in 19th-century American prose: María Amparo Ruiz de Burton's *The Squatter and the Don*. *Language and Literature* 17(3), tt. 235–252.

Myers-Scotton, C. 2009. Code-switching. Yn: Coupland, N. a Jaworski, A. goln. *The New Sociolinguistic Reader*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 473–489.

Myers-Scotton, C. 1993. *Duelling Languages: Grammatical Structure in Codeswitching*. Oxford: Oxford University Press.

OED Online 2014. 'epigraph, n.' [Arlein]. Ar gael: <http://www.oed.com/view/Entry/63381?rskey=MGDMxf&result=1#eid> [Gwelwyd: 9 Ionawr 2015].

Owen, Ll. 2006. Tu hwnt i'r heip a'r hysteria. *A470 Hydref*(40), t. 5.

Owen, Ll., Gruffudd, L. a Jones, A. 2006. Ffawd, Cywilydd a Chenfigen. *Taliesin Gwanwyn*(127), tt. 128–34.

Pfaff, C.W. 1979. Constraints on Language Mixing: Intrasentential code-switching and borrowing in Spanish/English. *Language* 55(2), tt. 291–318.

Poplack, S. 1980. Sometimes I'll start a sentence in Spanish Y TERMINO EN ESPAÑOL: toward a typology of code-switching. *Linguistics* 18(7-8), tt. 581–618.

Poplack, S. a Levey, S. 2010. Contact induced grammatical change. Yn: Auer, P. a Schmidt, J. E. goln. *Language and Space: An International*

Handbook of language association: Volume 1 - Theories and Methods. Berlin/Efrog Newydd: Walter de Gruyter, tt. 391–419.

Poplack, S. a Sankoff, D. 1984. Borrowing: the synchrony of integration. *Linguistics* 22(1), tt. 99–135.

Price, A. 2002. *Rhwng Du a Gwyn: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Pritchard, E. a Mair, B. 2011. 'Ymateb i erthygl 'Monopoli'r Eisteddfod' cyfrol 33 [Arlein]. Ar gael: <http://tuchwith.com/2011/04/ymateb-i-erthygl-monopolir-eisteddfod-cyfrol-33/> [Gwelwyd 27 Mai 2015].

Pritchard, E., Mair, B. a Davies, C.P. 2005. Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen. Yn: Eisteddfod Genedlaethol (2005: Eryri a'r Cylch) a Hughes, J. E. goln. *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau.* Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 92–100.

Pryor, D. 2006. *Brithyll.* Llandysul: Y Lolfa.

Richard, C.G. 1998. La problématique de la langue dans la forme et le contenu de deux romans plurilingues acadiens : Bloupe de Jean Babineau et Moncton Mantra de Gérald Leblanc. *Studies in Canadian Literature / Études en littérature canadienne* 23(2), tt. 19–35. Ar gael: <http://journals.hil.unb.ca/index.php/SCL/article/view/12859/13902> [Gwelwyd: 13 Ionawr 2015].

Ritter, R.M. gol. 2002. *The Oxford Guide to Style.* Oxford: Greg Conner.

Romaine, S. 1989. *Bilingualism.* Oxford: Basil Blackwell.

Rhys, O. 2006. Colli Nerth yr Ergyd? *Taliesin* 128, tt. 152–154.

Sankoff, D. a Poplack, S. 1985. LE TRAJET LINGUISTIQUE ET SOCIAL DES EMPRUNTS. *Revue Québécois de Linguistique* 14(1), tt. 142–186. Ar gael: <http://www.sociolinguistics.uottawa.ca/shanapoplack/francais/pubs/articles/PoplackSankoff1985.pdf> [Gwelwyd: 24 Ebrill 2014].

Sankoff, D., Poplack, S. a Vanniarajan, S. 1990. The case of the nonce loan in Tamil. *Language Variation and Change* 2(01), tt. 71–101.

Sante, L. 2003. Dummy. Yn: Kellman, S. G. gol. *Switching Languages.* Lincoln: U of Nebraska Press, tt. 141–161.

Scotton, C.M. 1983. The negotiation of identities in conversation: A theory of markedness and code choice. *International journal of the sociology of language* 44, tt. 115–136.

Sebba, M., Mahootian, S., a Jonsson, C. goln. 2012 *Language Mixing and Code-switching in writing: Approaches to Mixed-Language Written Discourse*. Efrog Newydd: Routledge

Sheppard, L. 2013. Cymreictod y Concrit: Caerdydd a'r Hunaniaeth Gymraeg yn y Nofel Ddinesig, 1978-2008. *Llên Cymru* 36, tt. 91–118.

Sheppard, L. 2012. Cyfweliad: Llwyd Owen. *Tu Chwith* 36, tt. 150–163.

Shiach, M. gol. 2007. *The Cambridge Companion to The Modernist Novel*. Cambridge [England]; New York: Cambridge University Press

Statistics Canada 2014. Linguistic Characteristics of Canadians [Arlein]. Ar gael: <http://www12.statcan.gc.ca/census-recensement/2011/as-sa/98-314-x/98-314-x2011001-eng.cfm> [Gwelwyd: 25 Tachwedd 2014].

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2012. Cyfrifiad 2011: Ystadegau Allweddol ar gyfer Cymru, Mawrth 2011 [Arlein]. Ar gael: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_291480.pdf [Gwelwyd 15 Mai 2015].

Tangorin.com 2007. akuma [Arlein]. Ar gael: <http://tangorin.com/general/akuma> [Gwelwyd: 18 Mawrth 2015].

Vasatka, M. 2013. Patterns of Spanish-English Code-Switching in Children's Literature in the US: The Use of Espanol in Books Para Ninos. Minnesota State University, Mankato.

Williams, D. 2005. Realiaeth a hunaniaeth: o T. Rowland Hughes i Owen Martell. *Taliesin* 125, tt. 12–25.

Atodiad 1

Tablau a Graffiau o'r Pedair Nofel (atgynhyrchiadau o gorff y traethawd)


Nifer

<i>Nofel</i>	<i>Cyfanswm y darnau o gyfnewid cod</i>	<i>Tudalennau</i>	<i>Cyfartaledd</i>
CD	646	180	3.59
FfCCh	1105	285	3.88
MM	176	72	2.44
DN	415	349	1.19


Cyfartaledd o Gyfnewid Cod
[Cyfuniad o dabl 15 a 26 yn y traethawd]

Cyfartaledd o Gyfnewid Cod
[Cyfuniad o dabl 15 a 26 yn y traethawd]


Penodau




Cyfnewid Cod yn ôl penodau CD [ffigur 9 yng nghorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl penodau FfCCh [ffigur 10 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl penodau MM [ffigur 24 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl penodau DN [ffigur 25 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod – Penodau a'u Hyd CD [ffigur 11 yng ngorff y traethawd]



Cyfnewid Cod – Penodau a’u Hyd FfCCh [ffigur 12 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod – Penodau a’u Hyd MM [ffigur 26 yng nghorff y traethawd]




Cyfnewid Cod – Penodau a’u Hyd DN [ffigur 27 yng ngorff y traethawd]


Adrannau o'r Testun




Cyfnewid Cod yn ôl Adran CD [ffigur 13 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Adran FfCCh [ffigur 14 yng nghorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl Adran MM [ffigur 29 yng nghorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl Adran DN [ffigur 30 yng nghorff y traethawd]


Hyd




Cyfnewid Cod yn ôl Hyd CD [ffigur 15 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Hyd FfCCh [ffigur 16 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Hyd MM [ffigur 31 yng nghorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl Hyd DN [ffigur 32 yng nghorff y traethawd]


		Adran o'r Testun				
		Naratif	Deialog	Dyfynnu	Epigraff	CYFANSWM
Hyd	Un Gair	120	72	5	0	197
		333	119	18	0	470
		38	30	3	0	71
		27	31	17	0	75
	Llai na Brawddeg	59	177	10	0	246
		235	129	23	0	387
		19	25	15	0	59
	Brawddeg	7	83	8	0	98
		0	37	0	0	37
		81	60	8	13	162
Mwy na Brawddeg	2	28	6	0	36	
	0	45	4	0	49	
	3	155	8	0	166	
CYFANSWM	9	66	4	7	86	
	0	4	5	1	10	
	1	170	22	0	193	
CYFANSWM	182	441	23	0	646	
	658	374	53	20	1105	
	59	87	29	1	176	
		35	329	51	0	415

*Cyfnwid Cod – Hyd ac Adran
[Cyfuniad o dabl 20 a 30 yng nghorff y traethawd]*


Dosbarth Gramadegol




Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol CD [fffigur 17 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol FfCCh [ffigur 18 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol MM [ffigur 35 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl Dosbarth Gramadegol DN [ffigur 36 yng nghorff y traethawd]


	Cyw Dôl			Ffawd Cywilydd a Chelwyddau			Moncton Mantra			Danse Noire		
1	Brawddeg	192	29%	Brawddeg	238	21%	Brawddeg	41	23%	Brawddeg	224	53%
2	Cymal	141	21%	Enw	233	21%	Enw	40	22%	Cymal	79	19%
3	Enw	103	15%	Ymadrodd Enwol	196	17%	Cymal	24	13%	Enw	51	12%
4	Ymadrodd Enwol	85	13%	Ansoddair	140	12%	Ymadrodd Enwol	20	11%	Pennill	17	4%
5	Ansoddair	46	7%	Cymal	66	5%	Ansoddair	13	7%	Ymadrodd Enwol	14	3%

Dosbarth Gramadegol: y 5 categori â'r nifer mwyaf o enghreifftiau
[Cyfuniad o dabl 21 a 31 yng ngorff y traethawd]


Maes Semanteg




Cyfnwidiad Cod yn ôl Maes Semanteg CD [ffigur 19 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg FfCCh [ffigur 20 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg MM [ffigur 37 yng ngorff y traethawd]




Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg DN [ffigur 38 yng ngorff y traethawd]


Ysgogiad/Swyddogaeth




Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth CD [ffigur 21 yng nghorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth FfCCh [ffigur 22 yng nghorff y traethawd]



Cyfnwid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth MM [ffigur 39 yng nghorff y traethawd]




Cyfnwid Cod yn ôl Ysgogiad/Swyddogaeth DN [ffigur 40 yng nghorff y traethawd]


		Adran o'r Testun				
		Naratif	Deialog	Dyfynnu	Epigraff	CYFANSWM
Ysgogiad/Swyddogaeth	Dyfyniad	10	353	15	0	378
		14	134	29	20	197
		2	44	26	1	73
		2	289	51	0	342
	Bwlch Geirfaol	167	82	7	0	256
		522	188	17	0	727
		54	30	2	0	86
	Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	27	12	0	0	39
		2	10	3	0	15
		58	30	4	0	92
Ebychiad	3	2	0	0	5	
	46	33	3	0	82	
	1	10	0	0	11	
Creu effaith arbennig	0	9	0	0	9	
	1	1	1	0	3	
	78	17	4	0	99	
Agosáu / Pellhau	2	1	1	0	4	
	4	19	0	0	23	
	0	1	0	0	1	
Cyfeirio	0	0	0	0	0	
	0	0	0	0	0	
	1	0	0	0	1	
Newid Cyd-sgwrsiwr	14	3	0	0	17	
	0	0	0	0	0	
	2	0	0	0	2	
Cyfnewid Enynnol	0	0	0	0	0	
	0	1	0	0	1	
	0	0	0	0	0	
CYFANSWM	0	0	0	0	0	
	1	0	1	0	2	
	0	0	0	0	0	
	0	0	0	0	0	
CYFANSWM	184	449	26	0	659	
	733	406	58	20	1217	
	62	91	29	1	183	
	35	331	51	0	417	

Cyfnewid Cod – Ysgogiad/Swyddogaeth ac Adran o'r Testun
[Cyfuniad o dabl 25 a 34 yng nghorff y traethawd]

Llais/Persbectif Naratif



Cyfnewid Cod yn ôl Persbectif y Naratif FfCCh [ffigur 23 yng ngorff y traethawd]



Cyfnewid Cod yn ôl Persbectif y Penodau DN [ffigur 41 yng ngorff y traethawd]

Atodiad 2

Tablau a Graffiau o'r Pedair Nofel (nad ydynt yng nghorff y traethawd)

Dosbarth Gramadegol: Y Pedair Nofel

	CD	FfCCh	MM	DN
Acronym	–	1	–	–
Adferf	17	36	1	5
Ansoddair	46	140	13	6
Ansoddair + adferf	–	1	–	–
Arddodiad	1	–	1	–
Berf	3	15	6	3
Berfenw	13	19	–	–
Brawddeg	192	238	41	224
Cyfarchiad	5	1	–	–
Cymal	141	66	24	79
Cysylltair	–	1	3	1
Ebychiad	14	58	10	11
Enw	104	233	40	39
Gair gwneud	–	2	–	–
Pennill	10	8	6	17
Rhagenw	–	3	1	1
Sain	–	1	–	14
Ymadrodd Adferfol	–	7	–	1
Ymadrodd Ansoddeiriol	8	24	2	–
Ymadrodd Ansoddeiriol + cysylltair	–	–	1	–
Ymadrodd Arddodiadol	1	3	1	–
Ymadrodd Berfol	6	52	6	2
Ymadrodd Enwol	85	196	20	12

Tabl 38: Cyfnewid Côd yn ôl Dosbarth Gramadegol (y pedair nofel)

Maes Semanteg: y Pedair Nofel

	CD	FfCCh	MM	DN		CD	FfCCh	MM	DN		CD	FfCCh	MM	DN
Americana	--	2	--	--	Chwarae â dywediad Saesneg	1	9	--	--	Nifer	--	3	--	--
Amser	--	2	--	--	Chwarae â geiriau	1	14	1	2	Odl	--	--	--	2
Anifail	1	--	--	--	Chwaraeon	1	6	--	--	Onomatopoeia	--	3	--	--
Annog	--	--	3	--	Daearyddiaeth	1	--	1	--	Pensaerniaeth	--	1	--	--
Bwyd	1	4	1	1	Dawnsio	--	2	--	--	Pwyslais	--	1	--	--
Byddin	--	2	--	--	Dillad	7	20	--	--	Radio	--	6	--	--
Cam-ddyfynnu				1	Diod	6	17	--	--	Rheg	20	259	10	2
Carchar	--	3	--	--	Diwylliant 70au	--	--	4	--	Rhifo	6	9	--	--
Cartref	5	10	--	--	DIY	3	--	--	--	Rhyw	8	49	--	--
Cenedl	2	2	--	7	Dyfynnu	8	10	6	2	Saesnigo term Ffrangeg	--	--	1	--
Cerddoriaeth	--	9	2	--	Dywediad Saesneg	5	27	--	--	Sain	--	--	--	14
Corff	4	9	--	--	Ebychiad	--	14	10	7	Sefydliad llywodraeth	20	--	--	--
Crefydd	1	1	--	--	Emosiwn	15	15	1	--	Sgwrs	351	129	44	296
Cyfarchiad	--	3	--	--	Ffilm	--	2	--	--	Siop	--	2	--	--
Cyfeiriadaeth – athroniaeth	--	3	--	--	Ffôn	4	--	--	--	Slang	17	68	4	2
Cyfeiriadaeth – barddoniaeth	--	--	4	16	Ffrangeigio term Saesneg	--	--	5	2	Swydd	2	--	--	--
Cyfeiriadaeth – celf	--	--	1	--	Ffug-gyfeiriadaeth	--	1	--	3	Tafodiaith	1	6	--	--
Cyfeiriadaeth – cerddoriaeth	9	14	12	1	Gair cyfansawdd Saesneg	--	4	--	--	Technoleg		9		
Cyfeiriadaeth – comedi	--	1	--		Garddio	4	--	--	--	Teledu		26		
Cyfeiriadaeth – drama	--	--	--	18	Gwaith	5	26	--	--	Term cyfreithiol	2	3	--	--
Cyfeiriadaeth – ffeminyddiaeth	--	--	1	--	Gwallt	1	--	--	--	Term hanesyddol	--	--	--	2
Cyfeiriadaeth – ffilm	--	4	--	1	Gwleidyddiaeth	2	--	--	--	Term Saesneg	59	128	28	5
Cyfeiriadaeth – gêm	--	2	--	--	Heddlu	1	1	--	--	Trafnidiaeth	2	--	--	--
Cyfeiriadaeth – llenyddiaeth	2	5	5	--	Hiwmor	3	23	--	--	Torcyfraith	--	7	--	--
Cyfeiriadaeth – teledu	--	5	--	--	Hwiangerdd Saesneg		1			Tywydd	--	1	--	2
Cyfieithu	--	--	--	4	Iechyd	13	14	--	--	Ymadrodd gosod	35	139	9	4
Cyffuriau	17	21	19	2	Llysenw	14	--	3	--	Ysbyty	2	2	1	--
Cymeriadu dysgwr	--	--	--	20	Modur	1	1	2	--	Ysgol	--	--	2	--
Cymreigio term Saesneg	9	6	--	--	Mytholeg	--	1	--	--	Ystafell	1	1	--	--
Cymreigio ymadrodd gosod	2	--	--	--										

Tabl 39: Cyfnewid Cod yn ôl Maes Semanteg (y pedair nofel)

